

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

20/11/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd](#)
[Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)
[Questions to the Counsel General](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)
[Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i Benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro](#)
[Motion under Standing Order 10.5 to Appoint an Acting Public Services Ombudsman for Wales](#)

[Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014/15](#)
[Motion to Approve the Assembly Commission's Budget 2014/15](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Tai](#)
[Welsh Conservatives Debate: Housing](#)

[Dadl Plaid Cymru: Ynni](#)
[Plaid Cymru Debate: Energy](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos \(Cymru\)](#)
[Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos \(Cymru\)](#)
[Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases \(Wales\) Bill](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Rheoleiddio Gorfodol gan y Wladwriaeth ar gyfer y Diwydiant Trin Gwallt yng Nghymru: Pryder Iechyd Cyhoeddus Ehangach](#)
[Short Debate: Mandatory State Regulation of the Hairdressing Industry in Wales: A Wider Public Health Concern](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Questions to the Minister for Health and Social Services

Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

Hywel Dda Local Health Board

13:30 **Simon Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

1. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am newidiadau arfaethedig ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda?
OAQ(4)0358(HSS)

1. Will the Minister make a statement on proposed changes in the Hywel Dda Health Board?
OAQ(4)0358(HSS)

13:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Yr unig ddewis yw newid gwasanaeth iechyd Cymru ac nid yw Hywel Dda yn eithriad. Amlinellais fy ymateb i'r newidiadau arfaethedig a gyfeiriwyd ataf gan Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda ar 24 Medi. Cyn belled â bod y gwaith angenrheidiol yn cael ei gwblhau, byddaf yn gwneud datganiad llafar pellach i'r Cynulliad hwn ar 21 Ionawr.

There is no choice but change in the Welsh national health service and Hywel Dda is no exception. I set out my response to proposed changes referred to me by Hywel Dda Community Health Council on 24 September. Provided the necessary work is completed, I intend to make a further oral statement to this Assembly on 21 January.

13:30

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydym yn edrych ymlaen at y penderfyniadau pellach. Fodd bynnag, gwnaethpwyd nifer o benderfyniadau anffodus yn ddiweddar yn ardal Hywel Dda: rydych chi o dan adolygiad barwnol oherwydd penderfyniad y bwrdd iechyd blaenorol o ran gwasanaethau brys yn Llanelli; mae gwamalu a dryswch i gleifion oherwydd gohirio triniaeth orthopedig yn Llanelli; mae 13 gwely wedi eu cau yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn ddiweddar; nid oes gwasanaeth iechyd meddwl yn lle ward Afallon; nid oes sicrwydd o ran beth fydd yn digwydd yn sgîl cau uned mân anafiadau Dinbych y Pysgod; a bydd toriadau pellach i wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Gan dderbyn bod angen newid, a ydych wir yn credu bod gan fwrdd iechyd Hywel Dda afael cadarn ar ddyfodol ei wasanaethau a her y gaeaf?

We look forward to the further decisions. However, a number of unfortunate decisions have been taken recently in the Hywel Dda area: you are under judicial review because of the decision of the previous health board on emergency services in Llanelli; there is delay and confusion for patients because of the postponement of orthopaedic treatment in Llanelli; recently, 13 beds have been closed in Bronglais General Hospital; there is no mental health service to replace the Afallon ward; there is no certainty as to what will happen as a result of the closure of the minor injuries unit in Tenby; and further cuts are being made to maternity services in Withybush General Hospital. Accepting that change is necessary, do you truly believe that Hywel Dda health board has a firm grasp of the future of its services and the challenges of the winter?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member has set out a series of changes that have been brought about in services at Hywel Dda, or are planned to be brought about very shortly. His list demonstrates the real challenges that any health board faces in trying to bring about changes to services in its area and the struggle that still goes on to convince local populations of the need to make those changes. The changes that have been referred to me are being progressed in the way in which he knows and, where there are further decisions on my desk, they will be taken. In the meantime, I believe that the health board has plans that it needs to bring to maturity and will need to go on working with its local population to see that those plans are best explained and can then be put into practice.

Mae'r Aelod wedi nodi cyfres o newidiadau a wnaed mewn gwasanaethau yn Hywel Dda, neu y bwriedir eu gwneud yn fuan iawn. Dengys ei restr yr heriau gwirioneddol y byddai unrhyw fwrdd iechyd yn eu hwynebu wrth geisio sicrhau newidiadau i wasanaethau yn ei ardal a'r frwydr barhaus i argyhoeddi poblogaethau lleol o'r angen i wneud y newidiadau hynny. Eir i'r afael â'r newidiadau y cyfeiriwyd hwy ataf yn y modd sy'n hysbys iddo, lle mae gennyf ragor o benderfyniadau i'w gwneud, byddaf yn eu gwneud. Yn y cyfamser, credaf fod gan y bwrdd iechyd gynlluniau y mae angen eu cyflawni a bydd angen iddo barhau i weithio gyda'i boblogaeth leol i sicrhau bod y cynlluniau hynny'n cael eu hegluro yn y ffordd orau bosibl ac y gellir wedyn eu rhoi ar waith.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:33

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Currently, for many patients living in the Hywel Dda area, Morriston is the hospital of choice. What is the expected effect on Morriston Hospital of the proposed changes at Hywel Dda?

Ar hyn o bryd, i lawer o gleifion sy'n byo ddewis. Beth yw effaith ddisgwyliedig y newidiadau arfaethedig yn Hywel Dda ar Ysbyty Treforys?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:33

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member for Swansea East is right that Morriston does play a part in both the changes that were referred to me by the Hywel Dda Community Health Council. There are patients who have been using emergency services at Llanelli until now who have then been transferred onwards to Morriston. That will continue to be the case in the new dispensation, but it is not expected that those numbers will rise beyond where they have been in recent years. As far as neonatal services are concerned, it is the case now and will be the case in future that level 3 neonatal services for the Hywel Dda population are obtained at Morriston. Therefore, the Member is right to say that there is an impact on Morriston as a result of the Hywel Dda changes, but it is not a set of changes that we expect to alter in the immediate future.

Mae'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe yn iawn bod Treforys yn chwarae rhan yn y ddau newid y cyfeiriwyd hwy ataf gan Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda. Mae cleifion sydd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau brys yn Llanelli hyd yn hyn sydd wedyn wedi cael eu trosglwyddo i Dreforys. Bydd hynny'n parhau i ddigwydd fel rhan o'r drefn newydd, ond ni ddisgwylir i'r niferoedd hynny gynyddu y tu hwnt i'r hyn a welwyd dros y blyneddau diwethaf. O ran gwasanaethau newyddenedigol, ar hyn o bryd caiff gwasanaethau newyddenedigol lefel 3 ar gyfer poblogaeth Hywel Dda eu darparu yn Nhreforys, a bydd hynny'n parhau ar gyfer y dyfodol. Felly, mae'r Aelod yn iawn i ddweud bod newidiadau Hywel Dda yn effeithio ar Dreforys, ond nid yw'n gyfres o newidiadau y disgwyliwn iddi newid yn y dyfodol agos.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:34

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I have been approached by a number of very concerned constituents over the fact that they have been told that, from 1 April next year, all babies who would have been born in Withybush will now have to be born in Carmarthen. I understand that this may not be entirely accurate, but I have here, for example, an e-mail from a doctor and a mother of young children who is saying that the staff at Withybush have been told this and they are telling the general population. I ask you, Minister, to liaise with the health board to ensure that a very clear and unambiguous statement is made as publicly as possible to reassure people that babies will still be born at Withybush.

Weinidog, mae nifer o etholwyr pryderus iawn wedi cysylltu â mi ynghylch y ffaith eu bod wedi'u hysbysu, o 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, y bydd yn rhaid i bob baban, a fyddai wedi cael ei eni yn Llwynhelyg, gael ei eni yng Nghaerfyrddin o hyn allan. Deallaf nad yw hyn o bosibl yn gwbl gywir, ond mae gennyf yma, er enghraifft, neges e-bost gan feddyg sy'n fam i blant ifanc sy'n dweud bod y staff yn Llwynhelyg wedi cael eu hysbysu am hyn a'u bod yn dweud wrth y boblogaeth gyffredinol. Gofynnaf i chi, Weinidog, gysylltu â'r bwrdd iechyd i sicrhau bod datganiad clir a diamwys iawn yn cael ei wneud mor gyhoeddus â phosibl er mwyn rhoi sicrwydd i bobl y bydd babanod yn dal i gael eu geni yn Llwynhelyg.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Angela Burns for that question. Part of the work that I have required Hywel Dda health board to undertake is to make sure that it is able to align its maternity services with the neonatal changes that were endorsed by the panel, and the panel asked that that work should be done. I am expecting that work to be carried out. I will take up with the health board the specific point that she has raised, to ensure that there is clear and unambiguous communication from the health board itself with that local population.

Diolchaf i Angela Burns am y cwestiwn hwnnw. Rhan o'r gwaith yr wyf wedi gofyn i fwrdd iechyd Hywel Dda ei wneud yw sicrhau y gall alinio ei wasanaethau mamolaeth â'r newidiadau i wasanaethau newyddenedigol a gymeradwywyd gan y panel, a gofynnodd y panel i'r gwaith hwnnw gael ei wneud. Disgwyliaf i'r gwaith hwnnw gael ei wneud. Codaf y pwynt penodol a wnaed ganddi gyda'r bwrdd iechyd, er mwyn sicrhau bod cyfathrebu clir a diamwys rhwng y bwrdd iechyd ei hun a'r boblogaeth leol honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one issue that has been raised frequently with me is the delays that sometimes apply in terms of appointing staff in the Hywel Dda health board area. Just last week, I was made aware of an example where a round of interviews were carried out for nursing staff for a new ward at Bronglais hospital back in May, and the appointments have still not been made. Would you agree that such delays are counter-productive and unhelpful, and, furthermore, that they make it more difficult to manage the process of change that you have stated is necessary?

Weinidog, un mater a godwyd gyda mi'n aml yw'r oedi a welir weithiau wrth benodi staff yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda. Dim ond yr wythnos ddiwethaf, cefais wybod am enghraifft lle y cynhaliwyd cylch o gyfweiliadau i staff nyrsio ar gyfer ward newydd yn Ysbyty Bronglais yn ôl ym mis Mai, ac nid yw'r penodiadau wedi'u gwneud o hyd. A fydech yn cytuno bod oedi o'r fath yn wrthgynhyrchiol ac yn dda i ddim, ac, ar ben hynny, eu bod yn ei gwneud hi'n anos rheoli'r broses newid angenrheidiol a nodwyd gennyf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am concerned at the length of time that it takes to appoint staff in some parts of the Welsh NHS. I have worked with the NHS shared services partnership over the summer, and it has been able to reduce the length of time that it takes, across Wales, between a post being advertised and someone actually taking up work. Indeed, it has been able to reduce it quite significantly. I say to all health boards that it is a false economy to manage the pressures—which I know they are under, financially—by not putting full-time people into posts, because they end up paying more expensively for others to cover the work that still remains to be done. I urge Hywel Dda, and other health boards, that, where they have appointments that they are able to make—and we are not struggling to make appointments in the Welsh NHS—they should do so expeditiously.

Pryderaf ynghylch yr amser a gymerir i benodi staff mewn rhai rhannau o GIG Cymru. Rwyf wedi gweithio gyda phartneriaeth gwasanaethau a rennir y GIG dros yr haf, ac mae wedi llwyddo i leihau'r bwlch amser, ledled Cymru, rhwng hysbysebu swydd a rhywun yn dechrau yn y swydd honno. Yn wir, mae wedi llwyddo i leihau'r amser hwnnw'n sylweddol. Dywedaf wrth bob bwrdd iechyd nad yw'n ddarbodus i reoli'r pwysau—y gwn eu bod yn eu hwynebu'n ariannol—drwy osgoi penodi pobl llawn amser i swyddi, oherwydd maent yn gorfod talu mwy yn y pen draw i eraill wneud gwaith y mae angen ei wneud o hyd. Anogaf Hywel Dda, a byrddau iechyd eraill, lle mae modd iddynt wneud penodiadau—ac nid ydym yn cael trafferth i wneud penodiadau yn GIG Cymru—i wneud hynny'n ddi-oed.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hyrwyddo Rhoi Organau

The Promotion of Organ Donation

- 13:37 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo rhoi organau mewn ysgolion? OAQ(4)0362(HSS)
2. Will the Minister make a statement regarding what steps the Welsh Government is taking to promote organ donation within schools? OAQ(4)0362(HSS)
- 13:37 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
I thank Russell George for that question. Education in schools about all types of donation—organs, blood, bone marrow and tissues—is integral to encouraging the donors of the future. Tailored and bilingual information for use in the classroom is already available, and will continue to be developed further.
Diolch i Russell George am y cwestiwn pwysig hwnnw. Mae addysg mewn ysgolion ar bob math o roi—organau, gwaed, mēr esgyrn a meinweoedd—yn rhan annatod o'r gwaith o annog pobl i roi yn y dyfodol. Mae gwybodaeth ddwyieithog ac wedi'i theilwra i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth eisoes ar gael, a bydd yn parhau i gael ei datblygu ymhellach.
- 13:37 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Thank you for your answer, Minister. I am exploring this issue further with my colleague, Glyn Davies. I was pleased to talk with students and pupils of Ysgol Bro Ddyfi in Machynlleth over lunch today. They were telling me that they had received very little information regarding organ donation, and its promotion, in school. I understand that the NHS blood and transplant service is starting to promote organ donation in schools, and is examining what initiatives it could harness as appropriate vehicles for that promotion. Given the new legislation, what assessment have you made of the potential value of education in schools about organ donation? If you are looking for a potential pilot scheme in a school, we would certainly very much welcome that in Powys—perhaps, even, in Ysgol Bro Ddyfi.
Diolch am eich ateb, Weinidog. Rwy'n ystyried y mater hwn ymhellach gyda'm cyd-Aelod, Glyn Davies. Roedd yn bleser gennyf siarad â myfyrwyr a disgyblion Ysgol Bro Ddyfi ym Machynlleth dros ginio heddiw. Dywedasant wrthyf mai ychydig iawn o wybodaeth yr oeddent wedi'i chael ar roi organau, a'r gwaith o'i hyrwyddo, yn yr ysgol. Deallaf fod gwasanaeth gwaed a thrawsblaniadau'r GIG yn dechrau hyrwyddo'r broses o roi organau mewn ysgolion, ac yn ystyried pa fentrau y gallai eu cynnal i'w hyrwyddo. O ystyried y ddeddfwriaeth newydd, sut rydych wedi asesu gwerth posibl addysg mewn ysgolion am roi organau? Os ydych yn chwilio am gynllun peilot posibl mewn ysgol, byddem yn sicr yn croesawu hynny'n fawr iawn ym Mhowys—efallai, hyd yn oed, yn Ysgol Bro Ddyfi.
- 13:38 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
I thank the Member for that suggestion, and for the continuing interest that he takes in the whole field of organ donation. Members will know that there is a two-year programme of information and education, leading up to the implementation of the Human Transplantation (Wales) Act 2013 on 1 December 2015. There is a specific strand in that to do with education in schools. We debated it here, during the passage of the Bill, in an amendment that was tabled by Angela Burns, and we are actively pursuing those possibilities. There is to be a meeting on 5 December between my officials and personal and social education co-ordinators in schools across Wales. However—and as Russell George mentioned—the NHS blood and transplant service has recently published its strategy document, 'Taking Organ Transplantation to 2020'. Next week, I will launch the Wales action plan, which is part of that strategy. That action plan includes specific actions to improve the way in which we provide education in schools for young people, who, we hope, will be the donors of the future.
Diolch i'r Aelod am yr awgrym hwnnw, ac am ei ddiddordeb parhaus ym maes rhoi organau. Bydd yr Aelodau'n gwybod bod rhaglen gwybodaeth ac addysg ddwy flynedd ar waith, a fydd yn arwain at weithredu Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 ar 1 Rhagfyr 2015. Mae'r ddeddf honno'n cynnwys elfen benodol sy'n ymwneud ag addysg mewn ysgolion. Trafodwyd yma, yn ystod y broses o basio'r Bil, welliant a gyflwynwyd gan Angela Burns, ac rydym yn ystyried y posibilïadau hynny'n weithredol. Cynhelir cyfarfod ar 5 Rhagfyr rhwng fy swyddogion a chyd-gysylltwyr addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion ledled Cymru. Fodd bynnag—ac fel y crybwyllodd Russell George—cyhoeddodd gwasanaeth gwaed a thrawsblaniadau'r GIG ei ddogfen strategaeth yn ddiweddar, sef 'Taking Organ Transplantation to 2020'. Yr wythnos nesaf, byddaf yn lansio cynllun gweithredu Cymru, sy'n rhan o'r strategaeth honno. Mae'r cynllun gweithredu hwnnw'n cynnwys camau penodol i wella'r ffordd rydym yn darparu addysg mewn ysgolion i bobl ifanc, sef, gobeithio, rhoddwyr y dyfodol.
- 13:39 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Minister, I support promoting organ donation in schools, as you would guess. However, I wondered whether you had any idea about what age of pupil we should aim at, and who would be the appropriate person to deliver these lectures? Would it be teaching staff, or maybe—as I would prefer—medical experts, who could answer the questions more robustly?
Weinidog, cefnogaf y gwaith o hyrwyddo rhoi organau mewn ysgolion, fel y byddech yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, tybed a oes gennyh unrhyw syniad at ba oedran y dylem anelu'r gwaith hwnnw, a phwy fyddai'r unigolion priodol i ddarparu'r darlithoedd hyn? Ai staff addysgu fyddai'r bobl hynny, neu efallai—fel y byddwn i'r ei ffafrio—arbenigwyr meddygol, a allai ateb y cwestiynau'n fwy cadarn?

13:39

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that we need to introduce children to the broad ideas of organ donation from a relatively young age, and part of the information that you can find on websites used by schools in Wales does that in a very simple and introductory way. We will want to have a special effort to communicate with children aged between 15 and 17 as they move towards the point at which they will be able to become donors under our new legislation. I think that the Member makes a good point that you need a combination of both. You need teachers who are known to and trusted by pupils to explain some quite complex and sometimes contentious material, but what teachers can do is very much reinforced if there are specialist nurses or clinicians who work directly in the field who are able to come to explain to them both what donation involves and the benefits for those people who are waiting for donation that can be derived from those acts of generosity.

Credaf fod angen inni gyflwyno plant i'r syniad cyffredinol o roi organau o oedran cymharol ifanc, ac mae rhan o'r wybodaeth y gallwch ddod o hyd iddi ar wefannau a ddefnyddir gan ysgolion yng Nghymru yn gwneud hynny mewn ffordd syml a rhagarweiniol iawn. Byddwn yn awyddus i weld ymdrech arbennig i gyfathrebu â phlant rhwng 15 a 17 oed wrth iddynt agosáu at yr adeg pan fyddant yn gallu dod yn rhoddwyr o dan ein deddfwriaeth newydd. Credaf fod yr Aelod yn gwneud pwynt da bod angen cyfuniad o'r ddau beth arnoch. Mae angen athrawon y mae'r disgyblion yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt i egluro rhywfaint o ddeunydd eithaf cymhleth ac weithiau ddadleuol, ond gellir atgyfnerthu'r hyn y gall athrawon ei wneud yn fawr iawn os yw nyrsys neu glinigwyr arbenigol sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y maes yn gallu dod i egluro'r hyn y mae rhoi yn ei olygu a'r manteision y gall y gweithredoedd hynny o haelioni eu cynnig i bobl sy'n aros am rodd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ysbyty Tywysoges Cymru

Princess of Wales Hospital

13:41

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safonau gofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru? OAQ(4)0353(HSS)

3. Will the Minister make a statement on care standards at the Princess of Wales Hospital? OAQ(4)0353(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I decided recently that there was a need for an independent review of standards of care at the Princess of Wales Hospital in order to assess that care from an external viewpoint. The terms of reference for that review have now been concluded and were published for Members earlier today.

Penderfynais yn ddiweddar fod angen cynnal adolygiad annibynnol o safonau gofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru er mwyn asesu'r gofal a ddarperir o safbwynt allanol. Mae cylch gorchwyl yr adolygiad hwnnw bellach wedi'i gwblhau ac fe'i gyhoeddwyd i Aelodau yn gynharach heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for sending those terms of reference to us as Assembly Members. Minister, in the annex to the announcement that you made on the independent review, you say that it will provide an independent assessment of the current strategies and provision related to the care of older people. Can you clarify whether this means that you will also be looking at what has happened in the past, as I have mentioned in previous questions to you, so that the care of Lilian Williams can be taken into consideration within this independent review?

Diolch ichi, Weinidog, am anfon y cylch gorchwyl hwnnw atom fel Aelodau Cynulliad. Weinidog, yn yr atodiad i'r cyhoeddiad a wnaed gennych ar yr adolygiad annibynnol, dywedwch y bydd yn darparu asesiad annibynnol o'r strategaethau a'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â gofal pobl hŷn. A allwch egluro a yw hyn yn golygu y byddwch hefyd yn ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, fel y crybwyllais mewn cwestiynau blaenorol ichi, fel bod modd ystyried gofal Lilian Williams fel rhan o'r adolygiad annibynnol hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for raising that point. A backward look is referred to in other parts of the terms of reference. What I said in my answer last time is still the position. There is nothing in the terms of reference that will prevent the professor appointed to undertake this work from reviewing previous care, including the care provided at the time that Mrs Williams was at the Princess of Wales Hospital. I am not going to direct the independent assessors in a level of detail as to what they should do. I want them to take an external view and I want them to have the full freedom to follow their inquiries wherever they think that those inquiries take them.

Diolch i'r Aelod am godi'r pwynt hwnnw. Cyfeirir at ystyriaeth ôl-weithredol mewn rhannau eraill o'r cylch gorchwyl. Mae'r hyn a ddywedais yn fy ateb y tro diwethaf yn berthnasol o hyd. Nid oes dim yn y cylch gorchwyl a fydd yn atal yr athro a benodwyd i wneud y gwaith hwn rhag adolygu gofal blaenorol, gan gynnwys y gofal a roddwyd pan oedd Mrs Williams yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Ni roddaf gyfarwyddiadau manwl i'r aseswyr annibynnol ynghylch yr hyn y dylent ei wneud. Rwyf am iddynt lunio barn allanol ac rwyf am iddynt gael y rhyddid llawn i ddilyn eu hymholiadau i ble bynnag y credant y bydd yr ymholiadau hynny'n eu harwain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gofal Sylfaenol

Primary Care

13:42

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod Byrddau Iechyd yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i'r eithaf mewn Gofal Sylfaenol?
OAQ(4)0355(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. What work is the Welsh Government doing to ensure that Health Boards are maximising the effective use of resources in Primary Care? OAQ(4)0355(HSS)

13:43

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Jenny Rathbone for the question. The Chief Medical Officer for Wales leads a series of actions to improve the effective use of resources in primary care. The sustained reduction in emergency admission and re-admission to hospital for people with chronic conditions over the past two years has been achieved with the direct and effective deployment of primary care staff and resources.

Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru yn arwain cyfres o gamau gweithredu i wella'r defnydd effeithiol o adnoddau mewn gofal sylfaenol. Llwyddwyd i sicrhau gostyngiad cyson yn nifer y cleifion â chyflyrau cronig a dderbyniwyd ac a ail-dderbyniwyd i'r ysbyty fel achosion brys dros y ddwy flynedd diwethaf drwy wneud defnydd uniongyrchol ac effeithiol o staff ac adnoddau gofal sylfaenol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is excellent. I am looking at a slightly different aspect of this, which is the elimination of ghost patients. In the national duplicate registration initiative, back in 2009-10, 95,000 ghost patients were identified and removed across England and Wales and that led to a cost saving of over £6 million. The National Audit Office points out that this is a short-term saving, but, in the long term, it will undoubtedly improve data quality so that we know what is happening. It also means that we are not paying for patients who do not exist. I wonder what we can do to get ahead of the game in Wales.

Mae hynny'n wych. Rwy'n ystyried agwedd ychydig yn wahanol ar hyn, sef dileu cleifion nad ydynt yn bodoli. Fel rhan o'r fenter cofrestru dyblyg genedlaethol, a gynhaliwyd yn 2009-10, cafodd 95,000 o gleifion nad oeddent yn bodoli eu nodi a'u dileu ledled Cymru a Lloegr gan arbed dros £6 miliwn. Noda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol mai arbediad tymor byr yw hwn, ond, yn y tymor hir, bydd yn sicr yn gwella ansawdd data er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod beth sy'n digwydd. Mae hefyd yn golygu nad ydym yn talu am gleifion nad ydynt yn bodoli. Tybed beth y gallwn ei wneud i achub y blaen yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. There is an inevitable frictional level of patients who remain on the register while they are moving, for example, from one part of Wales to another, coming off the register of one practice and being placed on the register of another. There is also the issue of people who move abroad for temporary periods and then return. I have recently been in correspondence with parts of the Welsh NHS about the 60 clinicians from Wales who are currently in Afghanistan, providing services in Helmand province, and the need for them not to be removed from GP lists during the period that they will be away, because of the likelihood that they may need rapid access to GP services on their return. Therefore, there is an irreducible minimum of people who will be in the category that Jenny Rathbone has referred to. However, she is quite right that we need to bear down on that number as much as we can. The NHS shared services partnership carries out a regular reconciliation exercise with other data sources to identify patients who may have moved away and to make sure that those patients are then removed if they are no longer actively seeking services from the place at which they were previously registered.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Yn anochel, mae lefel ffrithiannol o gleifion sy'n parhau ar y gofrestr tra eu bod yn symud, er enghraifft, o un rhan o Gymru i un arall, yn dod oddi ar gofrestr un practis ac yn cael eu rhoi ar gofrestr practis arall. Ceir hefyd bobl sy'n symud dramor am gyfnodau dros dro ac yna'n dychwelyd. Yn ddiweddar, bûm yn gohebu â rhannau o GIG Cymru ynghylch y 60 o glinigwyr o Gymru sydd ar hyn o bryd yn Affganistan, yn darparu gwasanaethau yn nhalaith Helmand, a'r angen iddynt beidio â chael eu tynnu oddi ar restrau meddygon teulu yn ystod y cyfnod y byddant i ffwrdd, oherwydd mae'n debygol y gall fod angen gwasanaethau meddyg teulu arnynt yn fuan ar ôl dychwelyd. Felly, bydd nifer ofynnol o bobl na ellir ei lleihau yn y categori y cyfeiriodd Jenny Rathbone ato. Fodd bynnag, mae'n llygad ei lle fod angen inni leihau'r nifer honno cymaint â phosibl. Mae partneriaeth gwasanaethau a rennir y GIG yn cynnal ymarfer cysoni rheolaidd gyda ffynonellau data eraill er mwyn nodi cleifion sydd wedi symud i ffwrdd o bosibl a sicrhau bod y cleifion hynny wedyn yn cael eu dileu os nad oes angen gwasanaethau arnynt gan y lleoliad lle roeddent wedi'u cofrestru'n flaenorol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:45 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will the Minister confirm the availability of the Fluenz nasal flu spray for young patients who are vulnerable and at risk? Bryngwyn surgery in Newport has informed patients who had scheduled appointments according to Welsh Government guidelines that it has cancelled all appointments, because it has run out of stock of Fluenz and is not expecting any further supplies.
- A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw chwistrell fflw trwynol Fluenz ar gael i gleifion ifanc sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg? Mae meddygfa Bryngwyn yng Nghasnewydd wedi dweud wrth gleifion a oedd wedi trefnu apwyntiadau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ei bod wedi canslo'r holl apwyntiadau, am fod ei chyflenwad o Fluenz wedi dod i ben ac nad yw'n disgwyl unrhyw gyflenwadau pellach.
- 13:45 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the question. The procurement of the new nasal spray vaccination for children has been carried out by Public Health England, acting on behalf of all four home nations. Seventy-five thousand doses of the new vaccine were secured for Wales. There have been some issues in some parts of Wales, not in relation necessarily to the total volume, but where the vaccine has been placed, because Members will be aware that this vaccination programme is happening at GP surgeries for two and three-year-olds and in schools for children in year 7. As it is the first time that this programme has ever been run, there has inevitably been some issue of judgment as to how much you put in the schools and how much you put in GP surgeries. That balance is having to be corrected in some parts of Wales. Uptake in schools, particularly, has been at the high end of original estimates, which is very good news. In order to overcome some of the very local difficulties that there are, we have placed an order for a further 4,000 doses of vaccination from Public Health England, which we think will overcome the difficulties that Mr Graham has alluded to.
- Diolch am y cwestiwn. Caffaelwyd y brechlyn newydd ar ffurf chwistrell drwynol i blant gan Public Health England, ar ran pedair gwlad y DU. Sicrhawyd 75,000 o ddsau o'r brechlyn newydd i Gymru. Cafwyd rhai problemau mewn rhai rhannau o Gymru, nid mewn perthynas â'r cyfanswm cyffredinol o reidrwydd, ond o ran lle mae'r brechlyn wedi'i ddarparu, oherwydd bydd Aelodau'n ymwybodol bod y rhaglen frechu hon yn digwydd mewn meddygfeydd i blant dwy a thair blwydd oed ac mewn ysgolion i blant ym mlwyddyn 7. Gan mai dyma'r tro cyntaf i'r rhaglen hon gael ei chynnal, mae'n anochel y bu'n rhaid gwneud penderfyniad i ryw raddau ynghylch faint i'w roi mewn ysgolion a faint i'w roi mewn meddygfeydd. Rhaid unioni'r cydbwysedd hwnnw mewn rhai rhannau o Gymru. Mae nifer y plant sy'n cael y brechlyn mewn ysgolion, yn enwedig, wedi bod ym mhen uchaf yr amcangyfrifon gwreiddiol, sy'n newyddion da iawn. Er mwyn goresgyn rhai o'r anawsterau lleol iawn sy'n bodoli, rydym wedi archebu 4,000 o ddsau ychwanegol o'r brechlyn gan Public Health England, a chredwn y bydd hynny'n goresgyn yr anawsterau y cyfeiriodd Mr Graham atynt.
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.
- Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.
- 13:47 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, gwnaeth cadeirydd un o bwyllgorau Cymdeithas Feddygol Prydain, Dr Charlotte Jones, sylwadau damniol iawn ddoe ar sefyllfa waith doctoriaid neu 'GPs' yng Nghymru. Dywedodd fod y proffesiwn mewn 'crisis', bod y proffesiwn ar ei bengliniau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a bod 'brain drain' o ddoctoriaid allan o NHS Cymru. Pam bod yr NHS—eich NHS chi—yn sefydliad mor wael i ddoctoriaid weithio ynddo?
- Minister, the chair of one of the British Medical Association's committees, Dr Charlotte Jones, made some damning comments yesterday on the situation of GPs in Wales. She said that the profession is in crisis, that the profession is on its knees, particularly in rural areas, and that there is a brain drain of doctors out of NHS Wales. Why is the NHS—your NHS—such a poor institution for doctors to be working within?
- 13:47 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n cydnabod y ffaith bod pobl sy'n gweithio yn yr NHS yma yng Nghymru, fel dros y Deyrnas Unedig i gyd, o dan bwysau ac maen nhw'n teimlo'r pwysau hwnnw, siŵr o fod, fel y dywedodd Charlotte Jones.
- I acknowledge the fact that people who work in the NHS here in Wales, as in the whole of the United Kingdom, are under pressure and they feel that pressure, probably, as Charlotte Jones stated.

Turning to the specifics of the numbers question, she is right to point to the fact that there are some particular issues in rural parts of Wales in relation to GP recruitment. We have to think radically about the way that we respond to those challenges in the future. I was grateful to Elin Jones for a meeting that we held a couple of weeks ago with clinicians from the Bronglais hospital area who wanted to talk, not specifically about the situation at the hospital today, but about the way in which we plan for services at primary and secondary care level across that part of Wales in the future. I am taking forward some of the ideas that were raised that day. All parts of the NHS, not just in Wales but across the United Kingdom, feel pressures. We are working with the General Practitioners Committee Wales on some contract issues, which I think, when we bring those discussions to a conclusion, and they are very constructively conducted, will help us to lift some of the routine demands we make of GPs, freeing their time so that they can do some of the things that they tell us that their time would be better spent doing.

Gan droi at fanylion y cwestiwn ynghylch niferoedd, mae'n iawn i dynnu sylw at y ffaith bod rhai materion penodol mewn rhannau gwledig o Gymru mewn perthynas â recriwtio meddygon teulu. Rhaid inni feddwl mewn modd radical am y ffordd y byddwn yn ymateb i'r heriau hynny yn y dyfodol. Rwy'n ddiolchgar i Elin Jones am gyfarfod a gynhaliwyd gennym ychydig wythnosau yn ôl gyda chlinigwyr o ardal ysbty Bronglais a oedd am siarad, nid yn benodol am y sefyllfa yn yr ysbty heddiw, ond am y ffordd y byddwn yn cynllunio ar gyfer gwasanaethau ar lefel gofal sylfaenol ac eilaidd yn y rhan honno o Gymru yn y dyfodol. Rwyf yn mynd ar drywydd rhai o'r syniadau a godwyd y diwrnod hwnnw. Mae pob rhan o'r GIG, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y Deyrnas Unedig, o dan bwysau. Rydym yn gweithio gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru ar rai materion contract, a chredaf, pan ddown â'r trafodaethau hynny i ben, ac maent yn cael eu cynnal mewn modd adeiladol iawn, y byddant yn ein helpu i ddileu rhai o'r gofynion rheolaidd sy'n wynebu meddygon teulu, gan roi mwy o amser iddynt wneud rhai o'r pethau y dywedasant wrthym y byddai'n fwy buddiol iddynt dreulio eu hamser yn eu gwneud.

13:49 **Elin Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

Rwy'n falch eich bod yn cydnabod y broblem a'ch bod yn barod i feddwl yn radical am atebion i'r broblem. Mae Plaid Cymru yn credu bod prinder yn nifer y doctoriaid yng Nghymru ac y dylid hyfforddi a recriwtio rhyw 1,000 yn fwy o ddoctoriaid dros y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi meddwl yn weddol o radical am syniad ariannu amgen ar gyfer hyn, gyda chynllun sydd yn awr yn cael ei grybwyll fel 'pop tax'. Beth yw'r syniadau radical sydd gennych chi? Mae gennym ni rai, beth yw'r rhai sydd gennych chi i gynyddu nifer y doctoriaid a fydd yn yr NHS yng Nghymru dros y degawd nesaf?

I am pleased that you have acknowledged the problem and are willing to think radically about a solution to the problem. Plaid Cymru believes that there is a shortage in terms of the number of doctors in Wales and that we should be training and recruiting a 1,000 extra medics over the next few years. We have thought quite radically about an alternative funding proposal for this, with a scheme that is now being talked about as a 'pop tax'. What are the radical ideas that you have? We have some, but what are your radical ideas to increase the number of doctors within the NHS in Wales over the next decade?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:49 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch am yr ail gwestiwn. Nid ydym yn gallu dweud bod pob syniad radical yn syniad synhwyrol hefyd.

Thank you for the second question. We cannot say that every radical idea is also a sensible one.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There is a series of ideas emerging in the Welsh NHS and beyond our borders that will help us to take a different view of the future. The Greenaway review of training is very important to us here in Wales, in the way that it recognises that the training and employment of doctors has moved too far in the direction of specialism and sub-specialism. This means, particularly in rural parts of Wales, that it is difficult to retain the services of people who are able to provide a more general service, especially to people later in life. I am very keen to work with the Greenaway review. It wants to carry out some pilots. I said to Professor Greenaway that we would be very open to having some of those pilots here in Wales. That is one of a number of ideas that I think would help us to shape the future.

Mae cyfres o syniadau yn dod i'r amlwg yn GIG Cymru a thu hwnt i'n ffiniau a fydd yn ein helpu i arddel safbwynt gwahanol ar gyfer y dyfodol. Mae adolygiad Greenaway o hyfforddiant yn bwysig iawn inni yma yng Nghymru, o ran y ffordd y mae'n cydnabod bod y broses o hyfforddi a chyflogi meddygon bellach yn canolbwyntio gormod ar arbenigedd ac is-arbenigedd. Mae hyn yn golygu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, ei bod hi'n anodd cadw gwasanaethau pobl sy'n gallu darparu gwasanaeth mwy cyffredinol, yn enwedig i bobl yn ddiweddarach mewn bywyd. Rwy'n awyddus iawn i weithio gydag adolygiad Greenaway. Mae'n dymuno cynnal rhai cynlluniau peilot. Dywedais wrth yr Athro Greenaway y byddem yn agored iawn i gynnal rhai o'r cynlluniau peilot hynny yma yng Nghymru. Mae hynny'n un o nifer o syniadau y credaf y byddent yn helpu i lywio'r dyfodol.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Kirsty Williams.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:51

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Minister, given your concern about the recruitment and retention of general practitioners in rural Wales, could you explain how your statement that you intend to reform the minimum income practice guarantee will help the recruitment and retention of those GPs? GPs in rural Wales are saying that the removal of the MPIG will seriously threaten the viability of some smaller rural practices, especially those practices that are able to offer better access for patients via branch surgeries. How will the reform of the MPIG achieve your stated goals?

Weinidog, o gofio eich pryder ynghylch recriwtio a chadw ymarferwyr cyffredinol yng nghefn gwlad Cymru, a allech egluro sut y bydd eich datganiad o'ch bwriad i ddiwygio'r gwarant isafswm incwm practis yn helpu i recriwtio a chadw'r meddygon teulu hynny? Dywed meddygon teulu yng nghefn gwlad Cymru y bydd dileu'r gwarant hwnnw yn bygwth hyfywedd rhai meddygfeydd gwledig llai yn ddifrifol, yn enwedig y meddygeydd hynny sy'n gallu cynnig mynediad gwell i gleifion drwy is-feddygfeydd. Sut y bydd y broses o ddiwygio'r MPIG yn cyflawni eich nodau?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:51

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I made it clear to GPC Wales that the minimum practice income guarantee was a leftover part of a much earlier settlement that we would have to address here in Wales. Having said that, I made it clear from the very beginning that, while I am not prepared simply to park MPIG as a problem that we cannot solve, I am very prepared to develop a solution with GPC Wales that is implemented over a number of years. We are not going to do what is being done in England and take a sudden blow at MPIG, which I think will cause real difficulties in some parts of rural England. Here in Wales, I am confident that, as part of the discussions that we are having, we have a solution to MPIG that will be fairer. Every pound that we put into MPIG is money taken away from some other parts of Wales where health needs are greater. We will distribute that money back into primary care, and we will do so in a careful and considered way. We will make special arrangements to make sure that some of the practices that are at the further end of this problem are not affected by that solution.

Nodais yn glir wrth GPC Cymru mai rhan dros ben o setliad llawer cynharach oedd y gwarant isafswm incwm practis y byddai'n rhaid inni fynd i'r afael â hi yma yng Nghymru. Serch hynny, nodais yn glir o'r dechrau, er nad wyf yn barod i ddatgan bod y gwarant yn broblem na allwn ei datrys, fy mod yn barod iawn i ddatblygu ateb gyda GPC Cymru a weithredir dros nifer o flynyddoedd. Ni wnawn yr hyn a wnaed yn Lloegr a cheisio mynd i'r afael â'r gwarant mewn un cam sydyn, a fydd yn achosi anawsterau gwirioneddol mewn rhai rhannau o gefn gwlad Lloegr yn fy marn i. Yma yng Nghymru, hyderaf fod gennym, fel rhan o'r trafodaethau yr ydym yn eu cael, ateb tecach i'r gwarant. Mae pob punt a neilltuwn i'r gwarant yn bunt a dynnir i ffwrdd oddi wrth rannau eraill o Gymru lle mae'r anghenion iechyd yn fwy. Bydd yn dosbarthu'r arian hwnnw yn ôl i ofal sylfaenol, a byddwn yn gwneud hynny mewn modd gofalus ac ystyriol. Byddwn yn gwneud trefniadau arbennig i sicrhau na fydd yr ateb hwnnw yn effeithio ar rai o'r arferion sydd ar ben pellaf y broblem hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:52

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. To date, the Welsh Government's answer to the recruitment and retention of medical staff in Wales has been the Work for Wales campaign. Could you update us on how many new doctors have been recruited to Wales as a part of that campaign?

Diolch am y sicrwydd hwnnw, Weinidog. Hyd yma, ateb Llywodraeth Cymru i recriwtio a chadw staff meddygol yng Nghymru fu ymgyrch Gweithio dros Gymru. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am faint o feddygon newydd sydd wedi'u recriwtio yng Nghymru fel rhan o'r ymgyrch honno?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:53

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The campaign has been successful in reducing the number of vacant posts in the Welsh NHS. The last time that I saw the figure—I will confirm this for the Member, of course—over the 12 months of the campaign, vacancy levels had fallen by more than 140 posts. We have the lowest ever vacancy rates in the Welsh NHS. We have the lowest ever turnover rates in the Welsh NHS. We do not have a general recruitment difficulty. What we have, as we have said here many times, is a small number of specialties where there are genuine difficulties in recruiting staff. We have some geographical hotspots where the recruitment of particular sorts of staff can be difficult. However, the general picture of recruitment into the Welsh NHS remains buoyant. We attract high numbers of high-calibre staff who want to come to live and work in Wales.

Mae'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau nifer y swyddi gwag yn GIG Cymru. Y tro diwethaf imi weld y ffigur—byddaf yn cadarnhau hyn ar gyfer yr Aelod, wrth gwrs—dros gyfnod yr ymgyrch o 12 mis, roedd dros 140 yn llai o swyddi i'w llenwi. Mae gennym y cyfraddau swyddi gwag isaf erioed yn GIG Cymru. Mae gennym y cyfraddau trosiant isaf erioed yn GIG Cymru. Nid oes gennym anhawster cyffredinol o ran recriwtio. Yr hyn sydd gennym, fel y dywedasom yma sawl gwaith, yw nifer fach o arbenigeddau lle ceir anawsterau gwirioneddol o ran recriwtio staff. Mae gennym rai ardaloedd daearyddol lle y gall fod yn anodd recriwtio mathau penodol o staff. Fodd bynnag, erys y darlun cyffredinol o ran recriwtio staff i GIG Cymru yn llewyrchus. Rydym yn denu nifer fawr o staff o ansawdd uchel sydd am ddod i fyw a gweithio yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:54	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We have had some really detailed questions this afternoon and some very detailed answers. However, I would appreciate it if you could be a little bit more succinct; otherwise, we are not going to get very far down the list.	Cawsom rai cwestiynau manwl iawn y prynhawn yma a rhai atebion manwl iawn. Fodd bynnag, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech fod ychydig yn fwy cryno; fel arall, ni awn yn bell iawn i lawr y rhestr.	Senedd.tv Fideo Video
Gwasanaethau Newyddenedigol		Neonatal Services	
13:54	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau newyddenedigol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0360(HSS)</i>	<i>5. Will the Minister make a statement on neonatal services in North Wales? OAQ(4)0360(HSS)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at ddatganiad y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf ar y mater hwn.	I have nothing to add to the First Minister's statement of last week on this matter.	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Diolch ichi am eich ateb. Gwnaeth y Prif Weinidog amlinellu'r hyn yr oedd am ei weld yn cael ei ddatblygu yng ngogledd Cymru. A allwch chi roi cadarnhad inni heddiw y bydd y cyllid a'r adnoddau ar gael, o safbwynt yr arian a fydd ei angen i wireddu'r hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i amlinellu, naill ai o gyfeiriad Betsi Cadwaladr, neu efallai trwy'r Llywodraeth, neu gyfuniad o'r ddau, fel ein bod yn gallu cael sicrwydd y bydd yr hyn sydd wedi cael ei amlinellu yn cael ei wireddu mewn gwirionedd?	Thank you for that response. The First Minister outlined what he wanted to see developed in north Wales. Can you today confirm that the funding and resources will be available, in terms of the funds that will be needed to achieve what the First Minister has outlined, either from Betsi Cadwaladr or through the Government, or a combination of both, so that we can have that assurance that what has been outlined is truly going to be achieved?	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography Llywydd, the First Minister made it clear in his statement that the next stage in the development of the service in north Wales will be the creation of a robust and complete business case. It would be within that business case that the answer to the question that the Member has raised will be found.	Lywydd, nododd y Prif Weinidog yn glir yn ei ddatganiad mai cam nesaf y broses o ddatblygu'r gwasanaeth yn y gogledd fydd creu achos busnes cadarn a chyflawn. Oddi mewn i'r achos busnes hwnnw y ceid yr ateb i'r cwestiwn a godwyd gan yr Aelod.	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Minister, I welcome the announcement on establishing a sub-regional neonatal intensive care centre in north Wales, but I do wonder how you will base your criteria as to the exact location of where that will be. How transparent will the process be? I think that it is fair to say that the previous reviews and business development cases that we have seen come forward as regards anything to do with Betsi over the past few years have been less than transparent. How can you assure me today, as the Member for Aberconwy, that this will be carefully considered? I would like to know what the criteria will be, and that they will be transparent.	Weinidog, croesawaf y cyhoeddiad am y bwriad i sefydlu canolfan gofal dwys i'r newyddenedigol isranbarthol yn y gogledd, ond tybed sut y byddwch yn seilio eich meini prawf o ran union leoliad y ganolfan honno. Pa mor dryloyw fydd y broses? Credaf ei bod yn deg dweud nad yw'r adolygiadau a'r achosion datblygu busnes blaenorol a gyflwynwyd mewn perthynas â Betsi dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gwbl dryloyw. Sut y gallwch roi sicrwydd imi heddiw, fel yr Aelod dros Aberconwy, y caiff hyn ei ystyried yn ofalus. Hoffwn wybod beth fydd y meini prawf, ac y byddant yn dryloyw.	Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for her general support of the way forward outlined by the First Minister last week. He outlined the steps that will now be taken to develop the business case that I mentioned earlier, and to reach decisions on the best location for the new centre. I do not think there is any doubt that the process that the First Minister has followed has been one that has been highly open and transparent, with a panel meeting Assembly Members and other members of the clinical community across north Wales, and he will expect that to continue.

Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth gyffredinol i'r ffordd ymlaen a amlinellwyd gan y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf. Amlinellodd y camau a gymerir yn awr i ddatblygu'r achos busnes a grybwyllais yn gynharach, ac i benderfynu ar y lleoliad gorau ar gyfer y ganolfan newydd. Ni chredaf fod unrhyw amheuaeth bod y broses y mae'r Prif Weinidog wedi ei dilyn wedi bod yn un hynod agored a thryloyw, gyda phanel yn cyfarfod ag Aelodau Cynulliad ac aelodau eraill o'r gymuned clinigol ledled y gogledd, a bydd yn disgwyl i hynny barhau.

13:56 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn ystod y datganiad wythnos ddiwethaf, roedd nifer ohonom yn synnu bod trafodaethau bwrdd iechyd Betsi wedi bod efo Arrowe Park yn unig ac nid efo'r rhwydwaith yng nogledd-orllewin Lloegr, er bod adolygiad o'r uned yn Arrowe Park y flwyddyn nesaf. A ydych yn disgwyl i'r trafodaethau sydd i'w cynnal erbyn diwedd y mis i fod efo'r rhwydwaith yn gyfan, neu jyst efo Arrowe Park? Ai cyfrifoldeb y Llywodraeth fydd dweud beth fydd y trefniadau hynny, neu gyfrifoldeb y bwrdd iechyd yn unig?

During last week's statement, a number of us were surprised that Betsi Cadwaladr health board's discussions had been conducted solely with Arrowe Park and not with the network in the north-west of England, although there is to be a review of the unit in Arrowe Park next year. Do you expect the discussions that are to be held before the end of the month to be with the full network, or just with Arrowe Park? Will it be the Government's responsibility to say what those arrangements will be, or will it be solely the responsibility of the health board?

13:57 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The discussions that have been carried out with the health board over the immediate future are around the clarification of governance, which concerns the transfer of babies to Arrowe Park Hospital.

Mae'r trafodaethau a gafwyd gyda'r bwrdd iechyd ynghylch y dyfodol agos wedi ymwneud ag egluro'r broses lywodraethu, sy'n ymwneud â throsglwyddo babanod i Ysbyty Arrowe Park.

Fel y dywedodd yr Aelod, yn y dyfodol, rhwydwaith a chreu rhwydwaith newydd fydd y ffordd ymlaen. Bydd y panel wedi gwneud awgrymiadau, a bydd y panel yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i gynllunio'r dyfodol.

As the Member said, in future, the network and creating a new network will be the way forward. The panel will make suggestions and the panel will be working with the local health board to plan for the future.

Dementia

Dementia

13:57 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau i bobl sy'n byw â dementia? OAQ(4)0351(HSS)

6. Will the Minister make a statement on services for people living with dementia? OAQ(4)0351(HSS)

13:57 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services

Thank you for that question. The Welsh Government is committed to increasing support, advice and information for individuals diagnosed with dementia as confirmed in 'National Dementia Vision' and 'Together for Mental Health'. Investment has been made in a range of measures to raise awareness, support carers, improve standards of care and promote dementia-friendly communities across Wales.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod unigolion sy'n cael diagnosis o ddementia yn cael mwy o gymorth, cyngor a gwybodaeth fel y cadarnhawyd yn 'Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Dementia' a 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Buddsoddwyd mewn amrywiaeth o fesurau i godi ymwybyddiaeth, cefnogi gofawyr, gwella safonau gofal a hyrwyddo cymunedau sy'n ystyriol o ddementia ledled Cymru.

- 13:58 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You will be aware that diagnosis rates for dementia across Wales have historically been low, but as a new focus is placed on improving early diagnosis, the number of people requiring early-stage support is likely to increase. What assessment have you made of the likely increase in demand for out-patient memory clinics? How accessible are such services across Wales?
- Byddwch yn ymwybodol bod cyfraddau diagnosis ar gyfer dementia ledled Cymru wedi bod yn isel yn hanesyddol, ond wrth inni ganolbwyntio'n fwy ar wella cyfraddau diagnosis cynnar, mae nifer y bobl y mae angen cymorth arnynt ar gam cynnar yn debygol o gynyddu. Pa asesiad rydych wedi'i wneud o'r cynnydd tebygol yn y galw am glinigau cof cleifion allanol? Pa mor hygyrch yw gwasanaethau o'r fath ledled Cymru?
- 13:58 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Early diagnosis is important, we all know that, and improvements are being made to that process. You know that we are intent on developing preventative and early intervention services, and where people present as needing services, I do not think it is necessarily incumbent on us to wait for a diagnosis first. I have made that clear with regard to autism and I think that the same goes for people who present with the signs of dementia: services must be made available on the grounds of people's needs and not necessarily on diagnosis alone.
- Mae sicrhau diagnosis cynnar yn bwysig, rydym i gyd yn gwybod hynny, ac mae gwelliannau'n cael eu gwneud i'r broses honno. Gwyddoch ein bod yn bwriadu datblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, a lle y nodir bod angen gwasanaethau ar bobl, ni chredaf y dylem o reidrydd aros am ddiagnosis yn gyntaf. Rwyf wedi gwneud hynny'n glir o ran awtistiaeth a chredaf fod yr un peth yn wir i bobl sy'n dangos arwyddion o ddementia: rhaid i wasanaethau fod ar gael ar sail anghenion pobl ac nid o reidrydd ar sail diagnosis yn unig.
- 13:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the opposition spokesperson, William Graham.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, William Graham.
- 13:59 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You will know that it is estimated that, by 2021, the number of people with dementia across Wales may well increase by some 30%, and in some rural areas by up to 45%. A future excellence centre is being constructed presently in Blackwood—or will be constructed by 2015—which would alleviate a great deal of the pressure on people suffering from dementia in that area, particularly younger people. What plans have you to replicate that centre in other parts of Wales?
- Byddwch yn ymwybodol yr amcangyfrifir, erbyn 2021, y gallai nifer y bobl â dementia yng Nghymru gynyddu tua 30%, ac mewn rhai ardaloedd gwledig hyd at 45%. Mae canolfan ragoriaeth ar gyfer y dyfodol wrthi'n cael ei hadeiladu yn y Coed Duon—neu caiff ei hadeiladu erbyn 2015—a fyddai'n lleddfu cryn dipyn ar y pwysau sydd ar bobl sy'n dioddef o ddementia yn yr ardal honno, yn enwedig pobl iau. Pa gynlluniau sydd gennych i adeiladu canolfan debyg mewn rhannau eraill o Gymru?
- 13:59 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The centre, of course, is proving its worth. I have shared the importance that I place on that centre. We are also developing research capacity, and Wales has been, for some years, at the forefront worldwide of dementia research and international collaboration. I know of no plans at the moment to develop another centre, but this is an ongoing process.
- Mae'r ganolfan, wrth gwrs, yn profi ei gwerth. Rwyf wedi rhannu pwysigrwydd y ganolfan honno. Rydym hefyd yn datblygu gallu ymchwil, ac mae Cymru wedi bod ar flaen y gad yn fyd-eang ers blynyddoedd o ran ymchwil dementia a chydweithio rhyngwladol. Ni wn am unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu canolfan arall, ond mae hon yn broses barhaus.
- As you know, I think that it is incumbent upon us, as well, to encourage collaboration between social services, the national health service and the third sector. Our thinking, in the development of services into the future, has to be based on the services working together. As we develop that thinking through the Bill, I am sure that the Minister will want to update Members on future services in due course.
- Fel y gwyddoch, credaf ei bod yn rhaid inni hefyd annog cydweithredu rhwng gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd gwladol a'r trydydd sector. Rhaid i'n ffordd o feddwl, wrth ddatblygu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, fod yn seiliedig ar y gwasanaethau'n cydweithio. Wrth inni ddatblygu'r meddylfryd hwnnw drwy'r Bil, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am wasanaethau ar gyfer y dyfodol maes o law.

14:00	William Graham Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am most grateful to the Deputy Minister for her reply. Building on that, could I ask her what is being done with regard to the national dementia vision for Wales, which highlighted the need, in particular, for more quality training for carers? I know that the Minister is aware of this. The Alzheimer's Society suggests that one in 10 people with dementia get out of the house only once a month. An increase in carers would be an enormous step forward on that.</p>	<p>Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei hymateb. Gan adeiladu ar hynny, a allwn ofyn iddi beth sy'n cael ei wneud o ran gweledigaeth genedlaethol Cymru ar ddementia, a nododd yr angen, yn arbennig, am ragor o hyfforddiant o ansawdd i ofalwyr? Gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol o hyn. Awgryma'r Gymdeithas Alzheimer mai dim ond unwaith y mis y mae un o bob 10 person â dementia yn mynd allan o'r tŷ. Byddai cynnydd yn nifer y gofalwyr yn gam enfawr ymlaen yn hyn o beth.</p>
14:01	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes, and you know how passionate I am about developing the rights of carers. You know that, through the Social Services and Well-being (Wales) Bill, for the first time, carers' needs will have to be considered in the same way as service users' needs are developed. I think that the Bill will take us huge steps forward in developing services for carers. You know that we are in the second stage of scrutiny, and, of course, we are here to listen to opinions on this. Enhancing, recognising and respecting the role of carers are the key, I think, to the future delivery of services.</p>	<p>Gallwch, a gwyddoch pa mor frwdfrydig yr wyf dros ddatblygu hawliau gofalwyr. Gwyddoch, drwy'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), am y tro cyntaf, y bydd yn rhaid i anghenion gofalwyr gael eu hystyried yn yr un modd ag y caiff anghenion defnyddwyr gwasanaethau eu datblygu. Credaf y bydd y Bil yn gam mawr ymlaen o ran datblygu gwasanaethau i ofalwyr. Gwyddoch ein bod ar ail gam y broses graffu, ac, wrth gwrs, rydym yma i wrando ar safbwyntiau ar hyn. Mae gwella, cydnabod a pharchu rôl gofalwyr yn allweddol, yn fy marn i, i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.</p>
14:02	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Rwyf wedi gweld fy hun y gwasanaethau rhagorol sydd ar gael yn fy etholaeth i mewn cartrefi gofal i'r rhai sydd â dementia, er enghraifft ym Mhlas Crigyll ym Mryngwrn. Wrth i awdurdodau lleol fwrw ati i geisio gwneud arbedion yn eu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol yn y blynyddoedd i ddod, pa gefnogaeth all y Llywodraeth ei chynnig i sicrhau nad yw'r gwasanaethau arbenigol hyn ym maes dementia yn cael eu bygwth mewn cartrefi gofal yn y dyfodol?</p>	<p>I have seen for myself the excellent services available in my constituency in care homes for those with dementia, such as in Plas Crigyll in Bryngwrn. As local authorities attempt to make savings in their social services budgets over the next few years, what support can the Government provide to ensure that these specialist services in the area of dementia are not threatened in care homes in future?</p>
14:02	Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Rwy'n clywed eich neges yn eglur am bwysigrwydd y gwasanaethau hyn mewn cartrefi gofal. Nid wyf yn gweld tystiolaeth ar y foment fod cwtogi ar wasanaethau o'r math arbenigol hwnnw. Rwy'n meddwl ei bod i fyny i awdurdodau lleol benderfynu fel y maent yn dosbarthu'r adnoddau sydd ganddynt, ond byddwn wastad yn barod i glywed storïau am le mae cwtogi sy'n effeithio ar wasanaethau, ac, wrth gwrs, i geisio cefnogi llywodraeth leol fel ei bod yn rhoi ymrwymiad hirdymor i'r gwasanaethau hollbwysig hyn.</p>	<p>I hear your message about the importance of these services in care homes clearly. I do not see any evidence at present that there is any cutting back on such specialist services. I believe that it is up to local authorities to decide how they allocate their resources, but we will always be willing to hear about cases where there are cutbacks being made that impact services, and, of course, to endeavour to support local government so that it can give these important services long-term support.</p>
Y GIG yng Ngogledd Cymru		The NHS in North Wales
14:03	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y GIG yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0346(HSS)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister make a statement on the future of the NHS in north Wales? OAQ(4)0346(HSS)</i></p>
14:03	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for the question. Our commitment to improving services in the north Wales area has been reinforced by the recent announcement of funding for a new primary care centre in Colwyn Bay and, last week, by the First Minister's announcement on neonatal intensive care.</p>	<p>Diolch am y cwestiwn. Atgyfnerthwyd ein hymrwymiad i wella gwasanaethau yn y gogledd gan y cyhoeddiad diweddar am gyllid ar gyfer canolfan gofal sylfaenol newydd ym Mae Colwyn ac, yr wythnos diwethaf, gan gyhoeddiad y Prif Weinidog ar ofal dwys newyddenedigol.</p>

- 14:03 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for your response, Minister. Statistics released last week show that the number of patients waiting more than nine months for hospital treatment in Wales has more than doubled in the six months since March; in north Wales, the situation is even more acute, with the figures more than trebling in the same period. That does not paint a positive picture of the Welsh NHS. We know that forecasters are suggesting that there is going to be a long and cold winter ahead of us. What action are you taking to ensure that people can have timely access to the treatment that they need in order for them to have a good quality of life?
- Diolch am eich ymateb, Weinidog. Dengys ystadegau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf fod nifer y cleifion sy'n aros mwy na naw mis am driniaeth mewn ysbyty yng Nghymru wedi mwy na dyblu yn ystod y chwe mis ers mis Mawrth; yn y gogledd, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy difrifol, gyda'r ffigurau wedi mwy na threblu yn yr un cyfnod. Nid yw hynny'n creu darlun cadarnhaol o GIG Cymru. Gwyddom fod rhagolygon yn awgrymu bod gaeaf hir ac oer o'n blaenau. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau y gall pobl gael gafael ar y driniaeth sydd eu hangen arnynt yn amserol er mwyn iddynt gael ansawdd bywyd da?
- 14:04 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- These are important points that the Member raises, and I discussed them recently with all chairs and chief executives in a meeting held with them in Cardiff. It is a difficult balancing act, I know, as we have seen in the Hywel Dda Local Health Board area. Nevertheless, I expect local health boards to manage the tension between providing sufficient capacity for the emergency pressures that they know that they will face, while continuing to provide for routine planned operations for their populations.
- Mae'r rhain yn bwyntiau pwysig a godir gan yr Aelod, a thrafodais hwy'n ddiweddar gyda'r holl gadeiryddion a phrif weithredwyr mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Gwn ei bod hi'n anodd sicrhau cydbwysedd, fel y gwelsom yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Serch hynny, disgwyliaf i fyrdau iechyd lleol reoli'r tensiwn rhwng darparu digon o allu ac adnoddau ar gyfer y pwysau brys y gwyddant y byddant yn eu hwynebu, tra'n parhau i ddarparu ar gyfer llawdriniaethau a gynlluniwyd fel mater o drefn ar gyfer eu poblogaethau.
- 14:04 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I share your view that health services across Wales should ensure that all patients have access to high-quality, safe and sustainable services delivered as locally as possible. You will know that we have now, finally, had an indication that the north Denbighshire project will go ahead—probably on the old site of the Royal Alexandra Hospital in Rhyl. That hospital was closed under some very difficult circumstances, and the health board promised that this new facility would be in place straight away. Given the time lapse that there has been, will you keep a close eye on how Betsi LHB progresses with this project, so that people do not have to suffer a lack of beds at a community hospital in the future?
- Weinidog, rhannaf eich barn y dylai gwasanaethau iechyd ledled Cymru sicrhau bod pob claf yn gallu cael gafael ar wasanaethau diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel a ddarperir mor lleol â phosibl. Gwyddoch ein bod bellach, o'r diwedd, wedi cael awgrym y bydd prosiect gogledd Sir Ddinbych yn mynd rhagddo—a hynny ar hen safle Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl mae'n debyg. Caewyd yr ysbyty hwnnw dan amgylchiadau anodd iawn, ac addawodd y bwrdd iechyd y byddai'r cyfleuster newydd hwn ar waith yn syth. O gofio'r amser a aeth heibio, a fyddwch yn cadw llygad barcud ar gynnydd BILL Betsi o ran y prosiect hwn, fel nad oes rhaid i bobl ddioddef prinder gwelyau mewn ysbyty cymunedol yn y dyfodol?
- 14:05 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Ann Jones for that picture. I am very pleased to be able to tell her and the Assembly that I have today approved the initial business case for the development of the new community hospital at the coastal locality of north Denbighshire. I have provided over £0.75 million to allow the local health board to take that initial business case to the next stage in the business case process. I expect the submission of the outline business case to be with me by July 2014, and for the new facility to be opened in June 2016.
- Diolch i Ann Jones am y darlun hwnnw. Mae'n bleser gennyf allu dweud wrthi hi a'r Cynulliad fy mod heddi wedi cymeradwyo'r achos busnes cychwynnol dros ddatblygu'r ysbyty cymunedol newydd yn ardal arfordirol gogledd Sir Ddinbych. Rwyf wedi darparu dros £0.75 miliwn i alluogi'r bwrdd iechyd lleol i fynd â'r achos busnes cychwynnol i'r cam nesaf. Disgwyliaf i'r achos busnes amlinellol ddod i law erbyn mis Gorffennaf 2014, ac i'r cyfleuster newydd gael ei agor ym mis Mehefin 2016.
- 14:06 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae angen gwasanaeth gofal dwys lefel 3 ar gyfer babanod newydd-anedig yn y gogledd i gyfateb i'r tri gwasanaeth lefel 3 sydd ar gael yn y de, fel bod dim ond babanod sydd angen llawdriniaeth neu sydd ag anhwylderau ar y galon fydd yn gorfod mynd i ysbyty Alder Hey. A wnewch chi roi addewid y bydd y gwasanaeth iechyd yn y gogledd yn cynllunio ar gyfer creu gwasanaeth lefel 3 o ansawdd yn y gogledd yn y blynyddoedd sydd i ddod?
- Level 3 intensive care services for newborns are required in north Wales to correspond to the three level 3 services available in south Wales, so that only babies requiring surgery or who have heart defects will have to go Alder Hey hospital. Will you give a pledge that the health service in north Wales will plan for the creation of a level 3 service of high quality in north Wales in future years?

- 14:06 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- My general position on this is that I expect services to be planned in a way that allows services to be provided as close to home as is possible for people while remaining safe and sustainable. There will be some services where the numbers of children are so small that it makes better sense to plan on a wider population basis than is available within one health board, and, where that happens, that is right for the patient.
- Disgwyliaf i wasanaethau gael eu cynllunio mewn modd sy'n galluogi gwasanaethau i gael eu darparu mor agos â phosibl i gartrefi pobl tra'n parhau'n ddiogel ac yn gynaliadwy. Bydd rhai gwasanaethau lle mae nifer y plant mor fach fel ei bod yn gwneud mwy o synnwyr i gynllunio ar sail poblogaeth ehangach na'r hyn sydd ar gael mewn un bwrdd iechyd, a, lle mae hynny'n digwydd, mae hynny'n addas i'r claf.
- 14:07 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rydych chi wedi clywed yr hyn a ddywedodd Darren Millar ynglŷn ag oedi a rhestrau aros. A yw'n dderbyniol bod Ysbyty Wrecsam Maelor yn anfon apwyntiadau allan ar lythyr ar ôl rhyw bum mis ac ar ben y llythyr mae stamp 'gohiriwyd—apwyntiad ar gyfer mis Ionawr'? Mae'n debyg bod strategaethau ar waith o fewn bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr er mwyn 'cael rownd' y data sydd yn cael eu casglu?
- Minister, you have heard what Darren Millar said about delays and waiting lists. Is it acceptable that Wrexham Maelor Hospital is issuing appointments in a letter after about five months and that, at the top of the letter, there is a stamp 'deferred—appointment in January'? It seems that are strategies in place in Betsi Cadwaladr in order to get around the data that are being collected.
- 14:07 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am not directly familiar with the form of letter being issued by a particular hospital to which the Member refers, but I am very happy to take a look at it and to write to him on that matter.
- Nid wyf yn gyfarwydd â'r math o lythyr sy'n cael ei gyhoeddi gan ysbyty penodol y mae'r Aelod yn cyfeirio ato, ond rwy'n fwy na pharod i edrych arno ac i ysgrifennu ato ynghylch y mater hwnnw.
- Y Brechlyn Ffliw** **The Flu Vaccine**
- 14:07 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddsbarthu'r brechlyn ffliw yn Nelyn? OAQ(4)0356(HSS)*
- 8. Will the Minister make a statement on the distribution of flu vaccine in Delyn? OAQ(4)0356(HSS)*
- 14:07 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Sandy Mewies for that question. Sufficient vaccine is available for GPs in Delyn to undertake the routine flu vaccination programme for at-risk groups. For the new children's programme, the local health board has sufficient vaccine to undertake the planned programme of age groups through both primary care and in schools.
- Diolch i Sandy Mewies am y cwestiwn hwnnw. Mae digon o frechlyn ar gael i feddygon teulu yn Nelyn ymgymryd â'r rhaglen brechu rhag y ffliw fel mater o drefn ar gyfer grwpiau risg. O ran y rhaglen newydd i blant, mae gan y bwrdd iechyd lleol ddigon o frechlyn i ymgymryd â'r rhaglen arfaethedig ar gyfer grwpiau oedran mewn gofal sylfaenol ac ysgolion.
- 14:08 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that. Minister, concerns were raised in my constituency last week when Flint High School was unable to access 220 lots of the Fluenz vaccine. I understand that the school was told that all stocks of the vaccine were already in circulation. I understand that those vaccinations have since taken place, but can you tell me what steps are being taken to ensure that stocks of vaccine are redistributed to where they are needed?
- Diolch ichi am hynny. Weinidog, codwyd pryderon yn fy etholaeth yr wythnos diwethaf pan fethodd Ysgol Uwchradd y Fflint â chael gafael ar 220 o ddsau o frechlyn Fluenz. Dywedwyd wrth yr ysgol bod yr holl gyflenwadau o'r brechlyn eisoes wedi'u dosbarthu. Deallaf fod y brechiadau hynny wedi digwydd ers hynny, ond a allwch ddweud wrthyf pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod cyflenwadau o'r brechlyn yn cael eu hailddosbarthu i'r manau lle mae eu hangen?

- 14:08 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that question. I think that she puts her finger on exactly the issue that we have faced and that we rehearsed briefly earlier. There was a sufficient supply of vaccine in the Delyn area to make sure that all children needing vaccination were able to get it. It was just that too much of it was in the hands of GPs in primary care in that location, and not enough was available for schools. I am very grateful to all those in the locality who worked very hard over a 48-hour period to collect vaccine where it was not being used and to take it to places where it was needed. As a result, all of those children at Flint High School had the vaccinations that were required. It is an inevitable part of a first year of a new vaccination that there is some element of having to guess where stocks will be needed. We then rely on the people who work directly in that service to be flexible in moving the supply of vaccine to where it is required.
- Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Credaf ei bod yn taro'r hoelen ar ei phen o ran y mater a wynebwyd gennym ac y cyfeiriwyd ato'n fras yn gynharach. Roedd cyflenwad digonol o'r brechlyn yn ardal Delyn i sicrhau bod pob plentyn yr oedd angen brechiad arno yn gallu ei gael. Ond roedd gormod ohono wedi'i ddosbarthu i feddygon teulu mewn gofal sylfaenol yn yr ardal honno, gan olygu nad oedd digon ar gael i ysgolion. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r rhai yn yr ardal leol a weithiodd yn galed iawn dros gyfnod o 48 awr i gasglu brechlyn lle nad oedd yn cael ei ddefnyddio a mynd ag ef i'r mannau lle roedd ei angen. O ganlyniad, cafodd pob un o'r plant hynny yn Ysgol Uwchradd y Fflint y brechiadau gofynnol. Mae'n anochel ym mlwyddyn gyntaf rhaglen brechu newydd fod angen rhywfaint o ddyfalu o ran ble y bydd angen stociau. Yna, rydym yn dibynnu ar y bobl sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y gwasanaeth hwnnw i fod yn hyblyg o ran symud y cyflenwad o frechlyn i'r man lle mae ei angen.
- 14:09 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- How, therefore, do you respond to the statement by Betsi Cadwaladr health board that it, at that stage, had only been given 5,000 doses of flu vaccine, when it needed approximately 29,000 to vaccinate year 7 pupils, two and three-year-olds and at-risk children, after Flint High School had its initial request rejected?
- Beth, felly, yw eich ymateb i'r datganiad gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr nad oedd ganddo, bryd hynny, ond 5,000 o ddosau o frechlyn rhag y ffliw, pan oedd angen tua 29,000 o ddosau arno i frechu disgyblion blwyddyn 7 a phlant dwy a thair oed a allai fod yn wynebu risg, ar ôl i gais cychwynnol Ysgol Uwchradd y Fflint gael ei wrthod?
- 14:10 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am not familiar with those figures at all; they do not ring true to me. As I told Members earlier, 75,000 doses of the vaccine were secured for Wales and a further 4,000 have now been ordered. I know that, in the Betsi Cadwaladr health board area, the whole of the schools programme has been secured and will be delivered, and there will be enough vaccine left over in primary care for the vaccination of two and three-year-olds to continue.
- Nid wyf yn gyfarwydd â'r ffigurau hynny o gwbl; nid ydynt yn canu cloch. Fel y dywedais wrth Aelodau yn gynharach, sicrhawyd 75,000 o ddosau o'r brechlyn i Gymru ac mae 4,000 ychwanegol bellach wedi'u harchebu. Gwn, yn ardal bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, fod y rhaglen ysgolion gyfan wedi'i sicrhau ac y caiff ei darparu, a bydd digon o frechlyn dros ben mewn gofal sylfaenol i allu parhau i frechu plant dwy a thair oed.
- 14:10 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Fel y dywedasoch yn eich ateb gwreiddiol, mae'r brechlyn ffliw wedi cael ei dargedu at y grwpiau mwyaf 'at risk' yn y gymdeithas. Fodd bynnag, mewn gwrthgyferbyniad, mae brechlyn defyd yr eryr—'shingles'—dim ond yn cael ei ddosbarthu i'r rhai sydd naill ai'n 70 oed neu'n 79 oed, sy'n ymddangos yn rhyfedd. Byddwn i'n ddiolchgar os gallwch chi esbonio'r rhesymeg y tu ôl i hynny a pham, hyd yn oed os ydyw'n brin, nad yw'n cael ei dargedu at y grwpiau mwyaf 'at risk' yn y gymdeithas.
- As you said in your original response, the flu vaccine has been targeted at the most at risk groups in society. However, in contrast, the shingles vaccine is being distributed only to those who are 70 years old or 79 years old, which seems strange. I would be grateful if you could explain the rationale behind that and why, even if there is a shortage, it is not being targeted at the most at risk groups in society.
- 14:11 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn hwnnw.
- Thank you very much for that question.

The reason why the shingles vaccination is not being provided to people aged over 79 is that the assessment made by the Joint Committee on Vaccination and Immunisation was that it loses effectiveness and is not sufficiently effective in people aged over 79 to make it a worthwhile vaccination for them to receive. The reason why we are building up—this is happening in England and Scotland, as well as in Wales—in the pattern that we are, is that, because it is a new vaccine, there is a manufacturing issue; only so much of it is capable of being manufactured and then supplied to the home nations. The JCVI's advice was that we should do it in the way in which we are doing it—vaccinating 79-year-olds and building the rest of the population up from 70-year-olds onwards. That is the reason why we are in the position that we are in.

Y rheswm pam na chaiff brechiad rhag yr eryr ei ddarparu i bobl dros 79 oed yw mai casgliad y Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu oedd ei fod yn mynd yn llai effeithiol ac nad yw'n ddigon effeithiol ymhlith pobl dros 79 oed i'w wneud yn frechiad gwerth chweil iddynt ei gael. Y rheswm pam ein bod yn ei gyflwyno'n raddol—mae hyn yn digwydd yn Lloegr a'r Alban, yn ogystal â Chymru—yn y modd hwn, yw'r ffaith, am ei fod yn frechlyn newydd, bod problem gweithgynhyrchu; dim ond hyn a hyn ohono y gellir ei weithgynhyrchu ac yna'i gyflenwi i'r gwledydd cartref. Cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu oedd y dylem barhau i wneud yr hyn a wnawn—brechu pobl 79 oed a'i gyflwyno'n raddol i weddill y boblogaeth 70 oed a throsodd. Dyna'r rheswm pam ein bod yn y sefyllfa hon.

Cyffuriau Anterth Cyfreithlon

Legal Highs

14:11 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau a gynhaliwyd i fynd i'r afael ag effaith cyffuriau anterth cyfreithlon? OAQ(4)0357(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

9. Will the Minister outline discussions held to address the impact of legal highs? OAQ(4)0357(HSS)

14:11 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am grateful to William Graham for this question. We have regular discussions with a range of partners about our response to legal highs. Our delivery plan, 'Working Together to Reduce Harm', sets out the specific actions that are being taken to address their impact.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar i William Graham am y cwestiwn hwn. Rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd ag amrywiaeth o bartneriaid am ein hymateb i gyffuriau anterth cyfreithlon. Mae ein cynllun cyflenwi, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', yn nodi'r camau penodol sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'u heffaith.

14:12 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am grateful to the Minister for his reply. Perhaps he will join me in acknowledging the good work done by Gwent Police and Torfaen trading standards officers in recent raids on shops in Cwmbran that were selling legal highs.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb. Efallai y bydd yn ymuno â mi i gydnabod y gwaith da a wnaed gan Heddlu Gwent a swyddogion safonau masnach Torfaen mewn cyrchoedd diweddar ar siopau yng Nghwmbrân a oedd yn gwerthu cyffuriau anterth cyfreithlon.

What is the Minister doing to reinforce the message that, just because these are so-called 'legal highs', they are not safe?

Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i atgyfnerthu'r neges nad yw'r rhain, er y cânt eu galw'n 'gyffuriau anterth cyfreithlon', yn ddiogel?

14:12 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you very much for that question. I am very happy to associate myself with the Member's remarks about the actions that were taken in Torfaen. I am also grateful to my colleague, Lynne Neagle, for the briefing that she provided to me about the events in her constituency. Legal highs may be legal, but they are often very dangerous indeed. That is why the police took the action that they took. That is why we in Wales, through the Welsh Government's substance misuse action fund, have recently provided over £400,000 to develop a new service: the Welsh emerging drugs and identification of novel substances programme.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr am y cwestiwn hwnnw. Rwy'n falch iawn o fod yn gysylltiedig â sylwadau'r Aelod am y camau a gymerwyd yn Nhorfaen. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'm cyd-Aelod, Lynne Neagle, am y briff a roddodd imi ynghylch y digwyddiadau yn ei hetholaeth. Efallai bod cyffuriau anterth cyfreithlon yn gyfreithlon, ond yn aml maent yn beryglus iawn. Dyna pam y cymerodd yr heddlu y camau dan sylw. Dyna pam ein bod ni yng Nghymru, drwy gronfa weithredu ar gamddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru, yn ddiweddar wedi darparu dros £400,000 i ddatblygu gwasanaeth newydd: rhaglen cyffuriau sy'n dod i'r amlwg a nodi sylweddau newydd i Gymru.

I am very happy to provide Members with a note of the work of that new programme, which came into being in October this year. It is designed to do much of what William Graham said; for us to have better intelligence about where these legal highs are being supplied and a better idea of the impact that they are having on individuals. We know from accident and emergency departments and the work of the police, and from other places, that young people, in particular, very badly affected by some of these substances are emerging in greater numbers. Here in Wales we need to do more to identify them and to provide education for them and respond to things when they go wrong.

Mae'n bleser gennyf sôn wrth Aelodau am waith y rhaglen newydd honno, a ddaeth i fodolaeth ym mis Hydref eleni. Fe'i cynlluniwyd i wneud llawer o'r hyn a ddywedodd William Graham; sicrhau bod gennym gudd-wybodaeth well am y manau lle mae'r cyffuriau anterth cyfreithlon hyn yn cael eu cyflenwi a syniad gwell o'r effaith y maent yn ei chael ar unigolion. Gwyddom o adrannau damweiniau ac achosion brys a gwaith yr heddlu, ac o fannau eraill, fod mwy o bobl ifanc, yn arbennig, y mae rhai o'r sylweddau hyn yn effeithio'n wael iawn arnynt, yn dod i'r amlwg. Yma yng Nghymru, mae angen inni wneud mwy i'w nodi a'u haddysgu ac ymateb i bethau pan fyddant yn mynd o chwith.

14:14 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, what consideration is being given to strengthening the powers of trading standards officers in this area, because shops are able to sell legal highs, as long as they are labelled 'not for human consumption'? As you say some of those substances are highly dangerous, and at least one person a week across the UK dies as a result, which is an 80% rise on the previous year. So, should trading standards officers not be better empowered to close down shops that sell 'not for human consumption' legal highs?

Weinidog, pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i'r gwaith o atgyfnerthu pwerau swyddogion safonau masnach yn y maes hwn, gan fod siopau'n gallu gwerthu cyffuriau anterth cyfreithlon cyn belled â bod y label Saesneg 'not for human consumption' arnynt? Fel y dywedwch, mae rhai o'r sylweddau hynny'n beryglus iawn, ac mae o leiaf un person yr wythnos yn y DU yn marw o ganlyniad i'w defnyddio, sy'n gynydd o 80% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Felly, oni ddylai swyddogion safonau masnach gael eu grymuso'n well i gau siopau sy'n gwerthu cyffuriau anterth cyfreithlon sydd â'r label 'not for human consumption' arnynt?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Jocelyn Davies very much for that suggestion. As she knows, one of the issues that we face in this area is that they happen at the confluence of devolved and non-devolved services. They involve the criminal justice system, the police, the health service, and local authorities through their trading standards operations. I have asked my officials, and the chief medical officer in particular, to look at this issue in relation to the public health White Paper, which I hope to bring forward soon after the new year and to see whether there are powers available to us through which, in a public health sense, we could strengthen the arm of trading standards in dealing with exactly these matters.

Diolch yn fawr iawn i Jocelyn Davies am yr awgrym hwnnw. Fel y gwyr, un o'r materion a wynebwn yn y maes hwn yw eu bod yn digwydd wrth i wasanaethau datganoledig a heb eu datganoli uno. Maent yn cynnwys y system cyfiawnder troseddol, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, ac awdurdodau lleol drwy eu gweithgareddau safonau masnach. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion, a'r prif swyddog meddygol yn arbennig, ystyried y mater hwn mewn perthynas â'r Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd, y gobeithiaf ei gyflwyno'n fuan ar ôl y flwyddyn newydd ac i weld a oes pwerau ar gael inni, y gallem eu defnyddio, o safbwynt iechyd y cyhoedd, i atgyfnerthu dylanwad safonau masnach wrth ddelio â'r union faterion hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Trafodaethau â Swyddogion y Gyfraith

Questions to the Counsel General

Discussions with Law Officers

14:15 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda Swyddogion y Gyfraith ynglyn ag Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006? OAQ(4)0053(CG)

1. What discussions has the Counsel General had with Law Officers with regards to Schedule 7 of the Government of Wales Act 2006? OAQ(4)0053(CG)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Theodore Huckle**

Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General

Good afternoon, everyone. As I have previously mentioned, it is not my intention to make statements about discussions that I have had with UK law officers or to disclose the content of such discussions. This is an established convention designed to preserve the integrity of those discussions and the relationship between law officers.

Prynhawn da, bawb. Fel y crybwyllais yn flaenorol, ni fwiadaf wneud datganiadau am y trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda swyddogion cyfraith y DU na datgelu cynnwys trafodaethau o'r fath. Mae hwn yn gonfensiwn sefydledig a gynlluniwyd i gynnal uniondeb y trafodaethau hynny a'r gydberthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr unig ffordd rwy'n gallu eich cael i ddod yma bob yn hyn a hyn, Gwnsler, yw drwy ofyn cwestiwn o'r fath, ac felly dyna'r fformat rydym ni'n gorfod mynd drwyddo.

Wythnos nesaf byddwn yn trafod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Trosedd a Phlisma). Fel y gwyddoch, mae'r Bil hwn yn newid Atodlen 7, sy'n nodi hawliau deddfu'r Cynulliad hwn, a hynny heb ganiatâd na thrafodaeth gyda'r lle hwn. Dylai fod gan bob Aelod Cynulliad ddiddordeb mewn gwybod hynny. A yw'r Llywodraeth yn cytuno bod hwn yn gam peryglus yn gyfansoddiadol a pha drafodaethau yr ydych yn eu cynnal i sicrhau nad oes ymyrraeth â setliad cyfansoddiadol a dderbyniodd sêl bendith refferendwm, heb ganiatâd y Cynulliad ei hun?

The only way that I can get you to come here every now and again, Counsel General, is through asking such a question, and therefore that is the format that we have to go through.

Next week we will be discussing the legislative consent motion on the Anti-Social Behaviour (Crime and Policing) Bill. As you will know, this Bill changes Schedule 7, which states the legislative rights of the Assembly, without permission or discussion with this place. It should be of interest to all Assembly Members to know that. Does the Government agree that this is a constitutionally dangerous step and what discussions are you having to ensure that there is no intervention in the constitutional settlement that was supported in a referendum, without the permission of the Assembly?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:16 **Theodore Huckle**

As the Member may know, there has been discussion and correspondence between the UK Government and the Welsh Government on this matter. It would not be appropriate for me to comment very much upon it, although it is a fairly well-established position that the Government has taken that the proposed amendment does reduce the competence of the Assembly, and therefore is resisted. Accordingly, the legislative consent motion is required and has already been laid.

Fel y gwyr yr Aelod o bosibl, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod ac yn gohebu ynghylch y mater hwn. Ni fyddai'n briodol imi ddweud llawer yn ei gylch, er mai safbwynt gweddol gadarn y Llywodraeth yw bod y gweliant arfaethedig yn lleihau cymhwysedd y Cynulliad, ac felly caiff ei wrthod. Yn unol â hynny, mae angen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac mae eisoes wedi ei osod.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:17 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Counsel General, as I mentioned when we last had a question session, I raised with the Attorney-General in correspondence the issue of clarifying the criteria that are used by the Attorney-General when choosing whether or not to challenge Welsh legislation in the Supreme Court—what the public interest criteria might be. I have not yet had a response. Do you agree, Counsel General, that it would be helpful if the UK Government or the Attorney-General were to publish a statement that, at least, gives clarity to members of the public as to what those criteria might be?

Gwnsler Cyffredinol, fel y soniais yn ystod ein sesiwn cwestiynau diwethaf, codais mewn gohebiaeth â'r Twrnai Cyffredinol y mater yn ymwneud ag egluro'r meini prawf a ddefnyddir gan y Twrnai Cyffredinol wrth ddewis p'un a ddylid herio deddfwriaeth Gymreig yn y Goruchaf Lys ai peidio—yr hyn y gallai'r meini prawf ar gyfer budd y cyhoedd fod. Nid wyf wedi cael ymateb eto. A gytunwch, Gwnsler Cyffredinol, y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth y DU neu'r Twrnai Cyffredinol yn cyhoeddi datganiad sydd, o leiaf, yn rhoi eglurder i'r cyhoedd ynghylch y meini prawf hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:17 **Theodore Huckle**

Thank you very much for the question. I think that, if I may, I will resist the temptation to tell the Attorney-General what he should and should not do, although perhaps I can put it in this way: it is a matter of some concern that a Member of the Assembly has not received a response to a request like that, which seems to me to be a perfectly legitimate request, given that the Bills of this Assembly are subject to reference either by me or the Attorney-General. I will certainly look at considering who the appropriate person to take that up with the Attorney-General is and perhaps respond appropriately in due course.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn. Credaf, os caf, y byddaf yn ymwrthod â'r demtasiwn i ddweud wrth y Twrnai Cyffredinol yr hyn y dylai ac na ddylai ei wneud, ond efallai y gallaf ei egluro fel hyn: mae'n peri cryn bryder nad yw Aelod o'r Cynulliad wedi cael ymateb i gais o'r fath, yr ymddengys imi ei fod yn gais cwbl ddilys, o gofio bod Biliau'r Cynulliad hwn yn ddarostyngedig i gael eu cyfeirio naill ai gennyf i neu'r Twrnai Cyffredinol. Byddaf yn sicr yn ystyried pwy yw'r unigolyn priodol i godi hynny gyda'r Twrnai Cyffredinol ac efallai'n ymateb yn briodol maes o law.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Does the Counsel General agree that, at the moment, a lot of time and energy is spent discussing whether a matter is devolved or not and does he not think that we should move as soon as possible to a reserved-powers model so that we do not have this continuous debate?

A yw'r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno bod llawer o amser ac egni yn cael ei dreulio ar hyn o bryd yn trafod a yw mater wedi ei ddatganoli ai peidio ac onid yw'n credu y dylem newid cyn gynted â phosibl i fodel pwerau a gadwyd yn ôl er mwyn osgoi'r ddadl barhaus hon?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Theodore Huckle**

As the Member will know and as Members will know, it is the very firm position of the Welsh Government that we should move to a reserved-powers model, which, it is generally thought, will ease those issues somewhat. That does not, of course, remove the potential problem, because, whether you define devolution in terms of everything being devolved that is not reserved or in terms of specific matters being devolved, you still can have the issue as to where the boundary lies, as the Minister for health just pointed out in relation to a health matter. There will be issues that can or have to be resolved, whether they are resolved politically, as was urged in a debate in the House of Lords recently, or by reference to the Supreme Court, are matters that have to be approached on a case-by-case basis, it seems to me.

Fel y gŵyr yr Aelod a'r Aelodau, safbwynt cadarn iawn Llywodraeth Cymru yw y dylem newid i fodel pwerau a gadwyd yn ôl, y credir yn gyffredinol y bydd yn mynd i'r afael â'r materion hynny i ryw raddau. Nid yw hynny, wrth gwrs, yn dileu'r broblem bosibl, oherwydd, p'un a ydych yn diffinio datganoli yn nhermau popeth yn cael ei ddatganoli nas cadwyd yn ôl neu yn nhermau materion penodol yn cael eu datganoli, gall y mater ynghylch ble mae'r ffin barhau, fel y mae'r Gweinidog iechyd newydd ei nodi mewn perthynas â mater iechyd. Bydd materion y gellir neu y mae'n rhaid eu datrys, p'un a gânt eu datrys yn wleidyddol, fel yr anogwyd mewn dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi yn ddiweddar, neu drwy eu cyfeirio at y Goruchaf Lys, a bydd yn rhaid, hyd y gwelaf, ymdrin â hwy fesul achos.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Grant Cymunedau yn Gyntaf

Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

Communities First Grant

14:19 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa drefniadau sydd mewn lle i fesur llwyddiant y grant Cymunedau yn Gyntaf ychwanegol a roddwyd yn ddiweddar i wella cyrhaeddiad mewn ysgolion?
OAQ(4)0107(CTP)

1. What arrangements are in place to measure the success of the additional Communities First grant that was given recently to improve attainment in schools?
OAQ(4)0107(CTP)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:20 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I thank the Member for the question. Applications for Communities First pupil deprivation grant match funding were prepared using the Communities First outcomes framework. Using this framework to measure progress, grant recipients will be required to report quarterly on how communities and schools are working together to improve outcomes for young people who live in poverty.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Paratowyd ceisiadau am arian cyfatebol grant amddifadedd disgyblion Cymunedau yn Gyntaf gan ddefnyddio fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf. Gan ddefnyddio'r fframwaith hwn i fesur cynnydd, bydd gofyn i'r rhai sy'n cael y grant adrodd yn chwarterol ar sut y mae cymunedau ac ysgolion yn cydweithio i wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n byw mewn tldi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:20 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As far as the PDG itself is concerned, schools are required to publish that information on their school website. How will this quality information be made available for Members, given that during the Children and Young People Committee this morning many of us were concerned about how the effectiveness of previous strategies, such as this, succeeded or otherwise?

O safbwynt y Grant Amddifadedd Disgyblion ei hun, mae'n ofynnol i ysgolion gyhoeddi'r wybodaeth honno ar wefan eu hysgol. Ar ba ffurf y bydd y wybodaeth hon o ansawdd ar gael i Aelodau, o gofio, yn ystod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y bore yma, bod llawer ohonom yn pryderu ynghylch effeithiolrwydd strategaethau blaenorol tebyg?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:20 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I realised from the debate yesterday on the Children's Commissioner for Wales's report that the Member has a particular concern about reporting arrangements and transparency. Matters to do with reporting on the pupil deprivation grant are matters for the Minister for Education and Skills. Officials will be reported to, and they will inform me on the regular basis of progress. I will look at ways of making that information more publicly available.

Sylweddolais o'r drafodaeth ddoe ar adroddiad Comisiynydd Plant Cymru bod yr Aelod yn pryderu'n benodol am y trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau a'u tryloywder. Materion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yw materion sy'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ar y grant amddifadedd disgyblion. Bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i swyddogion, a byddant yn rhoi gwybod imi am y cynnydd a wneir yn rheolaidd. Byddaf yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael yn haws i'r cyhoedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:21	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>Learning and teaching-focused interventions are one aspect of reducing the poverty attainment gap, and the other aspect is student, family and community-focused interventions, which have equal rate and merit. How is the Government developing programmes that focus on parental involvement, and what framework is in place to measure aspirations, attitudes and behaviours—the AAB-type outcomes?</p>	<p>Mae ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu yn un agwedd ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn perthynas â thlodi, a'r agwedd arall yw ymyriadau myfyrwyr, teuluoedd a chymunedol, sydd yr un mor werthfawr a theilwng. Sut mae'r Llywodraeth yn datblygu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gynnwys rhieni, a pha fframwaith sydd ar waith i fesur dyheadau, agweddau ac ymddygiadau—canlyniadau o fath AAB?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p>In terms of this funding, I have already mentioned that we are using the Communities First outcomes framework, which includes promoting family learning in the early years, supporting young people to do well at school, and supporting families to be engaged in their children's education. The specific criteria in terms of the match funding grant include improving community engagement in schools, supporting children to do well at school, supporting the transition between schools and—this is the crucial point in terms of your question—improving family engagement in their children's education.</p>	<p>O ran y cyllid hwn, rwyf eisoes wedi sôn ein bod yn defnyddio fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf, sy'n cynnwys hyrwyddo dysgu teuluol yn y blynyddoedd cynnar, cefnogi pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol, a chefnogi teuluoedd i gymryd rhan yn addysg eu plant. Mae'r meini prawf penodol o ran y grant arian cyfatebol yn cynnwys gwell ymgysylltu â'r gymuned mewn ysgolion, cefnogi plant i wneud yn dda yn yr ysgol, cefnogi'r cyfnod pontio rhwng ysgolion ac hefyd—dyma'r pwynt allweddol o ran eich cwestiwn—gwella ymgysylltiad teuluoedd yn addysg eu plant.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Do you agree with me, Minister, that at a time of declining public resources available that our anti-poverty work has to demonstrate value for money? In that regard it is encouraging that the Government has decided that the pupil deprivation grant will be subject to rigorous appraisal, such as the appraisal recently undergone in terms of Flying Start. Will you undertake to use the same tools of appraisal within your department to make sure that your match funding is just as rigorously appraised and evaluated as the main thrust of the pupil deprivation grant?</p>	<p>A ydych yn cytuno â mi, Weinidog, ar adeg lle mae'r adnoddau cyhoeddus sydd ar gael yn dirywio, bod yn rhaid i'n gwaith gwrthdlodi ddangos gwerth am arian? Yn hynny o beth, mae'n galonogol bod y Llywodraeth wedi penderfynu y bydd y grant amddifadedd disgyblion yn destun gwerthusiad trwyadl, megis yr arfarniad a gynhaliwyd yn ddiweddar o ran Dechrau'n Deg. A wnewch chi ymrwymo i ddefnyddio'r un dulliau arfarnu yn eich adran i wneud yn siŵr bod eich arian cyfatebol yn cael ei arfarnu a'i werthuso yr un mor drwyadl fel prif fyrdwn y grant amddifadedd disgyblion?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:23	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for that, and I agree with the spirit of his question. As I have already said, the issue of the pupil deprivation grant itself is a matter for the Minister for Education and Skills. However, in terms of the Communities First match funding, this would be included in the evaluation of the Communities First programme overall, which is to be held in the first part of next year.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am hynny, a chytunaf ag ysbryd ei gwestiwn. Fel yr wyf eisoes wedi ei ddweud, mater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yw'r grant amddifadedd disgyblion ei hun. Fodd bynnag, o ran arian cyfatebol Cymunedau yn Gyntaf, byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn gyffredinol, sydd i'w gynnal yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn nesaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Budd-daliadau		Benefits	
14:23	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r nifer sy'n manteisio ar y budd-daliadau sydd ar gael i bobl yng Nghymru? OAQ(4)0103(CTP)</i></p>	<p><i>2. What assessment has the Minister made of the take-up of benefits available to people in Wales? OAQ(4)0103(CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:23 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Welfare payments are not devolved to the Welsh Government. Department for Work and Pensions information indicates that the proportion of those entitled to claim benefits is the same in Wales as it is in the UK. We have a commitment in the tackling poverty action plan to generate £8 million additional confirmed benefits per year through advice services.
- Nid yw taliadau lles wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi bod cyfran y rhai sydd â hawl i hawlio budd-daliadau yr un fath yng Nghymru ag y mae yn y DU. Mae gennym ymrwymiad yn y cynllun gweithredu ar drechu tlodi i gynhyrchu £8 miliwn o fudd-daliadau ychwanegol wedi'u cadarnhau bob blwyddyn drwy wasanaethau cynghori.
- 14:24 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to the Minister for his answer in terms of advice services. The Bevan Foundation states that the amount of unclaimed benefits in the United Kingdom is actually higher than the entire Welsh Government budget. The highest levels of underclaiming are among people in work, and many of them are likely to be in the public sector. Will the Minister do more to encourage public-sector employers, for example by putting inserts in employees' payslips with information about entitlement and running public awareness campaigns?
- Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb mewn perthynas â gwasanaethau cynghori. Mae Sefydliad Bevan yn nodi bod y swm o fudd-daliadau heb eu hawlio yn y Deyrnas Unedig yn uwch na chyllideb gyfan Llywodraeth Cymru a dweud y gwir. Roedd y lefelau uchaf o danhawlio ymysg pobl mewn gwaith, ac mae llawer ohonynt yn debygol o fod yn y sector cyhoeddus. A wnaiff y Gweinidog fwy i annog cyflogwyr sector cyhoeddus, er enghraifft drwy roi gwybodaeth am hawliadau mewn slipiau cyflog cyflogaion a chynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd?
- 14:24 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that question. Indeed, the Joseph Rowntree Foundation has established that the greatest poverty in Wales is for those in work and on low pay. I accept your point about urging the public services to encourage greater take-up of benefits. That is one of the reasons, of course, why we have put an extra £2 million into the review of advice services in Wales to make sure that such advice is properly co-ordinated and delivered.
- Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn hwnnw. Yn wir, mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi cadarnhau mai pobl sydd mewn gwaith ac ar gyflog isel sy'n wynebu'r tlodi mwyaf yng Nghymru. Derbyniaf eich pwynt am roi pwysau ar y gwasanaethau cyhoeddus i annog mwy o bobl i gael budd-daliadau. Wrth gwrs, dyna un o'r rhesymau pam rydym wedi rhoi £2 filiwn ychwanegol i mewn i'r gwaith o adolygu gwasanaethau cynghori yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyngor o'r fath yn ei gydgyssylltu a'i gyflwyno'n briodol.
- 14:25 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, we know that disabled people are really suffering as a result of the Atos-run work capability assessment, which has a high level of inaccuracy. We also know that the vast majority of appeals against assessment are successful, if people are given the right guidance through the appeals process. Given the potential savings to the health service from ensuring that disabled people are not destitute, will the Minister work with the Minister for health to ensure that GPs are aware of the welfare rights services that are available and are therefore able to signpost patients to those services?
- Weinidog, gwyddom fod pobl anabl wir yn dioddef o ganlyniad i'r asesiadau o'r gallu i weithio a gynhelir gan Atos, sy'n dra anghywir. Gwyddom hefyd fod y mwyafrif helaeth o apeladau yn erbyn asesiadau yn llwyddiannus, os yw pobl yn cael yr arweiniad cywir drwy'r broses apelio. O ystyried yr arbedion posibl i'r gwasanaeth iechyd drwy sicrhau nad yw pobl anabl yn ddiymgeledd, bydd y Gweinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd i sicrhau bod meddygon teulu yn ymwybodol o'r gwasanaethau hawliau lles sydd ar gael ac felly'n gallu cyfeirio cleifion at y gwasanaethau hynny?
- 14:25 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I am keen to work with all Ministers to ensure that those vulnerable people who need advice and support can get it. I will certainly raise that matter with my colleague the Minister for Health and Social Services. You are quite right in terms of your comment about Atos and we note that the Department for Work and Pensions is going to bring in additional providers to carry out work capability assessments and we will be watching that very carefully indeed.
- Ydw, rwy'n awyddus i weithio gyda phob Gweinidog er mwyn sicrhau bod y bobl hynny sy'n agored i niwed y mae angen cyngor a chymorth arnynt yn ei gael. Byddaf yn sicrhau codi'r mater hwnnw gyda'm cyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydych yn llygad eich lle o ran eich sylw am Atos a nodwn fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn mynd i gyflwyno darparwyr ychwanegol er mwyn cynnal asesiadau gallu i weithio a byddwn yn cadw llygad manwl ar hynny.

14:26 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, a diagnosis of cancer is not only devastating physically and mentally but can be financially devastating, too. What is the Government doing to ensure that those with a diagnosis of cancer have access to condition-specific welfare advice to ensure that they and their families are getting all the financial support to which they are entitled?

Weinidog, yn ogystal â bod yn ddinistriol yn gorfforol ac yn feddyliol, gall diagnosis o ganser fod yn ddinistriol yn ariannol, hefyd. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod y sawl sydd wedi cael diagnosis o ganser yn gallu manteisio ar gyngor lles sy'n benodol ar gyfer eu cyflwr er mwyn sicrhau eu bod hwy a'u teuluoedd yn cael yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo?

14:26 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will discuss that matter with the Minister for Health and Social Services, but it is something that I take very seriously. It was 26 years ago that I was diagnosed with cancer, and I can understand from that very direct experience the shattering effect that it can have on families.

Byddaf yn trafod y mater hwnnw gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ond mae'n rhywbeth yr wyf yn ei gymryd o ddifrif. Cefais i ddiagnosis o ganser 26 mlynedd yn ôl, a gallaf ddeall o'r profiad hynod uniongyrchol hwnnw yr effaith ysgytwol y gall ei chael ar deuluoedd.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Questions 3, OAQ(4)0104(CTP), and 4, OAQ(4)0099(CTP), are withdrawn.

Mae Cwestiynau 3, OAQ(4)0104(CTP), a 4, OAQ(4)0099(CTP), wedi cael eu tynnu'n ôl.

Llythrennedd Ariannol

Financial Literacy

14:26 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella llythrennedd ariannol mewn cymunedau yng Nghymru?* OAQ(4)0098(CTP)

5. *What is the Welsh Government doing to improve financial literacy in Welsh communities?* OAQ(4)0098(CTP)

14:27 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Government takes the issue of financial literacy seriously. In September, it became a statutory requirement for this to be included within the school curriculum through the numeracy framework. Much good work is also carried out by our partners in the third sector, around debt advice and financial capability.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd llythrennedd ariannol o ddifrif. Ym mis Medi, daeth yn ofyniad statudol i hyn gael ei gynnwys yng nghwricwlwm yr ysgol drwy'r fframwaith rhifedd. Mae llawer o waith da hefyd yn cael ei wneud gan ein partneriaid yn y trydydd sector, mewn perthynas â chyngor ar ddyledion a gallu ariannol.

14:27 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In Wales, about 1.2 million people have used a store or credit card to pay for items because of insufficient funds. More worryingly, 4% of people in Wales—around 92,000 people—have used the services of pay-day loan companies. I welcome the Bill that my colleague Bethan Jenkins AM is bringing forward because it is widely known now that we have a vicious cycle of financial illiteracy that needs to be broken. The Money for Life Challenge training scheme delivered by ColegauCymru and the National Training Federation and sponsored by Lloyds provides young people with skills to learn how to manage their money. What action is your department taking to further promote financial literacy initiatives for young people in our communities?

Yng Nghymru, mae tua 1.2 miliwn o bobl wedi defnyddio cerdyn siop neu gerdyn credyd i dalu am eitemau oherwydd diffyg arian. Yn fwy pryderus, mae 4% o bobl yng Nghymru—tua 92,000 o bobl—wedi defnyddio gwasanaethau cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog. Croesawaf y Bil y mae fy nghyd-Aelod Bethan Jenkins AC yn ei gyflwyno oherwydd mae'n hysbys iawn bellach bod gennym gylch dieffig o anlythrennedd ariannol y mae angen ei dorri. Mae'r cynllun hyfforddi Her Arian am Oes a ddarperir gan ColegauCymru a'r Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol ac a noddir gan Lloyds yn rhoi sgiliau i bobl ifanc allu dysgu sut i reoli eu harian. Pa gamau y mae eich adran yn eu cymryd i hyrwyddo mentrau llythrennedd ariannol i bobl ifanc yn ein cymunedau ymhellach?

- 14:28 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You covered a number of points in that question. I will be meeting with representatives of the pay-day loan companies within the next couple of weeks, and I think that that meeting will be rather frank, if not robust. I had a meeting with the Archbishop of Wales, Dr Barry Morgan, last week to discuss mutual support for credit unions and better ways for people to borrow money.
- Gwnaethoch gwmpasu nifer o bwyntiau yn y cwestiwn hwnnw. Byddaf yn cyfarfod â chynrychiolwyr o'r cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog o fewn yr ychydig wythnosau nesaf, a chredaf y bydd y cyfarfod hwnnw'n onest, os nad yn gadarn. Cefais gyfarfod gydag Archesgob Cymru, Dr Barry Morgan, yr wythnos diwethaf i drafod gydgfegnogaeth i undebau credyd a gwell ffyrdd i bobl gael benthycy arian.
- In terms of your final point, I can tell you that we are supporting Citizens Advice Cymru, which holds the prime contract for delivering face-to-face money advice sessions, and many other third sector organisations delivering advice. That includes the Better Advice, Better Lives initiative, or BABL, which is about making sure that people have the right levels of information so that they, hopefully, do not get into debt in the first place.
- O ran eich pwynt olaf, gallaf ddweud wrthyhych ein bod yn cefnogi Cyngor ar Bopeth Cymru, sydd â'r prif gontract ar gyfer cyflwyno sesiynau cyngor ariannol wyneb-yn-wyneb, a llawer o sefydliadau eraill yn y trydydd sector sy'n rhoi cyngor. Mae hynny'n cynnwys y fenter Cyngor Da, Byw'n Well, sy'n ymwneud â sicrhau bod pobl yn cael y lefelau cywir o wybodaeth er mwyn iddynt, gobeithio, beidio â mynd i ddyled yn y lle cyntaf.
- 14:29 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, it was interesting to hear your response to Janet Finch-Saunders. Given that you are meeting pay-day loan representatives, could you bring a statement to us to tell us what you said and what they said about how we can put more measures in place in our communities? From what I can see, there is a lot of good practice out there, but, much like the anti-poverty agenda, many people are working alone. We need to be measuring what these organisations are doing to help target the way in which debt companies are targeting vulnerable people in society. So, I would welcome a discussion about that at a later date.
- Weinidog, roedd yn ddi-ddorol clywed eich ymateb i Janet Finch-Saunders. O ystyried eich bod yn cwrdd â chynrychiolwyr benthyciadau diwrnod cyflog, a allech roi datganiad inni i ddweud wrthym beth y gwnaethoch chi ei ddweud a beth y gwnaethant hwy ei ddweud ynghylch sut y gallwn sefydlu mwy o fesurau yn ein cymunedau? O'r hyn a welaf i, mae llawer o arfer da yn bodoli, ond, yn debyg iawn i'r agenda gwrthdlodi, mae llawer o bobl yn gweithio'n annibynnol. Mae angen inni fesur yr hyn y mae'r sefydliadau hyn yn ei wneud er mwyn helpu i dargedu'r ffordd y mae cwmnïau dyled yn targedu pobl sy'n agored i niwed mewn cymdeithas. Felly, byddwn yn croesawu trafodaeth ar hynny yn y dyfodol.
- 14:29 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I would be very happy to issue a statement once I have had that meeting and then to have discussions on this issue, which I expect that we will have in any event.
- Byddwn yn hapus iawn i gyhoeddi datganiad unwaith y byddaf wedi cael y cyfarfod hwnnw ac yna gynnal trafodaethau ar y mater hwn, y disgwyliaf y byddant yn gyfnewid beth bynnag.
- 14:30 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I welcome the work that is being done to promote financial literacy in our schools and the good practice that we see for those people who have fallen into debt. However, what is the Welsh Government doing to try to identify and target support to those people who are at risk of problems with debt but who have not yet fallen into that trap?
- Weinidog, croesawaf y gwaith a wneir i hyrwyddo llythrennedd ariannol yn ein hysgolion a'r arfer da a welwn ar gyfer y bobl hynny sydd mewn dyled. Fodd bynnag, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i geisio nodi a thargedu cymorth i'r bobl hynny sydd mewn perygl o gael problemau gyda dyled, ond nad ydynt wedi syrthio i'r fagl honno eto?
- 14:30 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As I said in my response to Janet Finch-Saunders, we are funding Citizens Advice Cymru to provide the benefits take-up scheme, Better Advice: Better Lives, which encourages benefits maximisation, which is a way of helping to reduce debt; and providing an extra £2 million to the review of advice services in order that they can work with vulnerable people to prevent them from slipping into serious debt situations.
- Fel y dywedais yn fy ateb i Janet Finch-Saunders, rydym yn ariannu Cyngor ar Bopeth Cymru i gyflwyno'r cynllun hyrwyddo budd-daliadau, Cyngor Da: Byw'n Well, sy'n annog cymaint o bobl â phosibl i fanteisio ar fudd-daliadau, sy'n ffordd o helpu i leihau dyled; a darparu £2 miliwn ychwanegol tuag at y gwaith o adolygu gwasanaethau cyngor er mwyn iddynt allu gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed i'w hatal rhag llithro i ddyled ddifrifol.

Grant Cymorth i Gyflogwyr

Employer Support Grant

- 14:30 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
6. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd y Grant Cymorth i Gyflogwyr wrth gynorthwyo cyn-weithwyr Remplo yn ôl i waith? OAQ(4)0101(CTP)*
6. *Will the Minister make a statement on the effectiveness of the Employer Support Grant in supporting ex Remplo employees back into work? OAQ(4)0101(CTP)*
- 14:31 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- So far, 193 people have been supported into jobs through employer support grant supported job starts. At Baglan, as elsewhere, my officials are working with Jobcentre Plus and local authority officers to support staff, many of whom have already been offered support into employment via the ESG.
- Hyd yma, mae 193 o bobl wedi cael cymorth i gael swyddi drwy gynlluniau dechrau swyddi a gefnogir gan y cynllun grant cymorth i gyflogwyr. Ym Maglan, fel mewn manau eraill, mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith a swyddogion yr awdurdod lleol i gefnogi staff, y mae llawer ohonynt eisoes wedi cael cynnig cymorth i gael gwaith drwy'r cynllun grant cymorth i gyflogwyr.
- 14:31 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. Will you join me in congratulating several ex-Remplo employees from the furniture business in Baglan who, with the help of the Welsh Government's ESG, have established a new business in my constituency? As you have also seen, in the Rhondda constituency of Leighton Andrews, the ESG is giving new hope and opportunities to disabled people who are made redundant following the decision of the Tories and the Department for Work and Pensions to shut down Remplo across the UK. However, there are still many who have not yet gained employment and, with the Baglan factory having just closed, will the Welsh Government look to extend the ESG beyond March 2014 to provide greater opportunities for ex-employees from phase 2 seeking work to have the benefit of that support?
- Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. A ymunwch â mi i longyfarch nifer o gyn-weithwyr Remplo o'r busnes dodrefn ym Maglan sydd, gyda chymorth cynllun grant cymorth i gyflogwyr Llywodraeth Cymru, wedi sefydlu busnes newydd yn fy etholaeth? Fel rydych hefyd wedi gweld, yn etholaeth Leighton Andrews yn y Rhondda, mae'r cynllun grant cymorth i gyflogwyr yn rhoi gobaieth a chyfleoedd newydd i bobl anabl a gafodd eu diswyddo yn dilyn penderfyniad y Toriaid a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gau Remplo ledled y DU. Fodd bynnag, mae yna lawer o hyd nad ydynt wedi cael gwaith eto a, gyda'r ffatri ym Maglan newydd gau, a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn y cynllun cymorth grant i gyflogwyr ar ôl mis Mawrth 2014 i roi mwy o gyfleoedd i gyn-weithwyr o gam 2 sy'n chwilio am waith allu manteisio ar y cymorth hwnnw?
- 14:32 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- In terms of the specific issue of the Baglan factory within your constituency, I will be very happy to meet you to look at these matters further. What I can say, however, is that the deadline of 31 March is for the ESG applications—that is, for companies to apply to the fund. The actual recruitment of ex-Remplo employees can take place a little later. They will still have the six months' funding, so maybe the situation is not as urgent as you might think. Nevertheless, I am very happy to meet you and discuss these matters further.
- O ran mater penodol y ffatri ym Maglan yn eich etholaeth, byddaf yn barod iawn i gyfarfod â chi i edrych ar y materion hyn ymhellach. Yr hyn y gallaf ei ddweud, fodd bynnag, yw bod y dyddiad cau, sef 31 Mawrth ar gyfer y ceisiadau am y cynllun grant cymorth i gyflogwyr—hynny yw, i gwmnïau wneud cais i'r gronfa. Gall y broses o recriwtio cyn-weithwyr Remplo ddigwydd ychydig yn ddiweddarach. Byddant yn dal i gael y cyllid am chwe mis, felly efallai nad yw'r sefyllfa mor daer ag y byddech yn ei feddwl. Serch hynny, rwy'n barod iawn i gwrdd â chi i drafod y materion hyn ymhellach.
- 14:32 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, Remplo closures started in 2008 and what is important is that we provide support for the people who have been affected by that. Would you also consider meeting, or having a dialogue with, Enterprising Employment Wrexham, which was set up, with Wrexham County Borough Council and with support from the Welsh Government and DWP, to provide employment opportunities for former Remplo employees in Wrexham, to consider how it can go forward and develop contracts that can make those jobs sustainable?
- Wrth gwrs, dechreuodd Remplo gau yn 2008 a'r hyn sy'n bwysig yw ein bod yn rhoi cymorth i bobl y mae hynny wedi effeithio arnynt. A fyddech hefyd yn ystyried cwrdd, neu gael sgwrs gydag, Enterprising Employment Wrexham, a sefydlwyd, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a DWP, i roi cyfleoedd cyflogaeth i gyn-weithwyr Remplo yn Wrecsam, i ystyried y camau nesaf i'w cymryd ac i ddatblygu contractau a all wneud y swyddi hynny yn gynaliadwy?

- 14:34 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The situation is ongoing in Wrexham in terms of Enterprising Employment Wrexham Limited, so I have to be careful about what I say on this matter. We understand that there are compliance issues involved, although that has yet to be established fully. We understand that Wrexham County Council may have instigated legal action to recover outstanding rent from the business. However, I cannot say much more than that at this point.
- Mae'r sefyllfa yn mynd rhagddi o hyd yn Wrexham o ran Enterprising Employment Wrexham Limited, felly rhaid imi fod yn ofalus am yr hyn yr wyf yn ei ddweud am y mater hwn. Deallwn fod materion cydymffurfio'n bodoli, er nad yw hynny wedi'i sefydlu'n llawn eto. Deallwn y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham fod wedi cychwyn camau cyfreithiol i adennill rhent sy'n ddyledus gan y busnes. Fodd bynnag, ni allaf ddweud llawer mwy na hynny ar hyn o bryd.
- 14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You are the spokesperson today, are you not? Chi yw'r llefarydd heddiw, onid e?
- 14:34 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I can understand the commercial sensitivity that you are referring to, but one of the opportunities is to develop potential markets with other commissioners such as other local authorities, housing associations and transfer associations. Without overstepping the role that the Welsh Government can play in such matters, how can it further develop the understanding of those organisations of the way in which community benefit clauses can be used when considering tenders for projects such as the means to deliver home improvements in local authority properties?
- Ie. Gallaf ddeall y sensitifwydd masnachol yr ydych yn cyfeirio ato, ond un o'r cyfleoedd yw datblygu marchnadoedd posibl gyda chomisiynwyr eraill megis awdurdodau lleol eraill, cymdeithasau tai a chymdeithasau trosglwyddo. Heb fynd y tu hwnt i'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae mewn materion o'r fath, sut y gall ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth y sefydliadau hynny o'r ffordd y gellir defnyddio cymalau budd cymunedol wrth ystyried tendrau ar gyfer prosiectau fel y modd i gyflawni gwelliannau cartref mewn eiddo awdurdodau lleol?
- 14:34 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You are coming to issues of procurement in terms of social clauses, and that is very much a matter for my colleague, the Minister for Finance. However, my officials will hold many events across Wales, and have done so already, and we will continue to do so. This makes it clear to interested employers about not just the issue of the ESG but the sorts of ways in which they can provide training opportunities for disabled workers, which, of course, would include Remploy staff. Therefore, that process is already under way, and is quite well established.
- Rydych yn dechrau sôn am faterion caffael o ran cymalau cymdeithasol, ac mae hynny'n sicr yn fater ar gyfer fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyllid. Fodd bynnag, bydd fy swyddogion yn cynnal nifer o ddiwyddiadau ledled Cymru, ac maent wedi gwneud hynny eisoes, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae hyn yn egluro'r cynllun grant cymorth i gyflogwyr i'r rhai sydd â diddordeb yn ogystal â'r ffyrdd gwahanol y gallant ddarparu cyfleoedd hyfforddi i weithwyr anabl, a fyddai, wrth gwrs, yn cynnwys staff Remploy. Felly, mae'r broses honno eisoes ar y gweill, ac yn mynd rhagddi'n eithaf da.
- 14:35 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Caewyd ffatrioedd Remploy gan y Llywodraeth Lafur flaenorol—gyda Peter Hain, rwy'n credu, wrth y llyw—a chan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan. O'r holl weithwyr sydd wedi colli eu gwaith o dan y ddau gyhoeddiad hynny, faint ohonynt sydd yn dal i fod heb waith?
- The Remploy factories were closed by the previous Labour Government—Peter Hain, I believe, was in charge—and by the coalition Government in Westminster. Of all the workers who lost their jobs following those two announcements, how many are still unemployed?
- 14:35 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As I said at the beginning, 193 people have been employed under the ESG. Quite a few took the opportunity to retire and are therefore not looking for other employment. However, we understand that the numbers who may want to take advantage of our ESG are now quite small, and the position is as good as we can make it in that regard. However, I will write to you with details of the actual numbers that remain unemployed.
- Fel y dywedais ar y dechrau, mae 193 o bobl wedi cael eu cyflogi o dan y cynllun grant cymorth i gyflogwr. Cymerodd cryn dipyn y cyfle i ymddeol ac felly nid ydynt yn chwilio am waith arall. Fodd bynnag, deallwn fod y niferoedd a all fod am fanteisio ar ein cynllun grant cymorth i gyflogwyr bellach yn eithaf bach, ac mae'r sefyllfa cystal ag y gallwn ei gyflawni yn hynny o beth. Fodd bynnag, ysgrifennaf atoch gyda manylion y niferoedd gwirioneddol sy'n ddi-waith o hyd.
- 14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 7, OAQ(4)0091(CTP), is withdrawn. Question 8, OAQ(4)0089(CTP), will not be asked. Tynnwyd Cwestiwn 7, OAQ(4)0091(CTP), yn ôl. Ni chaiff Cwestiwn 8, OAQ(4)0089(CTP), ei ofyn.

Cymunedau yn Gyntaf

Communities First

14:36 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Cymunedau yn Gyntaf o ran cynorthwyo pobl ifanc i gael gwaith? OAQ(4)0090(CTP)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

9. Will the Minister make a statement on the role of Communities First in assisting young people into work? OAQ(4)0090(CTP)

14:36 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank the Member for that question. Communities First clusters play a major role in engaging young people, in developing their employability, and in supporting them into work. The programme is working closely with other key Welsh Government programmes, such as Jobs Growth Wales. I recently announced 750 additional Jobs Growth Wales employment opportunities specifically for young people from Communities First clusters.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn chwarae rôl bwysig wrth ymgysylltu â phobl ifanc, datblygu eu cyflogadwyedd, a'u cynorthwyo i gael gwaith. Mae'r rhaglen yn gweithio'n agos gyda rhaglenni allweddol eraill gan Lywodraeth Cymru, megis Twf Swyddi Cymru. Yn ddiweddar, cyhoeddais 750 o gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol gan Twf Swyddi Cymru yn benodol ar gyfer pobl ifanc o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

14:37 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you. Minister, many communities across Wales are currently experiencing high levels of unemployment. The lower Cynon Valley Communities First cluster, in my constituency, is tackling this head on, by providing regular employability and skills training for young and old alike, and expert help is available on CV writing and putting together a job application. Between February and October this year, its highly successful job club has supported 280 local people, resulting in 83 people entering employment. Would you therefore agree, Minister, that, in the face of the actions of the Tory-led UK Government—which are having such a damaging effect on communities across Wales—it is initiatives such as Welsh Labour's flagship Communities First programme that are supporting and assisting people back into work?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch. Weinidog, mae lefelau uchel o ddiweithdra mewn llawer o gymunedau ledled Cymru ar hyn o bryd. Mae clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Cwm Cynon, yn fy etholaeth i, yn mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol, drwy gynnig hyfforddiant cyflogadwyedd a sgiliau rheolaidd i bobl hen ac ifanc fel ei gilydd, ac mae help arbenigol ar gael ar ysgrifennu CVs a gwneud cais am swydd. Rhwng mis Chwefror a mis Hydref eleni, mae ei glwb swyddi hynod lwyddiannus wedi cefnogi 280 o bobl leol, gan arwain at sicrhau swyddi i 83 o bobl. A fydddech yn cytuno felly, Weinidog, o ystyried gweithredoedd Llywodraeth y DU dan arweiniad y Toriaid—sy'n cael effaith mor niweidiol ar gymunedau ledled Cymru—mai mentrau fel rhaglen flaenllaw Cymunedau yn Gyntaf Llafur Cymru sy'n cefnogi ac yn cynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gwaith?

14:37 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, I agree fully with those sentiments. I am aware that the lower Cynon Valley Communities First cluster has supported 83 people back into work, and that is an excellent initiative. I trust that the methodology that it used will be cascaded across Wales. I quite agree that the Communities First programme is leading the way in tackling poverty in the most deprived communities, under these very difficult times. I look to it to help, and to work with us, in terms of guiding people, and supporting them back into work.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Ie, cytunaf yn llwyr â'r sylwadau hynny. Rwy'n ymwybodol bod clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Cwm Cynon isaf wedi cefnogi 83 o bobl i ddychwelyd i'r gwaith, ac mae honno'n fenter ardderchog. Hyderaf y caiff y fethodoleg a ddefnyddiodd ei rhaeadru ledled Cymru. Rwy'n cytuno bod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn arwain y ffordd wrth drechu tlodi yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, yn y cyfnod anodd hwn. Gofynnaf iddo helpu, ac i weithio gyda ni, o ran arwain pobl, a'u cefnogi i ddychwelyd i'r gwaith.

14:38 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, many job adverts and applications are now published online, and ensuring access to the internet is vital in helping young people into work and employment. Will you advise what progress has been made in increasing digital inclusion in Communities First areas in Wales?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Weinidog, mae llawer o hysbysebion swyddi a cheisiadau yn cael eu cyhoeddi ar-lein bellach, ac mae sicrhau mynediad at y rhyngwyd yn hanfodol wrth helpu pobl ifanc i gael gwaith a chyflogaeth. A nodwch pa gynnydd a wnaed o ran cynyddu cynhwysiant digidol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru?

- 14:38 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that question. Communities 2.0 is a scheme that we have launched and are fully supporting, which is being rolled out in Communities First areas. It is designed to provide training in the use of digital technologies, and to help to reduce the issue of digital exclusion.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae Cymunedau 2.0 yn gynllun yr ydym wedi ei lansio ac yr ydym yn ei gefnogi'n llwyr, sy'n cael ei gyflwyno mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae wedi ei gynllunio i roi hyfforddiant yn y defnydd o dechnolegau digidol, ac i helpu i leihau'r broblem o allgau digidol.
- 14:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.
- Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.
- 14:39 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rydych yn sôn am y cynlluniau hyn sydd gennych i gynorthwyo pobl ifanc yn benodol i ganfod cyfleoedd gwaith. Faint o bobl ifanc sy'n canfod gwaith ar ddiwedd y broses hon? Rydych wedi cyfeirio at rai ardaloedd, ond pa ganran o'r bobl sy'n dilyn y cynlluniau hyn sy'n canfod gwaith llawn amser ar ddiwedd y broses?
- Minister, you talk about the schemes that you have to assist young people specifically in gaining employment opportunities. How many young people actually find employment at the end of the process? You have referred to a few areas, but what percentage of the people on these schemes find full-time employment at the end of the process?
- 14:39 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Our main employability scheme for young people is, of course, Jobs Growth Wales. I believe that its success rate, in terms of successful outcomes, is 78%, which makes it the best employability scheme that has been in the UK, if not within Europe. The 750 places that I announced in response to the question earlier are additional places that will be directly under my portfolio. They will be focused on young people in our most disadvantaged communities, but while it may be a little bit of a hostage to fortune to say that we will get a 78% success rate, I anticipate that the success rate will be good. Indeed, we will also be having the tackling workless households project, which will provide 5,000 places between now and 2017, and I am looking to good methodologies there so that it is as successful as possible.
- Ein prif gynllun cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc, wrth gwrs, yw Twf Swyddi Cymru. Credaf fod ei gyfradd llwyddiant, o ran canlyniadau llwyddiannus, yn 78%, sy'n golygu mai dyma'r cynllun cyflogadwyedd gorau a gafwyd yn y DU, os nad yn Ewrop. Mae'r 750 o lefydd a gyhoeddais mewn ymateb i'r cwestiwn cynharach yn llefydd ychwanegol a fydd yn uniongyrchol o dan fy mhortffolio. Byddant yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ond er fy mod yn temtio ffawd braidd yn dweud y byddwn yn cael cyfradd llwyddiant o 78%, rhagwelaf y bydd y gyfradd llwyddiant yn dda. Yn wir, byddwn hefyd yn cynnal y prosiect mynd i'r afael ag aelwydydd heb waith, a fydd yn cynnig 5,000 o lefydd rhwng nawr a 2017, ac rwy'n gobeithio gweld methodolegau da yno er mwyn sicrhau y bydd mor llwyddiannus â phosibl.
- 14:40 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr am yr ateb, Weinidog. A wnech chi ymrwymo'r prynhawn yma i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol o'r cynlluniau yma ac yn ymwybodol o'r niferoedd sydd yn cael gwaith ar ddiwedd y broses? A allwch chi, wrth i chi ein hysbysu ni o hynny, roi manylion am y gwaith sydd yn cael ei gynnig? A ydyw'n waith llawn amser, parhaol?
- Thank you very much for that response, Minister. Will you make a commitment this afternoon to ensure that Assembly Members are aware of these schemes and are aware of the numbers who secure employment at the end of the process? As you inform us of that, can you also provide details of the jobs that are offered? Are they full-time, permanent jobs?
- 14:41 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I know that the figures for Jobs Growth Wales are made available. In terms of the further breakdown into the types of jobs, I will, obviously, consult with my colleague the Deputy Minister for Skills and Technology, as to how that can be done. I will report back accordingly.
- Gwn fod y ffigurau ar gyfer Twf Swyddi Cymru ar gael. O ran y dadansoddiad pellach i'r mathau o swyddi, byddaf, yn amlwg, yn ymgynghori â'm cyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ynghylch sut y gellir gwneud hynny. Byddaf yn adrodd yn ôl yn unol â hynny.
- 14:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:41	Peter Black Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer. Although Jobs Growth Wales is the Welsh Government's main way of getting young people into work, the Communities First scheme is an investment that you consider is helping them as well. Can you tell me exactly how much money has been invested from Communities First that has got people into work directly as a result of Communities First investment?	Diolch ichi, Lywydd. Er mai Twf Swyddi Cymru yw'r brif ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i gael pobl ifanc i mewn i waith, mae cynllun Cymunedau yn Gyntaf yn fuddsoddiad y credwch sy'n eu helpu hefyd. A allwch ddweud wrthyf faint yn union o arian sydd wedi'i fuddsoddi gan Gymunedau yn Gyntaf sydd wedi cael pobl i mewn i waith yn uniongyrchol o ganlyniad i fuddsoddiad Cymunedau yn Gyntaf?	Senedd.tv Fideo Video
14:41	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography I will need to write to the Member with that precise information.	Bydd angen imi ysgrifennu at yr Aelod gyda'r union wybodaeth honno.	Senedd.tv Fideo Video
14:42	Peter Black Bywgraffiad Biography Thank you for that, Minister. It would be useful if we had some performance statistics in relation to Communities First. You predecessor promised us those statistics, and we have not yet seen them. Can you let us know when exactly we will be seeing performance statistics so that we can assess how effective Communities First is, in terms of what you claim for it?	Diolch am hynny, Weinidog. Byddai'n ddefnyddiol pe bai gennym ystadegau perfformiad mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf. Addawodd eich rhagflaenydd roi'r ystadegau hynny inni, ac nid ydym wedi eu gweld eto. A allwch roi gwybod inni pryd yn union y byddwn yn gweld ystadegau perfformiad fel y gallwn asesu pa mor effeithiol yw Cymunedau yn Gyntaf, o ran yr hyn yr ydych yn ei honni?	Senedd.tv Fideo Video
14:42	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography As I said to an earlier question, the evaluation of the Communities First programme will be in the new year. Relevant figures will be collected there. I will ensure that that data is made available.	Fel y dywedais mewn perthynas â chwestiwn cynharach, bydd gwerthusiad y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn y fwyddyn newydd. Caiff y ffigurau perthnasol eu casglu yno. Byddaf yn sicrhau bod data ar gael.	Senedd.tv Fideo Video

Polisiau Mewnfudo'r DU

14:42	Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography <i>10. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU am oblygiadau polisiau mewnfudo'r DU i Gymru? OAQ(4)0095(CTP)</i>
14:42	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography I have not had discussions with the UK Government on the implication for Wales of its immigration policies. However, I am aware that the First Minister raised this issue during the joint ministerial committee plenary on 16 October.
14:42	Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography Thank you for that information, Minister. Perhaps you could update us on whether those discussions included overseas students, and perhaps you would take this opportunity to agree that the new rules are deterring international students, to the detriment of our universities in this country as well as to those students themselves.

UK Immigration Policies

10. What discussions has the Minister had with the UK Government on the implications for Wales of UK immigration policies? OAQ(4)0095(CTP)	Senedd.tv Fideo Video
Nid wyf wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau ei bolisiau mewnfudo i Gymru. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod y Prif Weinidog wedi codi'r mater hwn yn ystod cyfarfod llawn cydbwyllgor y gweinidogion ar 16 Hydref.	Senedd.tv Fideo Video
Diolch am y wybodaeth honno, Weinidog. Efallai y gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch p'un a oedd y trafodaethau hynny yn cynnwys myfyrwyr tramor, ac efallai y byddech yn cymryd y cyfle hwn i gytuno bod y rheolau newydd yn rhwystro myfyrwyr rhyngwladol, er anfantais i'n prifysgolion yn y wlad hon yn ogystal â'r myfyrwyr hynny eu hunain.	Senedd.tv Fideo Video

- 14:43 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I am aware of the issue, and we have concerns about many aspects of the UK Government's immigration policy, and that is one of them. In terms of the particular impact on higher education, I will speak with my colleague the Minister for Education and Skills to see if a statement can be made about the impact.
- Rwy'n ymwybodol o'r mater, ac rydym yn pryderu am sawl agwedd ar bolisi mewnfudo Llywodraeth y DU, ac mae hwn yn un ohonynt. O ran yr effaith benodol ar addysg uwch, byddaf yn siarad â'm cydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, i weld a oes modd cael datganiad ar yr effaith.
- 14:43 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that the Minister is aware of the University College London survey that said that recent immigrants are less likely to claim benefits and to live in social housing than people who are born in the UK. In view of that, does he not think that it is highly inappropriate that the Westminster Government is putting forward proposals such as the one that will mean that landlords in Wales will have to check the immigration status of potential tenants?
- Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r arolwg gan Goleg Prifysgol Llundain a ddywedodd bod mewnfudwyr diweddar yn llai tebygol o hawlio budd-daliadau ac o fyw mewn tai cymdeithasol na phobl sy'n cael eu geni yn y DU. O ystyried hynny, onid yw'n meddwl ei bod yn amhriodol iawn bod Llywodraeth San Steffan yn cyflwyno cynigion fel yr un a fydd yn golygu y bydd yn rhaid i landlordiaid yng Nghymru wirio statws mewnfudo darpar denantiaid?
- 14:44 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that question, and I share her sentiments. I am aware of the recent report by University College London, which said that, since 2000, immigrants have made a substantial contribution to public finances, and I share her concerns about the issue in terms of landlords. That is one of the reasons why my colleague the Minister for Housing and Regeneration has asked the UK Minister for Immigration for a period of grace in order to allow for further consideration.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw, a rhannaf ei theimladau. Rwy'n ymwybodol o'r adroddiad diweddar gan Goleg Prifysgol Llundain, a ddywedodd, ers 2000, fod mewnfudwyr wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gyllid cyhoeddus, a rhannaf ei phryderon am y mater o ran landlordiaid. Dyna un o'r rhesymau pam y mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Tai ac Adfywio, wedi gofyn i Weinidog y DU dros Mewnfudo am gyfnod o ras er mwyn rhoi amser i ystyried ymhellach.
- 14:44 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will be aware that faith groups can do a great deal of good in terms of supporting immigrants to help them integrate with local communities. I wonder what discussion you have had with faith communities about their work with immigrants in Wales.
- Weinidog, byddwch yn ymwybodol y gall grwpiau ffydd wneud llawer o ddaioni o ran cefnogi mewnfudwyr i'w helpu i integreiddio â chymunedau lleol. Tybed pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda chymunedau ffydd am eu gwaith gyda mewnfudwyr yng Nghymru.
- 14:45 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I share that point. Clearly, immigrants will look for support and comfort from people who share similar characteristics. I am the vice-chair of the faith forum and I chair the race forum. Therefore, these are matters that representatives of both faith and race groups have raised with me, and I will continue to discuss matters with them.
- Rhannaf y pwynt hwnnw. Yn amlwg, bydd mewnfudwyr yn chwilio am gymorth a chysur gan bobl sy'n rhannu nodweddion tebyg. Fi yw is-gadeirydd y fforwm ffydd a chadeirydd y fforwm hil. Felly, mae'r rhain yn faterion y mae cynrychiolwyr grwpiau ffydd a hil wedi codi gyda mi, a byddaf yn parhau i drafod materion gyda hwy.

Creu Cymunedau Cryf

- 14:45 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datganiad Creu Cymunedau Cryf a wnaeth yn gynharach yn y flwyddyn? OAQ(4)0105(CTP)

Building Resilient Communities

11. Will the Minister provide an update on the Building Resilient Communities statement he made earlier in the year? OAQ(4)0105(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty
The tackling poverty action plan, 'Building Resilient Communities', sets out targets and milestones in respect of key programmes to help tackle poverty. There is an implementation board to monitor progress against these targets. We have also engaged anti-poverty champions across every single local authority and I am meeting local health boards to help focus and combine our efforts to tackle poverty.
Mae'r cynllun gweithredu ar drechu tlodi, 'Creu Cymunedau Cryf', yn nodi targedau a cherrig milltir mewn perthynas â rhaglenni allweddol er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi. Mae bwrdd gweithredu er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn. Rydym hefyd wedi penodi hyrwyddwyr gwrthdlodi ar draws pob awdurdod lleol unigol a byddaf yn cwrrdd â byrddau iechyd lleol er mwyn helpu i ganolbwyntio a chyfuno ein hymdrechion i drechu tlodi.

14:46 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the Deputy Minister for that answer. In the statement, it was said that targets relating to digital inclusion would be reviewed in the near future. The digital inclusion targets included were reiterated from the 2011 digital inclusion delivery plan. They included targets such as extending digital inclusion to 80% of unemployed people and 70% of social housing residents. You have just mentioned the implementation plan relating to the policy; are you in any position to make an update on increasing those targets of digital inclusion and, if so, when?
Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Yn y datganiad, dywedwyd y byddai targedau sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol yn cael eu hadolygu yn y dyfodol agos. Mae'r targedau cynhwysiant digidol wedi'u cymryd o gynllun cyflenwi cynhwysiant digidol 2011. Roeddent yn cynnwys targedau megis ymestyn cynhwysiant digidol i 80% o bobl ddi-waith a 70% o drigolion tai cymdeithasol. Rydych newydd sôn am y cynllun gweithredu sy'n ymwneud â'r polisi; a ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gynyddu'r targedau cynhwysiant digidol hynny ac, os felly, pryd?

14:46 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Digital inclusion is a matter that is primarily being taken forward by the Minister for Communities and Tackling Poverty. However, I am sure that he will happy to come back to you with more detail on this particular point.
Mater sy'n cael ei ddatblygu'n bennaf gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yw cynhwysiant digidol. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd yn barod i ddod yn ôl atoch gyda mwy o fanylion am y pwynt penodol hwnnw.

Cymunedau yn Gyntaf

Communities First

14:46 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0102(CTP)
12. Will the Minister provide an update on the Communities First Programme? OAQ(4)0102(CTP)

14:47 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the Member for that question. All 52 Communities First clusters are working hard to implement their delivery and community involvement plans. At the Communities First conference on 13 November, I announced the extension of the programme for the life of this Government, to continue the good work in our most deprived communities.
Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae'r 52 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio'n galed i roi eu cynlluniau cyflenwi a'u cynlluniau cynnwys cymunedau ar waith. Yn y gynhadledd Cymunedau yn Gyntaf ar 13 Tachwedd, cyhoeddais y byddai'r rhaglen yn cael ei hymestyn am oes y Llywodraeth hon, er mwyn parhau â'r gwaith da yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

14:47 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, Minister. I very much welcome the recent announcement that you made at that conference stating that the Communities First programme is to be extended for the life of this Government. I think that this programme has made a real difference on the ground for so many of our disadvantaged communities, including areas in my constituency, such as the upper Afan valley, Sandfields and Briton Ferry. Minister, do you agree that the Communities First programme continues to have a vital role to play, particularly in tackling the increased poverty caused by the austerity cuts imposed by the Conservative and Lib Dem UK coalition Government?
Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf yn fawr iawn y cyhoeddiad diweddar a wnaethoch yn y gynhadledd honno yn nodi y caiff y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei hymestyn am oes y Llywodraeth hon. Credaf fod y rhaglen hon wedi gwneud gwahaniaeth go iawn ar lawr gwlad i gynifer o'n cymunedau difreintiedig, gan gynnwys ardaloedd yn fy etholaeth i, fel Cwm Afan uchaf, Sandfields a Llansawel. Weinidog, a gytunwch fod gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf rôl hanfodol i'w chwarae o hyn, yn enwedig wrth fynd i'r afael â'r tlodi cynyddol a achosir gan y toriadau darbodus a bennwyd gan Lywodraeth glymblaid Ceidwadwyr a Democratiaid Rhyddfrydol y DU?

- 14:47 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I agree with you very much. Cytunaf yn llwyr â chi.
- 14:47 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Centre for Social Justice has today revealed that households in Britain owe an average of £54,000 in debt, which is an increase from £29,000 10 years ago. Its report also finds that the increases in personal debt contribute significantly to mental health problems, family breakdown, worklessness and addiction. Given that two of the fundamental objectives of Communities First are to achieve healthier and more prosperous communities, how will the Welsh Government utilise this scheme to tackle high levels of personal debt and a lack of financial literacy? Heddiw, mae'r Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol wedi dangos bod aelwydydd ym Mhrydain £54,000 mewn dyled ar gyfartaledd, sy'n gynydd o gymharu â £29,000 10 mlynedd yn ôl. Canfu ei hadroddiad hefyd bod y cynnydd mewn dyledion personol yn cyfrannu'n sylweddol at broblemau iechyd meddwl, teuluoedd yn chwalu, diweithdra a dibyniaeth. O gofio mai dau o amcanion sylfaenol Cymunedau yn Gyntaf yw creu cymunedau iachach a mwy ffyniannus, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cynllun hwn i fynd i'r afael â lefelau uchel o ddyled personol a diffyg llythrennedd ariannol?
- 14:48 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I refer the Member to the answers that I have given on related questions earlier, in terms of the work that we are doing with Citizens Advice and other third-party organisations in Communities First areas to provide the sort of advice that she is referring to. Cyfeiriaf yr Aelod at yr atebion yr wyf wedi'u rhoi ar gwestiynau cysylltiedig yn gynharach, o ran y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda Cyngor ar Bopeth a sefydliadau trydydd parti eraill mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn darparu'r math o gyngor y mae'n cyfeirio ato.
- 14:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Question 13, OAQ(4)0106(CTP), is withdrawn. Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(4)0106(CTP), yn ôl.

Datblygu Cynaliadwy

Sustainable Development

- 14:48 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy? OAQ(4)0097(CTP) *14. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's commitment to sustainable development? OAQ(4)0097(CTP)*
- 14:48 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the Member for that question. Sustainable development is at the heart of the Government's work. We will strengthen our commitment by introducing a Bill to ensure that our public services work together to achieve our long-term goals. We will be reporting on the progress that we have made over the past year in December. Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd gwaith y Llywodraeth. Byddwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad drwy gyflwyno Bil i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i gyflawni ein nodau hirdymor. Byddwn yn adrodd ar y cynnydd yr ydym wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf ym mis Rhagfyr.
- 14:49 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the Minister for that response. Back in July, he was kind enough to write to me highlighting the importance of what, at that stage, was the upcoming conference, just last month, of the European environment and sustainable development advisory council at Bangor University, particularly on examining methods of Welsh ecosystem management. I wonder whether the Minister would be able to outline what lessons have been learned from that conference and how it will then feed into the upcoming future generations Bill. Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw. Yn ôl ym mis Gorffennaf, roedd yn ddigon caredig i ysgrifennu ataf yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynhadledd cyngor cynghori yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy Ewropeaidd oedd ar droed, yn y cyfnod hwnnw, dim ond y mis diwethaf, ym Mhrifysgol Bangor, yn enwedig ar archwilio dulliau o reoli ecosystemau yng Nghymru. Tybed a allai'r Gweinidog amlinellu pa wersi a ddysgwyd o'r gynhadledd honno a sut y bydd wedyn yn bwydo i mewn i Fil cenedlaethau'r dyfodol sydd ar droed.

14:49 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that there will be a good opportunity to discuss this matter further when we present the sustainable development annual report for 2013-14. That will be debated on 10 December. I will need to look carefully at the outcomes of the particular conference that you referred to, but, undoubtedly, because we are working closely on an international basis on sustainable development, it will feature in that report.

Credaf y bydd cyfle da i drafod y mater hwn ymhellach pan fyddwn yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol ar ddatblygu cynaliadwy ar gyfer 2013-14. Bydd hwnnw'n cael ei drafod ar 10 Rhagfyr. Bydd angen imi edrych yn ofalus ar ganlyniadau'r gynhadledd benodol y gwnaethoch gyfeirio ati, ond, yn sicr, oherwydd ein bod yn gweithio'n agos ar sail ryngwladol ar ddatblygu cynaliadwy, bydd yn cael sylw yn yr adroddiad hwnnw.

14:50 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sure that you will agree, Minister, that the issues of sustainable development cut right across Government departments and that it is important that, where there is cross-cutting legislation—particularly forthcoming legislation—there is alignment between Ministers and their officials. What are you doing to ensure that there is alignment running through senior level decision making, right across Government?

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, Weinidog, bod datblygu cynaliadwy yn torri ar draws adrannau'r Llywodraeth a'i bod yn bwysig, lle ceir deddfwriaeth trawsbynciol—yn arbennig deddfwriaeth sydd ar y gweill—bod cysondeb rhwng Gweinidogion a'u swyddogion. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod cysondeb yn y penderfyniadau a wneir ar lefel uwch, ar draws y Llywodraeth?

14:50 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This will be at the heart of the future generations Bill, which will require all public services, including the Welsh Government, to make sure that the three key pillars of local economies, communities and the environment are thought through before any major decisions are made. So, I am confident that the provisions of the future generations Bill will highlight the work that is necessary and build on good practice established so far.

Bydd hyn wrth wraidd Bil cenedlaethau'r dyfodol, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddigonol i'r tair colofn allweddol, sef economïau lleol, cymunedau a'r amgylchedd, cyn i unrhyw benderfyniadau mawr gael eu gwneud. Felly, rwy'n hyderus y bydd darpariaethau Bil cenedlaethau'r dyfodol yn amlygu'r gwaith sy'n angenrheidiol ac yn adeiladu ar yr arfer da a sefydlwyd hyd yma.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig

United Nations Convention

14:51 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o ran gwneud penderfyniadau strategol yn Llywodraeth Cymru? OAQ(4)093(HSS)

15. Will the Minister make a statement on the importance of the UN Convention for the Rights of the Child in strategic decision-making within the Welsh Government? OAQ(4)093(HSS)

14:51 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for that question. Ministers are under clear legal duties to consider the United Nations convention in developing policy and legislation as part of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. There will be a further strengthening of this commitment as the wider duty comes in as of May next year.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae gan Weinidogion ddyletswyddau cyfreithiol clir i ystyried confensiwn y Cenhedloedd Unedig wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth fel rhan o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Caiff yr ymrwymiad hwn ei atgyfnerthu ymhellach wrth i'r ddyletswydd ehangach gael ei chyflwyno ym mis Mai y flwyddyn nesaf.

14:51 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. On a day of disappointment in Swansea, will you join me in congratulating the City and County of Swansea on becoming the UK capital for children's rights? Since embedding the UN Convention on the Rights of the Child in the authority this summer, Swansea council will have due regard to children's rights, and every decision about children and young people will be tested against the UNCRC in Swansea—the first local authority in Europe to do so. Will the Minister welcome the development and join me in congratulating the council?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Ar ddiwrnod siomedig yn Abertawe, a ymunwch â mi i longyfarch Dinas a Sir Abertawe ar ddod yn brifddinas y DU ar gyfer hawliau plant? Ers ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn yr awdurdod yr haf hwn, bydd cyngor Abertawe yn rhoi sylw dyledus i hawliau plant, a chaiff pob penderfyniad am blant a phobl ifanc eu profi yn erbyn y Confensiwn yn Abertawe—yr awdurdod lleol cyntaf yn Ewrop i wneud hynny. A wnaiff y Gweinidog groesawu'r datblygiad ac ymuno â mi i longyfarch y cyngor?

14:52	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p>I am very much aware of the positive and groundbreaking steps being taken on children's rights by the City and County of Swansea. In fact, I have written to the chief executive on behalf of me and the First Minister to congratulate them. I will be watching its progress with interest and I look forward to similar initiatives rolling out across Wales.</p>	<p>Rwy'n ymwybodol iawn o'r camau cadarnhaol ac arloesol sy'n cael eu cymryd ar hawliau plant gan Ddinas a Sir Abertawe. Yn wir, rwyf wedi ysgrifennu at y prif weithredwr ar ran y Prif Weinidog a minnau i'w llongyfarch. Byddaf yn gwyllo ei gynnydd gyda diddordeb, ac edrychaf ymlaen at weld mentrau tebyg yn cael eu cyflwyno ledled Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:52	<p>Angela Burns Bywgraffiad Biography</p> <p>May I add my congratulations to Swansea on that amazing achievement? Getting back to the Welsh Government, Minister, we have recently seen and heard evidence that children's rights impact assessments are not being universally deployed throughout Government. I wonder what you might be able to do in your department to promote the use of CRIsAs to make sure that children's rights are upheld.</p>	<p>Hoffwn innau longyfarch Abertawe ar y cyflawniad gwych hwnnw. Gan ddechrelyd at Lywodraeth Cymru, Weinidog, yr ydym wedi gweld a chlywed tystiolaeth yn ddiweddar nad yw asesiadau effaith ar hawliau plant yn cael eu defnyddio yn gyffredinol ym mhob rhan o'r Llywodraeth. Tybed beth y gallech ei wneud yn eich adran i hyrwyddo'r defnydd o asesiadau effaith ar hawliau plant i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:53	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p>All Welsh Government departments must have regard for the rights of the child in the actions that they take and in preparing for the overall budget. However, as I have said, this will certainly be strengthened when the next phase of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure comes into force in May next year, and work is under way to prepare for that.</p>	<p>Rhaid i holl adrannau Llywodraeth Cymru roi sylw i hawliau'r plentyn yn y camau y maent yn eu cymryd ac wrth baratoi ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi ei ddweud, caiff hyn ei atgyfnerthu yn sicr pan ddaw cam nesaf y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) i rym ym mis Mai y flwyddyn nesaf, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:53	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, the Government has clearly decided that the Social Services and Well-being (Wales) Bill is not the vehicle to deal with one of the outstanding children's rights issues in Wales, namely the right to equality under the law as regards physical punishment. Does that mean that the Government is considering this as part of its wider legislative programme, as many, including those in Swansea, believe that this is an outstanding issue that needs to be resolved before very long?</p>	<p>Weinidog, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu yn glir nad y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yw'r cyfrwng i fynd i'r afael ag un o'r materion hawliau plant na chytunwyd arno yng Nghymru, sef yr hawl i gydraddoldeb yn unol â'r gyfraith o ran cosb gorfforol. A yw hynny'n golygu bod y Llywodraeth yn ystyried hyn fel rhan o'i rhaglen ddeddfwriaethol ehangach, gan fod llawer, gan gynnwys y rhai yn Abertawe, yn credu bod hwn yn fater eithriadol y mae angen ei ddatrys cyn bo hir?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p>In terms of the physical chastisement issue and the right of that as a defence, the Welsh Government has made its view clear that, rather than pursue legislation in that regard, we are looking at more positive methods of changing attitudes. We do not have a mandate to take it further than that. In terms of the Social Services and Well-being (Wales) Bill, my colleague the Deputy Minister for Social Services has heard your comments and may well wish to contact you in that regard.</p>	<p>O ran cosb gorfforol a'r hawl i ddefnyddio hynny fel amddiffyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei barn yn glir, yn hytrach na mynd ar drywydd deddfwriaeth yn hynny o beth, yr ydym yn edrych ar ddulliau mwy cadarnhaol o newid agweddau. Nid oes gennym fandad i fynd ag ef ymhellach na hynny. O ran y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), mae fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi clywed eich sylwadau ac efallai y bydd am gysylltu â chi yn hynny o beth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:54.</i></p>	<p><i>The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:54.</i></p>	
	<p>Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i Benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro</p>	<p>Motion under Standing Order 10.5 to Appoint an Acting Public Services Ombudsman for Wales</p>	
		<p>Cynnig NDM5368 Christine Chapman, Jocelyn Davies Motion NDM5368 Christine Chapman, Jocelyn Davies</p>	

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Atodlen 1, paragraff 4, i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a Rheol Sefydlog 10.5:

Yn cytuno i enwebu'r Athro Sylvia Margaret Griffiths i'w Mawrhydi er mwyn ei phenodi yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Schedule 1, paragraph 4, to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 and Standing Order 10.5:

Agrees to nominate Professor Sylvia Margaret Griffiths to Her Majesty for appointment as Acting Public Services Ombudsman for Wales.

14:55

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

I propose that the National Assembly for Wales nominates Professor Sylvia Margaret Griffiths for appointment by Her Majesty the Queen to the position of Acting Public Services Ombudsman for Wales, in accordance with the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005. I formally call on the Assembly to approve this motion and the nomination of Margaret Griffiths for this post.

I would also like to take this opportunity to thank Peter Tyndall for his outstanding work, in the name of the people of Wales, in representing them and in ensuring that the rights of ordinary citizens have been upheld. He has led the Office of the Public Services Ombudsman for Wales in an exemplary way, and he has consistently impressed with his ability to deliver consistently high-quality services, and to absorb ever-growing numbers of complaints without significant increases in his costs. We are very grateful to him for his work over the last five years.

I hope that the Assembly will approve Professor Griffiths's nomination as Acting Public Services Ombudsman for Wales.

Cynigiaf y cynnig.

Cynigiaf fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn enwebu'r Athro Sylvia Margaret Griffiths er mwyn ei phenodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines i swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Dro Cymru, yn unol â Deddf 2005 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Galwaf yn ffurfiol ar y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig hwn ac enwebu Margaret Griffiths i'r swydd hon.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Peter Tyndall am ei waith rhagorol, yn enw pobl Cymru, wrth eu cynrychioli a sicrhau bod hawliau dinasyddion cyffredin wedi cael eu cynnal. Mae wedi arwain Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn modd rhagorol, ac mae wedi creu argraff yn gyson â'i allu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson, ac i ddelio â niferoedd cynyddol o gwynion heb gynydd sylweddol yn ei gostau. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei waith dros y pum mlynedd diwethaf.

Gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn cymeradwyo enwebiad yr Athro Griffiths fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Dro Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no other speakers. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014/15

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15, fel y pennir yn Nhabl 1 "Cynigion Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014-15", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 13 Tachwedd 2013 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Y cynnig, felly, yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

Motion to Approve the Assembly Commission's Budget 2014/15

Cynnig NDM5361 Angela Burns
Motion NDM5361 Angela Burns

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 20.16:

Agrees the budget of the Assembly Commission for 2014-15, as specified in Table 1 of the "National Assembly for Wales Assembly Commission Budget 2014-15", laid before the Assembly on 13 November 2013 and that it be incorporated in the Annual Budget Motion under Standing Order 20.26 (ii).

I move the motion.

I welcome this opportunity to move the Commission's budget for next year and to ask for it to be incorporated by the Welsh Government into the annual budget motion. The Commission set a very clear strategy for the fourth Assembly. This is underpinned by a programme of investment and service improvement, in order to deliver our strategic aims and priorities. The strategic aims are to provide outstanding parliamentary support, to engage with the people of Wales and to promote Wales to the wider world, and to use our resources as wisely as we can. In order to achieve these aims, the Commission sought the agreement of the Finance Committee to commit to a measured investment programme over three financial years, commencing in 2012-13. So, the budget that you have before you is for our final year, 2014-15, and the level of funding is exactly that set out in the three-year programme. Therefore, the Commission is proposing a net resource budget of £50.6 million for 2014-15. This three-year approach is seen by other organisations as a model of best practice. In fact, that was evidenced only recently when we heard Members in this Chamber being applauded for our approach to the longer-term budget.

We believe that our budget continues to maintain and build on this solid progress, enabling the Commission to deliver the necessary standards of parliamentary support that every Assembly Member seeks. It is vital that you, as elected Members, have the right support and tools, and it is our role to provide this. We are committed to this and to our constant improvement ethos and value for money programme. We hope that this has allowed the Commission to redeploy skilled resources to priority areas while still containing our costs.

The performance of the Commission can be measured for the first time through key performance indicators that are now published in our corporate performance report on our website. They are available for all to see. We stand to be measured by these, and we hope that we will not be found wanting. The Finance Committee made five recommendations in its report on our budget. Three of the recommendations related directly to the Commission's priority areas for innovation and investment, namely the official languages scheme, our ICT strategy and engagement with young people. The remaining two recommendations related to performance indicators and transparency. The Commission thanks the Finance Committee—nerve racking though it is to appear before you—for your work and your report on our budget. You are our check and balance, and you operate on behalf of the Members. We are very grateful for the comments that you have made and for the guidance that you have given us over the last few years. We hope that we have been able to reciprocate in full by taking on board the comments that you have made.

Cynigiau y cynnig.

Croesawaf y cyfle hwn i gynnig cyllideb y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac i ofyn am iddi gael ei hymgorffori gan Lywodraeth Cymru yn y cynnig cyllideb blyneddol. Sefydlodd y Comisiwn strategaeth glir iawn ar gyfer y pedwerydd Cynulliad. Caiff hon ei hategu gan raglen o fuddsoddi a gwella gwasanaethau, er mwyn cyflawni ein nodau a'n blaenoriaethau strategol. Y nodau strategol yw darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf, ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru i'r byd ehangach, a defnyddio ein hadnoddau mor ddoeth ag y gallwn. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, ceisiodd y Comisiwn gytundeb y Pwyllgor Cyllid i ymrwymo i raglen fuddsoddi benodol dros dair blynedd ariannol, gan ddechrau yn 2012-13. Felly, mae'r gyllideb sydd gennych o'ch blaen ar gyfer ein blwyddyn olaf, 2014-15, a lefel y cyllid yw'r union un a nodir yn y rhaglen tair blynedd. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb adnoddau net o £50.6 miliwn ar gyfer 2014-15. Mae'r dull gweithredu tair blynedd hwn yn cael ei weld gan sefydliadau eraill fel model arfer gorau. Yn wir, gwelwyd hynny'n ddiweddar pan glywsom Aelodau yn y Siambur hon yn cael eu canmol am ein hymagwedd at y gyllideb tymor hwy.

Credwn fod ein cyllideb yn parhau i gynnal ac adeiladu ar y cynnydd cadarn hwn, gan alluogi'r Comisiwn i gyflawni'r safonau angenrheidiol o gymorth seneddol y mae pob Aelod Cynulliad am eu cael. Mae'n hanfodol eich bod chi, fel Aelodau etholedig, yn cael y cymorth a'r adnoddau cywir, a'n rôl ni yw darparu hyn. Rydym wedi ymrwymo i hyn ac i'n hethos o welliant parhaus a'n rhaglen gwerth am arian. Gobeithiwn fod hyn wedi caniatáu i'r Comisiwn adleoli adnoddau medrus i feysydd blaenoriaeth tra'n parhau i reoli ein costau.

Gellir mesur perfformiad y Comisiwn am y tro cyntaf drwy ddangosyddion perfformiad allweddol sydd bellach wedi'u cyhoeddi yn ein hadroddiad o berfformiad corfforaethol ar ein gwefan. Maent ar gael i bawb eu gweld. Rydym yn barod i gael ein mesur yn ôl y rhain, a gobeithiwn na fyddwn yn ein cael yn brin. Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid bum argymhelliad yn ei adroddiad ar ein cyllideb. Mae tri argymhelliad yn ymwneud yn uniongyrchol â meysydd blaenoriaeth y Comisiwn ar gyfer arloesi a buddsoddi, sef y cynllun ieithoedd swyddogol, ein strategaeth TGCh ac ymgysylltu â phobl ifanc. Mae'r ddau argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â dangosyddion perfformiad a thryloywder. Mae'r Comisiwn yn diolch i'r Pwyllgor Cyllid—er mor nerfus yr ydym yn sefyll ger eich bron—am eich gwaith a'ch adroddiad ar ein cyllideb. Chi yw ein rhwystrau a'n gwrthbwysau, ac rydych yn gweithredu ar ran yr Aelodau. Rydym yn ddiolchgar iawn am y sylwadau yr ydych wedi'u gwneud ac am yr arweiniad yr ydych wedi ei roi inni dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Gobeithiwn ein bod wedi gallu ymateb yn llawn drwy ystyried y sylwadau yr ydych wedi'u gwneud.

The Commission's proposed budget remains at 0.3% of the Welsh block of £15 billion. We believe that it maintains the course that we set out in our three-year spending plan. We believe that it delivers service improvements, while being a prudent and balanced budget that we believe will serve the best interests of Wales, the Assembly and its Members. I look forward to Members today being able to scrutinise us fully on our budget, and I would ask you all to support our motion.

Erys cyllideb arfaethedig y Comisiwn ar 0.3% o floc Cymru o £15 biliwn. Credwn ei bod yn cynnal yr hyn a bennwyd gennym yn ein cynllun gwariant tair blynedd. Credwn ei bod yn cyflawni gwelliannau i wasanaethau, tra'n bod yn gyllideb ddarbodus a chytbwys y credwn y bydd yn gwasanaethu buddiannau gorau Cymru, y Cynulliad a'i Aelodau. Edrychaf ymlaen at alluogi'r Aelodau heddiw i graffu ar ein cyllideb yn llawn, a gofynnaf i bob un ohonoch gefnogi ein cynnig.

15:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Jocelyn Davies to speak on behalf of the Finance Committee.

Galwaf ar Jocelyn Davies i siarad ar ran y Pwyllgor Cyllid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As we heard from the Commissioner, Angela Burns, this budget represents the third and final year of the Assembly Commission's three-year plan to invest in the Assembly. I have to say, Commissioner, that you hide your nerves very well, because we always enjoy your presentations, and we are always thankful for how candid you are in answering our questions. We are very grateful also to your officials.

Fel y clywsom gan y Comisiynydd, Angela Burns, mae'r gyllideb hon yn cynrychioli'r drydedd flwyddyn a blwyddyn olaf cynllun tair blynedd Comisiwn y Cynulliad i fuddsoddi yn y Cynulliad. Rhaid imi ddweud, Gomisiynydd, eich bod yn cuddio eich nerfau yn dda iawn, gan ein bod bob amser yn mwynhau eich cyflwyniadau, ac rydym bob amser yn ddiolchgar am ba mor onest yr ydych yn ateb ein cwestiynau. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i'ch swyddogion.

The Finance Committee is clear that we have given the Assembly the additional resource it required, and that in the next two years changes to the budget should keep pace with changes to the Welsh block, and no more. In our scrutiny we expressed specific concerns about two programmes: the ICT strategy and the official languages scheme. These are important programmes, and we want them to succeed and, as a result, we recommended that individual Members of our committee should take on a rapporteur role to provide additional scrutiny in those areas. In its response, the Commission has raised concerns about the blurring of lines of accountability. Of course, that was not our intention, as the thrust of all our financial scrutiny is to improve transparency and accountability.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn glir ein bod wedi rhoi'r adnodd ychwanegol yr oedd ei angen ar y Cynulliad, ac yn y ddwy flynedd nesaf dylai newidiadau i'r gyllideb ddal i fyny â'r newidiadau i floc Cymru, a dim mwy. Yn ein gwaith craffu, gwnaethom fynegi pryderon penodol ynghylch dwy raglen: y strategaeth TGCh a'r cynllun ieithoedd swyddogol. Mae'r rhain yn rhaglenni pwysig, ac rydym am iddynt lwyddo ac, o ganlyniad, rydym yn argymhell y dylai Aelodau unigol ein pwyllgor ymgymryd â rôl rapporteur i graffu ymhellach yn y meysydd hynny. Yn ei ymateb, mae'r Comisiwn wedi codi pryderon ynghylch llinellau atebolrwydd yn cael eu cymylu. Wrth gwrs, nid dyna oedd ein bwriad, gan mai byrdrwn ein holl waith craffu ariannol yw gwella tryloywder ac atebolrwydd.

The Commission has suggested instead that the relevant Commissioner give evidence to our committee at an appropriate point, and we are content with this suggestion. We will be inviting and looking forward to the relevant Commissioners—that is, Rhodri Glyn Thomas and Peter Black—appearing before our committee in due course from time to time. These are of course crucial projects for the Assembly, and it is vital that they are delivered in a way that is effective and affordable.

Mae'r Comisiwn wedi awgrymu yn hytrach bod y Comisiynydd perthnasol yn rhoi tystiolaeth i'n pwyllgor ar adeg briodol, ac rydym yn fodlon â'r awgrym hwn. Byddwn yn gwahodd y Comisiynwyr perthnasol—sef Rhodri Glyn Thomas a Peter Black—i ymddangos ger bron ein pwyllgor maes o law o dro i dro, ac edrychwn ymlaen at hynny. Wrth gwrs, mae'r rhain yn brosiectau allweddol ar gyfer y Cynulliad, ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n effeithiol ac yn fforddiadwy.

We also noted the need to ensure that our engagement with young people ensures that cost and distance are not insurmountable barriers to access, particularly for schools in north and west Wales. There have been exciting changes to the way we deliver our education services, and the Your Assembly youth engagement scheme is likely to generate further ideas for improvement. It is vital that these services, which the Commission tells us are the envy of other parliaments, are accessible to all children in Wales.

Nodwyd hefyd yr angen i sicrhau bod y modd rydym yn ymgysylltu â phobl ifanc yn sicrhau nad yw cost a phellter yn rhwystrau anorchfygol i fynediad, yn enwedig ar gyfer ysgolion yn y gogledd a'r gorllewin. Cafwyd newidiadau cyffrous i'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau addysg, ac mae'r cynllun ymgysylltu ieuencid Dy Gynulliad Di yn debygol o greu rhagor o syniadau ar gyfer gwelliant. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn, y mae'r Comisiwn yn dweud wrthym fod seneddau eraill yn eiddigeddus ohonynt, yn hygyrch i bob plentyn yng Nghymru.

We are also pleased that the Commissioners agreed with us that their performance indicators, published for the first time this year, should evolve and improve over time, and we also agreed that any changes should be comparable with the previous year.

Our fifth and final recommendation called for some additional detail, particularly around emerging risks and providing greater detail in new programmes. The Commission, I have to say, makes great efforts to make its budget documents accessible to the widest possible audience, and we support that. Providing these extra details will ensure that we have all the information that we need to perform effective scrutiny in future years.

I have no hesitation in commending the Commission budget to the Assembly for approval.

Rydym hefyd yn falch bod y Comisiynwyr yn cytuno â ni y dylai eu dangosyddion perfformiad, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf eleni, esblygu a gwella dros amser, ac roeddem yn cytuno hefyd y dylai unrhyw newidiadau fod yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

Roedd angen manylion ychwanegol ar ein pumed argymhelliad a'r un olaf, yn enwedig mewn perthynas â risgiau sy'n dod i'r amlwg a rhoi mwy o fanylder mewn rhaglenni newydd. Rhaid imi ddweud bod y Comisiwn yn gwneud ymdrech fawr i sicrhau bod ei ddogfennau cyllideb ar gael i'r gynulleidfa ehangaf bosibl, ac rydym yn cefnogi hynny. Bydd darparu'r manylion ychwanegol hyn yn sicrhau bod gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud gwaith craffu effeithiol yn y dyfodol.

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth ynghylch cymeradwyo cyllideb y Comisiwn er mwyn i'r Cynulliad ei gymeradwyo.

15:03

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n bleser i godi i gefnogi'r gyllideb sydd wedi ei chyflwyno i ni gan Angela Burns. Fel comisiynydd, hoffwn longyfarch Angela yn fawr iawn ar y gwaith manwl y mae hi wedi ei wneud gyda'i swyddogion i baratoi'r gyllideb hon ar gyfer y Cynulliad. Rydym yn hynod ddyledus i'r swyddogion hynny am eu gwaith diflino ynghylch y gyllideb hon.

Byddwn ddweud bod diwyg y ddogfen yn un hynod o ddarllenadwy. Rwy'n credu ei bod yn glir iawn ac yn dryloyw hefyd, ac mae pobl yn gallu gweld yn union sut y mae'r gyllideb honno yn cael ei gwario. Rwy'n credu bod y Comisiwn wedi llwyddo i sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn ddarbodus gydag arian cyhoeddus a'r cyfrifoldeb sydd gennym fel Comisiynwyr ac Aelodau'r Cynulliad i reoli yn gyfrifol asedau'r Cynulliad ei hun.

Rwy'n croesawu yn fawr iawn ymateb y Pwyllgor Cyllid a Geiriau'r Cadeirydd, Jocelyn Davies. Rwy'n hapus iawn i ymddangos gerbron y pwyllgor. Rwy'n gwbl sicr bod y cynllun ieithoedd swyddogol yn fforddiadwy ac y bydd yn sicrhau bod gan bob Aelod o'r Cynulliad hwn y cyfle i ddewis eu hiaith, i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a'n bod yn rhoi'r cyfle hwnnw hefyd i bobl eraill sy'n gweithio yn y lle hwn.

Felly, gyda'r ychydig eiriau hynny, rwy'n hapus iawn i gefnogi'r hyn sydd wedi ei gyflwyno ger eich bron chi y prynhawn yma gan Angela Burns ar ran y Comisiwn.

It is a pleasure to stand to support the budget that has been presented to us by Angela Burns. As a commissioner, I congratulate Angela very much on the detailed work that she has undertaken with the officials in preparing this budget for the Assembly. We are extremely indebted to those officials for their tireless work with regard to this budget.

I would say that the format and design of the document makes it a very readable one. I think that it is very clear and transparent, and people can see exactly how that budget is to be spent. I believe that the Commission has succeeded in securing the balance between being prudent with public funding and the responsibility that we have as Commissioners and Assembly Members to responsibly manage the assets of the Assembly itself.

I very much welcome the response of the Finance Committee and the words of the Chair, Jocelyn Davies. I am most happy to appear before the committee. I am quite certain that the official languages scheme is affordable and that it will ensure that every Member of this Assembly will have the opportunity to choose whether to work through the medium of Welsh or English, and that we should give that opportunity to others working in this place.

So, with those few words, I am very happy to support what has been presented to you this afternoon by Angela Burns on behalf of the Commission.

15:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Angela Burns to reply to the debate.

Galwaf ar Angela Burns i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*

I would very much like to thank, once again, the Finance Committee, and I thank the Chair for her comments. We have taken on board totally that, once the three years are up, we need to have a prudent course going forward for the next two years. I undertake to ensure that, when we come back to you next year, we will be able to demonstrate just that. I also appreciate you taking on board our views on the rapporteur suggestion. We are very keen to be as open and transparent as we possibly can be. I know that Peter Black and Rhodri Glyn Thomas will enjoy coming before you to be grilled in great detail on their specific areas of expertise by the people on the Finance Committee.

I also take your point on the key performance indicators, because I know that is one thing that has always driven me slightly mad as an Assembly Member, when you are trying to track information through year on year, because that is how you can get true measurability on whether or not we are delivering appropriately. We will add to the KPIs, but keep the ones that we have and just keep tracking, and we will, hopefully, develop them over time.

Deputy Presiding Officer, I would just like to crave your indulgence for a few moments and take this opportunity to send a very long, loud and, hopefully, clear message to all the staff of the Commission who support the Assembly Members here present, including those who are in the tearoom and those who are throughout the building, and our entire parliamentary effort. Whether you are opening a door for one of us as we sweep through with arms full of files, whether you are trying to ferret out some interesting piece of information as part of the Research Service, or whether you are trying to explain to someone dense like me that my expenses form does not quite add up in quite the way that I thought that it did, whatever role it is that you are doing, the 350 of you, more or less, who are out there, perform an invaluable service and you do not have very many opportunities to take your moment in the sun, so today, Assembly Commission staff, take your moment in the sun. We thank you—the Commissioners thank you, and I know that every Assembly Member thanks you—for your work and the support that you offer us. By offering us that support, you offer it to the people of Wales. Thank you; diolch yn fawr.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Pwyllgor Cyllid, a diolchaf i'r Cadeirydd am ei sylwadau. Rydym yn llwyr ymwybodol, unwaith y bydd y tair blynedd ar ben, y bydd angen inni bennu llwybr doeth ymlaen ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Rwyf yn ymrwymo i sicrhau, pan ddeuwn yn ôl atoch y flwyddyn nesaf, y byddwn yn gallu dangos hynny. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi eich bod yn ystyried ein barn ar yr awgrym rapporteur. Rydym yn awyddus iawn i fod mor agored a thryloyw â phosibl. Gwn y bydd Peter Black a Rhodri Glyn Thomas yn mwynhau dod ger eich bron i gael eu croesholi'n fanwl ar eu meysydd arbenigedd penodol gan aelodau'r Pwyllgor Cyllid.

Rwyf hefyd yn derbyn eich pwynt am y dangosyddion perfformiad allweddol, gan fy mod yn gwybod bod hwn yn un peth sydd bob amser wedi fy ngwylltio braidd fel Aelod Cynulliad, pan fyddwch yn ceisio olrhain gwybodaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn, oherwydd dyna sut y gallwch gael gwir hyfesuared ar b'un a ydym yn cyflawni'n briodol. Byddwn yn ychwanegu at y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, ond yn cadw'r rhai sydd gennym ac yn parhau i olrhain, a byddwn, gobeithio, yn eu datblygu dros gyfnod.

Ddirprwy Lywydd, maddeuwch imi am rai munudau wrth imi gymryd y cyfle hwn i anfon neges glir hir, uchel, a chlir iawn gobeithio, i holl staff y Comisiwn sy'n cefnogi Aelodau'r Cynulliad sydd yma ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai sydd yn yr ystafell de a'r rhai sydd yn yr adeilad, a'n hymdrech seneddol gyfan. P'un a ydych yn agor drws i un ohonom wrth inni frysio heibio gyda breichiau llawn ffeiliau, p'un a ydych yn ceisio canfod darn diddorol o wybodaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Ymchwil, neu'n ceisio esbonio i rywun twp fel fi nad yw fy ffurflen treuliau yn gywir fel yr oeddwn i'n ei feddwl, beth bynnag fo'r rôl yr ydych yn ei gwneud, mae'r 350 ohonoch chi, fwy neu lai, sydd allan yno, yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy ac nid ydych yn cael digon o ganmoliaeth, felly, heddiw, staff Comisiwn y Cynulliad, derbyniwch ein canmoliaeth. Rydym yn diolch ichi—mae'r Comisiynwyr yn diolch ichi, a gwn fod pob Aelod Cynulliad yn diolch ichi—am eich gwaith a'r cymorth yr ydych yn ei gynnig inni. Drwy gynnig y cymorth hwnnw, rydych yn ei gynnig i bobl Cymru. Diolch ichi; diolch yn fawr.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is, therefore, agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Tai

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3, 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.

Cynnig NDM5363 William Graham

Y cynnig yw y dylem gytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau. Cytunir ar y cynnig, felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

**Welsh Conservatives Debate:
Housing**

The following amendments have been selected: amendments 1, 3, 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Elin Jones.

Motion NDM5363 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi polisi Ceidwadwyr Cymreig 'A Vision for Welsh Housing';

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r farchnad gyfan i sicrhau y ceir ateb i'r argyfwng cyflenwad tai.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the Welsh Conservative policy 'A Vision for Welsh Housing';

2. Calls on the Welsh Government to work with the whole market to ensure that a solution to the housing supply crisis is found.

15:07

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

'A Vision for Welsh Housing' develops our ambition for what housing can achieve for the people of Wales. We hope that Welsh Labour Ministers will consider our proposals and work with us to increase housing supply so that every family in Wales can have housing to call a home.

The Welsh Government has had devolved responsibility for housing since 1999, after which housing fell down the league table of priorities. If a society can get its housing provision right, many other social justice problems will be, at best, eliminated and, at worst, alleviated. Health, education and family life are all intertwined with having a stable home environment.

The housing sector in Wales first warned of an impending housing-supply crisis a decade ago. An estimated 90,000 or more households are on waiting lists, an average of 14,200 new additional homes are required annually in Wales, and Wales has over 32,000 empty properties. The Welsh Government cut the supply of new homes built by housing associations and councils by 71%, from over 27,000 between 1987 and 1999 to fewer than 8,000 during the first three Assembly terms, based on the Welsh Government's own statistics website.

House building is at its lowest level since the second world war. The total number of new dwellings started in Wales last year, at 5,291, was barely half the number delivered post-recession 20 years previously. National House-Building Council figures show that the total number of new homes built in Wales last year was more than 50% down on 2007 and still lower than in 2010, and that Wales was still lagging behind UK growth rates, which are up a third in England but down a third in Wales in the year to July 2013, and up 16% in England but down another 24% in Wales in the quarter to August 2013.

During the last eight years of Conservative Government in Wales, 60% of right-to-buy sales were replaced by new social housing, with 21,000 new units built and sales being replaced on almost a like-for-like basis by 1997, thus increasing housing supply. However, during the first two Assembly terms, when there were 32,000 right-to-buy sales in Wales, only 5,000 new social housing units were built—less than one for every six right-to-buy sales.

Cynigiau y cynnig.

Mae 'Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru' yn datblygu ein huchelgais ar gyfer yr hyn y gall tai ei gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd Gweinidogion Llafur Cymru yn ystyried ein cynigion ac yn gweithio gyda ni i gynyddu cyflenwad tai fel y gall pob teulu yng Nghymru gael tai a fydd yn gartref iddynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyfrifoldeb datganoledig am dai ers 1999, ac ar ôl hyn symudodd tai i lawr y tabl cynghrair o flaenoriaethau. Os gall cymdeithas sicrhau bod ei darpariaeth tai yn iawn, caiff llawer o broblemau cyfiawnder cymdeithasol eraill, ar y gorau, eu dileu ac, ar y gwaethaf, eu lliniaru. Mae iechyd, addysg a bywyd teuluol wedi'u eu cydblethu â chael amgylchedd cartref sefydlog.

Rhybuddiodd y sector tai yng Nghymru am argyfwng o ran cyflenwad tai gyntaf ddegawd yn ôl. Amcangyfrifir bod 90,000 neu fwy o aelwydydd ar restrau aros, mae angen 14,200 o gartrefi ychwanegol newydd bob blwyddyn yng Nghymru ar gyfartaledd, ac mae gan Gymru dros 32,000 o eiddo gwag. Torrodd Llywodraeth Cymru y cyflenwad o gartrefi newydd a adeiladwyd gan gymdeithasau tai a chynghorau 71%, o dros 27,000 rhwng 1987 a 1999 i lai nag 8,000 yn ystod tri thymor cyntaf y Cynulliad, yn seiliedig ar wefan ystadegau Llywodraeth Cymru ei hun.

Mae adeiladu tai ar ei lefel isaf ers yr ail ryfel byd. Roedd cyfanswm nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd yng Nghymru y llynedd, sef 5291, ond prin hanner y nifer a ddarparwyd wedi'r dirwasgiad ugain mlynedd yn gynt. Dengys ffigurau'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol fod cyfanswm nifer y tai newydd a adeiladwyd yng Nghymru y llynedd fwy na 50% yn is na'r ffigur yn 2007 ac yn is fyth nag yr oedd yn 2010, a bod Cymru yn dal i fod ar ei hôl hi o gymharu â chyfraddau twf y DU, sydd wedi cynyddu draean yn Lloegr ond wedi gostwng draean yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2013, ac wedi cynyddu 16% yn Lloegr ond wedi gostwng 24% arall yng Nghymru yn ystod y chwarter hyd at fis Awst 2013.

Yn ystod wyth mlynedd olaf y Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru, disodlwyd 60% o'r gwerthiannau hawl i brynu gan dai cymdeithasol newydd, gyda 21,000 o unedau newydd yn cael eu hadeiladu a gwerthiannau yn cael eu disodli ar sail tebyg am debyg erbyn 1997, gan gynyddu'r cyflenwad tai o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, yn ystod dau dymor cyntaf y Cynulliad, pan oedd 32,000 o werthiannau hawl i brynu yng Nghymru, dim ond 5,000 o unedau tai cymdeithasol newydd a adeiladwyd—llai nag un am bob chwe gwerthiant hawl i brynu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Council of Mortgage Lenders reported in May that 84% of adults in Wales wish to be home owners in the next 10 years, greater than the overall figure for the UK. Yet, earlier this year, Redrow said that in Wales,

'we are not seeing the same stimulus to the new-homes market evident in England'.

We know that Persimmon Homes has since voted with its feet. Housing developers told the cross-party group on construction that, although they were adapting their business model to adjust to the burden of regulation in Wales, they also predicted a flow of investment into England.

It is therefore encouraging that the Home Builders Federation has told me that the Minister's recent statements removing or deferring building regulations do reduce the burden on the industry in Wales. However, housing providers remain concerned that deferring Wales-only regulatory costs will not be enough when they are making long-term investment decisions. The 2012 UK housing review stated that,

'it was the Welsh Government itself that gave housing lower priority in its overall budgets, so that by 2009/10 it had by far the lowest proportional level of housing expenditure of any of the four UK countries.'

The Welsh Government's homebuy shared equity scheme saw only 19 units approved last year, and information on its rent first scheme is not held or monitored by Welsh Government, or it was not when we submitted a request for that information. With mortgage guarantee and shared equity home buying schemes long available in England and Scotland, delays over NewBuy Cymru and Help to Buy Cymru have been disappointing.

The UK Government recognised that a housing market that fails to deliver homes that people need has serious consequences for social mobility, for jobs and for growth. That is why it announced a package of reforms to get the housing market moving again, including rejuvenating right to buy, linking sales proceeds to building new homes. We want to see similar positive action taken to support the Welsh housing market. We would establish a Welsh housing commission with members from all areas of the housing sector. The commission would develop evidence-based ideas, and work with us to design an overall housing strategy. Working with the commission, a Welsh Conservative Government would increase the supply of houses, expand the range of housing schemes available, rejuvenate right to buy and bring empty homes back into use.

Mewn adroddiad gan y Cyngor Benthycwyr Morgeisi ym mis Mai nodwyd bod 84% o oedolion yng Nghymru yn dymuno bod yn berchnogion cartrefi yn y 10 mlynedd nesaf, sy'n fwy na'r ffigur cyffredinol ar gyfer y DU. Eto i gyd, yn gynharach eleni, dywedodd Redrow

nad ydym yng Nghymru yn gweld yr un ysgogiad i'r farchnad cartrefi newydd ag a welir yn Lloegr.

Gwyddom fod Cartrefi Persimmon wedi pleidleisio â'i draed ers hynny. Dywedodd datblygwyr tai wrth y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu, er eu bod yn addasu eu model busnes i addasu i'r baich rheoleiddio yng Nghymru, eu bod hefyd yn rhagweld llif o fuddsoddiad i mewn i Loegr.

Felly, mae'n galonogol bod y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi wedi dweud wrthyf bod datganiadau diweddar y Gweinidog yn dileu neu'n gohirio rheoliadau adeiladu yn lleihau'r baich ar y diwydiant yng Nghymru. Fodd bynnag, mae darparwyr tai yn dal i bryderu na fydd gohirio costau rheoleiddiol Cymru'n unig yn ddigon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau buddsoddi hirdymor. Dywedodd adolygiad tai'r DU yn 2012,

Llywodraeth Cymru ei hun a roddodd flaenoriaeth is i dai yn ei chyllidebau cyffredinol, felly erbyn 2009/10 Cymru oedd â'r lefel gyfrannol isaf o ran gwariant tai o blith pedair gwlad y DU.

Dim ond 19 o unedau a gymeradwywyd y llynedd gan gynllun ecwiti a rennir cymorth prynu, ac ni chaiff gwybodaeth am ei chynllun rhent yn gyntaf ei chadw na'i monitro gan Lywodraeth Cymru, neu ni chafodd ei chyflwyno pan wnaethom gais am y wybodaeth honno. Gyda chynlluniau gwarantu morgais a chymorth prynu ecwiti a rennir wedi bod ar gael ers amser hir yn Lloegr a'r Alban, mae oedi o ran NewBuy Cymru a Help i Brynu Cymru wedi bod yn siomedig.

Cydnabu Llywodraeth y DU fod marchnad dai sy'n methu â darparu cartrefi sydd eu hangen ar bobl yn arwain at ganlyniadau difrifol o ran symudedd cymdeithasol, swyddi a thwf. Dyna pam y cyhoeddodd becyn o ddiwygiadau i ysgogi'r farchnad dai unwaith eto, gan gynnwys adfywio hawl i brynu, gan gysylltu enillion gwerthiannau ag adeiladu cartrefi newydd. Rydym am weld camau cadarnhaol tebyg yn cael eu cymryd i gefnogi'r farchnad dai yng Nghymru. Byddem yn sefydlu comisiwn tai yng Nghymru gydag aelodau o bob rhan o'r sector tai. Byddai'r comisiwn yn datblygu syniadau ar sail tystiolaeth, ac yn gweithio gyda ni i lunio strategaeth dai gyffredinol. Gan weithio gyda'r comisiwn, byddai Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru yn cynyddu'r cyflenwad o dai, yn ehangu'r ystod o gynlluniau tai sydd ar gael, yn adfywio hawl i brynu ac yn ailddefnyddio cartrefi gwag.

We believe that house building needs to be stimulated through better rather than more regulation, and regular consultation at the local level. We believe that local authorities should base their affordable housing requirements for each planning application upon individual affordable housing viability assessments at each site. This is integral to stimulating house building. We know that we need affordable homes. However, if local authorities apply a blanket target to all new housing developments, builders can find it impossible to make developments work. Rather than delivering a high percentage of nothing as housing providers vote with their feet, local authorities must ensure that homes are built and occupied. The Taylor Wimpey site, at which I launched 'A Vision for Welsh Housing' last week, included 35 affordable homes being developed with housing associations, representing 17% of the total new homes on site. As they said, flexibility over percentage is key to housing more people.

The Council of Mortgage Lenders found that 54% of those under 35 currently renting would like to become home owners, but only 33% expect it to happen. These tenants should have the opportunity to buy the house that they have spent many years turning into their home, at a discount on market price, which makes this affordable. The money received from right to buy could then be ring-fenced to build new social housing. The capped discount in England starts at 35% and increases with the length of tenancy, and 844 new dwellings were started last year in consequence of right-to-buy sales. This is about releasing capital to fund more homes for more people.

The right-to-buy sales detailed in Welsh Government statistics include those by registered social landlords. Amendment 6 is therefore invalid, as is its claim that the power to suspend right to buy in high-demand areas can help to reduce homelessness and a lack of social housing, where this is only a right to suspend in the short term and research shows that tenants will remain in their properties for an average of 15 years or more. Further, the majority of right-to-buy purchases remain occupied on a long-term basis by the same tenants who purchased them.

Our 'Vision for Welsh Housing' advocates a localised approach to bringing empty homes back into use by recognising the reasons why a home might be empty for a prolonged period. We support the work that has been done by the Welsh Government to start tackling the problem of empty homes in our communities. The Welsh Government has a target to ensure that 5,000 of these are returned to use as homes by mid 2016.

Credwn fod angen i'r broses o adeiladu tai gael ei hysgogi drwy well rheoleiddio yn hytrach na mwy o reoleiddio, ac ymgynghori rheolaidd yn lleol. Credwn y dylai awdurdodau lleol seilio eu gofynion tai fforddiadwy am bob cais cynllunio ar asesiadau hyfywedd tai fforddiadwy unigol ar bob safle. Mae hyn yn rhan annatod o ysgogi'r broses o adeiladu tai. Gwyddwn fod angen tai fforddiadwy arnom. Fodd bynnag, os yw awdurdodau lleol yn pennu targed cyffredinol i bob datblygiad tai newydd, gall fod yn anodd iawn i adeiladwyr sicrhau bod datblygiadau'n gweithio. Yn hytrach na darparu canran uchel o ddim byd wrth i ddarparwyr tai bleidleisio gyda'u traed, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cartrefi yn cael eu hadeiladu a'u meddiannu. Roedd safle Wimpey Taylor, lle y lansiais 'Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru' yr wythnos diwethaf, yn cynnwys 35 o dai fforddiadwy a oedd yn cael eu datblygu gyda chymdeithasau tai, ac roeddent yn cynrychioli 17% o gyfanswm y cartrefi newydd ar y safle. Fel y dywedasant, mae hyblygrwydd ynghylch canran yn allweddol er mwyn rhoi cartref i fwy o bobl.

Canfu'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi yr hoffai 54% o'r rhai dan 35 oed sy'n rhentu ar hyn o bryd ddod yn berchnogion cartrefi, ond dim ond 33% sy'n disgwyl i hynny ddigwydd. Dylai'r tenantiaid hyn gael y cyfle i brynu'r tŷ y maent wedi treulio blynyddoedd lawer yn ei droi'n gartref iddynt, am bris sy'n llai na phris y farchnad, sy'n gwneud hyn yn fforddiadwy. Gallai'r arian a dderbynnir yn sgil hawl i brynu wedyn gael ei neilltuo i adeiladu tai cymdeithasol newydd. Mae'r gostyngiad wedi'i gapio yn Lloegr yn dechrau ar 35% ac yn cynyddu gyda hyd y denantiaeth, a dechreuwyd ar 844 o anheddau newydd y llynedd o ganlyniad i werthiannau hawl i brynu. Mae a wnelo hyn â rhyddhau cyfalaf i ariannu mwy o gartrefi i fwy o bobl.

Mae'r gwerthiannau hawl i brynu a grybwyllir yn ystadegau Llywodraeth Cymru yn cynnwys y rhai gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Felly mae Gwelliant 6 yn annilys, yn yr un modd ag y mae ei honiad y gall y pŵer i atal hawl i brynu mewn ardaloedd lle mae galw uchel helpu i leihau digartrefedd a diffyg tai cymdeithasol, lle nad yw hyn ond yn hawl i atal yn y tymor byr a dengys ymchwil y bydd tenantiaid yn aros yn eu heiddo am 15 mlynedd neu fwy ar gyfartaledd. At hynny, mae'r rhan fwyaf o bryniannau hawl i brynu yn parhau i gael eu meddiannu ar sail hirdymor gan yr un tenantiaid â'u prynodd.

Mae ein 'Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru' yn hyrwyddo dull gweithredu lleol i aildefnyddio cartrefi gwag drwy gydnabod y rhesymau pam y gallai cartref fod yn wag am gyfnod estynedig. Cefnogwn y gwaith sydd wedi cael ei gwneud gan Lywodraeth Cymru i ddechrau mynd i'r afael â phroblem cartrefi gwag yn ein cymunedau. Mae gan Lywodraeth Cymru darged i sicrhau bod 5,000 o'r rhain yn dechrau cael eu haildefnyddio fel cartrefi erbyn canol 2016.

However, we believe that it has vastly underestimated this issue. The Welsh Government does not monitor how many homes are empty throughout Wales, and Welsh Conservative freedom of information requests to all the local authorities in Wales found that there are around 32,000 empty homes throughout Wales. That is over 10,000 more than the former Minister for housing said that there were in January and, in fact, more than the current Minister said in publishing his Housing (Wales) Bill this week.

Every empty home has its own story and the key for empty homes officers is to understand why a home is empty, and to work closely with the owner to bring it back into use. We need to recognise that it costs the owner money to leave a home empty, and effective empty homes strategies should seek to work with owners, developing services to help them overcome the hurdles that they face. Those are not my words, but those of Denbighshire's empty homes officer.

For almost three years, the private rented sector has been telling me that it has already built-in housing benefit changes, and that change needed to be managed in the Welsh Government and local authorities. Regrettably, that did not happen until the changes were upon us. As it says:

'We have over 100 pieces of statutory legislation with over 400 regulations that govern property; we don't need any more, just implement what works and if possible simplify it!'

We also advocate action to meet rural housing need, including allowing open-market units on rural exception sites to cross-subsidise affordable housing, as across the border. Our proposals will deliver a whole-market solution to the Welsh housing supply crisis in social rent, in low-cost home ownership, and in open-market purchase, and enforce action against criminal landlords while embracing the private rented sector as a key provider of social housing.

We must give housing a home in Wales once again, recognising, as the European Commission has recommended,

'the need to implement a comprehensive housing reform programme to increase supply and therefore make housing more affordable'.

Fodd bynnag, credwn ei bod wedi tanamcangyfrif y mater hwn yn fawr iawn. Nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro faint o gartrefi sy'n wag ledled Cymru, a chanfu ceisiadau rhyddid gwybodaeth y Ceidwadwyr Cymreig i bob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru fod tua 32,000 o gartrefi yn wag ledled Cymru. Mae hynny dros 10,000 yn fwy na'r hyn a ddywedodd y cyn Weinidog tai oedd ar gael ym mis Ionawr ac, mewn gwirionedd, yn fwy na'r hyn a grybwyllwyd gan y Gweinidog presennol wrth gyhoeddi ei Fil Tai (Cymru) yr wythnos hon.

Mae gan bob cartref gwag ei stori ei hun a'r allwedd i swyddogion cartrefi gwag yw deall pam bod y cartref yn wag, a gweithio'n agos gyda'r perchennog i'w ailddefnyddio. Mae angen inni gydnabod ei bod yn costio arian i'r perchennog adael cartref yn wag, a dylai strategaethau cartrefi gwag effeithiol geisio gweithio gyda pherchnogion, gan ddatblygu gwasanaethau i'w helpu i oresgyn y rhwystrau a wynebant. Nid fy ngeiriau i yw'r rheini, ond geiriau swyddog cartrefi gwag Sir Ddinbych.

Ers bron i dair blynedd, mae'r sector rhentu preifat wedi bod yn dweud wrthyf ei fod eisoes wedi cynnwys newidiadau i fudd-dal tai, a bod angen i newid gael ei reoli yn Llywodraeth Cymru ac mewn awdurdodau lleol. Yn anffodus, roedd yn rhy hwyr erbyn i hynny ddigwydd. Fel y dywed:

Mae gennym dros 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth statudol gyda thros 400 o reoliadau sy'n rheoli eiddo; nid oes angen mwy arnom, dim ond gweithredu'r hyn sy'n gweithio ac, o bosibl, ei symleiddio.

Rydym hefyd yn cefnogi camau i ddiwallu anghenion tai gwledig, gan gynnwys caniatáu unedau marchnad agored ar safleoedd eithriadau gwledig i gynig croes-gymorthdaliadau o ran tai fforddiadwy, fel sy'n digwydd dros y ffin. Bydd ein cynigion yn darparu datrysiad marchnad gyfan i argyfwng cyflenwad tai Cymru o ran rhent cymdeithasol, perchentyaeth cost isel, a phryniannau marchnad agored, ac yn gorfodi camau gweithredu yn erbyn landlordiaid troseddol tra'n croesawu'r sector rhentu preifat fel darparwr tai cymdeithasol allweddol.

Rhaid inni roi cartref i dai yng Nghymru unwaith eto, gan gydnabod, fel yr argymhellodd y Comisiwn Ewropeaidd,

yr angen i weithredu rhaglen diwygio tai gynhwysfawr i gynyddu'r cyflenwad, a gwneud tai felly yn fwy fforddiadwy.

15:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y chwech gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynig gwelliannau 1, 3, 4, 5 a 6 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

I have selected the six amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendments 1, 3, 4, 5 and 6 tabled in the name of Aled Roberts.

Amendment 1—Aled Roberts

Insert as new point 1 and renumber accordingly:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn gresynu wrth y degawdau o fethiannau gan lywodraethau Llafur a Cheidwadol sydd wedi arwain at ein hargyfwng tai ac mae hynny wedi gwthio rhenti yn uwch ac yn uwch, wedi gadael miloedd o bobl heb obaith o gael eu troed ar yr ysgol eiddo, ac wedi golygu bod 1.5 miliwn yn llai o gartrefi cymdeithasol ar gael i'w rhentu.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod oddeutu 21,551 o gartrefi gwag hirdymor yng Nghymru a bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chreu strategaeth cartrefi gwag ar gyfer Cymru gyfan.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pryder adeiladwyr tai bod biwrocratiaeth yn y system gynllunio yn un o'r prif rwystrau i ddatblygu cartrefi newydd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Bil Diwygio Cynllunio arfaethedig i gael gwared ar y prif rwystrau rhag darparu trefn gynllunio effeithiol.

Gwelliant 5—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r camau a gymerir gan Lywodraeth y DU i ysgogi'r gwaith o adeiladu tai newydd drwy fenthyciadau ecwiti a chynllun gwarant morgais, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i bennu dyddiad ar gyfer cyflwyno'r cynllun hirddisgwyliedig Cymorth i Brynu Cymru.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi mai dim ond un ar ddeg o gynghorau lleol yng Nghymru sy'n dal i fod â stoc tai cyngor yn eu meddiant ac mae hynny'n llesteirio gweledigaeth Ceidwadwyr Cymreig i adfer cynllun 'Hawl i Brynu' yng Nghymru, a bod y pŵer i atal yr Hawl i Brynu tai cyngor mewn ardaloedd lle mae llawer o alw yn arf pwysig i helpu i leihau lefelau digartrefedd a phrinder tai cymdeithasol.

Regrets that decades of failure by Labour and Conservative governments left us with a housing crisis that forced rents higher and higher, left thousands of people with no hope of getting a foot on the property ladder, and resulted in 1.5 million fewer social homes available for rent.

Amendment 3—Aled Roberts

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Regrets that there are approximately 21,551 long term empty homes in Wales and that the Welsh Government has failed to produce a Wales wide empty homes strategy.

Amendment 4—Aled Roberts

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Acknowledges the concern of house builders that bureaucracy within the planning system is a major barrier to the development of new homes and calls on the Welsh Government to use the forthcoming Planning Reform Bill to remove key barriers to the delivery of an effective planning regime.

Amendment 5—Aled Roberts

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Welcomes the action being taken by the UK Government to stimulate new house building through equity loans and a mortgage guarantee scheme and calls on the Welsh Government to bring forward a date for the long overdue introduction of Help to Buy Cymru.

Amendment 6—Aled Roberts

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Notes that only eleven local councils in Wales still hold council housing stock which restricts the Welsh Conservative vision to rejuvenate a 'Right to Buy' scheme in Wales and that the power to suspend the Right to Buy for council houses in areas of high demand is a vital tool to help reduce homelessness and a lack of social housing.

15:17

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 3, 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.

Cynigiad welliannau 1, 3, 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In general terms, I am happy to endorse the thrust of any policy that says that we need to tackle the supply issues in Welsh housing. I think it is right that we look to increase supply, however, I am not convinced by the vision that I have in front of me. It seems to me to be only a partial vision and not the fully comprehensive document that I would expect such a vision to be in terms of delivering more housing for Wales across the board.

We do need to increase house building through deregulation, effective consultation and empowerment. However, we also need to look at the social housing sector, how we are going to improve the quality of housing in that sector, and how we are going to provide more affordable homes through the social housing sector. We must recognise the very close relationship, both statistically and in reality, between the number of social houses that are being built in Wales and the number of private sector homes that are built, and ensure that we get that understanding in terms of how we increase the overall housing supply for the whole of Wales.

House building is essential and must be part of the wider strategy: putting roofs over people's heads, reducing housing waiting lists, stopping over-crowding and under-occupancy, and providing jobs and strengthening our economy. Previous Governments have continually failed to build more homes than they were selling off. The Conservative and Labour Governments did not invest in social housing stock: 1.1 million homes were lost under the Conservatives, and another 420,000 were lost under Labour. The Welsh Government inherited this crisis, as Mark Isherwood has pointed out, and social housing waiting lists have also grown, from just over 1 million families in 1997 to 1.8 million in 2010—a rise of £741,000.

In the limited time that I have, I will talk about the amendments that we have tabled. I have just talked about the first amendment, which is a factual amendment on the increase in the crisis. However, in terms of amendment 3, tabled by us in relation to the number of empty homes, I think it is absolutely right that we should be seeking to bring back a number of empty homes into use. Obviously, we can argue about the figures, but the key issue is how money is being invested in that and how it is being done.

We are happy to endorse the Welsh Government's programme in terms of the loans, which we contributed to in part through our budget deal, of course, in 2011, and using those loans to encourage people to bring homes back into use. I am also very happy with the stick that is in the housing Bill in terms of increasing council tax on empty homes that are long-term empty, although, as I said in the contribution yesterday, I think that we need to look at a ladder, so that, the longer that the home is empty, the more the council tax rises on that to try to encourage people to bring those homes back into use. Certainly, we need to do more in terms of having a national strategy for empty homes, in my view, and also I think some local authorities have not quite got the full picture in terms of how they should be putting their local strategies into use. Not all of them have access to empty homes officers, so, clearly, there is a lot more that needs to be done on that.

Yn gyffredinol, rwy'n hapus i gefnogi byrdwn unrhyw bolisi sy'n dweud bod angen inni fynd i'r afael â materion cyflenwi tai yng Nghymru. Credaf ei bod yn iawn inni ystyried cynyddu cyflenwad, fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth sydd ger fy mron yn fy argyhoeddi. Gweledigaeth rannol ydyw i bob golwg ac nid dyma'r ddogfen gynhwysfawr lawn y byddwn yn disgwyl i weledigaeth o'r fath fod o ran darparu mwy o dai i Gymru yn gyffredinol.

Mae angen inni gynyddu gwaith adeiladu tai drwy ddadroleiddio, ymgynghori effeithiol a grymuso. Fodd bynnag, mae angen hefyd inni edrych ar y sector tai cymdeithasol, sut rydym yn mynd i wella ansawdd tai yn y sector hwnnw, a sut rydym yn mynd i ddarparu mwy o dai fforddiadwy drwy'r sector tai cymdeithasol. Rhaid inni gydnabod y berthynas agos iawn sydd, yn ystoddegol ac mewn gwirionedd, rhwng y nifer o dai cymdeithasol sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru a nifer y cartrefi yn y sector preifat sy'n cael eu hadeiladu, a sicrhau ein bod yn cael y ddealltwriaeth honno o ran sut i gynyddu'r cyflenwad tai cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan.

Mae adeiladu tai yn hanfodol a rhaid iddo fod yn rhan o'r strategaeth ehangach: rhoi cartref i bobl, lleihau rhestrau aros am dai, atal gorlenwi a than-ddeiliadaeth, a darparu swyddi a chryfhau ein heconomi. Mae llywodraethau blaenorol wedi methu yn barhaus ag adeiladu mwy o gartrefi nag yr oeddent yn eu gwerthu. Ni fuddsoddodd y Llywodraeth Geidwadol na'r Llywodraeth Lafur mewn stoc tai cymdeithasol: collwyd 1.1 miliwn o gartrefi o dan y Ceidwadwyr, a hollwyd 420,000 arall o dan Lafur. Etifeddodd Llywodraeth Cymru yr argyfwng hwn, fel y mae Mark Isherwood wedi ei nodi, ac mae rhestrau aros am dai cymdeithasol hefyd wedi tyfu, o ychydig dros filiwn o deuluoedd yn 1997 i 1.8 miliwn yn 2010—cynnydd o £741,000.

Yn yr amser prin sydd gennyf, siaradaf am y gwelliannau a gyflwynwyd gennym. Rwyf newydd sôn am y gwelliant cyntaf, sy'n welliant ffeithiol am y cynnydd yn yr argyfwng. Fodd bynnag, o ran gwelliant 3, a gyflwynwyd gennym mewn perthynas â nifer y cartrefi gwag, credaf ei fod yn hollol iawn y dylem fod yn ceisio ailddefnyddio nifer o gartrefi gwag eto. Yn amlwg, gallwn ddadlau am y ffigurau, ond y mater allweddol yw sut y mae arian yn cael ei fuddsoddi yn hynny a sut y caiff ei wneud.

Rydym yn hapus i gymeradwyo rhaglen Llywodraeth Cymru o ran y benthyciadau, y gwnaethom gyfrannu atynt drwy ein cytundeb cyllideb, wrth gwrs, yn 2011, a defnyddio'r benthyciadau hynny i annog pobl i ddechrau ailddefnyddio cartrefi. Rwyf hefyd yn fodlon iawn ar y cymhelliant sydd yn y Bil cartrefi o ran cynyddu'r dreth gyngor ar gartrefi gwag sy'n wag yn yr hirdymor, er, fel y dywedais yn y cyfraniad ddoe, credaf fod angen inni ystyried ysgol, fel y cawn sefyllfa lle, po hwyaf y bydd y cartref yn wag, y mwyaf y codir y dreth gyngor arno er mwyn ceisio annog pobl i ddechrau ailddefnyddio'r cartrefi hynny. Yn sicr, mae angen inni wneud mwy o ran cael strategaeth genedlaethol ar gyfer cartrefi gwag, yn fy marn i, a chredaf hefyd nad yw rhai awdurdodau lleol wedi deall y darlun llawn yn llwyr o ran sut y dylent fod yn rhoi eu strategaethau lleol ar waith. Ni all pob un ohonynt fanteisio ar swyddogion cartrefi gwag, felly, yn amlwg, mae angen gwneud llawer mwy o waith ar hynny.

On the right to buy, in England, there is a one-for-one policy in the coalition Government, whereby, when a house is sold, it will be replaced by another home. The only way that that is being achieved is by the UK Government putting more capital in, because only 30% of the capital received is available for investing in that new home. If that were to apply in Wales, the Welsh Government would clearly have to invest more money in that. Of course, it is the right to acquire with registered social landlords, not the right to buy, and, in terms of councils, most of the housing revenue grant is being used by councils to try to bring their homes up to the Welsh housing quality standard.

There is a clear balance that has to be struck between the standards that exist in council homes and building new homes. Most new social housing is built through the RSL sector, and I would envisage that that is going to continue for some time, at least until councils have finally got their stock up to the relevant quality. Therefore, I think there is a disparity in terms of what happens to the receipt of the right to buy and how that is put into building new homes. Of course, there is a process that means that it takes time anyway to replace a home, once it has been sold off, in terms of planning and a whole range of issues, such as sewerage, gas and electricity connections, et cetera, and in terms of building and where you are going to put those homes.

So, I do not think that it is as simple as saying that we are going to have a one-for-one policy; I think that it is a bit more complex than that, and I think that we need to look at how that is going to be. In principle, it is a 'yes', but, in practice, we need to put more money in, and, of course, the budget proposals that have come from the Conservatives in the past would cut the money available to housing anyway, so that would cause an additional problem for us.

In terms of amendment 4, we are very happy to endorse the need to reduce bureaucracy—

O ran yr hawl i brynu, yn Lloegr, mae polisi un-am-un yn y Llywodraeth glymblaid, lle y bydd tŷ, pan gaiff ei werthu, yn cael ei ddisodli gan gartref arall. Yr unig ffordd y cyflawnir hynny yw drwy gael Llywodraeth y DU i roi mwy o cyfalaf, oherwydd dim ond 30% o'r cyfalaf a dderbynnir sydd ar gael i'w fuddsoddi yn y cartref newydd hwnnw. Pe baem yn cymhwysu hynny yng Nghymru, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru yn amlwg fuddsoddi mwy o arian yn hynny. Wrth gwrs, hawl i gaffael gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ydyw ac nid hawl i brynu, ac, o ran cynghorau, defnyddir y rhan fwyaf o'r grant referniw tai i geisio gwella eu cartrefi fel eu bod yn cyrraedd safon ansawdd tai Cymru.

Mae cydbwysedd clir y mae'n rhaid ei daro rhwng y safonau sy'n bodoli mewn tai cyngor ac adeiladu cartrefi newydd. Adeiledir y rhan fwyaf o dai cymdeithasol newydd drwy'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a byddwn yn rhagweld bod hynny'n mynd i barhau am beth amser, o leiaf hyd nes y bydd cynghorau wedi sicrhau bod eu stoc yn cyrraedd y safon berthnasol. Felly, credaf fod gwahaniaeth o ran yr hyn sy'n digwydd i arian hawl i brynu a sut y caiff hynny ei wario ar adeiladu cartrefi newydd. Wrth gwrs, mae proses sy'n golygu ei bod yn cymryd amser beth bynnag i adeiladu cartref newydd, unwaith y bydd wedi cael ei werthu, o ran cynllunio ac ystod gyfan o faterion, megis cysylltiadau carthffosiaeth, trydan, nwy ac ati, ac o ran adeiladu a ble rydych yn mynd i roi'r cartrefi hynny.

Felly, ni chredaf ei bod mor syml â dweud ein bod yn mynd i gael polisi un-am-un; credaf ei bod ychydig yn fwy cymhleth na hynny, a chredaf fod angen inni edrych ar sut y bydd hynny'n digwydd. Mewn egwyddor, mae'n 'ie', ond, yn ymarferol, mae angen inni fuddsoddi mwy o arian, ac, wrth gwrs, byddai cynigion y gyllideb gan y Ceidwadwyr yn y gorffennol wedi cwtogi ar yr arian sydd ar gael i dai beth bynnag, felly byddai hynny'n achosi problem ychwanegol inni.

O ran gwelliant 4, rydym yn hapus iawn i gymeradwyo'r angen i leihau biwrocratiaeth—

15:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will finish on amendment 4.

Byddwch yn gorffen ar welliant 4.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:22 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are very happy to endorse the need to reduce bureaucracy. We carried out our own survey that shows that this is a major concern for house builders and I think that we do need to have a look at that.

Rydym yn hapus iawn i gymeradwyo'r angen i leihau biwrocratiaeth. Gwnaethom gynnal ein harolwg ein hunain sy'n dangos bod hyn yn bryder mawr i adeiladwyr tai a chredaf fod angen inni gael golwg ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnis gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I call on Jocelyn Davies to move amendment 2 tabled in the name of Elin Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwelliant 2—Elin Jones

Amendment 2—Elin Jones

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Insert at end of point 1:

Yn nodi nad yw polisi'r Ceidwadwyr Cymreig 'Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru' yn cydnabod mai'r broblem tai mwyaf brys yw'r effaith enbyd y mae'r Dreth Ystafell Wely yn ei chael ar nifer o denantiaid tai cymdeithasol, gan effeithio ar allu landlordiaid cymdeithasol i gynyddu'r cyflenwad tai, ac felly'n annog Llywodraeth y DU i ddi-ddymu'r Dreth Ystafell Wely.

'fails to recognise that the most urgent housing issue is the devastating impact of the Bedroom Tax on many social housing tenants thereby affecting social landlords' ability to increase housing supply, and therefore urges the UK Government to repeal the Bedroom Tax'.

15:23

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 2.

I very much welcome the opportunity speak in this debate today, but may I say from the outset how shameless the Welsh Conservatives are in publishing a paper that is, effectively, about housing supply without mentioning the biggest challenge in housing at the moment, which, of course, is the bedroom tax that their party has introduced? There is not one single mention of it in their paper, and I think that that omission alone discredits the entire document. I have to say that it reflects very badly on them indeed. It is impossible to look at housing supply without addressing the bedroom tax. Everyone in this Chamber will have seen the press release this morning from Community Housing Cymru, and I know that Mark Isherwood especially enjoys quoting statistics and reports, and I am sure that that report made grim reading for him and the rest of you this morning: seeing in black and white the devastating impact of your party's policies on individuals, families and communities and on the economic contribution of the social housing sector. I noticed that that report was not mentioned in his speech today.

Let us remind ourselves of the stated aims of this policy: to secure savings for the public purse and to make bigger properties available for those on housing waiting lists in overcrowded conditions. I would like to take a closer look at what Community Housing Cymru has told us in its statement, which is that just 3% of tenants have downsized, which is hardly a ringing endorsement. However, here is the perverse impact of the bedroom tax: CHC has said that over £1 million of rent arrears has accrued as a result in the last six months and, by April next year, it expects that to double. That huge surge in arrears represents enough leverage to service £40 million of debt, which could have been used to deliver another 400 affordable homes.

The supply of new homes in Wales is radically reduced due to the impact of the bedroom tax. Interestingly, Community Housing Cymru also found an increase in voids—that is, an increase in empty properties. So, on the one hand, we have people unwilling to enter those properties because they fear that they will not be able to cover the rent with the bedroom tax, and we have a surge. So, we have a surge in empty properties, and those who are stuck because they cannot downsize are not only facing financial hardship, but their arrears mean that fewer affordable homes can be built to meet the demands that we already face. If tenants turn to the private sector for smaller properties to rent, the rents there will be higher. The housing benefit bill will be bigger—no savings. This is not complicated stuff.

Cynigiad welliant 2.

Croesawaf yn fawr iawn y cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw, ond a allaf ddweud o'r cychwyn cyntaf pa mor ddigywilydd yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyhoeddi papur sydd, i bob pwrpas, yn ymwneud â'r cyflenwad tai heb sôn am yr her fwyaf ym maes tai ar hyn o bryd, sef, wrth gwrs, y dreth ystafell wely a gyflwynwyd gan eu plaid? Nid oes sôn amdani o gwbl yn eu papur, a chredaf fod yr hepgoriad hynny ar ei ben ei hun yn bwrw amheuaeth ar y ddogfen gyfan. Rhaid imi ddweud ei fod yn wir yn adlewyrchu'n wael iawn arnynt. Mae'n amhosibl edrych ar gyflenwad tai heb fynd i'r afael â'r dreth ystafell wely. Bydd pawb yn y Siambur hon wedi gweld y datganiad i'r wasg y bore yma gan Cartrefi Cymunedol Cymru, a gwn fod Mark Isherwood yn enwedig yn mwynhau dyfynnu ystadegau ac adroddiadau, ac rwy'n siŵr bod darllen yr adroddiad hwnnw wedi bod yn brofiad amhleserus iddo ef a'r gweddill ohonoch y bore yma: gweld mewn du a gwyn effaith ddinistriol polisiâu eich plaid ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ac ar gyfraniad economaidd y sector tai cymdeithasol. Sylwais na chafodd yr adroddiad hwnnw ei grybwyll yn ei araith heddiw.

Gadewch inni atgoffa ein hunain o nodau datganedig y polisi hwn: sicrhau arbedion i bwrs y wlad a sicrhau bod eiddo mwy o faint ar gael i'r rhai ar restrau aros am dai sy'n byw mewn cartrefi lle nad oes digon o le iddynt. Hoffwn edrych yn agosach ar yr hyn a ddywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthym yn ei ddatganiad, sef mai dim ond 3% o denantiaid sydd wedi symud i eiddo llai o faint, nad yw wir yn gymeradwyaeth fawr. Fodd bynnag, dyma effaith groes y dreth ystafell wely: mae CIC wedi dweud bod dros £1 filiwn o ôl-ddyledion rhent wedi cronni o ganlyniad i hyn dros y chwe mis diwethaf, ac, erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf, mae'n disgwyl i hynny ddyblu. Mae hynny'n ymchwydd enfawr mewn ôl-ddyledion sy'n ddigon i dalu llog ar ddyled o £40 miliwn y gellir bod wedi ei ddefnyddio i ddarparu 400 o gartrefi fforddiadwy eraill.

Mae'r cyflenwad o gartrefi newydd yng Nghymru yn cael ei leihau'n sylweddol oherwydd effaith y dreth ystafell wely. Yn ddi-ddorol, mae Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd wedi sylwi ar gynnydd mewn unedau gwag—hynny yw, cartrefi gwag. Felly, ar y naill law, mae gennym bobl sy'n amharod i fynd i mewn i'r mathau hynny o eiddo am eu bod yn pryderu na fyddant yn gallu talu'r rhent gyda'r dreth ystafell wely, a chawn ymchwydd. Felly, mae gennym ymchwydd yn nifer yr eiddo gwag, ac mae'r rhai sydd wedi eu dal am na allant fynd i eiddo llai nid yn unig yn wynebu caledi ariannol, ond bydd eu hól-ddyledion yn golygu na ellir adeiladu cymaint o dai fforddiadwy i fodloni'r gofynion a wynebwn eisoes. Os bydd tenantiaid yn troi at y sector preifat am eiddo llai i'w rhentu, bydd y rhenti yno yn uwch. Bydd y bil budd-dal tai yn fwy—dim arbedion. Nid yw hyn yn rhywbeth cymhleth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The low-paid and the disabled are making up the bulk of those affected, so, any savings to the public purse are being met by those least able to do so. So much for David Cameron's 'Those with the broadest shoulders shall bear the greatest burden'. This is a vicious housing circle spitefully implemented by the UK Government and one that is hurting people and hurting society as a whole. This policy is rubbish, and I am not surprised that you do not talk about it or mention it.

I reiterate to Members here today my party's call for an immediate repeal of the bedroom tax; it makes financial sense to ditch it. It is cruel, it is a waste of money, and it fails its own policy objectives. Perhaps the Tories, later on in this debate, will explain their gushing support for the mortgage rescue scheme, which I instigated while in Government, that assisted people who were unable to pay their mortgages. There was not one call from you lot that those people should sell up and move into properties that were smaller that they could afford: not once. You are quite happy to use public funds to subsidise home owners, and we have heard talk of that already today in this debate. You are quite happy to subsidise home ownership. So, as for the Welsh Tories' apparent housing vision, until you are able and willing to right your wrongs, this vision is not worth the paper that it is written on.

Y rhai ar incwm isel a phobl anabl yw'r rhan fwyaf o'r rhai yr effeithir arnynt, felly, caiff unrhyw arbedion i bwrs y wlad eu gwneud gan y rhai lleiaf abl i wneud hynny. Felly naw wfft i eiriau David Cameron pan ddywedodd mai'r rhai sydd â'r ysgwyddau lletaf fydd yn gyfrifol am y baich mwyaf. Mae hwn yn gylch tai diefflig er gwaethaf yr hyn a weithredwyd gan Lywodraeth y DU ac mae'n un sy'n niweidio pobl ac yn niweidio cymdeithas yn gyffredinol. Nonsens yw'r polisi hwn, ac nid wyf yn synnu nad ydych am siarad amdano na'i grybwyll.

Ategap i'r Aelodau yma heddiw alwad fy mhlaid am ddiddymu'r dreth ystafell wely ar unwaith; mae'n gwneud synnwyr ariannol i'w dileu. Mae'n greulon, yn wastraff arian, ac yn methu ei hamcanion polisi ei hun. Efallai mai'r Torïaid, yn ddiweddarach yn y ddadl hon, fydd yn esbonio eu cefnogaeth fyrlymus i'r cynllun achub morgeisi, a roddais ar waith pan oeddem mewn grym, a helpodd bobl nad oeddent yn gallu talu eu morgeisi. Ni chafwyd un alwad gennych chi y dylai'r bobl hynny werthu eu heiddo a symud i eiddo fforddiadwy, llai o faint: dim un alwad. Rydych yn eithaf hapus i ddefnyddio arian cyhoeddus i roi cymhorthdal i berchnogion tai/sybsideiddio perchnogion tai, ac rydym wedi clywed sôn am hynny eisoes heddiw yn y ddadl hon. Rydych yn ddigon hapus i roi cymhorthdal o ran perchentyaeth. Felly, o ran gweledigaeth tai amlwg y Torïaid Cymreig, hyd nes y byddwch yn gallu ac yn barod i unioni eich camweddau, nid yw'r weledigaeth hon yn werth y papur y cafodd ei hysgrifennu arno.

15:27

Mohammad Asghar [Bywgraffiad Biography](#)

I have just listened to our previous Deputy Minister for Housing. She never achieved any of the targets that she put in her manifesto or her portfolio. What she said about giving this subsidy to house owners is all nonsense. We should be helping home owners, not the financial companies to take over the properties when they know that the properties have gone up in value and people cannot pay the mortgage. The only thing that we can do—if the Conservative party comes into power in Wales, we will abolish repossession in Wales. I will work tirelessly on this: not to have repossession. [Interruption.] No repossession. Listen, there are in the development— [Interruption.] Let me finish.

Rwyf newydd wrando ar ein cyn Ddirprwy Weinidog dros Dai. Ni chyflawnodd byth unrhyw un o'r targedau a roddodd yn ei manifesto na'i phortffolio. Mae'r hyn a ddywed am roi'r cymhorthdal hwn i berchnogion tai yn nonsens llwyr. Helpu perchnogion tai y dylem fod yn ei wneud, nid y cwmnïau ariannol i feddiannu'r eiddo pan wyddant fod yr eiddo wedi cynyddu mewn gwerth ac na all pobl dalu'r morgais. Yr unig beth y gallwn ei wneud—os daw'r blaid Geidwadol i rym yng Nghymru, byddwn yn diddymu'r system adfeddiannu yng Nghymru. Byddaf yn gweithio'n ddiflino ar hyn: i beidio â chael system adfeddiannu. [Torri ar draws.] Dim adfeddiannu. Gwrandewch, datblygir—[Torri ar draws.] Gadewch imi orffen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Order. Jocelyn, please sit down. Order. I do not want contributions having to be shouted out because of the hubbub of noise. I need to listen to Members who are speaking in a reasonable tone.

Trefn. Jocelyn, eisteddwch. Trefn. Nid wyf am i gyfraniadau orfod gael eu gweiddi allan oherwydd twrw. Mae angen imi wrando ar Aelodau sy'n siarad mewn llais rhesymol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:28

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. My point is that, if the property is there with a certain value, lenders should not repossess. They should extend the period of the mortgage and let these people pay the mortgage that they can afford within their means and income, rather than repossessing. These big financial institutions make a lot of profit. I have seen, in my professional life, people losing their properties and their families have broken up. People have gone on a suicidal track and the children gone for—God help, I do not want to mention that in this Chamber. That is the worst thing that can happen when someone's house is repossessed. In this Chamber, no-one has said one word on this, and I would urge the Minister to do something on that. I give way to Jocelyn now.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Fy mhwynt yw hyn, os yw'r eiddo yno gyda gwerth penodol, ni ddylai benthycwyr adfeddiannu. Dylent ymestyn cyfnod y morgais a gadael i'r bobl hyn dalu'r morgais y gallant ei fforddio o fewn eu modd a'u hincwm, yn hytrach nag adfeddiannu. Mae'r rhain yn sefydliadau ariannol mawr sy'n gwneud llawer o elw. Yn fy mywyd proffesiynol, gwelais bobl yn colli eu heiddo a'u teuluoedd yn chwalu. Mae pobl wedi mynd ar hyd llwybr hunanladdiad a'r plant wedi mynd i—Duw â'n helpo, nid wyf am sôn am hynny yn y Siambr hon. Dyna'r peth gwaethaf a all ddigwydd pan gaiff tŷ rhywun ei adfeddiannu. Yn y Siambr hon, nid oes neb wedi dweud un gair ar hyn, a byddwn yn annog y Gweinidog i wneud rhywbeth ynglŷn â hynny. Ildiaf i Jocelyn yn awr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:29

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, we did have the mortgage rescue scheme, which does exactly as you have said, but do you think then that tenants should face eviction, if, for home owners, you would do away with repossession in their case of debt?

Wrth gwrs, cawsom y cynllun achub morgeisi, sy'n gwneud yn union fel yr ydych wedi'i ddweud, ond a ydych yn meddwl wedyn y dylai tenantiaid gael eu troi allan, pe baech, ar gyfer perchnogion cartrefi, yn dileu'r system adfeddiannu yn achos eu dyled hwy?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:29

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Look, Jocelyn, we are talking only about the welfare of the people of Wales, whether they are tenants or house owners—whether they are house owners or tenants and however long they have been living in those properties, and however long they have been contributing to the community.

Edrychwch, Jocelyn, dim ond am les pobl Cymru yr ydym yn sôn, p'un a ydynt yn denantiaid neu'n berchogion tai—p'un a ydynt yn berchnogion tai neu'n denantiaid ac ni waeth pa mor hir y maent wedi bod yn byw yn yr eiddo hynny, ac ni waeth pa mor hir y maent wedi bod yn cyfrannu at y gymuned.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It has been my pleasure to contribute to this debate. It is a sad fact that, today, Wales faces an acute housing shortage. The Welsh Government itself stated in its 'Homes for Wales' White Paper that Wales needs a flexible housing system, where people can move more easily between social housing, private rented accommodation, and home ownership, to suit their needs at different times of their lives. However, the number of new homes that were built in Wales in 2012-13 was less than 5,500. This is the lowest figure for a generation—what a shame. As a result, we have too many young people who are unable to leave their family homes, and many families who are stuck in homes that they have outgrown. This has serious consequences for social mobility, for jobs and growth in our economy, as well as for our society.

Mae wedi bod yn bleser cyfrannu at y ddatl hon. Mae'n ffaith drist bod Cymru, heddiw, yn wynebu prinder tai difrifol. Mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi nodi yn ei Phapur Gwyn 'Cartrefi i Gymru' fod angen system dai hyblyg ar Gymru, lle gall pobl symud yn haws rhwng tai cymdeithasol, llety rhent preifat, a pherchentyaeth, i ddiwallu eu hanghenion ar wahanol adegau yn eu bywydau. Fodd bynnag, roedd nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd yng Nghymru yn 2012-13 yn llai na 5,500. Dyma'r ffigur isaf ers cenhedlaeth—dyna drueni. O ganlyniad, mae gennym ormod o bobl ifanc na allant adael eu cartref teuluol, a llawer o deuluoedd sy'n dal i fyw mewn cartrefi sy'n rhy fach iddynt. Mae i hyn ganlyniadau difrifol o ran symudedd cymdeithasol, swyddi a thwf yn ein heconomi, ac o ran ein cymdeithas hefyd.

It is clear that we need positive action to support the Welsh housing market. To this end, we would establish a Welsh housing commission, Minister. We need to increase the supply of houses, expand the number of housing schemes that are available, and bring as many empty homes as possible back into use. First, to increase the supply of housing, we need to address the red tape that is causing construction firms to look to build outside Wales at present. That is a shame—they should be building properties and homes in Wales, not outside Wales. In September, it was reported that Persimmon homes said that it was to stop building homes in parts of the south Wales Valleys, claiming that sites do not make money there. It blamed Welsh Government red tape, which, it claimed, added an extra £3,000 to the cost of building a house. Last year, Redrow said that parts of Wales risked becoming no-go areas, due to tougher building regulations. We have to ensure that regulations do not put a disproportionate burden on Welsh house builders.

We must also support affordable schemes, which enable lenders to engage with potential buyers. In England, the Help to Buy scheme has been a great success. More than 2,000 people have put an offer on a home under that scheme, totalling £365 million of new mortgage lending. More than three quarters of the applicants are first-time buyers, and many of them are in their early 30s. We need a similar initiative in Wales, Minister. Action needs to be taken to ensure that the number of empty homes in Wales —

Mae'n amlwg bod angen cymryd camau gweithredu cadarnhaol i gefnogi'r farchnad dai yng Nghymru. I'r perwydd hwn, byddem yn sefydlu comisiwn tai Cymru, Weinidog. Mae angen inni gynyddu'r cyflenwad o dai, ehangu nifer y cynlluniau tai sydd ar gael, ac aildefnyddio cymaint o gartrefi gwag â phosibl. Yn gyntaf, er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai, mae angen inni fynd i'r afael â'r ficrocratiaeth sy'n golygu bod cwmnïau adeiladu yn ystyried adeiladu y tu allan i Gymru ar hyn o bryd. Mae hynny'n drueni—dylent fod yn adeiladu eiddo a chartrefi yng Nghymru, nid y tu allan i Gymru. Ym mis Medi, adroddwyd bod cartrefi Persimmon wedi dweud ei fod yn rhoi'r gorau i adeiladu cartrefi yn rhannau o gymoedd y de, gan honni nad yw'r safleoedd yn gwneud arian yno. Beiodd ficrocratiaeth Llywodraeth Cymru, a oedd, yn ôl ei honiad, yn ychwanegu £3,000 arall at gost adeiladu tŷ. Y llynedd, dywedodd Redrow fod perygl y byddai rhannau o Gymru yn troi'n ardaloedd nad oes neb yn mynd iddynt, oherwydd rheoliadau adeiladu llymach. Rhaid inni sicrhau nad yw rheoliadau'n rhoi baich anghymesur ar adeiladwyr tai yng Nghymru.

Rhaid inni hefyd gefnogi cynlluniau fforddiadwy, sy'n galluogi benthycwyr i ymgysylltu â phrynwyr posibl. Yn Lloegr, mae'r cynllun Help i Brynu wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae mwy na 2,000 o bobl wedi rhoi cynnig ar gartref o dan y cynllun, sef cyfanswm o £365 miliwn o fenthyciadau morgesi newydd. Mae mwy na thri chwarter yr ymgeiswyr yn brynwyr tro cyntaf, ac mae llawer ohonynt yn eu 30au cynnar. Mae angen menter debyg yng Nghymru, Weinidog. Mae angen cymryd camau er mwyn sicrhau bod nifer y cartrefi gwag yng Nghymru—

- 15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Finish with this point. Gorffennwch ar y pwynt hwn.
- 15:33 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
In June 2013, there were nearly 32,000 empty properties in Wales, including 15,000 in Newport alone, which is in my area. Ym mis Mehefin 2013, roedd bron i 32,000 o dai gwag yng Nghymru, gan gynnwys 15,000 yng Nghasnewydd yn unig, sydd yn fy ardal i.
- 15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you. I call on Sandy Mewies. Diolch. Galwaf ar Sandy Mewies.
- 15:33 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am sure that the party here on my left must have been horrified when it saw the Community Housing Cymru report today, and what it says. I certainly was, but I think that some of us were aware of what was happening, and have been aware for a long time. Rwy'n siŵr bod y blaid yma ar fy chwith wedi cael eu harswydo pan welodd adroddiad Cartrefi Cymunedol Cymru heddiw, a'r hyn y mae'n ei ddweud. Yn sicr, roeddwn i wedi fy arswydo, ond credaf fod rhai ohonom yn gwybod beth oedd yn digwydd, ac wedi bod yn ymwybodol ohono ers amser hir.
- I salute Jocelyn in what she said. I agree with her wholeheartedly that the bedroom tax is pernicious, spiteful and vindictive, and anyone who supports it should hang their head in shame. I have heard someone else from that party on my left saying things like, 'Well, it's alright, we know of tenants who were driven to commit suicide because of the bedroom tax—because they had to leave their homes and their jobs and because their children had to leave their schools', but it seems that that is okay. Canmolaf Jocelyn am yr hyn a ddywedodd. Cytunaf yn llwyr â hi bod y dreth ystafell wely yn niweidiol, sbeityd a dialgar, a dylai unrhyw un sy'n ei chefnogi deimlo cywilydd. Rwyf wedi clywed rhywun arall o'r blaid honno ar fy chwith yn dweud pethau fel, 'Wel, mae'n iawn, gwyddom am denantiaid a gyflawnodd hunanladdiad oherwydd y dreth ystafell wely—am eu bod wedi gorfod gadael eu cartrefi a'u swyddi ac am fod eu plant wedi gorfod gadael eu hysgolion', ond ymddengys fod hynny'n iawn.

15:34	Byron Davies Bywgraffiad Biography Will you give way?	A wnewch ildio?	Senedd.tv Fideo Video
15:34	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography No. What they want to do is support a scheme that can support people who can pay for a £600,000 mortgage. Now, I am telling you that people in my patch are asking how that scheme has helped them. What they are telling me is this: 'Help to Buy has put up prices by 20%, so we still can't afford to buy.' That is what they are saying to me —	Na wnaf Yr hyn y maent eisiau ei wneud yw cefnogi cynllun a all gefnogi pobl sy'n gallu talu am forgais £600,000. Nawr, rwy'n dweud wrthyh fod pobl yn fy ardal i yn gofyn sut y mae'r cynllun wedi eu helpu hwy. Yr hyn a ddywedant wrthyf yw hyn: 'Mae Help i Brynu wedi codi prisiau 20%, felly rydym yn dal i fethu â fforddio prynu.' Dyna'r hyn a ddywedant wrthyf—	Senedd.tv Fideo Video
15:34	Byron Davies Bywgraffiad Biography Will you give way?	A wnewch ildio?	Senedd.tv Fideo Video
15:34	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography No, I will not. One problem now, which people are choosing to ignore, is that housing associations and local authorities, and anybody in the social housing market, are coming to a tipping point, because what we have had is people who knew their rents were going up and have tried desperately to carry on paying them. Some have succeeded because they can afford it. Some have succeeded in paying part of it. Some have not succeeded at all. Now, we are getting to the end of that road. Local authorities and housing associations are facing very difficult situations indeed. What is the solution? What happens if you put people in bed and breakfasts and the private rented sector? It is going to cost more. It is stupid as well as vindictive. It is even more stupid because we all say here that we care about people with disabilities, and what we do for them when they are in social housing and housing associations is give money through local authorities and housing associations for homes to be specially adapted. There are cases now of people who have had anything between £25,000 and £40,000 spent on their homes because they have a disability being faced with the prospect of being moved out of those houses into smaller properties. Do you know what will happen when they get there? They will have to have those adaptations done again. That is stupid. It is stupid economically and it is also immoral. So, when you talk about your vision for housing in Wales, remember this: it is a blurred vision, it is a short-sighted vision, and it is hurting people.	Na, ni wnaf. Un broblem yn awr, y mae pobl yn dewis ei hanwybyddu, yw bod cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, ac unrhyw un yn y farchnad tai cymdeithasol, yn wynebu sefyllfa argyfyngus, oherwydd yr hyn yr ydym wedi ei gael yw pobl a oedd yn gwybod bod eu rhenti'n codi ac sydd wedi brwydro'n galed i'w talu o hyd. Mae rhai wedi llwyddo oherwydd gallant ei fforddio. Mae eraill wedi llwyddo i dalu rhan ohono. Nid yw rhai wedi llwyddo o gwbl. Nawr, rydym yn agosáu at ddiwedd y daith honno. Mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn wynebu sefyllfaoedd anodd iawn yn wir. Beth yw'r ateb? Beth sy'n digwydd os rhoddwch bobl mewn llety gwely a brecwast a'r sector rhentu preifat? Mae'n mynd i gostio mwy. Mae'n wirion yn ogystal â dialgar. Mae hyd yn oed yn fwy gwirion gan ein bod i gyd yn dweud yma ein bod yn gofalu am bobl ag anableddau, a'r hyn a wnawn iddynt pan fyddant mewn tai cymdeithasol a chymdeithasau tai yw rhoi arian drwy awdurdodau lleol a chymdeithasau tai er mwyn sicrhau y caiff eu cartrefi eu haddasu'n arbennig. Ceir achosion yn awr o bobl y gwariwyd unrhyw beth rhwng £25,000 a £40,000 ar eu cartrefi am fod ganddynt anabledd yn gorfod wynebu'r posibilrwydd o gael eu symud allan o'r tai hynny i eiddo llai. A wyddoch chi beth fydd yn digwydd pan fyddant yn cyrraedd yno? Bydd yn rhaid i'r addasiadau hynny gael eu gwneud eto. Mae hynny'n wirion. Mae'n wirion yn economaidd ac mae hefyd yn anfoesol. Felly, pan fyddwch yn siarad am eich gweledigaeth ar gyfer tai yng Nghymru, cofiwch hyn: gweledigaeth aneglur ydyw, gweledigaeth annoeth ydyw, ac mae'n brifo pobl.	Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to discuss the housing crisis facing us in Wales, and it is a crisis. Too often we listen to Members of the Government and we would be forgiven for thinking that if the Tories had never lived on this planet, everything would be so perfect, would it not? Well, let me tell you, it would not. Sandy Mewies may well say that our vision is imperfect—I think she used the word 'blurred'—but at least it is a vision, and at least we have put forward recently a vision for housing in Wales. Do you know what we see? We see a Wales where supply is adequate to meet the needs of the people of Wales. Over the last 10 years—well, longer than that now—since 1999, sadly, we have seen a crisis develop because simply not enough of the right types of houses have been built.

I fully hear what you say about the bedroom tax. Nobody likes to have to make changes that are going to cause disruptions to some people's lives. No-one likes that. Sadly, the UK Government found itself in a position where it had no choice but to take difficult decisions because of the disastrous economic legacy left by the previous Labour Government. We have to sit here and listen to you guys whinging about us, so maybe it is time that you listened to the criticisms we have of the mess that the last Labour UK Government left us.

To be fair to you, Sandy Mewies, the Welsh Government was not entirely responsible for that economic disaster; it was Gordon Brown in London. Perhaps if Sandy Mewies had been running the economy up there things would have been better, but, sadly, you supported someone who could not run it.

Anyway, the massive decline in house building under Labour since 1999 has caused this housing supply crisis. Housing has continually been placed too far down the agenda. In 2010, a review of house building commissioned by the Welsh Government stated that Wales needed 14,000 homes to be built every year between 2006 and 2026. However, the number of homes built between 2006 and 2012 total just 40,320. Although we allow local authorities to assess local housing need, that is still a shortfall of 43,680, the lowest level since the second world war.

As Peter Black said in his contribution, we need to increase supply. Whatever people's criticism might be of the current UK Government and the policies of different parties in the Chamber, everyone must accept that there needs to be an increase in supply and that there is no quick fix. This has been a long-running problem and one that is not easy to address. However, as I said, I think that we do get an unfair

Croesawaf y cyfle i drafod yr argyfwng tai sy'n ein hwynebu yng Nghymru, ac mae yn argyfwng. Yn rhy aml gwrandawn ar Aelodau o'r Llywodraeth a byddai rhywun yn maddau inni am feddwl y byddai popeth yn berffaith, oni fyddai, pe na bai'r Torïaid erioed wedi byw ar y blaned hon. Wel, gadewch imi ddweud wrthyhych na fyddai hynny'n wir. Gall Sandy Mewies ddweud bod ein gweledigaeth yn amherffaith—credaf iddi ddefnyddio'r gair 'aneglur'—ond o leiaf mae'n weledigaeth, ac o leiaf rydym wedi cyflwyno gweledigaeth ar gyfer tai yng Nghymru yn ddiweddar. A wyddoch chi beth rydym yn ei weld? Gwelwn Gymru lle mae'r cyflenwad yn annigonol i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Dros y 10 mlynedd diwethaf—wel, mwy na hynny erbyn hyn—ers 1999, yn anffodus, rydym wedi gweld argyfwng yn datblygu am nad oes digon o'r mathau cywir o dai wedi cael eu hadeiladu.

Clywaf yn glir yr hyn a ddywedwch am y dreth ystafell wely. Nid oes neb yn hoffi gorfod gwneud newidiadau sy'n mynd i darfu ar fywydau rhai pobl. Nid oes neb yn hoffi hynny. Yn anffodus, roedd Llywodraeth y DU mewn sefyllfa lle nad oedd ganddi unrhyw ddewis ond gwneud penderfyniadau anodd oherwydd y gwaddol economaidd trychinebus a adawyd gan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Rhaid inni eistedd yma a gwrando arnoch chi yn cwyno amdanom ni, felly efallai ei bod yn bryd i chi wrando ar y beirniadaethau sydd gennym o'r llanastr y mae Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU wedi ei adael i ni.

A bod yn deg i chi, Sandy Mewies, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gwbl gyfrifol am y drychineb economaidd honno; Gordon Brown yn Llundain oedd yn gyfrifol am hynny. Efallai pe bai Sandy Mewies wedi bod yn rhedeg yr economi yno byddai pethau wedi bod yn well, ond, yn anffodus, gwnaethoch gefnogi rhywun na allai ei rhedeg.

Beth bynnag, mae'r gostyngiad enfawr yn y maes adeiladu tai dan Lafur ers 1999 wedi achosi'r argyfwng cyflenwad tai hwn. Mae mater tai wedi cael ei osod yn rhy bell i lawr yr agenda yn barhaus. Yn 2010, nododd adolygiad o adeiladu tai a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod angen i 14,000 o gartrefi gael eu hadeiladu bob blwyddyn rhwng 2006 a 2026 yng Nghymru. Fodd bynnag, dim ond 40,320 o gartrefi a gafodd eu hadeiladu rhwng 2006 a 2012. Er ein bod yn caniatáu i awdurdodau lleol asesu'r angen am dai lleol, mae hynny yn dal i fod yn ddiffyg o 43,680, y lefel isaf ers yr ail ryfel byd.

Fel y dywedodd Peter Black yn ei gyfraniad, mae angen inni gynyddu'r cyflenwad. Beth bynnag fo beirniadaeth pobl o Lywodraeth y DU ar hyn o bryd a pholisïau'r gwahanol bleidiau yn y Siambr, rhaid i bawb dderbyn bod angen cynyddu'r cyflenwad ac nad oes unrhyw ateb cyflym. Mae hon yn hen broblem ac yn un nad yw'n hawdd mynd i'r afael â hi. Fodd bynnag, fel y dywedais, credaf ein bod yn cael sylw annheg—

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, in one moment, Bethan.

Gwnaf, mewn eiliad, Bethan.

We do get unfair press on this. Too often, the party opposite talks about the Thatcher years. Actually, if you look back at the last year that Margaret was in power, you will see that 824 local authority houses were built, but you will see that, since 1997, a long time after Margaret Thatcher was in power, only 226 local authority houses have been built over a much longer period. Therefore, let us look at the facts, as Mark Isherwood would say, rather than simply whingeing. I give way to Bethan Jenkins.

Cawn sylw annheg yn y wasg ar hyn. Yn amlach na pheidio, mae'r blaid gyferbyn yn sôn am flynyddoedd Thatcher. A dweud y gwir, os edrychwch yn ôl ar flwyddyn olaf Margaret mewn grym, fe welch i 824 o dai awdurdod lleol gael eu hadeiladu, ond fe welch, ers 1997, amser hir ar ôl i Margaret Thatcher fod mewn grym, mai dim ond 226 o dai awdurdod lleol sydd wedi cael eu hadeiladu dros gyfnod hwy o lawer. Felly, gadewch inni edrych ar y ffeithiau, fel y byddai Mark Isherwood yn ei ddweud, yn hytrach na chwyno yn unig. Ildiaf i Bethan Jenkins.

15:40

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let us look at the facts, then. As a result of the bedroom tax, CHC has said in an e-mail to me that it has to sell-off larger houses in its housing stock because people cannot afford to take up those houses. So, actually, this is defeating the object of increasing the houses that are available here in Wales.

Gadewch inni edrych ar y ffeithiau, felly. O ganlyniad i'r dreth ystafell wely, mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi dweud mewn e-bost a anfonwyd ataf ei fod wedi gorfod gwerthu tai mwy o faint yn ei stoc dai am nad yw pobl yn gallu fforddio cymryd y tai hynny. Felly, mewn gwirionedd, mae hwn yn mynd yn groes i'r bwriad o gynyddu nifer y tai sydd ar gael yma yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:40

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a shame that the Welsh Government did not fix the roof when the sun was shining, because had the supply of housing been kept up and had the type of houses that we need been built, then there would not be a problem with people not being able to find houses that are more suited to their needs. This is a problem that has been created because of the inability of the Welsh Government, over a considerable length of time, to provide an adequate supply of housing.

Mae'n drueni na wnaeth Llywodraeth Cymru drwsio'r to pan oedd yr haul yn tywynnu, oherwydd pe bai'r cyflenwad tai wedi cael ei gynnal a phe bai'r math o dai yr oedd eu hangen arnom wedi cael eu hadeiladu, yna ni fyddai problem gyda phobl yn methu â dod o hyd i dai sy'n gweddu'n well i'w hanghenion. Mae hyn yn broblem a grëwyd oherwydd anallu Llywodraeth Cymru dros gyfnod sylweddol o amser, i ddarparu cyflenwad digonol o dai.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As I have said before, the Welsh Conservatives are a constructive opposition and we have put forward proposals last week, which we hope the Welsh Government will consider. These proposals may not be perfect, but they are a suggestion of how the supply of housing can be increased by building more homes and bringing empty properties back into use. I agree, going back to Peter Black's speech, with the idea of assisting local authorities much more in dealing with this problem. We definitely need a much more effective empty homes strategy than we have had over recent times.

Fel y dywedais o'r blaen, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn wrthblaid adeiladol ac rydym wedi cyflwyno cynigion yr wythnos diwethaf, y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried gobeithio. Efallai nad yw'r cynigion hyn yn berffaith, ond maent yn awgrym o sut y gellir cynyddu'r cyflenwad tai drwy adeiladu mwy o gartrefi a dechrau ailddedfnyddio eiddo gwag. Gan fynd yn ôl at araith Peter Black, cytunaf â'r syniad o gynorthwyo awdurdodau lleol yn fwy wrth ddelio â'r broblem hon. Mae angen strategaeth cartrefi gwag fwy effeithiol o lawer arnom na'r hyn a gawsom yn ddiweddar.

To conclude, the Council of Mortgage Lenders found that 84% of adults in Wales hope to be home owners in 10 years' time and Welsh borrowers have higher aspirations for home ownership than borrowers in Great Britain as a whole. If that is the case, we need to start planning ahead now. Simply whingeing about the UK Government and saying that the ideas of anyone other than the Labour Party and the Welsh Government here are not good enough is no way to proceed. The Welsh people want vision and they want it now.

I gloi, canfu'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi fod 84% o oedolion yng Nghymru yn gobeithio bod yn berchen ar gartref ymhen 10 mlynedd ac mae gan fenthycwyr Cymru ddyheadau uwch ar gyfer perchentyaeth na benthycwyr ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. Os yw hynny'n wir, mae angen inni ddechrau cynllunio ymlaen llaw yn awr. Nid gwneud dim ond cwyno am Lywodraeth y DU a dweud nad yw syniadau unrhyw un heblaw am y Blaid Lafur a Llywodraeth Cymru yma yn ddigon da yw'r ffordd ymlaen. Mae pobl Cymru am gael gweledigaeth ac maent am ei chael nawr.

15:42

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I just want to pay tribute to Mark Isherwood's work in bringing forward some sensible proposals to support the Welsh housing market. Let us face it, the problem that we have has not arisen since David Cameron put his feet under the desk at No. 10. These problems have been developing in Wales over a decade, while Labour was in power in Westminster and in power leading administrations in the National Assembly for Wales. I can completely understand why Jocelyn Davies was so twitchy in the debate today because, of course, you were responsible for the housing portfolio when there was a 40% decline in house building during your tenure at the helm. Let us talk, shall we, about the spare room subsidy?

Jocelyn Davies a gododd—

Yn gyntaf, hoffwn dalu teyrnged i Mark Isherwood am ei waith wrth gyflwyno rhai cynigion synhwyrol i gefnogi'r farchnad dai yng Nghymru. Gadewch inni wynebu'r gwir, nid yw'r broblem sydd gennym wedi codi ers i David Cameron roi ei draed o dan y ddesg yn Rhif 10. Mae'r problemau hyn wedi bod yn datblygu yng Nghymru dros ddegawd, pan oedd Llafur mewn grym yn San Steffan ac mewn grym yn arwain gweinyddiaethau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Gallaf ddeall yn llwyr pam yr oedd Jocelyn Davies mor aflonydd yn y ddatl heddiw oherwydd, wrth gwrs, chi oedd yn gyfrifol am y portffolio tai pan gafodd 40% yn llai o dai eu hadeiladu pan oeddech wrth y llyw. Beth am siarad am y cymhorthdal ystafell sbâr?

Jocelyn Davies rose—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:42

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will take an intervention in a moment.

Let us talk about the spare room subsidy that we have in Wales. I think, frankly, that it is immoral that we have a situation where there are families in my constituency who are waiting to access housing and cannot, because there are, sometimes, individuals living in large properties that are not suitable for their needs. Housing benefit should be there to provide for people's housing needs and not housing wants.

Derbyniat ymyriad mewn eiliad.

Gadewch inni siarad am y cymhorthdal ystafell sbâr sydd gennym yng Nghymru. A dweud y gwir, credaf ei bod yn anfoesol bod gennym sefyllfa lle mae teuluoedd yn fy etholaeth sy'n aros i gael tŷ ac na allant, am fod unigolion weithiau yn byw mewn eiddo mwy nad ydynt yn addas ar gyfer eu hanghenion. Dylai budd-dal tai fod yno i ddiwallu'r hyn sydd ei angen ar bobl o ran tai ac nid yr hyn sydd ei eisiau arnynt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:43

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad to hear that at least one Member over there is prepared to say that he supports the bedroom tax. In 2007, when I was 'at the helm', as you say, there was a recession. All new house building stopped—[Interruption.] Sorry, if you think that it is a poor excuse, but the same thing happened all over the UK.

Rwy'n falch o glywed bod o leiaf un Aelod yn barod i ddweud ei fod yn cefnogi'r dreth ystafell wely. Yn 2007, pan oeddwn wrth y llyw, fel y dywedwch, bu dirwasgiad. Daeth holl waith adeiladu tai newydd i ben—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf os ydych yn meddwl mai esgus gwan yw hynny, ond digwyddodd yr un peth ledled y DU.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:43

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You might well want to try to defend your record. I can appreciate you doing that, but the facts are the facts—there was a 40% reduction in house building during your tenure as the Deputy Minister for Housing here in Wales. This is a supply and a demand problem. When there is insufficient supply in the market, the prices go up. When there is a lot of oversupply, the prices come down. It is simple economics. I know that the Labour Party does not do economics very well. That has been absolutely plain the past few years in the way that it ran the UK economy, but it is a fact.

Efallai y byddech am geisio amddiffyn yr hyn a gofnodwyd amdanoch. Gallaf ddeall eich bod yn gwneud hynny, ond mae'r ffeithiau'n wir—bu gostyngiad o 40% yn nifer y tai a adeiladwyd yn ystod eich cyfnod wrth y llyw fel y Dirprwy Weinidog dros Dai yma yng Nghymru. Mae hyn yn broblem cyflenwad a galw. Pan na fydd digon o gyflenwad yn y farchnad, mae'r prisiau'n codi. Pan fydd gorgyflenwad, mae'r prisiau'n gostwng. Economeg syml yw hynny. Gwn nad yw'r Blaid Lafur yn deall economeg yn dda iawn. Mae hynny wedi bod yn hollol amlwg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn y ffordd y rheddodd economi'r DU, ond mae'n wir.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

When it comes to the spare room subsidy, the introduction of this has been known about for three years. For three years, you have known that this is on the way. Of course, the mastermind behind the spare room subsidy originally was the Labour Party. It does not like to remind us of that fact, but the Labour Party introduced the spare room subsidy in the private rented sector. All we are doing is logically extending this to other parts of the housing market. It has had three years to prepare, and absolutely nothing has been done to prepare the housing market for the changes that were on their way. We know, frankly, Sandy Mewies, that there are discretionary allowances that are available to support people whose circumstances merit additional support, including the disabled and those individuals to whom she referred. You are quite right that some people need extra support. Individual circumstances can be taken into account through the discretionary housing allowances that are available to be awarded by local authorities.

O ran y cymhorthdal ystafell sbâr, mae cyflwyno hyn wedi bod yn hysbys ers tua tair blynedd. Ers tair blynedd, rydych wedi bod yn ymwybodol ei fod ar y ffordd. Wrth gwrs, yr athrylith y tu ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr yn wreiddiol oedd y Blaid Lafur. Nid yw'n awyddus i'n hatgoffa o'r ffaith honno, ond cyflwynodd y Blaid Lafur y cymhorthdal ystafell sbâr yn y sector rhent preifat. Y cyfan a wnawn ni yw ymestyn hyn yn rhesymegol i rannau eraill o'r farchnad dai. Mae wedi cael tair blynedd i baratoi, ac nid oes dim oll wedi cael ei wneud i baratoi'r farchnad dai am y newidiadau a oedd ar eu ffordd. Gwyddom, yn anffodus, Sandy Mewies, fod lwfansau dewisol ar gael i gefnogi pobl y mae eu hamgylchiadau yn teilyngu cymorth ychwanegol, gan gynnwys yr anabl a'r unigolion hynny y cyfeiriodd atynt. Rydych yn llygad eich lle i ddweud bod angen cymorth ychwanegol ar rai pobl. Gellir ystyried amgylchiadau unigol drwy'r lwfansau tai dewisol sydd ar gael i'w dyfarnu gan awdurdodau lleol.

15:45 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, there are discretionary housing payments available but they are for a limited time and it is a cash-limited pot. What are you going to say to my constituents when that money runs out in Torfaen?

Oes, mae taliadau tai dewisol ar gael ond maent am amser cyfyngedig ac mae'n gronfa ariannol gyfyngedig. Beth ydych yn mynd i'w ddweud wrth fy etholwyr pan ddaw'r arian i ben yn Nhor-faen?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What are you going to say to my constituents who are trying to access housing and who are families, when there are houses that are suitable for their needs, but there are people in those houses who do not require the scale of properties that they are in? I think that it is immoral that you are prepared to defend a system whereby the UK taxpayer is having to meet people's wants—it should be having to meet people's needs, not people's housing wants. If you want to defend that, why on earth were you, as a party, prepared to support a change in the housing benefit system for people in the private rented sector?

Beth ydych yn mynd i ddweud wrth fy etholwyr sy'n ceisio cael tai ac sy'n deuluoedd, pan fo tai sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ar gael, ond bod pobl yn y tai hynny nad oes angen tai mor fawr â hynny arnynt? Credaf ei fod yn anfoesol eich bod yn barod i amddiffyn system lle mae trethdalwr y DU yn gorfod diwallu'r hyn sydd ei eisiau ar bobl—dylai fod yn gorfod diwallu'r hyn sydd ei angen ar bobl ac nid yr hyn sydd ei eisiau arnynt. Os ydych am amddiffyn hynny, pam yr oeddech, fel plaid, yn barod i gefnogi newid yn y system budd-dal tai i bobl yn y sector rhentu preifat?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:46 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Does the basic problem here not come down to an ideological grievance that the Tory party has with council housing? Are you completely unable to accept that a property, as you call it, is much more than bricks and mortar? Properties are people's homes, they are next to people's schools and support and they are in people's communities. Shame on you.

Onid y broblem sylfaenol yn y bôn yw bod gan y Blaid Doriaidd gŵyn ideolegol mewn perthynas â thai cyngor? Oni allwch dderbyn o gwbl fod eiddo, fel y'i gelwir gennych, yn fwy na dim ond brics a mortar? Cartrefi pobl yw eiddo, maent wrth ymyl ysgolion pobl ac yn cefnogi ac maent yng nghymunedau pobl. Rhag eich cywilydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:46

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am not prepared to defend a system whereby UK taxpayers are paying to support people's housing wants rather than their housing needs. I am quite prepared to support people having a home and making sure that they are in a home that is suitable for them and their families. I think that that is what our welfare state ought to be able to provide for. It is a point worth making: we are a party that supports home ownership. If 84% of people in Wales want to own their own homes, we should support them. If people choose to rent their homes, they deserve our support as well. However, we have to face the fact that supply is not meeting demand in Wales at the moment. You have done nothing about it, frankly, as a Government. Jocelyn Davies did very little about it when she was at the helm of the housing directorate within the Welsh Government previously. It is time for change and we support positive changes and that is what we have put forward today.

Nid wyf yn barod i amddiffyn system lle mae trethdalwyr y DU yn talu i gefnogi'r hyn sydd ei eisiau ar bobl yn hytrach na'r hyn sydd ei angen arnynt o ran tai. Rwy'n eithaf parod i gefnogi'r nod o sicrhau bod gan bobl gartref a sicrhau eu bod mewn cartref sy'n addas iddynt hwy a'u teuluoedd. Credaf mai dyna'r hyn y dylai ein gwladwriaeth les fod yn gallu darparu ar ei gyfer. Mae'n bwynt gwerth ei wneud: rydym yn blaid sy'n cefnogi perchentyaeth. Os yw 84% o bobl yng Nghymru am fod yn berchen ar eu cartref eu hunain, dylem eu cefnogi. Os yw pobl yn dewis rhentu eu cartrefi, maent yn haeddu ein cymorth hefyd. Fodd bynnag, rhaid inni wynebu'r ffaith nad yw'r cyflenwad yn ateb y galw yng Nghymru ar hyn o bryd. Nid ydych wedi gwneud dim yn ei gylch, a bod yn onest, fel Llywodraeth. Gwnaeth Jocelyn Davies fawr ddim yn ei gylch pan oedd wrth y llyw yn y gyfarwyddiaeth tai yn Llywodraeth Cymru gynt. Mae'n bryd newid a chefnogwn newidiadau cadarnhaol a dyna'r hyn rydym wedi ei gyflwyno heddiw.

15:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will just remind Members that, in debate, passion is good but shouting is bad as we do not get to hear the arguments adequately. That is not to any particular Member and certainly not to the last Member.

Hoffwn atgoffa Aelodau fod bod yn angerddol yn dda mewn dadl ond mae gweiddi'n beth gwael gan na chawn gyfle i glywed y dadleuon yn ddigonol. Ni ddywedaf hynny wrth unrhyw Aelod yn benodol ac yn sicr nid wrth yr Aelod olaf.

Galwaf ar y Gweinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant.

I call on the Minister for Housing and Regeneration, Carl Sargeant.

15:47

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

Thank you, Deputy Presiding Officer. It was certainly entertaining, the last contribution, from Darren Millar, as he outlined his support for the issue around the benefit tax. He said that it is about the need of people. The needs of people are the needs of those who are losing their homes and are suicidal as a result of the issues that Asghar mentioned. The fact of the matter is that people are suffering out there because of the bedroom tax, which you have failed to mention at all in your vision for Welsh housing. Unlike the Welsh Conservatives, we are taking a whole-market approach. We are continuing to support social housing, innovating to deliver intermediate housing and supporting market housing through a number of measures. Their vision talks about house building, reforming right-to-buy and bringing more empty homes back into use. Increasing housing supply through new build and bringing more empty homes into use are areas on which I have taken action and invested resources and I continue to do so. It was pressed as a bold approach to housing; it is an old approach to housing, which is typically Tory. You can have a shiny roof but if you have no foundations, it will not work.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn sicr roedd y cyfraniad olaf, gan Darren Millar, yn ddifyr wrth iddo amlinellu ei gefnogaeth i'r mater ynghylch y dreth budd-daliadau. Dywedodd ei fod yn ymwneud ag anghenion pobl. Anghenion pobl yw anghenion y rhai sy'n colli eu cartrefi ac yn ystyried cyflawni hunanladdiad o ganlyniad i'r materion y soniodd Asghar amdanynt. Y gwir amdani yw bod pobl yn dioddef oherwydd y dreth ystafell wely, yr ydych wedi methu â sôn amdani o gwbl yn eich gweledigaeth ar gyfer tai yng Nghymru. Yn wahanol i'r Ceidwadwyr Cymreig, rydym yn mabwysiadu dull marchnad gyfan. Rydym yn parhau i gefnogi tai cymdeithasol, yn arloesi er mwyn darparu tai canolradd ac yn cefnogi tai ar y farchnad drwy nifer o fesurau. Mae eu gweledigaeth yn sôn am adeiladu tai, diwygio hawl i brynu a dechrau aildefnyddio mwy o gartrefi gwag. Mae cynyddu cyflenwad tai drwy adeiladu cartrefi newydd ac aildefnyddio mwy o gartrefi gwag yn feysydd yr wyf wedi cymryd camau gweithredu yn eu cylch ac wedi buddsoddi adnoddau ynddynt a byddaf yn parhau i wneud hynny. Cafodd ei hyrwyddo fel dull beiddgar o ymdrin â thai; hen ddull gweithredu ydyw o ran tai, sy'n nodweddiadol o'r Torïaid. Gallwch gael to sgleiniog, ond os nad oes gennych sylfeini, ni fydd yn gweithio.

First, let us pick up on the right-to-buy proposals. I believe that these are ill-conceived. I would like to ask where the proposals are for those at the bottom of the housing ladder—for the poorest households in our communities across Wales, which, again, the Conservatives fail to address. Where are the proposals to address homelessness, the proposals to provide vulnerable households with support and to meet the needs of those whose needs cannot be met through the market? It fails to deliver. The ideological vision is clear and that should not be surprising, coming from the party that continues to support welfare reforms such as the bedroom tax and the vicious sanctions regime while watching these actions wreak havoc on all our households. If opposition Members do not have people suffering from the bedroom tax presenting at their surgeries, then I am very surprised.

I would like to pick up the issue of the right to buy. Not only is overreliance on the vision of the reformed right to buy ill-founded, it simply does not stack up. Peter Black picked this up in his contribution. Analysis undertaken in England showed that at least 1.4% of sales would need to be supplying of one new home. It is simple maths, which Darren Millar alluded to—he is clearly getting his lessons from Andrew R.T. Davies; another number cruncher that we never seem to quite understand. It is clear that the proceeds from a sale will not fund a replacement home—pretty simple mathematics to most people. We wish to protect the social housing asset, not reduce it, and we therefore have no intention in this Welsh Government of changing the current right-to-buy scheme here in Wales. In fact, we have enabled local authorities to apply to suspend the right to buy for five years if there is housing pressure.

On empty homes, the vision document claims that the target of bringing 5,000 empty homes back into use is too low, but it ignores the fact that we are investing more capital in the issue of empty homes, despite the reductions in the budget from the UK Government. We are investing in our Houses into Homes scheme. As well as making a significant contribution towards achieving the target, our Houses into Homes scheme has stimulated local authorities to take more of a co-ordinated approach to the empty homes scheme.

The report references the removal of tax breaks. The Housing (Wales) Bill contains proposals for local authorities to increase council tax. Again, I am grateful to Peter Black for his support for the proposal. This is for a tax break for one year. We believe that the Conservative proposal for a time period of two years would not be as helpful.

Yn gyntaf, gadewch i ni barhau â'r drafodaeth ar y cynigion hawl i brynu. Credaf iddynt gael eu cynllunio'n wael. Hoffwn ofyn ble mae'r cynigion ar gyfer y rhai sydd ar waelod yr ysgol dai—ar gyfer y cartrefi tlotaf yn ein cymunedau ledled Cymru, nad yw'r Ceidwadwyr, unwaith eto, yn llwyddo i fynd i'r afael â hwy. Ble mae'r cynigion i fynd i'r afael â digartrefedd, y cynigion i roi cymorth i aelwydydd sy'n agored i niwed a diwallu anghenion y rhai na ellir diwallu eu hanghenion drwy'r farchnad? Mae'n methu â darparu hyn. Mae'r weledigaeth ideolegol yn glir ac ni ddylai hynny fod yn syndod, o gofio ei bod yn dod o'r blaidd sy'n parhau i gefnogi diwygiadau lles fel y dreth ystafell wely a'r drefn sancsiynau dieflig tra'n gwylio'r camau gweithredu hyn yn dinistrio ein holl aelwydydd. Os nad yw pobl sy'n dioddef o ganlyniad i'r dreth ystafell welly yn mynd i gymorthfeydd Aelodau'r gwrthbleidiau, yna rwy'n synnu'n fawr iawn.

Hoffwn godi mater yr hawl i brynu. Mae'r orddibyniaeth ar y weledigaeth o'r hawl i brynu diwygiedig yn ddi-sail, ac nid yw'n gwneud synnwyr ychwaith. Cyfeiriodd Peter Black at hyn yn ei gyfraniad. Dangosodd dadansoddiad a wnaed yn Lloegr y byddai angen o leiaf 1.4% o werthiannau i ddarparu un cartref newydd. Mae'n fathemateg syml, a grybwyllwyd gan Darren Millar—mae'n amlwg yn cael ei wersi gan Andrew R.T. Davies; crensiwr rhifau arall nad ydym byth yn ei ddeall yn iawn. Mae'n amlwg na fydd yr elw o werthiant yn ariannu cartref newydd—mathemateg syml i'r rhan fwyaf o bobl. Rydym am ddiogelu'r ased tai cymdeithasol, nid ei leihau, ac felly nid oes gennym unrhyw fwriad yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i newid y cynllun hawl i brynu cyfredol yma yng Nghymru. Yn wir, rydym wedi galluogi awdurdodau lleol i wneud cais i atal yr hawl i brynu am bum mlynedd os oes pwysau o ran tai.

O ran cartrefi gwag, mae'r ddogfen weledigaeth yn honni bod y targed o aildefnyddio 5,000 o gartrefi gwag yn rhy isel, ond mae'n anwybyddu'r ffaith ein bod yn buddsoddi mwy o gyfalaf o ran cartrefi gwag, er gwaethaf y gostyngiadau yn y gyllideb gan Lywodraeth y DU. Rydym yn buddsoddi yn ein cynllun Troi Tai'n Gartrefi. Yn ogystal â gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gyrraedd y targed, mae ein cynllun Troi Tai'n Gartrefi wedi ysgogi awdurdodau lleol i gymryd ymagwedd fwy cyd-gysylltiedig tuag at y cynllun cartrefi gwag.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddileu seibiannau rhag talu treth. Mae Bil Tai (Cymru) yn cynnwys cynigion i awdurdodau lleol gynyddu'r dreth gyngor. Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar i Peter Black am ei gefnogaeth i'r cynnig. Seibiant rhag talu treth am flwyddyn yw hyn. Credwn na fyddai cynnig y Ceidwadwyr am gyfnod o ddwy flynedd yr un mor ddefnyddiol.

I would like to pick up the element of house building within the vision of the Conservatives. The proposals set out in the vision document are based on deregulation, effective consultation and empowerment at a local level. It claims that we are waiting for legislation before taking action on house building. This is simply not the case, and they know it. My announcement on housing in July included action on building regulations and fire safety proposals that will give a breathing space to house builders and the industry, but it will keep on track our aim to have more energy-efficient homes that give the highest protection from fire to their occupants. Help to Buy—the Wales shared equity scheme—will provide a welcome boost to the housing industry, and I will be launching this scheme very soon.

The housing finance grant, which will support the development of 1,000 affordable homes in the next two years, is part of my next proposals, and my housing supply task force will report to me in December with recommendations on how housing supply can be increased.

I recognise that financial viability is a critical factor in determining whether house building development comes forward, and we have commissioned research specifically to investigate the barriers in this matter, along with the planning Bill that I shall introduce in December.

We also seek to ensure that, in development plan preparation, viability testing is a key part for local authorities in the development of affordable housing. On top of this, we are still 100% supportive of affordable houses here in Wales. We have not abandoned those needs of social housing and those of the vulnerable, unlike the UK Government, which has done so.

The Housing (Wales) Bill, which I introduced yesterday, will help us to make a real difference to people and communities throughout Wales. It will enable us to improve housing standards, increase affordability, enhance our communities and help to prevent the difficulties and the lack of opportunities often encountered by vulnerable people—the vulnerable people we care for that the Conservatives clearly do not. However, as is clear, I am not waiting for the legislation to take action across the housing market; our legislation, policy and investment represent a whole-system approach. The vision set out by the Conservatives focuses on home ownership and housing for those on higher incomes. Well, we should not be surprised by that. Jocelyn Davies was absolutely right on the issue where it mentions nothing in their debate around the bedroom tax. It is a terrible tax, and you should be asking your Government to stop it having an effect on Wales and across the UK.

‘A Vision for Welsh Housing’—it is as much use as a lighthouse in a desert. Quite frankly, I urge Members to oppose this motion today and follow the advice from the Government and associated Members.

Hoffwn barhau i sôn am yr elfen o adeiladu tai o fewn gwledigaeth y Ceidwadwyr. Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen weledigaeth yn seiliedig ar ddatreoleiddio, ymgynghori effeithiol a grymuso ar lefel leol. Mae'n honni ein bod yn aros am ddeddfwriaeth cyn cymryd camau mewn perthynas ag adeiladu tai. Nid yw hyn yn wir, a gwyddant hynny. Roedd fy nghyhoeddiad ar dai ym mis Gorffennaf yn cynnwys camau gweithredu ar reoliadau adeiladu a chynigion diogelwch tân a fydd yn rhoi seibiant i adeiladwyr tai a'r diwydiant, ond a fydd yn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn o hyd o ran ein nod o gael mwy o gartrefi effeithlon o ran ynni sy'n rhoi'r diogelwch mwyaf rhag tân i'w deiliaid. Bydd Help i Brynu—cynllun ecwiti a rennir Cymru—yn rhoi hwb i'r diwydiant tai, sydd i'w groesawu, a byddaf yn lansio'r cynllun hwn yn fuan iawn.

Mae'r grant cyllid tai, a fydd yn cefnogi datblygiad o 1,000 o gartrefi fforddiadwy yn y ddwy flynedd nesaf, yn rhan o'm cynigion nesaf, a bydd fy nhasglu cyflenwi tai yn cyflwyno adroddiad i mi ym mis Rhagfyr gydag argymhellion ar sut y gellir cynyddu'r cyflenwad tai.

Cydnabyddaf fod hyfywedd ariannol yn ffactor allweddol wrth benderfynu a yw datblygiad adeiladu tai yn mynd rhagddo, ac rydym wedi comisiynu ymchwil yn benodol i ymchwilio i'r rhwystrau yn y mater hwn, ynghyd â'r Bil Cynllunio y byddaf yn ei gyflwyno ym mis Rhagfyr.

Rydym hefyd yn ceisio sicrhau, wrth baratoi cynllun datblygu, fod profion hyfywedd yn rhan allweddol o ddatblygu tai fforddiadwy i awdurdodau lleol. Ar ben hyn, rydym yn dal i fod yn llwyr gefnogol i dai fforddiadwy yma yng Nghymru. Nid ydym wedi troi ein cefnau ar yr anghenion hynny o ran tai cymdeithasol, nac anghenion y rhai sy'n agored i niwed, yn wahanol i Lywodraeth y DU, sydd wedi gwneud hynny.

Bydd Bil Tai (Cymru), a gyflwynais ddoe, yn ein helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a chymunedau ledled Cymru. Bydd yn ein galluogi i wella safonau tai, cynyddu fforddiadwyedd, gwella ein cymunedau a helpu i atal yr anawsterau a'r diffyg cyfleoedd yn aml a gaiff pobl sy'n agored i niwed—y bobl sy'n agored i niwed yr ydym yn gofalu amdanynt nad yw'r Ceidwadwyr yn amlwg yn ei wneud. Fodd bynnag, fel sy'n amlwg, nid wyf yn aros i'r ddeddfwriaeth ddod yn weithredol ar draws y farchnad dai; mae ein deddfwriaeth, ein polisi a'n buddsoddiad yn cynrychioli dull system gyfan. Mae'r weledigaeth a nodir gan y Ceidwadwyr yn canolbwyntio ar berchentaeth a thai i'r rheini ar incwm uwch. Wel, ni ddylai hynny ein synnu. Roedd Jocelyn Davies yn llygad ei lle i ddweud lle nad oes unrhyw sôn yn eu dadl am y dreth ystafell wely. Mae'n dreth ofnadwy, a dylech fod yn gofyn i'ch Llywodraeth ei hatal rhag cael effaith ar Gymru ac ar draws y DU.

‘Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru’—mae mor ddefnyddiol â goleudy mewn anialwch. A dweud y gwir, anogaf Aelodau i wrthwynebu'r cynnig hwn heddiw a dilyn cyngor gan y Llywodraeth ac Aelodau cysylltiedig.

15:55

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar William Graham i ymateb i'r dadl.

I call on William Graham to respond to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. It is interesting today that this debate, which perhaps would not be thought to be particularly remarkable, has touched on passions throughout the parties in this Chamber. It is a great privilege that we are all able to make those passions felt this afternoon. The lack of affordable housing remains a chronic problem. On this, all of our political parties are agreed. When it comes to understanding the cause of the crisis, there is no such consensus. While Labour promised in its previous manifesto that it would double the rate of house building by 2020—a promise, that is, to build 240,000 homes a year—one of its London Assembly Members has argued that the party should apologise for its record on affordable housing. Tom Copley, Labour's housing spokesman in the capital—and, after all, London's housing problems are perhaps the most persistent in the United Kingdom—says that Margaret Thatcher's Government built more council flats and houses in a single year than New Labour managed in its entire period in office. The official data show that the Governments of Blair and Brown build 7,870 council houses over the course of 13 years. Mr Copley kindly contrasted this figure with the record of Mrs Thatcher's Government, which never built fewer than 17,710 homes a year. That was through the recession of the early 1980s.

Between 1997 and 2010, of the 2.6 million homes constructed, only 0.3% were local authority tenure. Mrs Thatcher's Government supervised the building of a similar number of houses: 2.63 million, 18.9% of which were council properties. New Labour built an average of 562 council houses per year. Mrs Thatcher's Government produced—I hear no interventions. If Members would care to guess the number, it is quite remarkable. Is there nothing said? What a surprise. Should we start at 20,000? No. 25,000? No; higher again. It was 41,343 houses. To realise the vision for providing quality standard housing for all of the people of Wales, we need to look forward to appreciate and understand the changing patterns of tenure and ownership. The Minister promises only more promises of action.

Daeth y Llywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 15:57.

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The present picture of housing in Wales has several remarkable features: 20% of Welsh homes are over 100 years old; 35% are over 80 years old; and 75% are owner-occupied. That is why we must reflect the needs and aspirations of the people of Wales. It has already been recorded that 85% of people wish to own their own homes. I am so pleased that the Minister touched on the right to buy—something that was a major achievement of Conservative Governments. Why was it such a success? It was because so many Labour members and Labour voters bought their council houses. It was not just Labour councillors.

Joyce Watson a gododd—

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n ddiddorol heddiw fod y ddatl hon, na fyddai'n cael ei hystyried efallai yn arbennig o nodedig, wedi datgelu teimladau angerddol y pleidiau yn y Siambr hon. Mae'n fraint fawr ein bod i gyd yn gallu mynegi'r teimladau angerddol hynny y prynhawn yma. Mae diffyg tai fforddiadwy yn parhau i fod yn broblem ddifrifol. Yn hyn o beth, mae pob un o'n pleidiau gwleidyddol yn gytûn. Pan ddaw yn fater o ddeall achos yr argyfwng, nid oes consensws o'r fath. Er i Lafur addo yn ei manifesto blaenorol y byddai'n dyblu'r gyfradd adeiladu tai erbyn 2020—addewid, hynny yw, i adeiladu 240,000 o gartrefi bob blwyddyn—mae un o'i Haelodau Cynulliad yn Llundain wedi dadlau y dylai'r blaid ymddiheuro am ei record ar dai fforddiadwy. Dywed Tom Copley, llefarydd tai Llafur yn y briffddinas—ac, wedi'r cyfan, efallai mai problemau tai Llundain yw'r rhai mwyaf cyson yn y Deyrnas Unedig—fod Llywodraeth Margaret Thatcher wedi adeiladu mwy o fflatiau a thai cyngor mewn blwyddyn nag a wnaeth Llafur Newydd drwy gydol ei chyfnod mewn grym. Dengys y data swyddogol i Lywodraethau Blair a Brown adeiladu 7,870 o dai cyngor dros gyfnod o 13 blynedd. Cyferbynnodd Mr Copley y ffigur hwn yn garedig â record Llywodraeth Mrs Thatcher, nad adeiladodd erioed lai na 17,710 o gartrefi y flwyddyn. Roedd hynny yn ystod y dirwasgiad ar ddechrau'r 1980au.

Rhwng 1997 a 2010, o blith y 2.6 miliwn o gartrefi a adeiladwyd, dim ond 0.3% oedd yn ddeiliadaeth awdurdodau lleol. Goruchwyliodd Llywodraeth Mrs Thatcher y gwaith o adeiladu nifer tebyg o dai: 2.63 miliwn, yr oedd 18.9% ohonynt yn dai cyngor. Adeiladodd Llafur Newydd ar gyfartaledd 562 o dai cyngor y flwyddyn. Cynhyrnod Llywodraeth Mrs Thatcher—ni chlywaf unrhyw ymyriadau. Pe bai Aelodau yn dymuno dyfalu'r nifer, mae'n eithaf rhyfeddol. Onid oes unrhyw beth yn cael ei ddweud? Dyna syndod. A ddylem ddechrau gydag 20,000? Na. 25,000? Na; yn uwch eto. Adeiladwyd 41,343 o dai. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer darparu tai o safon i holl bobl Cymru, mae angen inni edrych ymlaen at werthfawrogi a deall patrymau newidiol deiliadaeth a pherchenogaeth. Dim ond mwy o addewidion o weithredu y mae'r Gweinidog yn eu haddo.

The Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 15:57.

Mae gan y darlun presennol o dai yng Nghymru sawl nodwedd ryfeddol: mae 20% o gartrefi Cymru dros 100 oed, mae 35% dros 80 oed, a 75% yn berchen-feddiannwyr. Dyna pam y mae'n rhaid inni adlewyrchu anghenion a dyheadau pobl Cymru. Cofnodwyd eisoes fod 85% o bobl yn dymuno bod yn berchen ar eu cartref eu hunain. Rwyf mor falch bod y Gweinidog wedi cyfeirio at yr hawl i brynu—rhywbeth a oedd yn un o gyflawniadau mawr Llywodraethau Ceidwadol. Pam y bu'n gymaint o lwyddiant? Roedd yn llwyddiant am fod cymaint o aelodau Llafur a phleidleiswyr Llafur wedi prynu eu tai cyngor. Nid cynghorwyr Llafur yn unig a wnaeth.

Joyce Watson rose—

15:58	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>I will just finish the point, if I may. It was Labour councillors, Labour MPs and Labour Cabinet members as well. They recognised that this was an excellent way of providing for the future. I will now take the intervention.</p>	<p>Rwyf am orffen y pwynt, os caf. Gwnaeth cynghorwyr Llafur, ASau Llafur ac aelodau Llafur y Cabinet hefyd. Roeddent yn sylweddoli bod hyn yn ffordd ardderchog o ddarparu ar gyfer y dyfodol. Cymeraf yr ymyriad yn awr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:58	<p>Joyce Watson Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for taking the intervention. Would you also agree that it was also an excellent way for people to lose their homes, because the interest rates under the Conservatives went, in one day, from 5% to 15%, and the people who were hit hardest were those people you were just talking about?</p>	<p>Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. A fydddech hefyd yn cytuno ei bod hefyd yn ffordd ardderchog i bobl golli eu cartrefi, gan fod y cyfraddau llog, dan arweiniad y Ceidwadwyr, mewn un diwrnod, wedi codi o 5% i 15%, a'r bobl a ddioddefodd fwyaf oedd y bobl hynny rydych newydd siarad amdanynt?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:58	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>It is an interesting point, but that 15% rate went in one in day and very soon came down afterwards, in reaction to international settlement.</p> <p>The private sector had to endure the restrictions that were brought in by Labour in 2008. You seem to be completely blind to this, which has caused a great deal of problems already in the private sector. We look to the future for housing in Wales. That is the purpose of our mission, and purpose of promoting our motion today. It is vitally important for all that we achieve excellent housing in Wales.</p>	<p>Mae'n bwynt diddorol, ond cynyddodd y gyfradd i 15% mewn un diwrnod ac yn fuan iawn wedyn cafodd ei gostwng, mewn ymateb i setliad rhyngwladol.</p> <p>Bu'n rhaid i'r sector preifat ddioddef y cyfyngiadau a gyflwynwyd gan Lafur yn 2008. Mae'n ymddangos eich bod yn gwbl ddall i hyn, sydd wedi achosi llawer iawn o broblemau eisoes yn y sector preifat. Rydym yn edrych i'r dyfodol ar gyfer tai yng Nghymru. Dyna yw pwrpas ein cenhadaeth, a diben hyrwyddo ein cynnig heddiw. Mae'n hollbwysig i bawb ein bod yn darparu tai rhagorol yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:59	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. I therefore defer all voting on this item until voting time.</p> <p><i>Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.</i></p>	<p>Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.</p> <p><i>Voting deferred until voting time.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Dadl Plaid Cymru: Ynni

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 6, 8, 9 a 10 yn enw William Graham, a gwelliannau 3, 4, 5, 7, 11 a 12 yn enw Aled Roberts. Os derbynir gwelliant 6, caiff gwelliant 7 ei ddad-dethol.

Cynnig NDM5362 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) canfyddiadau adroddiad ar newid yn yr hinsawdd gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd ei bod 95% yn sicr mai dylanwad dynol ar yr hinsawdd a achosodd dros hanner o'r cynnydd a nodwyd mewn tymereddau arwyneb cyfartalog o 1951-2010;

b) dibyniaeth barhaus Cymru ar danwyddau ffosil ar gyfer ynni, sy'n darparu tua 80% o'r anghenion ynni;

Plaid Cymru Debate: Energy

The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 6, 8, 9 and 10 in the name of William Graham, and amendments 3, 4, 5, 7, 11 and 12 in the name of Aled Roberts. If amendment 6 is agreed, amendment 7 will be de-selected.

Motion NDM5362 Elin Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes:

a) the IPCC climate change report's findings that it is 95% certain that human influence on climate caused more than half the observed increase in global average surface temperatures from 1951-2010;

b) Wales' continuing dependence on fossil fuels for energy, providing some 80% of energy needs;

c) mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y defnydd o adnoddau nwy siâl Cymru, ynghyd â rheoli unrhyw fudd sy'n deillio ohono;

d) methiant Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o gynhyrchu 4TWh o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2010;

e) er gwaethaf y ffaith bod Cymru yn allforiwr net trydan, mae biliau'n uwch yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu 'Map Llwybr' manwl a Chynllun Gweithredu a fydd yn arwain at dargedau ynni adnewyddadwy 2020, gan ddangos targedau ar gyfer pob math unigol o ynni a'r camau a gymerir i gyrraedd y targedau hynny;

b) rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddatganoli yn llawn y portffolio ynni a rheoli adnoddau naturiol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol;

c) cadarnhau gydag Ofgem a'r Grid Cenedlaethol a oes unrhyw ymchwil wedi'i gwneud i gost a hyfywedd cebl tanfor sy'n cysylltu'r Grid Cenedlaethol rhwng gogledd a de Cymru, ac os felly darparu copi o'r ymchwil honno;

d) ymchwilio i'r potensial i sefydlu cwmni ynni cyhoeddus, di-ddidend i fuddsoddi mewn ynni er budd pobl Cymru.

c) that control of the exploitation of Wales' shale gas resources, together with control of any benefit deriving from it rests with the UK Government;

d) the Welsh Government's failure to hit its target of producing 4TWh of electricity from renewables by 2010;

e) that despite Wales being a net exporter of electricity, bills are higher in Wales than in England or Scotland;

2. Calls on the Welsh Government to:

a) develop a detailed 'Route Map' and Action Plan leading to the 2020 renewable energy targets, showing targets for each individual energy type and the actions that will be taken to reach those targets;

b) put pressure on the UK Government to devolve in full, the energy portfolio and control of Wales' natural resources to the National Assembly;

c) confirm with Ofgem and the National Grid whether any research has been done into the cost and viability of a submarine cable linking the National Grid between North and south Wales, and if so to provide a copy of that research;

d) investigate the potential for establishing a publicly-owned, not-for-dividend energy company to invest in energy for the benefit of the people of Wales.

15:59

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiad y cynnig.

Rwyf yn falch iawn o gyflwyno'r ddatl hon y prynhawn yma, yn enw Plaid Cymru. Mae'r diwydiant ynni yn un ffactor a fydd yn cael dylanwad canolog ar ddyfodol economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru. Mae tair blaenoriaeth i wireddu potensial economaidd adnoddau naturiol Cymru, ond gan wneud hynny mewn modd sy'n cynorthwyo gyda heriau newid yn yr hinsawdd gan daclo tlodi tanwydd ar yr un pryd. Mae'n her a fydd yn ffon fesur bwysig iawn, a dweud y gwir, o unrhyw Lywodraeth yng Nghymru heddiw. Mae gwahanol elfennau o hynny yn ein cynnig y prynhawn yma. Efallai mai dim ond rhai o'r elfennau a allai gyfrannu at hynny, ond yn sicr maent yn elfennau pwysig iawn.

Mae'r ddatl yn un amserol hefyd, wrth gwrs, wrth inni glywed wythnos ar ôl wythnos am gwmni ynni ar ôl cwmni ynni yn codi eu prisiau. Wrth inni agosáu at amser mwyaf tyngedfennol y flwyddyn o ran yr angen i wresogi ein tai, bydd effaith codi'r prisiau hynny yn cael ei deimlo fwyaf dros yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod.

I move the motion.

I am very pleased to present this motion this afternoon, in the name of Plaid Cymru. The energy industry is one factor that will have a central influence on the economic, environmental and social future of Wales. There are three priorities for achieving the economic potential of Wales's natural resources, but doing so in a way that assists with the challenges of climate change while simultaneously tackling fuel poverty. It is a challenge that will be a very important yardstick of any Government in Wales today. There are various elements of that in our motion this afternoon. Only some of those elements, perhaps, would be able to contribute to that, but they are certainly very important elements.

The debate is very timely too, of course, as we hear week on week of one energy company after another increasing tariffs. As we come up to the most crucial time of the year in terms of the need to heat our homes, the impact of those price rises will be felt most sharply over the next few weeks and months.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae'r ddadl hefyd yn digwydd ar y diwrnod y mae Dyfodol Defnyddwyr yn cyhoeddi ei adroddiad, 'Cwtogi'— adroddiad sy'n tanlinellu rhai o'r pryderon y mae cynnig Plaid Cymru yn cyfeirio atynt. Mae'r adroddiad yn datgelu nifer o ystadegau a ddylai fod yn destun braw i arweinyddion gwleidyddol, ond hefyd i gymdeithas yn ehangach, wrth inni wynebu'r gaeaf hwn. Mae'r adroddiad, er enghraifft, yn datgelu bod 76% o deuluoedd Cymru yn poeni na fyddant yn gallu fforddio eu biliau ynni pan fydd y prisiau'n codi. Mae'r ffigur hwnnw yn codi i 86% o deuluoedd ar incwm isel. Mae mwy nag un ym mhob pum teulu yn cael cryn drafferth heddiw i dalu'r biliau hynny. Mae ceisio dychmygu sut y bydd y teuluoedd hynny yn delio â'r codiadau diweddaraf yn y prisiau yn destun pryder i bob un ohonom.

Mae'r cynnig yn cyfeirio at yr angen i Gymru gael llais cryfach trwy ddatganoli pellach yn y maes ynni, er mwyn gallu newid pethau yn hytrach na gorfod dibynnu ar wleidyddion Llundain i weithredu ar ein rhan. Mae hefyd yn ein hatgoffa o realiti sefyllfa fregus yr amgylchedd, o ran newid yn yr hinsawdd a'r angen i symud ar frys i leihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil. Mae'r cynnig hefyd yn cyfeirio at y cynnydd mewn prisiau, ac yn tanlinellu'r ffaith bod pobl Cymru yn gorfod talu mwy am eu trydan na phobl gweddill Prydain.

Rydym mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru, wrth gwrs, gan ein bod yn wlad sy'n cynhyrchu mwy o drydan nag yr ydym yn ei ddefnyddio. Yn wir, mae Cymru yn cynhyrchu mwy o drydan y pen nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Gyfunol. Eto, mae'n wlad sydd â'r biliau trydan uchaf ym Mhrydain Fawr. Mae Cymru yn wlad sy'n cynhyrchu mwy o drydan nag y mae hi'n ei ddefnyddio, ond sydd ar yr un pryd yn gorfod mewnfurio trydan o wledydd eraill.

Mae nifer o resymau pam fod biliau yn uwch yng Nghymru nac yn Lloegr a'r Alban, ac un o'r rheini yw cyflwr ein stoc tai ar hyn o bryd. Mae'r gyfradd adeiladu tai newydd ym Mhrydain yn isel—llai nag 1% y flwyddyn—ac mae Cymru, yn naturiol, yn wynebu heriau ychwanegol yn y cyd-destun hwnnw, gan fod gennym boblogaeth gymharol sefydlog a'n bod yn rhan gymharol dlawd o Brydain. Ond bydd effaith gwella'r radd 'standard assessment procedure' cyfartalog yn sylweddol, wrth gwrs. Os edrychych arno o safbwynt tai newydd yng Nghymru, mae'n 80.3; os edrychych arno yng nghyd-destun y tai sydd gennym ar hyn o bryd, nid yw ond yn 50.3. Un peth yw adeiladu tai newydd, wrth gwrs, ac mae honno'n broses llawer mwy hirdymor.

The debate also happens on the same day as Consumer Futures publishes its report, 'Cutting back', which highlights some of the concerns that Plaid Cymru's motion refers to. The report reveals a number of statistics that should surprise political leaders, but also society as a whole, as we face this winter. The report, for example, reveals that 76% of Welsh families are concerned that they will not be able to afford their energy bills when the prices are increased. That figure rises to 86% of families on low incomes. More than one in five families is struggling today to cope with energy bills. Trying to imagine how those families will cope with these latest increases in prices is a cause of concern for each and every one of us.

The motion refers to the need for Wales to have a stronger voice by further devolution in the field of energy, in order to be able to make significant changes rather than having to depend on politicians in London to take action on our behalf. It also reminds us of the reality of the fragile situation on the environment and climate change and the need to move swiftly to reduce our dependence on fossil fuels. The motion also refers to the price increases, underlining the fact that the people of Wales have to pay more for electricity than people in the rest of Britain.

We are in a unique situation in Wales, of course, because we are a net exporter of electricity. Indeed, Wales produces more electricity per head of the population than any other part of the UK. Again, it is the country that has the highest electricity bills in Britain, Wales is a nation that produces more electricity than it uses, but simultaneously has to import electricity from other nations.

There are a number of reasons why bills are higher in Wales than in England and Scotland, and one of those is the condition of our current housing stock. The rate of house building in Britain is low—less than 1% per year—and Wales, naturally, faces more additional challenges in that context, as we have a relatively immobile population and we are relatively poor. However, the impact of improving the average standard assessment procedure will be significant, of course. If you look at that in terms of new housing in Wales, it is 80.3; if you look at it in the context of our current housing stock, it is only 50.3. One issue is to build new houses, of course, and that is a far more long-term process.

Ateb mwy uniongyrchol, fel y byddem i gyd yn ei gydnabod, rwy'n siŵr, yw cynyddu ein hymdrechion i ôlffitio ein tai presennol. Mae rhaglenni fel Arbed a Nyth, a ddaeth i fodolaeth yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un, wedi cael eu canmol fel rhaglenni sy'n cyfrannu'n bositif at y llinell waelod driphlyg honno, sef heriau lleihau allyriadau carbon, gostwng cost gwresogi, a chreu swyddi yn sgîl y gwaith ôl-ffitio. Rwyf i, a nifer ohonom, rwy'n siŵr, yn rhannu'r ganmoliaeth honno. Yr hyn nad yw cystal, efallai, yw maint cymharol fach y rhaglenni hynny. Mae Comisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd, ynghyd â llu o gyrff a mudiadau eraill, wedi galw am gynyddu maint y rhaglenni hyn yn sylweddol. Mae un adroddiad, yn ddiddorol iawn, wedi dangos bod angen gwella 400,000 o dai, sef traean stoc tai Cymru, dros y 10 mlynedd nesaf fel eu bod yn cyrraedd lefel sy'n torri allyriadau carbon o dros 60%. Mae'n rhaid gwneud hynny os yw Cymru mewn gwirionedd am gwrdd â tharged o dorri allyriadau cenedlaethol yng Nghymru 40% erbyn y flwyddyn 2020. Mae'r gofyn, felly, yn sylweddol fwy na'r hyn sydd, efallai, yn cael ei wireddu ar hyn o bryd.

Mae'n debyg mai man cychwyn polisi ynni, mewn gwirionedd, ddylai fod i leihau'r defnydd yn y lle cyntaf. Byddai gwneud mwy yn y maes hwn yn helpu, rwy'n meddwl, i sicrhau gostyngiad mewn defnydd ac mewn angen. Byddai hyn, yn ei dro, yn arwain at filiau is i ddefnyddwyr unigol, a, gobeithio, yn arwain at gost ynni is yn ehangach, wrth i'r galw cyffredinol am ynni ostwng.

Bydd Aelodau hefyd yn ymwybodol, rwy'n siŵr, o bolisi Plaid Cymru: sefydlu cwmni ynni cyhoeddus hyd braich, nid er elw, a bydd rhai o'm cyd Aelodau yn cyfeirio at y polisi hwnnw yn y man. Fodd bynnag, hoffwn ganolbwyntio, yng ngweddill fy nghyfraniad wrth agor y ddadl hon, ar faterion yn ymwneud â'r grid cenedlaethol.

Y rheswm dros y ffaith bod yn rhaid i Gymru fewnforio trydan, wrth gwrs, yw nad oes cysylltiad ar y grid cenedlaethol rhwng y gogledd a'r de. Mae'r gogledd yn cynhyrchu llawer mwy o drydan nag sydd ei angen arno, ond mae'r de yn defnyddio mwy nag y mae'n ei greu. Er bod cyfanswm y trydan sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru gyfan yn hen ddigon i ddarparu ar gyfer yr angen ar draws y wlad, gan nad oes cysylltiad rhwng y de a'r gogledd, mae'n rhaid i'r de fewnforio trydan.

Mae'r cynnig sydd gerbron y Cynulliad y prynhawn yma yn cyfeirio at ddarn o waith ymchwil ar hyfywedd cysylltu Cymru yn fewnol. Roedd sôn, yn ôl yn Chwefror 2011, fod darn o waith wedi'i gomisiynu gan Ofgem i ymchwilio i gost a hyfywedd gosod cebl tanfor i redeg drwy fae Ceredigion i gysylltu'r gogledd a'r de. Hyd y gwelaf, nid oes sôn wedi bod ers hynny, felly byddwn yn ddiolchgar iawn pe bai'r Llywodraeth yn gallu cadarnhau beth yw'r sefyllfa ac, os yw'n bosibl, cyflwyno canlyniadau'r ymchwil hwnnw i'r Cynulliad er mwyn inni weld beth yw'r posibiladau yn y cyd-destun hwnnw.

A more direct response, as I am sure we would all accept, is to increase our efforts to retrofit our current housing stock. Programmes such as Arbed and Nest, which came into existence during the One Wales Government, have been praised as programmes that make a positive contribution to that threefold bottom line of reducing carbon emissions, reducing the cost of heating homes and creating jobs in the wake of that retrofitting. I, and many Members, would share in that praise. What is not as good, perhaps, is the relatively small scale of those programmes. The Climate Change Commission for Wales, along with a number of other organisations, called for significantly growing the size of these programmes. One report has very interestingly shown that we need to make improvements to 400,000 homes, which is a third of Wales's housing stock, over the next 10 years, so that they reach a level that cuts carbon emissions by over 60%. That has to be achieved if Wales is to meet the target of cutting national carbon emissions in Wales by 40% by the year 2020. Therefore, demands are significantly higher than what is currently being delivered.

It appears that a starting point for any energy policy should be to reduce energy usage in the first place. Doing more in this area would assist, in my opinion, with securing a reduction in usage and demand, which would, in turn, lead to lower bills for individual consumers and, hopefully, to lower energy costs more generally, as the general demand for energy fell.

Members will be aware, I am sure, of the Plaid Cymru policy to establish an arm's-length, not-for-profit energy company; some of my colleagues will refer to that policy this afternoon. However, I would like to concentrate in the rest of my contribution in opening this debate on issues related to the national grid.

The reason why Wales has to import electricity is that there is no link on the national grid between north and south Wales. North Wales produces far more electricity than it needs, but south Wales uses more than it produces. Although the total amount of electricity produced in Wales is more than enough to provide for needs across the country, as there is no link between north and south, electricity has to be imported into south Wales.

The motion before the Assembly today makes reference to a piece of research on the viability of linking Wales internally. There was talk back in February 2011 that a piece of work had been commissioned by Ofgem to look at the cost and viability of laying a cable in the sea through Cardigan bay to link north and south Wales. As far as I can see, there has been no mention of this since then, so I would be very grateful if the Government could confirm what the situation is and, if possible, present the results of that research to the Assembly so that we can see what is possible in that context.

Wrth gwrs, mae llawer o sôn am gysylltu Cymru a'r Alban; mae sôn am gysylltu is-orsaf Hunterston, yng nghanolbarth yr Alban, a Chei Connah. Mae sôn am gysylltu â'r Iwerddon, hefyd, gyda phwyntiau cyswllt ger Bangor ac ym Mhenfro. Fodd bynnag, y darn amlwg o'r jig-so sydd ar goll, yn fy marn i, o safbwynt Cymreig, yw'r linc hwn rhwng y de a'r gogledd, yn enwedig wrth ystyried y ffaith ein bod yn cynhyrchu mwy o drydan nag sydd ei angen arnom. Mae hynny, wrth gwrs, yn ddadl arall dros ddatganoli mwy o bwerau i'r sefydliad hwn, a bydd rhai o'm cyd Aelodau o Blaid Cymru yn ymhelaethu ar hynny, hefyd, yn y man.

Un o ddadleuon cryfaf y chwe chwmni ynni mawr, wrth iddynt godi'u prisiau, yw cost gynyddol dosbarthu a throsglwyddo ynni. Mae ynni, wrth gwrs, yn cael ei gollu wrth gael ei drosglwyddo ar draws y rhwydwaith dosbarthu. Yn 2011, pan gasglwyd y data mwyaf diweddar sydd gennym, collwyd 2,000 GWh ar y rhwydwaith dosbarthu. Os ystyriwch mai dim ond 18,000 GWh oedd defnydd Cymru gyfan, mae colli 2,000 GWh yn cynrychioli dros 10% o'r ynni hwnnw.

Mae'r diffyg rhwydwaith mewnol yng Nghymru hefyd yn cael effaith ar ein gallu i ddatblygu mwy o brosiectau cynhyrchu ynni ar raddfa lai, efallai. Mae enghreifftiau wedi codi yn y gorffennol ynglŷn â chynlluniau treulio anaerobig, sydd wedi cael eu colli am fod cost cysylltu â'r grid mor afresymol o ddrudd, er bod modd mynd i greu'r cysylltiadau hynny mewn ffyrdd eraill; wrth gwrs, mae rheolau'n cyfyngu ar y gallu i wneud hynny.

Mae sawl agwedd i'r cynnig hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at y drafodaeth a ddaw yn ei sgîl. Yn amlwg, byddwn yn gofyn i Aelodau gefnogi'r cynnig, a byddaf yn cael cyfle i ymateb i'r gwelliannau wrth gloi'r ddadl. Gadawn ni hi ar hynny am y tro.

Of course, there has been a great deal of talk of linking Wales and Scotland; linking the Hunterston substation in the Scottish midlands with Connah's Quay. There is also talk of links with Ireland, with linkage points near Bangor and Pembroke. However, the obvious missing part of the jigsaw, in my opinion, in the Welsh context, is this link between north and south, particularly given that we produce more electricity than we use. That, of course, is another argument in favour of devolving more powers to this institution, and some of my colleagues in Plaid Cymru will expand upon that, too, during the debate.

One of the strongest arguments of the six major energy companies as they increase their prices is the increasing cost of distribution and transmission. Energy, of course, is lost as it is transmitted across the network. In 2011, when the most recent data were collected, 2,000 GWh were lost on the transmission network. In you consider that Wales only uses a total of 18,000 GWh, losing 2,000 GWh represents over 10% of that energy.

The lack of an internal network in Wales also has an impact on our ability to develop more energy production projects on a smaller scale, perhaps. Examples have arisen in the past in terms of anaerobic digestion, which have been lost because the cost of linking to the grid is so unreasonably high, although there is a means of making those connections in other ways; rules, of course, limit the ability to do that.

There are many aspects to this motion, and I look forward to the debate. Obviously, I urge Members to support the motion, and I will have an opportunity to respond to the amendments in closing the debate. I will leave it at that for now.

16:09

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the 12 amendments to the motion. If amendment 6 is agreed, amendment 7 will be deselected. I call on Russell George to move amendments 1, 2, 6, 8, 9 and 10 tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y 12 gwelliant i'r cynnig. Os cytunir ar welliant 6, caiff gwelliant 7 ei ddad-ddethol. Galwaf ar Russell George i gynnig gwelliannau 1, 2, 6, 8, 9 a 10 a gyflwynwyd yn enw William Graham.

Gwelliant 1—William Graham

Amendment 1—William Graham

Dileu is-bwynt 1c a rhoi yn ei le:

Delete sub-point 1c and replace with:

er mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y drefn drwyddedu ar gyfer chwilota am nwy anghonfensiynol a'i echdynnu, mae angen mathau eraill o ganiatâd (megis caniatâd cynllunio lleol) cyn y caniateir i waith ddechrau gyda nwy anghonfensiynol.

that while the licensing regime for the exploration and extraction of unconventional gas lies with the UK Government, other consents (such as local planning permission) are required before unconventional gas operations are allowed to commence.

Gwelliant 2—William Graham

Amendment 2—William Graham

Cynnwys is-bwynt 1d newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new sub-point 1d and renumber accordingly:

bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar drefn ariannol ar gyfer echdynnu nwy siâl ac wedi addo darparu fframwaith cydlynol er mwyn galluogi cymunedau lleol i elwa'n uniongyrchol o unrhyw adnoddau a ddatblygir yn eu hardal.

that the UK Government has consulted on a fiscal regime for shale gas extraction and has pledged to deliver a coherent framework to enable local communities to benefit directly from any development of resources in their area.

Gwelliant 6—William Graham

Dileu is-bwynt 2b a rhoi yn ei le:

gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu cynnig cynhwysfawr i ddatganoli rhagor o bwerau i Gymru ar gyfer cydsyniadau ynni ac ymrwymo i ynni adnewyddadwy.

Gwelliant 8—William Graham

Cynnwys is-bwynt 2c newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried a yw'r drwydded bresennol ar gyfer Datblygu a Chwilota am Betrolewm yn y DU yn drefn effeithiol i ddatblygu nwy anghonfensiynol yn y dyfodol.

Gwelliant 9—William Graham

Cynnwys is-bwynt 2c newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

datblygu canllawiau cynllunio technegol ar chwilota am nwy anghonfensiynol er mwyn helpu awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu swyddogaethau yn briodol.

Gwelliant 10—William Graham

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cadarnhau a yw'n cefnogi Prosiect Cysylltu Canolbarth Cymru, a fyddai'n arwain at lawer iawn o dyrbinau gwynt ar y tir ledled Canolbarth Cymru.

Amendment 6—William Graham

Delete sub-point 2b and replace with:

work with the UK Government to develop a comprehensive proposal to devolve further energy consenting and renewable obligation powers to Wales.

Amendment 8—William Graham

Insert as new sub-point 2c and renumber accordingly:

work with the UK Government to examine whether the existing UK Petroleum Exploration and Development licence is an effective regime to develop unconventional gas in the future.

Amendment 9—William Graham

Insert as new sub-point 2c and renumber accordingly:

develop technical planning guidance on unconventional gas exploration to assist local planning authorities to properly discharge their functions.

Amendment 10—William Graham

Add as new sub-point at the end of point 2:

confirm whether it supports the Mid-Wales Connection Project, which would lead to the proliferation of onshore wind turbines across Mid Wales.

16:09

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 2, 6, 8, 9 and 10.

I do not believe that the future of the UK's energy generation needs, and the security of energy supply, has ever been more topical. The general public is engaged with this issue, and that cannot be said about every subject that we debate in this Chamber. The public is engaged not just because of the rising costs, which are impacting on household budgets, but because it wants to know what we, as elected politicians, not just in Wales but in administrations across the UK, are going to do now to ensure that, in a decade or two, the lights will remain on and that we will have a security of supply that is more clean, affordable and reliable than some of the sources that we use today.

Cynigiad welliannau 1, 2, 6, 8, 9 a 10.

Ni chredaf fod dyfodol anghenion y DU o ran cynhyrchu ynni, na diogelwch y cyflenwad ynni, erioed wedi bod yn bwnc mwy amserol. Mae gan y cyhoedd yn gyffredinol ddiddordeb yn y pwnc hwn, ac ni ellir dweud hynny am bob pwnc y byddwn yn ei drafod yn y Siambr hon. Mae gan y cyhoedd ddiddordeb nid yn unig am fod costau'n cynyddu, sy'n cael effaith ar gyllidebau cartrefi, ond am eu bod eisiau gwybod beth yr ydym ni, fel gwleidyddion etholedig, nid yn unig yng Nghymru ond yn y gweinyddiaethau ledled y DU, yn mynd i'w wneud yn awr er mwyn sicrhau, ymhen degawd neu ddau, na fydd y goleuadau'n diffodd ac y bydd gennym gyflenwad sicr sy'n fwy glân, fforddiadwy a dibynadwy na rhai o'r ffynonellau a ddefnyddiwn heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wales, of course, has its part to play in generating energy for the collective good of the UK as a whole. However, we must ensure that those resources are used sustainably and that we obtain our fair share of the benefits from the outputs of those resources. Most importantly, communities should not be forced into a situation where central Government imposes a development or a form of technology on them against their will.

I think that there is some degree of consensus around these points on which all parties around this Chamber can move forward positively. However, cracks are starting to develop in the consensus, particularly with regard to the devolution of powers. I believe that we have to tread carefully to prevent that from happening, because it could fundamentally hinder the transfer of those powers. That is why we have tabled amendment 6, in contrast to point 2b) of Plaid's motion.

Going into the 2011 Assembly elections, all parties stood on a platform of further transfer of powers. I think that something has radically changed within Welsh Government circles in the last two and a half years. These benches, and more importantly, perhaps, the Welsh public, want to understand why the Government feels that there should be an immediate and substantive transfer of powers to Wales. That case has to be built on more than a few narrative paragraphs by the Silk commission. We need to understand the rationale and the evidence base behind that reasoning, what the Government intends to do with those powers and what the likely consequences will be for the wider UK energy picture. As we know, while the Welsh Government can set the policy tone and agenda on certain aspects of energy policy, it does not have consenting powers, as they rest with local planning authorities. If it is advocating such a shift of powers centrally to Welsh Ministers—including over associated infrastructure—we need to know what structures it is envisaging and how that will impact on local determination.

I believe that trust has to be built. That can only be done through further conversations between Governments and, especially, between the Welsh Government and the wider Welsh public.

Wrth gwrs, mae gan Gymru ei rhan i'w chwarae i gynhyrchu ynni er budd cyfunol y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau bod yr adnoddau hynny'n cael eu defnyddio'n gynaliadwy a'n bod yn cael ein cyfran deg o'r buddiannau a ddaw o allbynnau'r adnoddau hynny. Yn bwysicaf oll, ni ddylai cymunedau orfod wynebu sefyllfa lle mae'r Llywodraeth ganolog yn gorfodi datblygiad neu fath o dechnoleg arnynt yn erbyn eu hewyllys.

Credaf fod rhywfaint o gonsensws ynghylch y pwyntiau hyn y gall pob plaid yn y Siambr hon adeiladu arno'n gadarnhaol. Fodd bynnag, mae craciau'n dechrau datblygu yn y consensws, yn enwedig o ran datganoli pwerau. Credaf fod yn rhaid inni droedio'n ofalus er mwyn atal hynny rhag digwydd, oherwydd gallai amharu'n sylfaenol ar gamau i drosglwyddo'r pwerau hynny. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno gwelliant 6, mewn cyferbyniad â phwynt 2b) o gynnis Plaid.

Cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2011, roedd pob plaid o blaid trosglwyddo rhagor o bwerau. Credaf fod rhywbeth wedi newid yn sylweddol o fewn cylchoedd Llywodraeth Cymru yn ystod y ddwy flynedd a hanner diwethaf. Mae'r meinciau hyn, ac yn bwysicach, efallai, y cyhoedd yng Nghymru, yn awyddus i ddeall pam y mae'r Llywodraeth yn teimlo y dylai pwerau sylweddol gael eu trosglwyddo ar unwaith i Gymru. Rhaid i'r achos dros hynny fod yn seiliedig ar fwy na rhai paragraffau o naratif gan gomisiwn Silk. Mae angen inni ddeall y sail resymegol a'r sail dystiolaeth y tu ôl i'r rhesymeg honno, beth mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud â'r pwerau hynny a beth fydd y canlyniadau tebygol o ran darlun ynni ehangach y DU. Fel y gwyddom, er y gall Llywodraeth Cymru osod yr agenda a'r cywair ar agweddau penodol ar bolisi ynni, nid oes ganddi bwerau rhoi caniatâd, gan mai awdurdodau cynllunio lleol sydd â'r pwerau hynny. Os yw'n argymhell y dylai pwerau o'r fath—gan gynnwys dros seilwaith cysylltiedig—gael eu trosglwyddo'n ganolog i Weinidogion Cymru, mae angen inni wybod pa strwythurau sydd ganddi mewn golwg a sut y bydd hynny'n effeithio ar benderfyniadau lleol.

Credaf fod yn rhaid meithrin ymddiriedaeth. Dim ond drwy drafodaethau pellach rhwng Llywodraethau ac, yn arbennig, rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru y gellir gwneud hynny.

The reason for tabling amendments 1, 2, 8 and 9 is quite simple. It is not about examining the pros and cons of technology; it is about bringing some balance back to the debate. As a true unionist, my eyebrows were raised by the tone of part 1c) of the motion, because it sounds as though Plaid is convinced that, somehow, the UK Government is going to allow drilling companies searching for shale gas to ride roughshod over Wales, exploiting any potential gas reserves and leaving communities hosting those facilities with nothing at all. We do not believe that that will be the case, and I am sure that other parties in this Chamber will concur with that view. Yes, the licensing regime lies with the UK Government, but other consents are required to allow any activity to take place—these include planning permission, as we saw in the cases of Rhondda Cynon Taf and the Vale of Glamorgan. It is important, therefore, that the Welsh Government has full competence over planning in Wales, but that it provides local planning authorities with appropriate planning guidance on unconventional gas, so that they can properly discharge their functions.

Why Wales has dragged its feet on this issue remains unclear. I think that the evidence provided by Gareth Clubb, director of Friends of the Earth Cymru, to the Welsh Affairs Select Committee, which was examining the issue of shale gas in Wales, was particularly telling. He said that the Welsh Government was absolutely negligent for not issuing planning guidance, because it does not want to take responsibility.

I come finally to amendment 10. I am sure that it comes as no surprise that I am tabling that on behalf of the people of mid Wales. I am disappointed to have run out of time to expand on that.

Mae'r rheswm dros gyflwyno gwelliannau 1, 2, 8 a 9 yn eithaf syml. Nid mater o bwysio a mesur manteision ac anfanteision technoleg mohono; mater o ddod â rhywfaint o gydbwysedd yn ôl i'r ddaidl. Fel undebwr rhonc, cefais fy synnu gan gywair rhan 1c) o'r cynnig, gan ei bod yn swnio fel pe bai Plaid yn argyhoeddedig bod Llywodraeth y DU, rywsut, yn mynd i ganiatáu i gwmnïau drilio sy'n chwilio am nwy siâl sathru ar Gymru, gan elwa ar unrhyw gronfeydd nwy posibl a gadael y cymunedau y lleolir y cyfleusterau hynny ynddynt heb ddim byd. Ni chredwn y bydd hynny'n digwydd, ac rwy'n siŵr y bydd y pleidiau eraill yn y Siambur hon yn cytuno â'r farn honno. Ie, Llywodraeth y DU sydd â'r drefn drwyddedu, ond mae angen mathau eraill o ganiatâd er mwyn caniatáu i unrhyw weithgaredd ddigwydd—mae'r rhain yn cynnwys caniatâd cynllunio, fel y gwelsom yn achosion Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'n bwysig, felly, bod gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd llawn dros gynllunio yng Nghymru, ond ei bod yn rhoi canllawiau priodol ar nwy anghonfensiynol i awdurdodau cynllunio lleol, fel y gallant gyflawni eu swyddogaethau'n gywir.

Mae'r rheswm pam bod Cymru wedi llusgo'i thraed ar y mater hwn yn parhau i fod yn aneglur. Credaf fod y dystiolaeth a ddarparwyd gan Gareth Clubb, cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru, i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, a oedd yn ystyried y mater o nwy siâl yng Nghymru, yn arbennig o drawiadol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn gwbl esgeulus am beidio â chyflwyno canllawiau cynllunio, am nad yw am gymryd cyfrifoldeb.

Yn olaf, trof at welliant 10. Rwy'n siŵr nad yw'n syndod fy mod yn cyflwyno hwnnw ar ran pobl y canolbarth. Rwy'n siomedig fy mod wedi rhedeg allan o amser i ymhelaethu arno.

16:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on William Powell to move amendments 3, 4, 5, 7, 11 and 12, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 3, 4, 5, 7, 11 a 12, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

Add as new sub-point at the end of point 1:

bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd gwerth £3 biliwn, y cyntaf o'i fath yn y byd, a fydd yn sianelu £15 biliwn o fuddsoddiad y sector preifaf i brosiectau gwyrdd.

that the UK Government has established a £3 billion Green Investment Bank, the first of its kind in the world, which will channel £15 billion from private sector investment into green projects.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

Add as new sub-point at the end of point 1:

pwysigrwydd cynlluniau ynni cymunedol i gynaliadwyedd ardaloedd lleol, gan feithrin ysbryd cymunedol a chodi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag ynni a newid yn yr hinsawdd.

the importance of community energy schemes to the sustainability of local areas, fostering community spirit and raising awareness of energy and climate change issues.

Gwelliant 5—Aled Roberts

Amendment 5—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

Add as new sub-point at the end of point 1:

bod prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd (NSIP) ar ynni, gan gynnwys ynni niwclear, yn cael effaith y tu hwnt i ffin Cymru/Lloegr.

Gwelliant 7—Aled Roberts

Dileu is-bwynt 2b a rhoi yn ei le:

ailldatgan y gefnogaeth gan bob plaid i ddatganoli cydsyniadau ynni ar gyfer prosiectau ar y tir sy'n fwy na 50MW ac i weithio gyda Llywodraeth y DU i gysoni pwerau cydsynio ar y môr yn nyfroedd Cymru.

Gwelliant 11—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cyflwyno'r gwerthusiad gwerth am arian o brosiect Ynni'r Fro, a oedd i fod yn barod erbyn diwedd mis Medi 2013.

Gwelliant 12—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cyflwyno datganiad manwl yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cymaint o gyfleoedd ag y bo modd i Gymru drwy'r Banc Buddsoddi Gwyrdd.

that nationally significant infrastructure projects (NSIPs) on energy, including nuclear power, have an impact beyond the Wales/England border.

Amendment 7—Aled Roberts

Delete sub-point 2b and replace with:

reaffirm the cross-party support for the devolution of energy consents above 50MWs for on-shore projects and work with the UK Government to harmonise off-shore consenting powers within Welsh waters.

Amendment 11—Aled Roberts

Add as new sub-point at the end of point 2:

bring forward the project evaluation on the value for money of Ynni'r Fro, which was due for conclusion at the end of September 2013.

Amendment 12—Aled Roberts

Add as new sub-point at the end of point 2:

bring forward a detailed statement outlining how the Welsh Government is maximising the opportunities for Wales through the Green Investment Bank.

16:14

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 3, 4, 5, 7, 8, 11 and 12 tabled in the name of Aled Roberts.

I thank Plaid Cymru for bringing forward this important and timely debate today. While the majority of us have long been convinced by the case for change, I hope that the repetition of evidence, such as the IPCC report, will eventually convince any flat-earthers who remain out there, who believe that, despite all of our species' activities, we have little impact on the environment around us. Before I get into the substance of my contribution, I want to outline my support for the debate in principle, as I have previously stated, and to note that my group will only oppose amendment 10. We do so not because we do not wish to seek clarity from the Welsh Government, but because it appears that it is based on a degree of confusion.

Cynigiad welliannau 3, 4, 5, 7, 8, 11 a 12 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Diolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl bwysig ac amserol hon heddiw. Er bod y rhan fwyaf ohonom wedi bod yn argyhoeddedig ers tro bod angen newid, rwy'n gobeithio drwy ailadrodd tystiolaeth, megis adroddiad yr IPCC, y gellir argyhoeddi unrhyw anghredinwyr sydd ar ôl, sy'n credu, er gwaethaf holl weithgarwch ein rhywogaeth, nad ydym yn cael fawr ddim effaith ar yr amgylchedd o'n cwmpas. Cyn imi droi at sylwedd fy nghyfraniad, hoffwn amlinellu fy nghefnogaeth i'r ddadl mewn egwyddor, fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, a nodi mai dim ond gwelliant 10 y bydd fy ngrŵp yn ei wrthwynebu. Gwnawn hynny nid oherwydd nad ydym am gael eglurder gan Lywodraeth Cymru, ond oherwydd ymddengys ei fod yn seiliedig ar rywfaio o ddryswch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

One of the most significant problems with TAN 8 is that grid infrastructure was never included as a formal consideration when the original SSAs were defined. I believe that this point was made by Jonathan Edwards MP in the Commons debate on these matters just last night. It is this specific oversight that has led to our present predicament with the mid Wales connection project. Indeed, in the majority of cases when developers bring forward their plans, they do not need to prove that adequate connection capacity exists to distribute the energy that they propose to generate. After all, if they did, the new route would not have been needed. Given this, I do not believe that it is accurate to claim that the new connection would proliferate wind developments, as this is not how the planning system currently functions. Put simply, this is just one of the many reasons why it is essential that we should undertake a thorough review of TAN 8, as my party advocated in its 2011 manifesto. We have a responsibility to ensure that anyone wishing to develop appropriate projects is given up-to-date advice and that everything is not concentrated in just one single part of this country. TAN 8, in its present form, just does not deliver this.

Shifting focus, I want to highlight our amendment 7 and outline just how important it is that we accord appropriate weight to marine energy consents, because these are essential to our ability to deliver a green and secure energy network. We believe firmly in the idea that while fossil fuels still make up the vast majority of our energy base, we should aim for this to be an ever-decreasing percentage.

Further to this, I would argue that, given the potential shown by marine renewables around the world, by the end of this century, we should be producing the majority of our electricity from our own waters. With some of the roughest seas and highest tidal ranges in the world available to us, it would be madness for us to allow Wales to miss out on such an opportunity. However, it continues to be the case that consenting powers of up to just 1 MW severely hamper our ability to undertake this. This is why we must all continue to pressure the UK Government into further energy devolution through Silk part 2, especially when it comes to the marine sector. Further to this, Wales must also undertake the initiative and investigate the viability of establishing a series of marine energy hubs to provide an adequate and safe environment to manufacture and test emergent marine technologies before their deployment.

Un o'r problemau mwyaf arwyddocaol o ran TAN 8 yw na chafodd seilwaith grid byth ei gynnwys fel ystyriaeth ffurfiol pan ddiffiniwyd yr Ardaloedd Chwilio Strategol gwreiddiol. Credaf i'r pwynt hwn gael ei wneud gan Jonathan Edwards AS yn y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar y materion hyn dim ond neithiwr. Y diolalwch penodol hwn sydd wedi arwain at ein trafferth bresennol gyda phrosiect chysylltu'r canolbarth. Yn wir, yn y mwyaf o achosion pan fydd datblygwyr yn cyflwyno'u cynlluniau, nid oes angen iddynt brofi bod capasiti cysylltu digonol yn bodoli i ddsbarthu'r ynni y maent yn bwriadu ei gynhyrchu. Wedi'r cyfan, pe byddent yn gwneud hynny, ni fyddai wedi bod angen y llwybr newydd. O ystyried hyn, ni chredaf ei bod yn gywir i honni y byddai'r cysylltiad newydd yn arwain at gynydd mewn datblygiadau gwynt, oherwydd nid fel hyn y mae'r system gynllunio'n gweithio ar hyn o bryd. Yn syml, dyma un o'r lluo o resymau pam ei bod yn hanfodol y dylem gynnal adolygiad trylwyr o TAN 8, fel yr argymhellodd fy mhlaid yn ei manifesto yn 2011. Mae gennym gyfrifoleb i sicrhau bod unrhyw un sy'n dymuno datblygu prosiectau priodol yn cael cyngor cyfredol ac nad yw popeth yn cael ei grynhoi mewn un rhan o'r wlad yn unig. Nid yw TAN 8, ar ei ffurf bresennol, yn cyflawni hynny.

Gan newid ffocws, hoffwn dynnu sylw at ein gwelliant 7 ac amlinellu pa mor bwysig yw hi ein bod yn rhoi'r pwys priodol ar ganiatadau ynni morol, gan fod y rhain yn hanfodol i'n gallu i ddarparu rhwydwaith ynni gwyrdd a diogel. Credwn yn gryf yn y syniad, er bod tanwyddau ffosil yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o'n sylfaen ynni, y dylem geisio sicrhau bod y ganran hon yn lleihau'n barhaus.

Yn ogystal â hyn, byddwn yn dadlau, o ystyried y potensial a ddangosir gan ynni adnewyddadwy morol o amgylch y byd, erbyn diwedd y ganrif hon, y dylem fod yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'n trydan o'n dyfroedd ein hunain. O ystyried bod gennym rai o'r moroedd mwyaf geirwon a'r ystodau llanw uchaf yn y byd, gwallgofrwydd fyddai gadael i Gymru golli cyfle o'r fath. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn wir bod pwerau rhoi caniatâd o hyd at 1 MW yn unig yn llesteirio'n ddifrifol ein gallu i wneud hynny. Dyma pam y mae'n rhaid inni gyd barhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddatganoli ynni ymhellach drwy Silk rhan 2, yn enwedig o ran y sector morol. Yn ychwanegol at hyn, rhaid i Gymru hefyd ddangos blaengaredd ac ymchwilio i hyfywedd sefydlu cyfres o ganolfannau ynni morol er mwyn darparu amgylchedd digonol a diogel i weithgynhyrchu a phrofi technolegau morol sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu defnyddio.

I want to briefly air the desire to establish a publicly owned not-for-profit energy company. As I said when the proposal was first made, it is certainly one that is worthy of strong and detailed consideration. However, I remain of the view that the devil here is in the detail. For instance, the obvious place to look for a parallel is a company with the structure of Dŵr Cymru. However, I do not need to remind Members that that is actually not a publicly owned concern. Further to this, if guaranteeing low prices is the aim, we should take into consideration the fact that, according to Ofwat, the average 2011-12 combined bill for Dŵr Cymru was some £32 above the UK national average. Although, admittedly, that was because of the level of investment made. Finally, if an energy equivalent were to be explored, we need to look at how it would operate within a market that has multiple generation companies and use this as a way of establishing its viability or otherwise.

Hoffwn drafod yn gryno y dymuniad i sefydlu cwmni ynni cyhoeddus, dielw. Fel y dywedais pan wnaed y cynnig yn gyntaf, mae'n sicr yn un sy'n haeddu ystyriaeth gref a manwl. Fodd bynnag, credaf o hyd fod yn rhaid edrych yn ofalus ar y manylion. Er enghraifft, y lle amlwg i droi ato am rywbeth cyffelyb yw cwmni sydd â strwythur fel Dŵr Cymru. Fodd bynnag, nid oes angen imi atgoffa Aelodau nad yw hwnnw yn gorff cyhoeddus mewn gwirionedd. Yn ychwanegol at hyn, os mai gwarantu prisiau isel yw'r nod, dylem ystyried y ffaith bod bil cyfun cyfartalog Dŵr Cymru yn 2011-12, yn ôl Ofwat, tua £32 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y DU. Ond, rhaid cyfaddef, y rheswm dros hynny oedd lefel y buddsoddiad a wnaed. Yn olaf, pe baem yn ystyried cael corff cyfatebol ym maes ynni, mae angen inni edrych ar sut y byddai'n gweithredu o fewn marchnad sydd â sawl cwmni cynhyrchu a defnyddio hyn fel ffordd o gadarnhau ei hyfywedd neu fel arall.

16:19

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Energy has become a crucial issue for people as the costs of heating and lighting continue to increase. For far too many people now, energy has become unaffordable. As well as aiming to end fuel poverty, the question of energy security is a key one and will become increasingly so.

Llyr Gruffydd referred earlier to today's new report from Consumer Futures and the debate has moved on from talking about fuel poverty to talking about increases in the numbers of people in fuel debt. In Wales, we have seen a 25% rise in households in arrears on their heating bills—the largest increase of all countries and regions within the United Kingdom. That is abject misery, affecting people of all ages. I am sure that few here will need reminding that Wales had the highest number of excess winter deaths in 2010-11.

The increase in fuel debt is no surprise. We know from figures produced by Llyr Gruffydd last month, and referred to by him earlier, that households in Wales face the highest energy bills. Why? One reason is because we have an energy sector that puts profit before people. Plaid Cymru has been a strong advocate of home energy efficiency schemes as a means of bringing down costs as well as greenhouse gas emissions, and for more information about that, you can check out our greenprint. Energy conservation is an example of something that the Welsh Government can do, but we also must be aware of the limitations, due to the limitations of our powers over energy here, and we very much hope that the Silk commission part 2 will address that.

Mae ynni wedi dod yn fater hollbwysig i bobl wrth i gostau gwresogi a goleuo barhau i gynyddu. I lawer gormod o bobl yn awr, mae ynni wedi dod yn anfforddiadwy. Yn ogystal â cheisio rhoi terfyn ar dlodi tanwydd, mae'r cwestiwn o ddiogelwch ynni yn un pwysig ac yn a ddaw'n fwyfwy pwysig.

Cyfeiriodd Llyr Gruffydd yn gynharach at adroddiad newydd heddiw gan Dyfodol Defnyddwyr ac mae'r ddadl wedi symud ymlaen o siarad am dlodi tanwydd i siarad am gynydd yn nifer y bobl sydd mewn dyled tanwydd. Yng Nghymru, rydym wedi gweld cynnydd o 25% yn nifer yr aelwydydd ag ôl-ddyledion ar eu biliau gwresogi—y cynnydd mwyaf o blith holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae hynny'n peri gofid enbyd, sy'n effeithio ar bobl o bob oed. Rwy'n siŵr nad oes angen atgoffa neb yma mai yng Nghymru y cafwyd y nifer uchaf o farwolaethau ychwanegol y gaeaf yn 2010-11.

Nid yw'r cynnydd mewn dyled tanwydd yn syndod. Gwyddom o'r ffigurau a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd fis diwethaf, ac y cyfeiriodd atynt yn gynharach, mai aelwydydd yng Nghymru sy'n wynebu'r biliau ynni uchaf. Pam? Un rheswm yw bod gennym sector ynni sy'n rhoi elw cyn pobl. Mae Plaid Cymru wedi rhoi cefnogaeth gref i gynlluniau effeithlonrwydd ynni yn y cartref fel ffordd o leihau costau yn ogystal ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac am fwy o wybodaeth am hynny, gallwch edrych ar ein Cynllun Gwyrdd. Mae arbed ynni yn enghraifft o rywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, ond rhaid inni hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau, oherwydd y cyfyngiadau ar ein pwerau dros ynni yma, ac rydym yn mawr obeithio y bydd comisiwn Silk rhan 2 yn mynd i'r afael â hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Plaid Cymru has welcomed the creation of Cyd Cymru, a collective energy-switching scheme that aims to get a good price on behalf of its customers. That is a good start towards people taking control over their energy, but, of course, Plaid Cymru wants to go much further. If the market is failing the public, and it clearly is, then it is time for the public to take back the market, and that is why Plaid Cymru wants to see the creation of an arm's-length company, similar to EDF in France or Vattenfall in Sweden. We already have our own successful Dŵr Cymru Welsh Water in Wales, which is a model that we can use for our 'Ynni Cymru', which should operate on a not-for-dividend/profit basis, putting its customers first and giving them real control. Plaid Cymru is of the view that we should control all aspects of our energy policy, and that is the only way that we can have overall control over our long-term energy security. That is the only way that we can ensure that we meet the renewables targets that are so important for preventing climate change.

I will finish my contribution to this debate by flagging up a potential new source of renewable energy that, to my knowledge, has not yet been mentioned in our Senedd. A new study for the Scottish Government has identified the possible advantages of geothermal energy in the central belt of Scotland. The report that it has commissioned says that geothermal energy from deep underground has the potential to play a significant role in Scotland's future energy provision. The most promising source is the water that has flooded hundreds of disused mine shafts; heated by the natural warmth of the Earth, the water averages 17 degrees Celsius. The study recommends a series of actions by Scottish Ministers in the next three years, including the development of a national geothermal energy strategy, and suggests two new demonstrator projects by 2016. This is an energy source that clearly has great potential for Wales too, and I would be very grateful if the Minister, in responding to this debate, would be prepared to look at commissioning such a study in Wales, to look at the potential that we have here for this new technology. After all, I think that we would be foolish in the extreme if we ignored a potential opportunity like this.

16:24

Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

Geothermal energy sounds like a very interesting possibility for resolving the problems that we face. Cardiff residents typically spent over £1,300 on their energy bills last year, and that was last year, before all the increases; that is £36 more than the average UK city. One fifth of households are now struggling to pay their bills, and that is even before the impact of the recent price hikes announced by five of the big six energy companies. That has just been published today by Consumer Futures Wales, so we clearly have a major problem.

Mae Plaid Cymru wedi croesawu'r camau i greu Cyd Cymru, sef cynllun newid ynni ar y cyd sy'n anelu at gael pris da i gwsmeriaid. Mae hwnnw'n ddechrau da i annog pobl i gymryd rheolaeth dros eu hynni, ond, wrth gwrs, mae Plaid Cymru eisiau mynd llawer pellach. Os yw'r farchnad yn siomi'r cyhoedd, ac mae'n amlwg bod hynny'n digwydd, yna mae'n amser i'r cyhoedd adfeddiannu'r farchnad, a dyna pam y mae Plaid Cymru am weld cwmni hyd braich yn cael ei greu, yn debyg i EDF yn Ffrainc neu Vattenfall yn Sweden. Eisoes mae gennym Dŵr Cymru yng Nghymru, sy'n llwyddiannus ac yn fodel y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer 'Ynni Cymru', a ddylai weithredu ar sail ddi-ddifidend/dielw, gan roi ei gwsmeriaid yn gyntaf a rhoi rheolaeth wirioneddol iddynt. Mae Plaid Cymru o'r farn y dylem reoli pob agwedd ar ein polisi ynni, ac mai dyna'r unig ffordd y gallwn gael rheolaeth gyffredinol dros ein diogelwch ynni hirdymor. Dyna'r unig ffordd y gallwn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targedau ynni adnewyddadwy sydd mor bwysig er mwyn atal newid yn yr hinsawdd.

Gorffennaf fy nghyfraniad i'r ddadl hon drwy dynnu sylw at ffynhonnell newydd bosibl o ynni adnewyddadwy nad yw, hyd y gwn i, wedi cael ei chrybwyll eto yn ein Senedd. Mae astudiaeth newydd i Lywodraeth yr Alban wedi nodi manteision posibl ynni geothermol yng nghanolbarth yr Alban. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd ganddi yn dweud y gall ynni geothermol, sy'n ddwfn o dan y ddaear, chwarae rhan sylweddol yn narpariaeth ynni'r Alban yn y dyfodol. Y ffynhonnell fwyaf addawol yw'r dŵr sydd wedi gorlifo mewn cannoedd o siafftau mwyngloddio segur; mae'r dŵr a gaiff ei wresogi gan gynhesrwydd naturiol y Ddaear yn cyrraedd tymheredd dŵr cyfartalog o 17 gradd Celsius. Mae'r astudiaeth yn argymhell cyfres o gamau gweithredu i Weiniogion yr Alban eu cymryd dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys datblygu strategaeth ynni geothermol genedlaethol, ac yn awgrymu dau brosiect arddangos newydd erbyn 2016. Mae'n amlwg bod hon yn ffynhonnell ynni sydd â photensial mawr i Gymru hefyd, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddai'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn fodlon ystyried comisiynu astudiaeth o'r fath yng Nghymru, er mwyn edrych ar y potensial sydd gennym ar gyfer y dechnoleg newydd hon. Wedi'r cyfan, credaf mai ffôl iawn fyddai anwybyddu cyfle posibl o'r fath.

Mae ynni geothermol yn swnio fel posibilrwydd diddorol iawn o ddatrys y problemau sy'n ein hwynebu. Gwariodd trigolion Caerdydd dros £1,300 ar eu biliau ynni y llynedd yn gyffredinol, a'r llynedd oedd hynny, cyn yr holl gynnydd; mae hynny £36 yn fwy na'r cyfartaledd yn ninasoedd y DU. Mae un o bob pump o aelwydydd bellach yn cael trafferth talu eu biliau, ac mae hynny hyd yn oed cyn effaith y codiadau diweddar mewn prisiau a gyhoeddwyd gan bump o'r chwe chwmni ynni mawr. Dim ond heddiw y cyhoeddwyd y wybodaeth honno gan Dyfodol Defnyddwyr Cymru, felly mae'n amlwg bod gennym broblem fawr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ed Miliband has pledged to freeze energy bills after May 2015 and then properly regulate the energy companies, and that is very welcome, but, in the meantime, we have two winters to get through of this do-nothing Government, and the number of households getting into debt has risen enormously, as Leanne has already mentioned. Eighty-five thousand households in Wales are behind with their energy bills, which is a huge increase from 68,000 in 2011. Obviously, the trend can only be upwards at the moment.

The Tories in the UK Government have pledged to do nothing to prevent this cartel of the big six companies from ratcheting prices far in excess of the rises in the wholesale costs of producing gas and electricity. I cannot support the short-termism that they are proposing, to remove the green tax obligations on these generators, distributors and suppliers—in many cases, they are the same people. We only have to reflect on the extreme weather events that have occurred in the Philippines, Chicago and Sardinia in the last few days to realise that we absolutely have to tackle our climate change obligations.

The House of Commons select committee report on the future of Britain's electricity networks, in February 2010, highlighted the two long-term challenges that we face. First, we have to reduce our carbon emissions because of our climate change obligations, and, secondly, we have to secure clean, affordable, long-term energy supplies.

It is entirely ironic that Wales is an exporter of electricity, as Llyr has already mentioned, and that, in 2006, which is the last data that I have, we exported 11% of our electricity to England. However, the majority of generation capacity is in north Wales. Of course, that is why the Plaid motion is arguing for a transmission link between north and south Wales. Obviously, south Wales is a net importer of electricity. Therefore, it would be fantastic to know what the Welsh Government thinks that it could do to address that, particularly because it costs more to distribute electricity around Wales—by £20 per year in north Wales, and £25 per year in south Wales—than in the rest of Britain. These distribution charges represent around one fifth of our household bills. So, this is clearly something that is pretty important, which we need to address. The prime reasons for this being more expensive than in the rest of Britain is, first, the lack of investment in outdated distribution networks, which increases the cost of maintenance and effectiveness, and, secondly, the sparsity of our population, which leads to high distribution costs. However, this sparsity in population is not just a challenge for Wales, it also ought to be an opportunity if we were properly exploiting the opportunities that we have for generating renewable energy from wave, wind, sun, ground source heat transfer and geothermal, which Leanne mentioned.

Mae Ed Miliband wedi addo rhewi biliau ynni ar ôl mis Mai 2015 ac yna reoleiddio'r cwmnïau ynni'n briodol, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr, ond, yn y cyfamser, rydym yn wynebu dau aeaf arall gyda'r Llywodraeth 'gwneud dim byd' hon, ac mae nifer yr aelwydydd sy'n mynd i ddyled wedi cynyddu'n aruthrol, fel y soniodd Leanne eisoes. Mae 85,000 o aelwydydd yng Nghymru ar ei hôl hi gyda'u biliau ynni, sy'n gynydd enfawr o 68,000 yn 2011. Yn amlwg, gall y duedd ond fynd at i fyny ar hyn o bryd.

Mae'r Torïaid yn Llywodraeth y DU wedi addo gwneud dim i atal y cartél hwn, sy'n cynnwys y chwe chwmmi mawr, rhag pennu prisiau llawer uwch na'r cynnydd yng nghostau cyfanwerthu cynhyrchu nwy a thrydan. Ni allaf gefnogi'r ymagwedd fyrdymor y maent yn ei chynnig, sef cael gwared ar rwymedigaethau'r dreth werdd ar y cynhyrchwyr, y dosbarthwyr a'r cyflenwyr hyn—mewn llawer o achosion, yr un bobl ydynt. Does ond angen inni feddwl am y digwyddiadau tywydd eithafol a fu yn Ynysoedd y Philipinos, Chicago a Sardinia yn ystod y dyddiau diwethaf i sylweddoli bod yn rhaid inni fynd i'r afael â'n rhwymedigaethau o ran newid yn yr hinsawdd.

Tynnodd adroddiad pwyllgor dethol Tŷ'r Cyffredin ar ddyfodol rhwydweithiau trydan Prydain, ym mis Chwefror 2010, sylw at y ddwy her hirdymor a wynebwn. Yn gyntaf, rhaid inni leihau ein hallyriadau carbon oherwydd ein rhwymedigaethau newid yn yr hinsawdd, ac, yn ail, rhaid inni sicrhau cyflenwadau ynni glân, fforddiadwy, hirdymor.

Mae'n hollol eironig bod Cymru yn allforio trydan, fel mae Llyr eisoes wedi crybwyll, ac y gwnaethom, yn 2006, yn ôl y data diweddaraf sydd gennyf, allforio 11% o'n trydan i Loegr. Fodd bynnag, mae mwyafrif y capasiti cynhyrchu yn y gogledd. Wrth gwrs, dyna pam y mae cynnig Plaid Cymru yn dadlau am gysylltiad trawsyrru rhwng y gogledd a'r de. Yn amlwg, mae'r de yn fewnforiwr trydan net. Felly, byddai'n wych gwybod beth mae Llywodraeth Cymru yn credu y gallai ei wneud i fynd i'r afael â hynny, yn enwedig gan ei fod yn costio mwy i ddosbarthu trydan o gwmpas Cymru—£20 y flwyddyn yn y gogledd, a £25 y flwyddyn yn y de—nag yng ngweddill Prydain. Mae'r taliadau dosbarthu hyn yn cyfrif am tua un rhan o bump o'n biliau cartref. Felly, mae hwn yn amlwg yn rhywbeth sy'n eithaf pwysig, y mae angen inni fynd i'r afael ag ef. Y prif resymau pam bod hyn yn ddrutach nag yng ngweddill Prydain yw, yn gyntaf, y diffyg buddsoddiad mewn rhwydweithiau dosbarthu hen ffasïwn, sy'n cynyddu costau cynnal a chadw ac effeithiolrwydd, ac, yn ail, deneurwydd ein poblogaeth, sy'n arwain at gostau dosbarthu uchel. Fodd bynnag, nid her yn unig yw'r teneurwydd hwn o ran y boblogaeth i Gymru, dylai hefyd fod yn gyfle pe baem yn manteisio'n briodol ar y cyfleoedd sydd gennym i gynhyrchu ynni adnewyddadwy o donnau, gwynt, yr haul, dulliau trosglwyddo gwres o'r ddaear a geothermol, y cyfeiriodd Leanne ato.

We have Cardiff University as an expert in the field, and we have a centre of European excellence in mechanical engineering in Swansea, so why have we not made more progress? One of the reasons is that we need to look at these transmission networks. There is this huge gap between north and south Wales, which compares very differently to the massive amount of networks that there are in Scotland. Therefore, that is a massive problem: if you are trying to generate renewable energy, you have nothing to link it into in the whole of the middle of Wales. The other problem is that we have two different companies as distributors: ScottishPower in north Wales and Western Power Distribution—of Llanishen reservoir blessed memory—in south Wales. Will the two be collaborating on developing a national grid across north and south Wales? It will be very difficult. So, in the short term, we have to go for energy conservation to make our homes more efficient rather than sieves for warming the birds, and we have to go for the collective switching deals, which Leanne has mentioned, to which over 3,000 people have signed up in the Cardiff area in the last month.

Mae Prifysgol Caerdydd yn arbenigwr yn y maes, ac mae gennym ganolfan ragoriaeth Ewropeaidd mewn peirianeg fecanyddol yn Abertawe, felly pam nad ydym wedi gwneud mwy o gynnydd? Un o'r rhesymau yw bod angen inni edrych ar y rhwydweithiau trawsyrru hyn. Mae bwlch enfawr rhwng y gogledd a'r de, sy'n cymharu'n wahanol iawn â'r swm enfawr o rwydweithiau sydd yn yr Alban. Felly, mae honno'n broblem enfawr: os ydych yn ceisio cynhyrchu ynni adnewyddadwy, nid oes gennych ddim i'w gysylltu drwy ganol Cymru. Y broblem arall yw bod gennym ddau gwmni dosbarthu gwahanol: ScottishPower yn y gogledd a Western Power Distribution—sy'n dwyn atgofion melys o gronfa ddŵr Llanisien—yn y de. A fydd y ddau'n cydweithio i ddatblygu grid cenedlaethol ar draws y gogledd a'r de? Bydd yn anodd iawn. Felly, yn y tymor byr, rhaid inni arbed ynni er mwyn gwneud ein cartrefi yn fwy effeithlon yn hytrach nac yn gollwng gwres er mwyn cynhesu'r adar, a rhaid inni fynd am y cynigion newid ar y cyd, y mae Leanne wedi sôn amdanynt, y gwnaeth dros 3,000 o bobl yn ardal Caerdydd gofrestru â hwy yn ystod y mis diwethaf.

16:29

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf am ganolbwyntio ar effaith ein gorddibyniaeth ar danwydd ffosil a'r angen i gael cyfrifoldeb am ein hadnoddau a'n strategaeth ynni ein hunain. Mae rhyw 80% o anghenion ynni Cymru yn dod o danwyddau ffosil, a hynny er gwaethaf y ffaith bod gennym, heb os, gyfoeth o adnoddau naturiol y gallem fod yn gwneud llawer mwy o ddefnydd ohonynt. Mae'n dibyniaeth ni ar danwydd ffosil yn rhywbeth sydd o gonsyrn amgylcheddol yn amlwg ac mi fydd eraill y prynhawn yma yn manylu ar hynny. Fodd bynnag, mae materion gwleidyddol ac economaidd o gryn bryder sy'n codi o'r orddibyniaeth hefyd, a hynny am fod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn ymwneud â thanwyddau ffosil, fel ynni yn gyffredinol, yn cael eu gwneud yn Lloegr. Ni allwn osod ein strategaeth carbon isel ein hunain, ac ni allwn reoli ein hadnoddau naturiol.

Gwnaf grybwyll ffracio fel un enghraifft—mater sy'n achosi cryn gonsyrn ar hyn o bryd. Y gwir amdani yw bod llawer iawn o waith ymchwil ar ôl i'w wneud yn y maes hwn. Mae'n ddiwydiant cymharol ifanc. Mae potensial economaidd, heb os, ar yr un llaw, ond, ar y llaw arall, mae pryderon gwirioneddol ynglŷn â diogelwch ac, wrth gwrs, tanwydd ffosil yw nwy siâl. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos yn gyson bod pobl Cymru—ar hyn o bryd, beth bynnag—yn gwrthwynebu ffracio, yn sicr yn ei ffurf bresennol. Wrth gwrs, er gwaethaf y ffaith bod y Ceidwadwyr yn dweud bod popeth yn iawn, nid oes gennym yng Nghymru ddylanwad ar y mater hwn mewn difrif. Ni waeth sut y mae pobl Cymru yn pleidleisio a pha un a yw cwmnïau preifat am allu gwneud elw mawr er gwaethaf pryderon pobl Cymru, yn y pen draw, bydd penderfyniadau ynglŷn â ffracio yng Nghymru yn cael eu gwneud gan Aelodau Seneddol o wledydd eraill.

I want to concentrate on the effect of our over-dependence on fossil fuel and the need to have responsibility for our own resources and energy strategy. Some 80% of the energy needs in Wales come from fossil fuels, despite the fact that we, without doubt, have a wealth of natural resources of which we could make better use. Our dependence on fossil fuels is obviously of environmental concern, and others will go into detail on that this afternoon. However, there are also political and economic concerns that arise from this over-dependence, and that is because most of the decisions relating to fossil fuels, like energy in general, are made in England. We cannot set our own low-carbon strategy and we cannot manage our own natural resources.

I will mention fracking as one example—that is an issue that is a cause for a lot of concern at the moment. The truth is that there is a lot of research work left to do in this field. It is quite a new industry. It has a lot of economic potential, without doubt, on the one hand, but, on the other hand, there are very real concerns about safety and, of course, shale gas is a fossil fuel. However, research demonstrates consistently that the people of Wales—at the moment, anyway—are against fracking, certainly in its current form. Of course, despite the fact that the Conservatives say that everything is okay, we do not in Wales have any real influence over this issue. It does not matter how the people of Wales vote and whether private companies want to make great profits despite the concerns of the people of Wales, at the end of the day, decisions about fracking in Wales will be made by Members of Parliament from other countries.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ystyriwch hefyd y budd ariannol a ddaw i eraill wrth ecsbloetio adnoddau naturiol Cymru. Ar hyn o bryd, Ystâd y Goron a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n elwa o'n hadnoddau ni. Os bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn penderfynu y dylai adnoddau nwy siâl Cymru gael eu hecsbloetio—mae yna ddyfalu efallai fod gwerth rhyw £70 biliwn ohono o dan dir Cymru—Llywodraeth Prydain ac nid Llywodraeth Cymru, ac felly nid pobl Cymru, fydd yn elwa. Ni all hyn fod yn dderbyniol mewn egwyddor ond, yn bwysicach o lawer, ni all fod yn dderbyniol yn economaidd i Gymru yn yr hirdymor. Rwy'n credu bod enw Cymraeg y corff 'Natural Resources Wales' yn adrodd cyfrolau. Nid at gyfoeth ariannol mewn punnoedd a cheiniogau y mae'r gair 'cyfoeth' yn enw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio yn bennaf, ond at y byd natur naturiol cyfoethog sydd o'n cwmplas. Fodd bynnag, lle mae gwerth go iawn ar ein hadnoddau naturiol, onid ydyw'n gwbl hanfodol ein bod yn gallu manteisio ar hynny? Mae'r un peth yn wir am ynni, ein gallu i'w gynhyrchu a'n hanghenion defnyddio: yn nwylo'r Llywodraeth etholedig yng Nghymru y dylai'r cyfrifoldeb fod.

Roedd ein tystiolaeth i gomisiwn Silk yn adlewyrchu'r farn honno ac mae'n record pleidleisio yn adlewyrchu hynny hefyd. Os yw pleidiau eraill yn anghytuno, iawn, rydym yn barod am y ddatl, ond mae gonestrwydd a chysondeb yn y pleidiau eraill yn bwysig iawn. Lle mae cytundeb, mae'n rhaid iddo fod yn gyson. Er enghraifft, dyfynnaf arweinydd Llafur Cymru, y Prif Weinidog, yng nghynhadledd ei blaid eleni:

'Is it right that alone amongst the people of Britain, the people of Wales don't have the right level of control over energy and water?'

Yn amlwg, nid yw hynny'n iawn. Galwodd tystiolaeth Llafur i'r comisiwn Silk am ddatganoli ynni yn llawn, ar wahân i ynni niwclear—yn amlwg, mae'n well gan Lafur fod y Ceidwadwyr yn Llundain yn rheoli hynny, ond mae hwnnw'n fater arall. Beth ddigwyddodd yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Ionawr y llynedd mewn pleidlais ar ddatganoli? Mae'n digwydd bod mai'r Aelod Llafur dros fy etholaeth i a oedd yn siarad ar ran y Blaid Lafur y diwrnod hwnnw. Cofiwch fod hon yn etholaeth lle mae ynni'n debygol o chwarae rhan fawr mewn blynyddoedd i ddod. A oedd Albert Owen am i bobl Cymru allu elwa? Yn ei eiriau ef:

'I urge right hon. and hon. Members to oppose it.'

Dyna wnaeth Aelodau Llafur ynghyd ag Aelodau Ceidwadol. Yn gynharach yn yr un ddatl, dywedodd Albert Owen:

'What is needed on energy policy is clarity.'

Ar y pwynt hwnnw, rwy'n cytuno yn llwyr efo fo. Ar y cwestiwn hwnnw o eglurder, a gaf ofyn heddiw, pe bai'r Blaid Lafur mewn grym ar ôl etholiad 2015, a fydddech yn datganoli'r portffolio ynni yn llawn? Rydym yn sôn am faterion sy'n mynd at graidd y math o Gymru yr ydym am ei chreu mewn blynyddoedd a chenedlaethau i ddod. Mae Plaid Cymru yn sicr yn barod i gynnig yr arweiniad.

Consider also the economic benefit that will go to others from exploiting the natural resources of Wales. At the moment, the Crown Estate and the UK Government profit from our resources. If the UK Government were to decide that the shale gas resources of Wales should be exploited—there are guestimates that there may be some £70 billion-worth of it under the ground in Wales—it would be the UK Government and not the Welsh Government, and therefore the people of Wales, that would profit. This cannot be acceptable in principle but, more importantly than that, it cannot be acceptable economically to Wales in the long term. I think that the Welsh name for Natural Resources Wales speaks volumes. The word 'cyfoeth'—wealth—in the name 'Cyfoeth Naturiol Cymru' does not refer to financial wealth in pounds shilling and pence, but to the rich natural world that surrounds us. However, where there is real value on our natural resources, is it not essential that we are able to take advantage of that? The same is true of energy, our ability to produce it and our needs in terms of useage: the responsibility should be in the hands of the elected Government in Wales.

Our evidence to the Silk commission reflected that opinion and our voting record also reflects that. If other parties disagree, fair enough, we are willing to have the debate, but honesty and consistency within other parties is very important. Where there is agreement, it has to be consistent. For example, I will quote the leader of the Welsh Labour Party, the First Minister, in his party conference this year:

A yw'n iawn nad oes gan bobl Cymru, o gymharu â phawb arall ym Mhrydain, y lefel briodol o reolaeth dros ynni a dŵr?

Clearly, that is not right. Labour's evidence to the Silk commission called for the devolution of energy powers in full, apart from powers over nuclear energy—obviously, Labour prefers that the Conservatives in London control that, but that is another issue altogether. What happened in the House of Commons in January last year in a vote on that devolution? It just so happens that the Labour Member for my constituency was speaking on behalf of the Labour Party that day. Bear in mind that this is a constituency where energy is likely to play a major role in future years. Did Albert Owen want the Welsh people to benefit? In his words:

Anogaf y gwir anrhydeddus ac anrhydeddus Aelodau i'w wrthynebu.

That is what Labour Members did, along with Conservative Members. Earlier in the same debate, Albert Owen said:

Yr hyn sydd ei angen ar bolisi ynni yw eglurder.

On that point, I can only agree with him completely. On that question of clarity, may I ask today, if the Labour Party were in power after the 2015 election, would you devolve the energy portfolio fully to Wales? We are here talking about issues that get to the very heart of the kind of Wales that we want to create in future years and future generations. Plaid Cymru is certainly offering that leadership.

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y drafodaeth heddiw. Rwy'n siŵr bod pawb yma heddiw yn ymwybodol o ac yn deall pa mor ddifrifol yw sgîl-ffeithiau tymereddau cynyddol. Byddwn yn gobeithio bod Aelodau o bob plaid yn cytuno bod yn rhaid inni weithredu er lles dyfodol Cymru ac, wrth gwrs, dyfodol gweddill y byd. Mater o bryder, felly, yw'r ffaith na lwyddodd Llywodraeth Cymru fwrwr targed o gynhyrchu 4 TWh o ynni adnewyddadwy erbyn 2010. Mater o fwy o bryder byth yw'r ffaith nad oedd unrhyw gynllun o bwys gan y Llywodraeth ar sut y byddwn yn cyrraedd ei thargedau ar gyfer 2020.

So, we can accept that the Government failed to hit its 2010 target as long as lessons have been learned and mistakes addressed. I, for one, am very concerned that there seems to have been little action from Government to address those mistakes. The 2020 targets are rightly ambitious—all the more so, given the failure so far. So, what has changed? What has the Government done to make sure that it does not fail again in 2020? The fact that the data collected on Wales's energy industry are so far behind the curve is a problem in itself, in that the latest data that we have are for 2011—two years ago. Looking at those data, however, generation from hydro was lower in 2011 than it was in 2008. In fact, even in 2004, we generated more from hydro than we did in 2011.

The Welsh Government is particularly exposed when compared to the Scottish Government's achievements, as 7.4% of Wales's energy generation is from renewable sources, while Scotland's equivalent figure is 26.8%. Why is it that a nationalist Government in Scotland can make such significant strides forward while a Labour Government in Wales continues to let Wales slip back? No doubt we will hear the same 'It's Westminster's fault' line from Welsh Ministers, or that the Scottish Government has more control over energy than the Welsh Government, but the people of Wales will not need reminding that it was Labour that wrote the Government of Wales Acts. There are clear differences between what Scottish Ministers are doing and what Welsh Ministers are doing.

I am very pleased to participate in this debate today. I am sure that everyone here will be aware and understands the seriousness of the side-effects of increasing temperatures. I would hope that Members of all parties would agree that we have to take action for the benefit of the future Wales and, of course, the future of the globe. It is concerning, therefore, that the Welsh Government did not hit its target of creating 4 TWh of renewable energy by 2010. More concerning still is the fact that there was no major scheme put forward by Government on how we will actually reach its targets for 2020.

Felly, gallwn dderbyn bod y Llywodraeth wedi methu â chyrraedd ei tharged ar gyfer 2010 cyn belled â bod gwrs wedi'u dysgu a chamgymeriadau wedi'u cywiro. Rwy'n bryderus iawn nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud llawer i fynd i'r afael â'r camgymeriadau hynny, yn ôl pob golwg. Mae targedau 2020 yn uchelgeisiol iawn—yn fwy felly, o ystyried y methiant hyd yn hyn. Felly, beth sydd wedi newid? Beth mae'r Llywodraeth wedi'i wneud i sicrhau nad yw'n methu eto yn 2020? Mae'r ffaith bod y data a gesglir ar ddiwydiant ynni Cymru mor bell ar ei hôl hi yn broblem ynddi'i hun, gan fod y data diweddaraf sydd gennym yn ymwneud â 2011—dwy flynedd yn ôl. O edrych ar y data hynny, fodd bynnag, roedd cynhyrchiant o ddulliau hydro yn is yn 2011 o gymharu â 2008. Yn wir, hyd yn oed yn 2004, roeddem yn cynhyrchu mwy drwy ddulliau hydro nag a wnaethom yn 2011.

Mae Llywodraeth Cymru yn arbennig o wan o gymharu â llyyddiannau Llywodraeth yr Alban, gan fod 7.4% o'r ynni a gynhyrchir yng Nghymru'n dod o ffynonellau adnewyddadwy, tra bod y ffigur cyfatebol yn yr Alban yn 26.8%. Pam bod Llywodraeth genedlaetholgar yn yr Alban yn gallu cymryd camau mor sylweddol ymlaen tra bod Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn parhau i adael i Gymru lithro'n ôl? Mae'n siŵr y byddwn yn clywed yr un hen linell 'Ar San Steffan mae'r bai' gan Weinidogion Cymru, neu fod gan Lywodraeth yr Alban fwy o reolaeth dros ynni na Llywodraeth Cymru, ond ni fydd angen atgoffa pobl Cymru mai Llafur a ysgrifennodd Ddeddfau Llywodraeth Cymru. Mae gwahaniaethau clir rhwng yr hyn y mae Gweinidogion yr Alban yn ei wneud a'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei wneud.

I also want to add something about what Wales deserves as a nation. We have heard here today talk about various different elements of Wales's natural resources from Llyr Huws Gruffydd and from Rhun ap Iorwerth, and I think that we have to really appeal to the people of Wales to show how we must reach our targets in terms of climate change. We have seen what has happened in the Philippines lately, and this does not happen by accident. We really need to turn words into action now with regard to reaching our climate change targets. However, I also think that it is important for us to look at how we can use renewable sources and sources of energy that do not hark back to the past of Wales, such as opencast mining, for example. I know that there are colleagues—Lynne Neagle is not here today—who are actively campaigning against opencast mining in their communities, because it is not a renewable energy source and it is not a progressive form of energy creation. I urge you all to read the report by the Green Valleys Alliance in conjunction with Cardiff University, which was released this week, about the opencast mine that is set to be developed in the Nant Llesg area in the Rhymney valley. This could create a £28.7 million hole in the local economy and lead to over 620 indirect and direct job losses in that area in the cosmetics industry, because of the opencast mining. So, the myth about it creating jobs is no longer something that we can listen to.

I urge the Welsh Government to look at alternatives, otherwise we are going to see opencast mines as a quick fix for quick energy, when we could be looking at a more long-term approach and a more strategic approach, instead of making our communities suffer not only in terms of their health, but in terms of years and years of being forced to live by these mines with no regeneration in sight, and quite often with extensions upon extensions upon extensions, so that they can have no prospect of seeing their communities as they once were: green areas for children to play in, and safe areas for young people to grow up in.

So, while reaching the target is vital, I think that we also need to look at the whole mix of opportunities, not be afraid to look at alternatives, and really make sure that we have an evidence base for those alternatives, so that people in other parties opposite cannot say that that is not being done and that Westminster has the answer to everything. We need the tools here in Wales for the future of Wales.

Rwyf hefyd am ychwanegu rhywbeth am yr hyn y mae Cymru'n ei haeddu fel cenedl. Rydym wedi clywed Llyr Huws Gruffydd a Rhun ap Iorwerth yn siarad yma heddiw am wahanol elfennau adnoddau naturiol Cymru, a chredaf fod yn rhaid inni apelio'n wirioneddol at bobl Cymru er mwyn dangos sut y mae'n rhaid inni gyrraedd ein targedau o ran newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi gweld yr hyn a ddigwyddodd yn Ynysoedd y Philipinos yn ddiweddar, ac nid yw hyn yn digwydd drwy ddamwain. Mae gwir angen troi geiriau yn weithredoedd yn awr o ran cyrraedd ein targedau newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, credaf hefyd ei bod yn bwysig inni edrych ar sut y gallwn ddefnyddio ffynonellau adnewyddadwy a ffynonellau nad ydynt yn mynd yn ôl at orffennol Cymru, megis cloddio glo brig, er enghraifft. Gwn fod cyd-Aelodau—nid yw Lynne Neagle yma heddiw—wrthi'n ymgyrchu yn erbyn cloddio glo brig yn eu cymunedau, am nad yw'n ffynhonnell ynni adnewyddadwy nac yn ffordd flaengar o greu ynni. Anogaf bob un ohonoch i ddarllen yr adroddiad gan Green Valleys Alliance ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, a ryddhawyd yr wythnos hon, am y cynlluniau i ddatblygu safle glo brig yn ardal Nant Llesg yng Nghwm Rhymni. Gallai hyn greu twll o £28.7 miliwn yn yr economi leol ac arwain at golli dros 620 o swyddi anuniongyrchol ac uniongyrchol yn yr ardal honno yn y diwydiant colur, oherwydd y safle glo brig. Felly, nid yw'r myth ei fod yn creu swyddi yn rhywbeth y gallwn wrando arno mwyach.

Anogaf Lywodraeth Cymru i edrych ar ddewisiadau eraill, neu fel arall byddwn yn gweld safleoedd glo brig fel ateb cyflym i gynhyrchu ynni cyflym, pan allem fod yn edrych ar ymagwedd fwy hirdymor a strategol, yn hytrach na pheri i'n cymunedau ddiweddef nid yn unig o ran eu hiechyd, ond o ran blynyddoedd a blynyddoedd o gael eu gorfodi i fyw gerllaw'r safleoedd cloddio hyn heb unrhyw obaith o adfywio, ac yn aml iawn gydag un estyniad ar ôl y llall, fel nad oes ganddynt unrhyw obaith o weld eu cymunedau fel yr oeddent gynt: yn ardaloedd gwyrdd i blant chwarae ynddynt, a mannau diogel i bobl ifanc dyfu i fyny ynddynt.

Felly, er bod cyrraedd y targed yn hanfodol, credaf fod angen inni edrych hefyd ar yr holl gyfleoedd amrywiol, gan beidio â bod ofn edrych ar ddewisiadau eraill, a gwneud yn siŵr bod gennym sail dystiolaeth ar gyfer y dewisiadau eraill hynny, fel na all pobl yn y pleidiau eraill sydd gyferbyddu ddweud nad yw hynny'n cael ei wneud ac mai San Steffan sydd â'r ateb i bopeth. Mae arnom angen yr adnoddau yma yng Nghymru ar gyfer dyfodol Cymru.

16:39

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister for Natural Resources and Food to speak on behalf of the Government—Alun Davies.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bywd i siarad ar ran y Llywodraeth—Alun Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Thank you very much, Presiding Officer. Like others this afternoon, I will start my contribution by thanking Plaid Cymru for bringing forward this motion for debate, and also for the way in which Plaid Cymru opened the debate. I have to say that I agree with the broad analysis that has been put forward this afternoon, and the Government will be supporting the motion. I will say that, in some points, for some amendments, our support will be qualified. For example, in relation to amendment 2, concerning the tax revenue regime affecting shale gas development, the UK Government has not indicated any movement on its position on the tax revenue regime on the extraction of mineral resources. So, we have to say that. However, at the same time, amendment 3 is correct in identifying the £3 billion underpinning the Green Investment Bank, which I greatly welcome. However, the level of private sector investment is uncertain. So, it is premature at the moment to give exact figures on those matters. However, in general, we are very happy to support the motion.

I wish to make it clear that, in relation to the issue of the mid Wales connection project mentioned in amendment 10, the Welsh Government's policy supports the development of renewable energy rather than any particular scheme or infrastructure project. So, it would not be appropriate for me to comment on any developments associated with the conjoined inquiry in mid Wales. It has always been our position that we seek to attract the best energy projects to Wales, which provide the widest benefits for the people of Wales, with the least environmental disruption.

In terms of the debate that we have had today, I welcome the fact that it has been rooted in the understanding of sustainability, which, I think, will be supported by people not only on all sides of the Chamber this afternoon but in all parts of Wales as well. The points that have been made about climate change are absolutely right and correct. After this debate, as some Members will know, I will be attending the UN conference in Warsaw, tomorrow and Friday, and will be making sure that Wales's voice is heard where these debates and discussions are taking place. I will be ensuring that there is a strong voice for Wales where we are able to debate and discuss the action required to address the issues of climate change. The points that were made by my very good friend Jenny Rathbone about the human impact of climate change, which we are seeing in different parts of the world today, are absolutely right. They demonstrate that this is not simply an academic exercise, but a matter of urgency for many millions of people, wherever they happen to live.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Fel eraill y prynhawn yma, dechreuaf fy nghyfraniad drwy ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r cynnig hwn ar gyfer dadl, a hefyd am y ffordd yr agorodd Plaid Cymru'r ddadl. Rhaid imi ddweud fy mod yn cytuno â'r dadansoddiad cyffredinol a gyflwynwyd y prynhawn yma, a bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig. Hoffwn nodi, mewn rhai pwyntiau, ar gyfer rhai gwelliannau, y bydd ein cefnogaeth yn amodol. Er enghraifft, mewn perthynas â gwelliant 2, ynghylch y drefn referniw treth sy'n effeithio ar ddatblygiad nwy siâl, nid yw Llywodraeth y DU wedi awgrymu y bydd yn newid ei hymagwedd at y drefn referniw treth ar echdynnu adnoddau mwynol. Felly, rhaid inni ddweud hynny. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae gwelliant 3 yn gywir i nodi'r £3 biliwn sy'n cefnogi'r Banc Buddsoddi Gwyrdd, yr wyf yn ei groesawu'n fawr. Fodd bynnag, mae lefel buddsoddiad y sector preifat yn ansicr. Felly, mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i roi ffigurau manwl ar gyfer y materion hynny. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn hapus iawn i gefnogi'r cynnig.

Rwyf am ei gwneud yn glir, mewn perthynas â phrosiect cysylltu canolbarth Cymru a grybwyllir yng ngwelliant 10, bod polisi Llywodraeth Cymru o blaid datblygu ynni adnewyddadwy yn hytrach nag unrhyw gynllun neu brosiect seilwaith penodol. Felly, ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau ar unrhyw ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad cyfun yn y canolbarth. Ers y dechrau ein nod yw denu'r prosiectau ynni gorau i Gymru, sy'n cynnig y manteision mwyaf i bobl Cymru ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd.

O ran y ddadl yr ydym wedi'i chael heddiw, croesawaf y ffaith ei bod wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o gynaliadwyedd, a gaiff ei chefnogi, yn fy marn i, gan bobl nid yn unig ar bob ochr i'r Siambr y prynhawn yma, ond ym mhob rhan o Gymru hefyd. Mae'r pwyntiau a wnaethpwyd am newid yn yr hinsawdd yn gwbl briodol a chywir. Ar ôl y ddadl hon, fel y gwyr rhai Aelodau, byddaf yn mynd i gynhadledd y Cenhedloedd Unedig yn Warsaw, yfory a dydd Gwener, a byddaf yn sicrhau y caiff llais Cymru ei glywed pan gaiff y dadleuon a'r trafodaethau hyn eu cynnal. Byddaf yn sicrhau bod gan Gymru lais cryf fel y gallwn ddadlau a thrafod y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â materion newid yn yr hinsawdd. Mae'r pwyntiau a wnaethpwyd gan fy nghyfaill da Jenny Rathbone am effaith ddynol newid yn yr hinsawdd, a welwn mewn gwahanol rannau o'r byd heddiw, yn hollol gywir. Maent yn dangos nad ymarfer academaidd yn unig yw hwn, ond mater o frys i filiynau lawer o bobl, ble bynnag maent yn digwydd byw.

Also, when we talk about sustainability, we do talk about affordability. The points that the Plaid Cymru leader made in her contribution are also points that I would endorse and agree with. We know, as my notes here remind me, that many of these issues are not devolved to Wales. However, I think that we have a responsibility in this place to reflect and to speak out when we see people whom we represent being affected in the way that they are by the increases in energy prices. Points have been made about the way in which Ed Miliband took hold of this issue and made it real for everyone across the UK in his conference speech in September, which has dominated debate on many of these issues relating to energy prices for the last two months.

Leanne Wood a gododd—

Hefyd, pan fyddwn yn sôn am gynaliadwyedd, rydym yn sôn am fforddiadwyedd. Mae'r pwyntiau a wnaeth arweinydd Plaid Cymru yn ei chyfraniad yn bwyntiau y byddwn yn eu cymeradwyo ac yn cytuno â hwy hefyd. Gwyddom, fel mae fy nodiadau yn fy atgoffa, nad yw llawer o'r materion hyn wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, credaf fod gennym gyfrifoldeb yn y lle hwn i fyfyrrio a chodi ein llais pan welwn yr effaith y mae'r cynnydd mewn prisiau ynni yn ei chael ar bobl yr ydym yn eu cynrychioli. Gwnaed pwyntiau am y modd yr ymdriniodd Ed Miliband â'r mater hwn a'i wneud yn real i bawb ledled y DU yn ei araith yn y gynhadledd ym mis Medi, sydd wedi rheoli'r ddadl ar lawer o'r materion hyn sy'n ymwneud â phrisiau ynni dros y ddau fis diwethaf.

Leanne Wood rose—

16:42 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will take an intervention, but please wait one moment. I hope that what we will be able to do is ensure, in reflecting the anger, concern, anxiety and fears of the people of Wales, that we affect the nature of the debate taking place here and across the UK.

Cymeraf ymyriad, ond arhoswch un funud. Gobeithio y byddwn yn gallu sicrhau, drwy adlewyrchu dichter, pryder, gofid ac ofnau pobl Cymru, ein bod yn effeithio ar natur y ddadl a gynhelir yma a ledled y DU.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:43 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you therefore regret the temporary nature of that proposal? A price freeze will go so far towards alleviating people's problems, but, at the end of that price freeze, bills will go back up again. Do you regret that?

A ydych, felly, yn difaru mai cynnig dros dro yw hwnnw? Bydd rhewi prisiau yn gwneud rhywfaint i leddfu problemau pobl, ond, ar ddiwedd y cyfnod rhewi prisiau, bydd biliau'n cynyddu unwaith eto. A ydych yn difaru hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:43 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand the point that is being made. I hear people speaking behind me, but I am trying to adopt a more consensual tone this afternoon. [Interruption.] It is sometimes a bit difficult; I accept that. [Laughter.] What I will say is that what has been said in terms of a price freeze is that it is a first step towards fundamental reform of the energy market. The points that you made about differential pricing in Wales and between Wales and elsewhere are well made. They were not just discovered a month ago; they have been known for many years. There has been a significant failure in the regulation of the energy market in allowing that situation to continue, and in allowing the energy companies to structure themselves in such a way so as to maximise profit, while at the same time having no regard at all for the human impact of those prices and the profit that is being created.

Deallaf y pwynt sy'n cael ei wneud. Rwy'n clywed pobl yn siarad y tu ôl i mi, ond rwy'n ceisio mabwysiadu cywair mwy cydsyniol y prynhawn yma. [Torri ar draws.] Weithiau mae braidd yn anodd; derbyniaf hynny. [Chwerthin.] Yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw mai'r hyn sydd wedi'i ddweud am y cynnig i rewi prisiau yw mai cam cyntaf ydyw i ddiwygio'r farchnad ynni mewn ffordd sylfaenol. Mae'r pwyntiau a wnaethoch am brisiau gwahaniaethol yng Nghymru a rhwng Cymru a mannau eraill yn bwyntiau da. Nid mis diwethaf y darganfuwyd y pwyntiau hyn; maent wedi bod yn hysbys ers blynyddoedd lawer. Bu methiant sylfaenol yn nhrefniadau rheoleiddio'r farchnad ynni wrth ganiatáu i'r sefyllfa honno barhau, a chaniatáu i'r cwmnïau ynni strwythuro eu hunain fel eu bod yn gwneud yr elw mwyaf posibl, heb iddynt ar yr un pryd ystyried effaith ddynol y prisiau hynny na'r elw sy'n cael ei greu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

This is one of the things that strikes me. We heard Llyr giving a number of statistics in his speech. I agree with the points that he made about the Consumer Futures report. I will not rehearse the figures and arguments that he has already given the Chamber. However, what I will say is this: for every statistic and every figure, there is a human story lying behind it. We recognise and know that, when older people are cold in their homes, they are more liable to ill health. We also know that children who lie awake cold in their beds at night are less able to work and study in the morning. We know that there is a human impact to this. We know that there are human stories about the things that affect people in our constituencies across Wales, and so we do need that fundamental reform of the energy market that puts the consumer and the citizen centre-stage. That is something that we all need to do.

The final point that I will make in terms of the objectives of what we are trying to discuss this afternoon is security of supply. There is delicious irony, of course, in Rhun ap Iorwerth asking for clarity on nuclear policy, and I invite the Plaid Cymru leader to respond again on that this afternoon. However, let me say this: we do need security of supply, and that does mean that we need significant projects, as we see in Anglesey. We are very grateful to Rhun for his active and vocal support for Wylfa Newydd, as I believe it will now be called. We need those major projects; there is no doubt about that, but we also need to look at energy differently.

I have listened to the points that Plaid Cymru made about a wholly publicly owned energy company for Wales, and let me say this: I think it is a perfectly fair and reasonable point to raise in argument and discussion. It is of course something that we have been promoting through the Ynni'r Fro scheme for some years. Ynni'r Fro, despite some of the reservations that we have heard from some directions, which are happily silent this afternoon, has been a successful programme because it has engaged community groups across Wales in exploring the concept and potential of supplying and generating in the community energy of a nature that is appropriate to that community. I would like to say this: when we come to taking decisions on taking forward, for example, the rural development plan, in the new year, I will be seeking to ensure that we have a successor to that, and that we will be supporting community enterprises and other sorts of groups in taking forward distributed renewable generation across Wales.

In closing my remarks this afternoon, I would like to say that I think that we have had a good debate here today, and there have been some very real ideas and points made on all sides of the Chamber. I include the contribution from Russell George in that. This has demonstrated that there is a real consensus across the Chamber on change in terms of taking this forward.

Leanne Wood a gododd—

Dyma un o'r pethau sy'n fy nharo i. Clywsom nifer o ystadegau gan Llyr yn ei araiith. Cytunaf â'r pwyntiau a wnaeth am adroddiad Dyfodol Defnyddwyr. Nid wyf am ailadrodd y ffigurau na'r dadleuon a roddodd eisoes yn y Siambr. Fodd bynnag, yr hyn a ddywedaf yw hyn: y tu ôl i bob ystadegyn a phob ffigur, mae stori ddynol. Rydym yn cydnabod ac yn gwybod, pan fydd pobl hŷn yn oer yn eu cartrefi, eu bod yn fwy tebygol o fynd yn sâl. Gwyddom hefyd fod plant sy'n gorwedd yn effro yn eu gwelyau gyda'r nos am eu bod yn oer yn llai abl i weithio ac astudio yn y bore. Gwyddom fod effaith ddynol i hyn. Gwyddom fod straeon dynol am y pethau sy'n effeithio ar bobl yn ein hetholaethau ledled Cymru, ac felly mae arnom angen y diwygiadau sylfaenol hynny i'r farchnad ynni sy'n rhoi lle canolog i'r defnyddiwr a'r dinesydd. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni gyd ei wneud.

Y pwynt olaf a wnaeth o ran amcanion yr hyn yr ydym yn ceisio ei drafod y prynhawn yma yw diogelwch y cyflenwad. Mae eironi hyfryd, wrth gwrs, wrth glywed Rhun ap Iorwerth yn gofyn am eglurder ar bolisi niwclear, a gwahoddaf arweinydd Plaid Cymru i ymateb unwaith eto ar hynny y prynhawn yma. Fodd bynnag, gadewch imi ddweud hyn: mae angen diogelwch o ran cyflenwad arnom, ac mae hynny'n golygu bod angen prosiectau sylweddol arnom, fel y gwelwn yn Ynys Môn. Rydym yn ddiolchgar iawn i Rhun am ei gefnogaeth weithgar a lleisiol i Wylfa Newydd, fel y credaf y caiff ei alw nawr. Mae arnom angen y prosiectau mawr hyn; nid oes amheuaeth am hynny, ond mae angen inni hefyd edrych ar ynni mewn ffordd wahanol.

Rwyf wedi gwranddo ar y pwyntiau a wnaeth Plaid Cymru am gwmni ynni sy'n gwbl gyhoeddu yng Nghymru, a gadewch imi ddweud hyn: credaf ei fod yn bwynt cwbl deg a rhesymol i'w godi mewn dadl a thrafodaeth. Wrth gwrs, mae'n rhywbeth yr ydym wedi bod yn ei hyrwyddo drwy gynllun Ynni'r Fro ers rhai blynyddoedd. Mae Ynni'r Fro, er gwaethaf rhai o'r amheuon yr ydym wedi'u clywed o rai cyfeiriadau, sy'n dawel y prynhawn yma mae'n falch gen i ddweud, wedi bod yn rhaglen lwyddiannus am ei bod wedi ymgysylltu â grwpiau cymunedol ledled Cymru er mwyn ystyried y cysyniad a'r potensial i gyflenwi a chynhyrchu ynni yn y gymuned sy'n briodol i'r gymuned honno. Hoffwn ddweud hyn: pan ddaw'r adeg inni wneud penderfyniadau ar y ffordd ymlaen, er enghraifft, y cynllun datblygu gwledig, yn y flwyddyn newydd, byddaf yn ceisio sicrhau bod gennym olynedd i'r rhaglen honno, ac y byddwn yn helpu mentrau cymunedol a mathau eraill o grwpiau ledled Cymru i fwrw ymlaen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy i'w ddsbarthu.

Wrth gloi fy sylwadau y prynhawn yma, hoffwn ddweud fy mod yn credu ein bod wedi cael dadl dda yma heddiw, a chafwyd rhai syniadau a phwyntiau diliys iawn ar bob ochr i'r Siambr. Mae hynny'n cynnwys cyfraniad Russell George. Mae hyn wedi dangos bod consensws gwirioneddol ar draws y Siambr ar newid o ran bwrw ymlaen â hyn.

Leanne Wood rose—

16:47

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have only five seconds left.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dim ond pum eiliad sydd gennyf ar ôl.

The points that have been made about devolving energy policy and energy responsibilities are points that I hope will continue to have all-party support here, and will continue to be at the centre of our policy and our programme for government.

Mae'r pwyntiau a wnaethpwyd am ddatganoli polisi ynni a chyfrifoldebau ynni yn bwyntiau yr wyf yn gobeithio a fydd yn parhau i gael cefnogaeth yr holl bleidiau yma, ac a fydd yn parhau i fod wrth wraidd ein polisi a'n rhaglen lywodraethu.

16:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can you wind up, please?

A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:47 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The energy route-map that the First Minister has published continues to drive energy policy forward. I do not share the disappointment that has been expressed by Bethan Jenkins, and I hope that she will join us as an Assembly and a Government in ensuring that energy policy continues to be centre-stage in addressing issues of poverty and climate change and in ensuring that we have a firm basis on which to maintain and develop economic growth across Wales.

Mae'r trywydd ynni y mae'r Prif Weinidog wedi'i gyhoeddi yn parhau i yrru polisi ynni yn ei flaen. Ni rannaf y siom a fynegwyd gan Bethan Jenkins, ac rwy'n gobeithio y bydd yn ymuno â ni fel Cynulliad ac fel Llywodraeth i sicrhau bod polisi ynni yn parhau i gael lle canolog wrth fynd i'r afael â materion o ran tlodi a newid yn yr hinsawdd a sicrhau bod gennym sylfaen gadarn er mwyn cynnal a datblygu twf economaidd ledled Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Llyr Gruffydd to reply to the debate.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:48 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ddiolch i bob Aelod sydd wedi cyfrannu i'r ddadl ac atseinio'r sylwadau sydd eisoes wedi cael eu gwneud ynglŷn â natur gadarnhaol y ddadl hon. Mae hynny'n sicrhau rhywbeth i'w groesawu.

I would like to thank all Members who have contributed to the debated and echo the comments already made on the positive nature of this debate. That is certainly to be welcomed.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Hoffwn bigo lan ar ambell bwynt a wnaethpwyd yn ystod y ddadl, ac efallai ehangu ar y rheini. Rwy'n tueddu i gytuno â'r hyn a ddywedodd, neu rhai elfennau o'r hyn a ddywedodd, yr Aelod dros Sir Drefaldwyn, yn enwedig, efallai, y teimlad mewn nifer o gymunedau lleol bod cynlluniau yn cael eu gorfodi arnynt yn aml iawn. Rwy'n credu mai un o'r ffactorau allweddol wrth fynd i'r afael â hynny yw sicrhau bod y cymunedau hynny yn teimlo bod ganddynt berchenogaeth ar nifer o'r cynlluniau hyn—perchenogaeth ystyrllon. Rydym yn gweld cynlluniau sy'n rhoi taliadau blynyddol i gymunedau, ac mae hynny i'w groesawu, wrth gwrs, ond weithiau mae teimlad gwag oherwydd ei fod yn teimlo weithiau fel rhyw fath o 'pay-off'. Byddwn yn awyddus iawn i weld modelau o safbwynt perchenogaeth gymunedol, mentrau cymdeithasol, hyd yn oed cymunedau lleol yn cymryd rhanberchenogaeth o gynlluniau mwy fel ffyrdd mwy adeiladol, rwy'n credu, i fynd i'r afael â'r teimlad hwnnw.

I will pick up on a few points made during the debate, and perhaps expand upon those. I tend to agree with what was said, or some elements of what was said, by the Member for Montgomeryshire, particularly, perhaps, the feeling in a number of local communities that plans are being forced on them in many cases. I think that one of the crucial aspects in tackling that is ensuring that those communities feel that they have ownership of many of those proposals—real ownership. We see some schemes that give annual payments to communities, which is to be welcomed, of course, but that is sometimes an empty gesture because it feels like some sort of pay-off. I would be eager to see models in terms of community ownership, social enterprises, even local communities taking part-ownership of larger schemes as more constructive ways, I believe, of tackling that feeling.

Roeddwn yn falch bod yr Aelod y tu ôl i mi yma—yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru—wedi cyfeirio at ynni o'r môr, sy'n un elfen na wnaethom gyfeirio ati. Mae enghreifftiau yng Nghymru, fel y lagŵn yn Abertawe a chynlluniau tebyg ar hyd arfordir ogledd Cymru yn fy rhanbarth i, sy'n cynnig potensial sylweddol, oherwydd bod gennym yr adnoddau naturiol yng Nghymru o safbwynt y llanw ac yn y blaen—adnoddau sy'n llawer mwy cyfoethog yng Nghymru nag yn rhannau helaeth o Ewrop. Eto i gyd, mae teimlad nad ydym wedi llwyddo hyd yma i fanteisio yn llawn ar y cyfleoedd hynny.

I was pleased that the Member behind me—the Member for Mid and West Wales—referred to marine energy, which is one element that we did not make reference to. There are examples in Wales, such as the tidal lagoon in Swansea and similar schemes across the north Wales coastline in my region, that offer significant potential, because we do have the natural resources in Wales in terms of tidal power and so on—resources that are far better in Wales than in many parts of Europe. However, there is still this feeling that we have not taken full advantage of those opportunities.

Rwyf eisiau diolch i Leanne Wood am ein hatgoffa mai'r ddyled danwydd yw un o'r problemau mawr sy'n dod ar gynffon tlodi tanwydd, a hefyd bod lefel y marwolaethau, fel yr ydym yn gwybod, yn y gaeaf yng Nghymru yn uwch, ac, yn wir, yn uwch nag y dylent fod, yn sicr.

Daeth y Diprwy Lywydd i'r Gadair am 16:50.

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cyfeiriwyd at Cyd Cymru gwpwl o weithiau fel enghraifft gadarnhaol, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid inni annog a hwyluso nifer o gynlluniau tebyg ar draws Cymru fel ffordd y gall cwsmeriaid gymryd rhyw fath o feddiant o'r ynni sydd ar gael iddynt.

Byddwn yn cytuno, i raddau helaeth, â'r hyn a ddywedodd yr Aelod dros Ganol Caerdydd, sef bod y Ceidwadwyr, yn anffodus, wedi dangos rhyw fath o agwedd 'gwneud dim byd' o ran mynd i'r afael â chartel y chwe chwmmi ynni mawr—yr union agwedd, wrth gwrs, a ddangoswyd gan Ed Miliband, yn eironig, pan yr oedd ef yn Weinidog ynni. Fodd bynnag, gan fod ysbryd lled gadarnhaol i'r drafodaeth hon, nid wyf am chwalu'r ysbryd hwnnw'n ormodol.

Cyfeiriodd Rhun ap Iorwerth at nwy anghonfensiynol, ac mae yna bryderon, wrth gwrs; rydym i gyd wedi clywed y dadleuon ynglŷn â'r ffynhonnell ynni arbennig honno. Y prif beth i mi yw ein bod yn edrych i ddatblygu ffynhonnell ynni 'carbon intensive' newydd, ar yr union adeg pan yr ydym yn trio lleihau allyriadau carbon. Byddai gwneud hynny, yn fy marn i, yn gwbl anghydnaws ac anghyson â'r ymrwymadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd gennym yng Nghymru i leihau'r allyriadau hynny. Dyna'r man cychwyn i mi yn y drafodaeth benodol honno.

Roedd yn ddiddorol bod Bethan Jenkins wedi gwrthgyferbynnu'r sefyllfa yn yr Alban o ran ynni adnewyddadwy â'r sefyllfa yng Nghymru. Mae yna berygl i rai ohonom fod yn 'obsessed' gyda'r gymhariaeth rhwng Cymru a'r Alban. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, rwy'n meddwl bod y gwahaniaeth yn un eithaf syfrdanol, nid yn unig o safbwynt lefel y buddsoddiad yn y sectorau hynny a lefel y swyddi sy'n cael eu creu, ond hefyd sut mae hynny'n cyfrannu'n economaidd yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig.

Mae Cymru, wrth gwrs, wedi llithro yn ôl yn y gymhariaeth; mi oedd hi'n gymhariaeth llawer mwy ffafriol rhai blynyddoedd yn ôl. Erbyn hyn, mae Cymru wedi llithro yn ôl, tra bod yr Alban yn mynd o nerth i nerth. Mae yna lawer o resymau am hynny, ac rwy'n derbyn hynny, ond y ffaith yw mai dyna yw'r sefyllfa.

Rwy'n dymuno'n dda i'r Gweinidog ar ei ymweliad â Warsaw, wrth gwrs. Ni ymatebodd i'r cais ynglŷn ag astudiaeth ar ynni geothermol, a'r potensial yn y maes hwnnw. Rwy'n gweld ei fod yn nodio'i ben, felly mae yna bosibilrwydd, rwy'n meddwl, inni gael astudiaeth a fydd—[Torri ar draws.]

I want to thank Leanne Wood for reminding us that fuel debt is one of the major problems that comes in the wake of fuel poverty, and also that the death level, as we know, in the winter is higher in Wales, and, indeed, certainly higher than it should be.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:50.

Cyd Cymru has been referred to a few times as a positive example, and I think that we need to encourage and facilitate many similar schemes across Wales as a way in which customers can take some sort of ownership of the energy available to them.

I would agree, to a great extent, with what the Member for Cardiff Central said, which is that the Conservatives have, unfortunately, shown a 'do nothing' attitude when it comes to tackling the cartel of the six major energy companies—the exact same attitude, of course, demonstrated by Ed Miliband, ironically, when he was Minister for energy. However, as there is a relatively positive spirit to this debate, I do not want to destroy that spirit too much.

Rhun ap Iorwerth referred to unconventional gas, and there are concerns, of course; we have all heard the arguments about that particular source of energy. The main thing for me is that we are looking to develop a new carbon intensive source of energy, at the very same time that we are trying to reduce carbon emissions. Doing that would be quite incompatible and inconsistent with the national and international commitments we have in Wales to reduce those emissions. That is the starting point for me in that particular discussion.

It was interesting that Bethan Jenkins contrasted the situation in Scotland, when it comes to renewable energy, with the situation in Wales. There is a risk for some of us to get obsessed with that comparison between Wales and Scotland. However, in this context, I think that the difference is quite stark, not only in terms of the level of investment in those sectors and the level of employment generated, but also in terms of how that contributes economically in that part of the UK.

Wales, of course, has fallen back in that comparison; it was far more favourable some years ago. Now, Wales has slipped back, while Scotland is forging forward. There are a number of reasons for that, and I accept that, but the fact is that that is the reality.

I wish the Minister well on his visit to Warsaw, of course. He did not respond to the suggestion on a study of geothermal energy and the potential in that field. I see that he is nodding his head, so there is a possibility, I think, for us to have a study that will—[Interruption.]

- 16:52 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sorry that I did not have time in my contribution to mention that Cardiff University's Seren project is examining the potential for power from mines.
- Mae'n ddrwg gennyf nad oedd gen i amser yn fy nghyfraniad i grybwyll bod prosiect Seren Prifysgol Caerdydd yn ystyried y potensial i gael pŵer o fwyngloddiau.
- 16:52 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae hynny'n sicr i'w groesawu. Wrth gwrs, gellid gweld pa mor gyflym y mae'r technolegau newydd hyn yn dod i'r amlwg ac yn gallu cael eu datblygu. Mae'n bwysig, felly, bod Cymru ar flaen y gad pan fo cyfleoedd tebyg yn dod yn y dyfodol.
- That is certainly to be welcomed. Of course, it does demonstrate how swiftly these new technologies emerge and can be developed. It is important, therefore, that Wales is in the vanguard when such opportunities do arise in the future.
- Cyfeiriodd y Gweinidog at oblygiadau o safbwynt iechyd, ac o safbwynt cyrhaeddiad addysgol, pan rydym yn sôn am y sefyllfa ehangach o safbwynt tlodi tanwydd ac yn y blaen. I mi, ac i bob un ohonom, mae'r pwnc allweddol hwn o dactio natur y sector ynni hyd yn oed yn fwy tyngedfennol yn sgîl rhai o'r pwyntiau a wnaethpwyd.
- The Minister referred to implications in terms of health and of educational achievement when we look at the bigger picture of fuel poverty and so on. For me, and for each and every one of us, I am sure, this key issue of tackling the nature of the energy sector is even more crucial in light of some of the points made this afternoon.
- Nid oes gennyf amser i ymhelaethu ar pam yr ydym yn cefnogi, neu ddim yn cefnogi, rhai o'r gwelliannau, dim ond i ddweud y byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 1, yn ymatal ar welliannau 2 a 3, yn cefnogi gwelliannau 4 a 5, yn gwrthwynebu gwelliannau 6, 7 ac 8, yn cefnogi gwelliant 9, yn gwrthwynebu gwelliant 10 ac yn cefnogi gwelliannau 11 a 12. Rwyf am ddiolch i chi gyd am eich cyfraniadau.
- I have no time to expand upon why we support or do not support certain amendments, but just to say that we will oppose amendment 1, abstain on amendments 2 and 3, support amendments 4 and 5, oppose amendments 6, 7 and 8, support amendment 9, oppose amendment 10 and support amendments 11 and 12. I want to thank you all for your contributions.
- Russell George a gododd—*
- Russell George rose—*
- 16:54 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae gen i 15 eiliad ar ôl.
- I have 15 seconds left, so I will give way.
- 16:54 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for taking the intervention. I am disappointed that you are not able to support our amendment 10 with regard to the proliferation of wind turbines in mid Wales. I want to understand your logic on that, because it is Plaid Cymru policy to be against the proliferation of industrial-scale windfarms in Ynys Môn, but not in mid Wales.
- Diolch ichi am gymryd yr ymyriad. Rwy'n siomedig nad ydych yn gallu cefnogi gwelliant 10 o ran y cynnydd mewn tyrbinau gwynt yng nghanolbarth Cymru. Rwyf am ddeall eich rhesymeg ynglŷn â hynny, gan mai polisi Plaid Cymru yw gwrthwynebu cynnydd yn nifer y ffermydd gwynt ar raddfa ddiwydiannol yn Ynys Môn, ond nid yng nghanolbarth Cymru.
- 16:54 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'n ddigon teg ichi ofyn y cwestiwn hwnnw. Rwy'n cytuno gyda llawer o'r sylwadau a wnaeth Bill Powell ar y pwnc hwn; rwy'n meddwl bod yna elfen ychydig yn 'emotive' y tu ôl i'r gwelliant hwn, wrth ichi sôn am 'proliferation'. Nid wyf yn rhagweld bod hynny, o reidrwydd, yn mynd i ddigwydd, ac nid wyf yn teimlo bod y gwelliant yn cyfoethogi ein cynnig. Dyna pam rydym wedi penderfynu peidio â chefnogi'r gwelliant hwnnw.
- It is fair enough that you ask that question. I agree with many of the comments made by Bill Powell on this issue; I think that there is an emotive element to the amendment, when you talk about proliferation. I do not anticipate that that is necessarily going to emerge, and I do not think that the amendment enhances our motion. That is why we have decided to not support that amendment.
- Fel yr oeddwn yn ei ddweud, hoffwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddatl a'r drafodaeth. Mae hon yn ddatl, ac yn drafodaeth, sy'n mynd i barhau, ac edrychwn ymlaen at chwarae'n rhan yn llawn yn hynny o beth.
- As I was saying, I would like to thank everyone for their contributions to the debate and discussion. This is a debate that will continue, and we look forward to playing a full part in that.

16:55

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There are objections, so I will defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, felly byddaf yn gohirio pob pleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Grŵp 1: Atebolrwydd (Gwelliannau 11 a 13)

Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

Group 1: Liability (Amendments 11 and 13)

16:55

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The first group of amendments relates to liability to pay charges and liability of insurers. The lead amendment in the group is amendment 11. I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford, to move and speak to the lead amendment and to speak to the other amendment in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud ag atebolrwydd i dalu taliadau ac atebolrwydd yswirwyr. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 11. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, i gynnig y prif welliant a'i drafod ac i drafod y gwelliant arall yn y grŵp.

16:55

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I move amendment 11 in my name.

Cynigaf welliant 11 yn fy enw i.

The Government has been pleased to support the Member in charge, Mick Antoniw, during the different stages in which this Bill has been before the National Assembly. Today, there are several groups of amendments brought forward by the Government—all of which to one extent or another are technical in nature, and all of which seek to strengthen the Bill.

Bu'r Llywodraeth yn falch o gefnogi'r Aelod sy'n gyfrifol, Mick Antoniw, yn ystod y gwahanol gyfnodau o'r Bil hwn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Heddiw, mae'r Llywodraeth wedi cynnig sawl grŵp o welliannau—y mae pob un ohonynt yn rhai technegol eu natur i ryw raddau neu'i gilydd, ac y mae pob un ohonynt yn ceisio cryfhau'r Bil.

The amendments in group 1 concern the establishment of liability to pay charges created by the Bill. There has been no policy change in this area, but representations have been made during the scrutiny period, suggesting technical amendments to make it clear that those who make a payment of compensation to a victim of an asbestos-related disease will be liable to pay relevant NHS charges, regardless of whether there has been any formal admission of liability for that asbestos exposure. Amendment 11 does that.

Mae'r gwelliannau yng ngrŵp 1 yn ymwneud â sefydlu atebolrwydd i dalu taliadau a grëwyd gan y Bil. Ni fu unrhyw newid mewn polisi yn y maes hwn, ond cyflwynwyd sylwadau yn ystod y cyfnod craffu, a awgrymodd welliannau technegol i'w gwneud yn glir y bydd y rhai sy'n talu iawndal i rywun sydd â chlefyd sy'n ymwneud ag asbestos yn atebol i dalu ffioedd perthnasol y GIG, pa un a oes atebolrwydd am yr amlygiad hwnnw i asbestos wedi cael ei dderbyn yn ffurfiol ai peidio. Gwna gwelliant 11 hynny.

Section 3 of the Bill already includes, within the definition of a compensation payment, a payment made by a person who is alleged to be liable in respect of the asbestos-related disease. Amendment 11 ensures that there is a consistency between the description of the compensator in section 2, and the definition of a compensation payment in section 3(1). This places beyond a doubt the original policy intention that the liability to pay relevant NHS charges will apply whenever a compensation payment is made, irrespective of whether the payment was made with or without any admission of liability.

Mae adran 3 o'r Bil eisoes yn cynnwys, o fewn y diffiniad o daliad o iawndal, daliad a wneir gan berson yr honnir ei fod yn atebol mewn perthynas â'r clefyd sy'n ymwneud ag asbestos. Mae gwelliant 11 yn sicrhau bod cysondeb rhwng y disgrifiad o'r sawl sy'n talu iawndal yn adran 2, a'r diffiniad o daliad iawndal yn adran 3 (1). Mae hyn yn gwneud bwriad gwreiddiol y polisi, sef y bydd atebolrwydd i dalu ffioedd perthnasol y GIG yn gymwys pryd bynnag y telir iawndal, pa un a delir iawndal gyda neu heb dderbyn atebolrwydd, yn eglur a'r tu hwnt i bob amheuaeth.

Amendment 13 in this group similarly reinforces that where an employer makes a compensation payment in respect of an asbestos-related disease, which is covered by a policy of insurance, then that policy of insurance will also cover the liability to pay NHS charges under this Bill. Again, this will apply regardless of whether any formal admission of liability is made.

Taken together, these amendments mean that an admission of liability is not required in order for the compensator to become liable for relevant NHS costs, nor for those costs to be covered by a policy of insurance held by the compensator.

I reiterate that these are technical amendments, which seek to place beyond any doubt the fact that no admission of liability is required, which has always been the clear intention of the Bill. I ask Members to support these amendments on that basis.

Mae gwelliant 13 yn y grŵp hwn yn cadarnhau yn yr un modd lle mae cyflogwr yn talu iawndal mewn perthynas â chlefyd sy'n ymwneud ag asbestos, a gwmpesir gan bolisi yswiriant, yna y bydd y polisi yswiriant hefyd yn cynnwys atebolrwydd i dalu ffioedd y GIG o dan y Bil hwn. Unwaith eto, bydd hyn yn gymwys pa un a oes atebolrwydd wedi cael ei dderbyn yn ffurfiol ai peidio.

Gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau hyn yn golygu nad oes angen derbyn atebolrwydd er mwyn i'r sawl sy'n talu iawndal fod yn atebol am gostau perthnasol y GIG, nac er mwyn i'r costau hynny gael eu cwmpasu gan bolisi yswiriant a ddelir gan y sawl sy'n talu iawndal.

Nodaf unwaith eto mai gwelliannau technegol yw'r rhain, sydd â'r nod o gyfleu y tu hwnt i bob amheuaeth nad oes angen derbyn atebolrwydd, sef bwriad digamsyniol y Bil o'r cychwyn. Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn ar y sail honno.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the Member in charge of the Bill, Mick Antoniw. Galwaf ar yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, Mick Antoniw.

16:58 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
These are technical amendments and I support them. Gwelliannau technegol yw'r rhain ac rwy'n eu cefnogi.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 11 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 11 is agreed in accordance with Standing Order 12.36. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 11. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, derbynnir gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 11 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 2: Gofal Lliniarol (Gwelliant 4)

Group 2: Palliative Care (Amendment 4)

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The next group of amendments relates to palliative care. The only amendment in the group is amendment 4. I call on Darren Millar to move amendment 4 and to speak to it. Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â gofal lliniarol. Yr unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 4. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 4 a'i drafod.

16:59 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 4 in my name. Cynigïaf welliant 4 yn fy enw i.

In making my first contribution in this debate today, I just want to set out my party's support for the principle that this Bill seeks to achieve, but to put on record the fact that we will be voting against this Bill, because of its narrow focus on asbestos-related disease only.

Wrth wneud fy nghyfraniad cyntaf yn y ddatl hon heddiw, hoffwn nodi cefnogaeth fy mhlaid i'r egwyddor y mae'r Bil hwn yn ceisio ei chyflawni, ond hefyd i ddweud ar goedd y byddwn yn pleidleisio yn erbyn y Bil hwn, a hynny oherwydd ei ffocws cul ar glefydau sy'n ymwneud ag asbestos yn unig.

The amendment in group 2—amendment 4—seeks to address an issue that was brought to light during the committee stage of this Bill. Members will be aware that the Bill, as currently drafted, is based on the recovery of costs of in-patient care treatment in a secondary care setting. Sadly, asbestos-related diseases are often fatal, which is why palliative care is an important consideration in the management of these diseases. Evidence from Marie Curie Cancer Care confirmed that around half of the costs of the palliative care it provides are borne by the Welsh NHS. This is a large proportion of the costs of it care and it is not unreasonable therefore, to assume that other providers of palliative care are in the same position. With this in mind, Marie Curie stated that the legislation has the potential to

‘release not insignificant funds back into the healthcare system in Wales.’

It went on to say that

‘Recovery of these costs does not appear to be covered by the Bill but they remain very real costs and those that could be used to provide more care should they be recoverable.’

The purpose of this legislation is to recoup costs for the NHS. Well, it would be foolish then not to pursue every avenue of possible cost recovery. We did discuss this issue at some length at committee Stage 2, when the Minister gave assurances that palliative care would be included in the cost recovery scheme if it were funded by the Welsh NHS. The discussion and reassurances that took place at Stage 2 in the committee alleviated some of my concerns. I am confident that members of the committee and the wider Assembly understand that the Bill, as currently drafted, will include palliative care, but this contentment, unfortunately, was a little bit short lived. Upon reflection, I am not at all convinced that the same could be said for all stakeholders and the Bill in terms of them having the confidence that palliative care is within the scope of the Bill and that the matter is beyond doubt. That is why I have tabled amendment 4. It is very important that this is mentioned on the face of the Bill to ensure that people are fully aware and appreciate the fact that the costs of NHS-funded palliative care, no matter in what setting it is provided, can be recovered under the new scheme.

After Stage 2, the revised explanatory memorandum reduced the predicted benefit, or the income to the NHS from the scheme by over half. The benefit to the NHS is now set to be only £900,000, compared with over £2 million in the initial explanatory memorandum. In light of this, it is important that we maximise the cost recovery under the scheme, and that is why we need to ensure that issues such as palliative care are completely beyond doubt and on the face of the Bill.

Mae'r gwelliant yng ngrŵp 2—gwelliant 4—yn ceisio mynd i'r afael â mater a ddaeth i'r amlwg yn ystod cyfnod pwyllgor y Bil hwn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Bil, fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, yn seiliedig ar adennill costau triniaeth gofal i gleifion mewnol mewn lleoliad gofal eilaidd. Yn anffodus, mae clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yn aml yn anghueol, a dyna pam mae gofal lliniarol yn ystyriaeth bwysig wrth reoli'r clefydau hyn. Cadarnhaodd tystiolaeth gan Gofal Canser Marie Curie fod tua hanner costau'r gofal lliniarol a ddarperir ganddo yn cael eu talu gan y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn gyfran fawr o gostau ei ofal ac nid yw'n afresymol felly, i dybio bod darparwyr eraill gofal lliniarol yn yr un sefyllfa. Gyda hyn mewn golwg, dywedodd Marie Curie fod gan y ddeddfwriaeth y potensial i

ddychwelyd cyllid nid ansylweddol i'r system gofal iechyd yng Nghymru.

Aeth yn ei flaen i ddweud

Nid ymddengys bod y broses o adennill y costau hyn wedi'i chynnwys yn y Bil ond maent yn parhau'n gostau gwirioneddol ac yn rhai y gellid eu defnyddio i ddarparu mwy o ofal pe baent yn adenilladwy.

Diben y ddeddfwriaeth hon yw adennill costau i'r GIG. Wel, byddai'n ffôl, felly, i beidio â mynd ar drywydd pob cost y gellir ei hadennill. Cawsom drafodaeth dra helaeth ar y mater hwn yng Nghyfnod 2 yn y pwyllgor, pan roddodd y Gweinidog sicrwydd y câi gofal lliniarol ei gynnwys yn y cynllun adennill costau pe câi ei ariannu gan y GIG yng Nghymru. Lleddfwyd fy mhryderon ychydig gan y drafodaeth a'r sicrwydd a gafwyd yng Nghyfnod 2 yn y pwyllgor. Rwy'n ffyddiog bod aelodau'r pwyllgor a'r Cynulliad ehangach yn deall y bydd y Bil, fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, yn cynnwys gofal lliniarol, ond byrhoedlog fu'r bodlonrwydd hwn, yn anffodus. Ar ôl myfyrto, rwyf ymhell o fod yn argyhoeddedig fod yr un peth yn wir am bob rhanddeiliad a'r Bil o ran bod yn ffyddiog bod gofal lliniarol o fewn cwrpas y Bil a bod y mater y tu hwnt i bob amheuaeth. Dyna pam y cyflwynais welliant 4. Mae'n bwysig iawn bod hyn yn cael ei grybwyll ar wyneb y Bil er mwyn sicrhau bod pobl yn gwbl ymwybodol ac yn sylweddoli y gall costau gofal lliniarol a ariennir gan y GIG, ni waeth ym mha leoliad y mae'n cael ei ddarparu, gael eu hadennill o dan y cynllun newydd.

Ar ôl Cyfnod 2, gwnaeth y memorandwm esboniadol diwygiedig leihau'r budd a ragwelir, neu'r incwm i'r GIG o dan y cynllun o dros hanner. Dywedir mai dim ond £900,000 fydd y budd i'r GIG, o'i gymharu â thros £2 filiwn yn y memorandwm esboniadol cychwynnol. Yng ngoleuni hyn, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau y gellir adennill cymaint o gostau â phosibl o dan y cynllun, a dyna pam mae angen inni sicrhau bod materion megis gofal lliniarol yn sicr y tu hwnt bob amheuaeth ac ar wyneb y Bil.

17:02

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fe fyddaf y prynhawn yma yn cefnogi'r gwelliant hwn, a fydd yn ei gwneud yn gwbl glir fod modd adennill costau gofal lliniarol i'r pwr cyhoeddus. Fe glywsom dystiolaeth yn y pwyllgor a oedd yn gwrthdweud ei hun, yn aml, ynglŷn â'r sicrwydd y gellid adennill costau lliniarol allan o'r ddeddfwriaeth fel y mae wedi ei drafftio, gan fod gofal lliniarol, fel rydym yn gwybod, yn aml yn cael ei gomisiynu gan yr NHS o'r sector wirfoddol.

I will this afternoon be supporting this amendment, which will make it completely clear that palliative care costs can be recovered to the public purse. We heard evidence in committee that was, quite often, contradictory in relation to the assurance that the Bill, as drafted, will enable the recovery of palliative care costs. This is because palliative care, as we know, is often commissioned by the NHS from the voluntary sector.

Y realiti a'r tristwch yw bod clefydau asbestos yn ofnadwy ac, yn aml iawn, yn farwol. Dyna pam mae pwysigrwydd penodol iawn o ran bod yn glir am ofal lliniarol a'r modd i adennill costau i'r pwr cyhoeddus o'r driniaeth hon. Rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn cyfrannu tuag at y sicrwydd a'r eglurder hynny, felly fe fyddaf yn ei gefnogi.

The sad fact of the matter is that asbestos diseases are harrowing and very often tragic. This is why it is important to be explicit about palliative care and the way in which those costs can be recovered to the public purse. I believe that this amendment contributes to that assurance and clarity, therefore it will have my support.

17:03

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

From the outset, the Welsh Liberal Democrat group has not disagreed with the principle of trying to create a fair and just system for those individuals and families who have been devastated by these diseases. The principle that the people who are responsible for making people ill should contribute to the NHS for the costs of their care is a right one. One of the things that has always troubled us about the way in which the legislation is drafted is that it seemed that only some of the costs related to an individual's care could actually be recovered.

O'r cychwyn cyntaf, nid yw grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi anghytuno â'r egwyddor o geisio creu system deg a chyfiawn i'r unigolion hynny a'u teuluoedd y mae'r clefydau hyn wedi cael effaith enbyd arnynt. Mae'r egwyddor y dylai'r bobl sy'n gyfrifol am wneud pobl yn sâl gyfrannu at y GIG am gostau eu gofal yn un gywir. Un o'r pethau sydd bob amser wedi ein poeni am y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi ei drafftio yw ei bod yn ymddangos mai dim ond rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â gofal unigolyn y gellid eu hadennill mewn gwirionedd.

I appreciate that one of the reasons why the Member in charge has pursued that particular option was for a case of simplicity, but if the principle is to apply, which is that costs incurred shall be recovered, it is very difficult to start picking off which costs are recovered and which are not. As has previously been stated, the sad reality of asbestos disease is that it is terminal in its nature. Often, people affected by these diseases and cancers do not recover and are not cured. Therefore, while initial hospital treatment—DGH treatment, or specialist treatment—is a primary focus, many of those patients will go on to a journey of palliative care, some of which, perhaps, will be delivered in a traditional NHS setting, in a hospital setting, and perhaps others will be lucky enough to have the opportunity to receive that care and support in a non-DGH setting—in a hospice setting, perhaps—in a service that has been commissioned by the Welsh NHS, paid for by Welsh taxpayers, but is actually delivered by a third sector organisation. I believe that amendment 4 makes it more explicit that those costs can indeed be recovered, and, for those reasons, we will support the amendment this afternoon.

Sylweddolaf mai un o'r rhesymau pam mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi mynd ar drywydd y dewis penodol hwnnw oedd symrlwydd, ond os yw'r egwyddor yn gymwys, sef y bydd costau yr aethpwyd iddynt yn cael eu hadennill, mae'n anodd iawn dewis a dethol pa gostau sy'n cael eu hadennill a pha rai nad ydynt yn cael eu hadennill. Fel y nodwyd eisoes, y gwir trist am glefyd asbestos yw ei fod yn derfynol o ran natur. Yn aml, nid yw pobl yr effeithir arnynt gan y clefydau a'r canserau hyn yn gwella. Felly, er bod triniaeth gychwynnol yn yr ysbty—trinaeth mewn ysbty dosbarth cyffredinol neu driniaeth arbenigol—yn brif ffocws, bydd llawer o'r cleifion hynny yn symud ymlaen at daith gofal lliniarol, y bydd ychydig ohoni, efallai, yn cael ei darparu mewn lleoliad GIG traddodiadol, mewn ysbty, ac efallai y bydd eraill yn ddigon ffodus i gael y cyfle i gael y gofal a'r cymorth hwnnw mewn lleoliad y tu allan i ysbty dosbarth cyffredinol—mewn lleoliad hosbis, o bosibl—mewn gwasanaeth a gomisiynwyd gan y GIG yng Nghymru, y telir amdano gan drethdalwyr Cymru, ond a ddarperir gan sefydliad yn y trydydd sector mewn gwirionedd. Credaf fod gwelliant 4 yn ei gwneud yn fwy eglur y gellir adennill y costau hynny mewn gwirionedd, ac am y rhesymau hynny, byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn y prynhawn yma.

17:05

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

17:05

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank Darren Millar for bringing forward this amendment, because it relates to an important debate right through the passage of this Bill, and it gives me an opportunity to reassure Members once again that, having done what the Health and Social Care Committee recommended, which was that we should look again at this issue, I am able to assure Members that if palliative care is either provided, secured, commissioned or funded by the Welsh NHS, whether that be by LHBS or by trusts in Wales, the costs are recoverable by this Bill as drafted. The meaning of 'relevant Welsh NHS services' already encompasses palliative care that is funded by LHBS and NHS trusts. Amendment 4 seeks to put this beyond doubt, but there is no doubt to be avoided. The Bill, as drafted, does what Members want it to do. The explanatory memorandum clarifies the matter still further when it says that

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i Darren Millar am gyflwyno'r gwelliant hwn, gan ei fod yn ymwneud â dadl bwysig a gafwyd drwy gydol hynt y Bil hwn, ac mae'n rhoi cyfle imi roi sicrwydd i'r Aelodau unwaith eto, ar ôl gwneud yr hyn a argymhellodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sef y dylem edrych eto ar y mater hwn. Gallaf roi sicrwydd i'r Aelodau, os bydd gofal lliniarol naill ai'n cael ei ddarparu, ei sicrhau, ei gomisiynu neu ei ariannu gan y GIG yng Nghymru, boed hynny gan Billau neu gan ymddiriedolaethau yng Nghymru, y bydd modd adennill y costau o dan y Bil hwn fel y'i drafftwyd. Mae ystyr 'gwasanaethau perthnasol GIG Cymru' eisoes yn cynnwys gofal lliniarol sy'n cael ei ariannu gan Billau ac ymddiriedolaethau'r GIG. Nod gwelliant 4 yw sicrhau bod hyn y tu hwnt i bob amheuaeth, ond nid oes amheuaeth i'w osgoi. Mae'r Bil, fel y'i drafftwyd, yn gwneud yr hyn y mae'r Aelodau am iddo ei wneud. Mae'r memorandwm esboniadol yn egluro'r mater ymhellach pan ddywed

'palliative care provided on behalf of the NHS in Wales falls within the scope of "relevant Welsh NHS services" as defined at section 3(5) of the Bill.'

Daw gofal lliniarol a ddarperir ar ran y GIG yng Nghymru o dan gwmpas "gwasanaethau perthnasol GIG Cymru" fel y'i diffinnir yn adran 3(5) o'r Bil.

There is no doubt to be avoided, amendment 4 is unnecessary and the Bill does what Members want it to do.

Nid oes unrhyw amheuaeth i'w osgoi, mae gwelliant 4 yn ddiangen ac mae'r Bil yn gwneud yr hyn y mae'r Aelodau am iddo ei wneud.

17:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Mick Antoniw.

Galwaf ar Mick Antoniw.

17:07

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. This is an argument that was rehearsed during Stage 2, and I fully understand the reason why it has been raised, because it is an important part of this. As I said during the earlier Stages of the Bill, the original intention was to try to recover as much as possible. With regard to costs, I am satisfied that the Bill, as drafted, covers palliative care. The assurance that has just been given by the Minister is, in fact, the repeat of an assurance, which was given during the Stage 2 debate, that it was recoverable through the Bill as drafted. Nothing has changed. Even if there were any doubts, section 3(7) gives provision for the Government, were that not to be the case.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae hon yn ddadl a gafwyd yn ystod Cyfnod 2, a llwyr ddeallaf y rheswm dros ei chodi, oherwydd mae'n rhan bwysig o hyn. Fel y dywedais yn ystod Cyfnodau cynharach y Bil, y bwriad gwreiddiol oedd ceisio adennill cymaint ag y bo modd. O ran costau, rwy'n fodlon bod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn cynnwys gofal lliniarol. Mae'r sicrwydd sydd newydd ei roi gan y Gweinidog yn ailadrodd, mewn gwirionedd, y sicrwydd a roddwyd yn ystod dadl Cyfnod 2, sef bod modd adennill costau drwy'r Bil fel y'i drafftwyd. Nid oes dim byd wedi newid. Hyd yn oed pe bai unrhyw amheuon, mae adran 3 (7) yn rhoi darpariaeth i'r Llywodraeth, pe na bai hynny'n wir.

Throughout the debate, one of the things that we have talked about has been how best to recover the maximum amount of money at minimum cost, and that is why we have talked about a tariff system. A tariff system is a broad brush based on in-patient nights and, depending on how it is set, it can recover, by and large, primary and palliative care costs and so on. It is worth looking at the memorandum, because it says, in order to create a separate system specifically aimed at palliative care:

Drwy'r ddadl gyfan, un o'r pethau yr ydym wedi sôn amdano fu'r ffordd orau o adennill cymaint o arian â phosibl am y gost leiaf, a dyna pam rydym wedi sôn am system dariff. System fras ydyw, wedi'i seilio ar nosweithiau cleifion mewnol ac, yn dibynnu ar y ffordd y'i pennir, gellir adennill, fwy neu lai, gostau gofal sylfaenol a lliniarol ac yn y blaen. Mae'n werth edrych ar y memorandwm, oherwydd mae'n dweud, er mwyn creu system ar wahân a anelir yn benodol at ofal lliniarol:

'to specifically develop and administer a separate tariff for this proportion of cases and costs would be disproportionately costly.'

byddai datblygu a gweinyddu tariff ar wahân yn benodol ar gyfer y gyfran hon o achosion a chostau yn anghymesur o gostus.

I am satisfied that the approach that we have adopted will enable us to recover the maximum cost in the most efficient way and that the Bill, as per the assurance that has already been given, covers palliative costs.

Rwy'n fodlon y bydd y dull gweithredu a fabwysiadwyd gennym yn ein galluogi i adennill cymaint o gostau â phosibl yn y ffordd fwyaf effeithlon a bod y Bil, yn unol â'r sicrwydd a roddwyd eisoes, yn cwmpasu costau lliniarol.

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Darren Millar to reply.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb.

17:09 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to Elin Jones and Kirsty Williams for their support on this very important amendment. While I appreciate the points being made by the Minister and the Member in charge of the Bill, I am not persuaded to withdraw this particular amendment and I will want to put it to the vote. I think that the Member in charge has made an important point in his contribution and that is that the tariff system that is going to apply under this scheme makes it pretty difficult to be able to recover costs in respect of palliative care, particularly where local health boards may have commissioned a service that is not prescriptive in terms of the amount that has been awarded to the individual hospice or other organisation that is going to be providing the palliative care. It is important that a proper system of recovery is in place to recover these costs. I think that the Member in charge and the Minister have nothing to fear with this amendment. It puts beyond doubt what they already accept should be the case, which is that palliative care should be recoverable under the cost of the Bill. Therefore, I wish to put this matter to a vote and urge Members to support it.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i Elin Jones a Kirsty Williams am eu cefnogaeth i'r gwelliant pwysig iawn hwn. Er fy mod yn deall y pwyntiau a wnaed gan y Gweinidog a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, nid wyf wedi cael fy narbwyllo i dynnu'r gwelliant penodol hwn yn ôl a byddaf am gael pleidlais arno. Credaf fod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi gwneud pwynt pwysig yn ei gyfraniad sef y bydd y system dariff a fydd yn gymwys o dan y cynllun hwn yn ei gwneud yn eithaf anodd i allu adennill costau mewn perthynas â gofal lliniarol, yn enwedig lle mae byrddau iechyd lleol wedi comisiynu gwasanaeth nad yw'n rhagnodol o ran faint sydd wedi cael ei ddyfarnu i'r hosbis unigol neu sefydliad arall a fydd yn darparu'r gofal lliniarol. Mae'n bwysig bod system briodol ar waith i adennill y costau hyn. Yn fy marn i, nid oes gan yr Aelod sy'n gyfrifol na'r Gweinidog ddim byd i'w ofni ynghylch y gwelliant hwn. Mae'n sicrhau bod yr hyn y maent eisoes yn derbyn y dylai ddigwydd y tu hwnt i bob amheuaeth, sef y dylai fod modd adennill costau gofal lliniarol o dan y Bil. Felly, rwyf am roi'r mater hwn i bleidlais a hoffwn annog yr Aelodau i'w gefnogi.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes, felly awn ymlaen i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4.](#)

[Result of the vote on amendment 4.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 4: O blaid 21, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment 4 not agreed: For 21, Against 26, Abstain 0.

Grŵp 3: Gwasanaethau a Eithrir (Gwelliannau 5, 6 a 10)

Group 3: Excluded Services (Amendments 5, 6 and 10)

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 5. I call on Darren Millar to move amendment 5 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 5. Galwaf ar Darran Millar i gynnig gwelliant 5 a'i drafod ynghyd â'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:11 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 5 in my name.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigïaf welliant 5 yn fy enw i.

If this scheme is to get the green light from the Assembly today, it needs to be futureproofed. If a scheme is to exist, I believe that we have a duty to ensure that it does not become obsolete if care patterns change in the future. My amendments 5, 6 and 10 in this group allow for the scheme to be altered in the future to include primary care if care patterns do, in fact, change. The Member in charge has previously indicated that including primary care costs would be too costly in terms of the administration of the scheme. While I accept that primary care costs at present, in terms of treating asbestos-related disease, may only form between 1% and 5% of the costs of treatment at present, we know that this trend is certainly likely to increase with the emphasis within the NHS of shifting care into communities and into settings other than a hospital setting in the future.

In the light of the significant reduction in the amount set to be recovered under the scheme, I think that it is even more important to maximise the effectiveness of this legislation. Asbestos Awareness and Support Cymru agreed that it may be worth including primary care costs for the future, and Mike Payne from the GMB told the committee that,

‘all medical costs should be recovered as a fuller application of the polluter pays principle’.

The Welsh Government’s amendment at Stage 2 went some way to addressing my concerns in relation to this matter. Its amendment provides powers for the Minister to be able to amend excluded services via regulation in the future. However, I want something with more certainty than that, and I believe that my amendments provide this certainty while addressing some of the concerns raised by Members at Stage 2 of the committee proceedings. Those concerns were that the current amounts spent on primary care are not yet worth recovering, that they are likely to be significantly greater in the future, and therefore, we need something concrete on the face of the Bill to enable that to take place.

Amendment 5 introduces a subsection to the Bill that, when brought into force, would remove primary care from the excluded services list. It is then up to Welsh Ministers to decide when to bring this subsection into force. However, amendment 6 locks in this commitment in the future, preventing it from being discontinued in the future.

Moving on to amendment 10, I do not simply want to give Ministers a free rein to commence or not to commence the subsection for primary care. So, this amendment requires Welsh Ministers to report annually to the Assembly on whether the new subsection relating to primary care should be introduced so that the Assembly will be able to scrutinise the position of the Minister with regard to the recovery of primary care costs. This will ensure that if care patterns do continue to develop in a way that shifts NHS costs from secondary to primary care, as is predicted, it would be the Welsh Government’s responsibility to commence the subsection or give very good reasons as to why it will not.

Os bydd y cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad heddiw, mae angen ei ddiogelu at y dyfodol. Os bydd cynllun, credaf fod dyletswydd arnom i sicrhau nad yw’n dod yn anghyfredol os bydd patrymau gofal yn newid yn y dyfodol. Mae fy ngwelliannau 5, 6 a 10 yn y grŵp hwn yn caniatáu i’r cynllun gael ei newid yn y dyfodol er mwyn cynnwys gofal sylfaenol os bydd patrymau gofal yn newid mewn gwirionedd. Mae’r Aelod sy’n gyfrifol wedi nodi o’r blaen y byddai cynnwys costau gofal sylfaenol yn rhy gostus o ran gweinyddu’r cynllun. Er fy mod yn derbyn bod costau gofal sylfaenol ar hyn o bryd, o ran trin clefydau sy’n ymwneud ag asbestos, ond yn cyfrif am rhwng 1% a 5% o gostau triniaeth, gwyddom fod y duedd hon yn debygol iawn o gynyddu gyda’r pwyslais yn y GIG o symud gofal i gymunedau ac i leoliadau heblaw am ysbty yn y dyfodol.

Yng ngoleuni’r gostyngiad sylweddol yn y swm y gellir ei adennill o dan y cynllun, credaf ei bod yn bwysicach fyth sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon mor effeithiol â phosibl. Cytunodd Asbestos Awareness and Support Cymru y gallai fod yn werth cynnwys costau gofal sylfaenol ar gyfer y dyfodol, a dywedodd Mike Payne o’r GMB wrth y pwyllgor,

dylai fod modd adennill pob cost feddygol wrth gymhwysu’r egwyddor mai’r llygrwr sy’n talu yn llawnach.

Lleddfwyd fy mhryderon mewn perthynas â’r mater hwn i ryw raddau gan welliant Llywodraeth Cymru yng Nghyfnod 2. Mae ei gwelliant yn darparu pwerau i’r Gweinidog allu diwygio gwasanaethau a eithrir drwy reoleiddio yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwyf am gael rhywbeth gyda mwy o sicrwydd na hynny, a chredaf fod fy ngwelliannau yn rhoi’r sicrwydd hwn ac ar yr un pryd yn mynd i’r afael â rhai o’r pryderon a godwyd gan yr Aelodau yng Nghyfnod 2 o drafodion y pwyllgor. Y pryderon hynny oedd nad yw’r symiau sy’n cael eu gwario ar ofal sylfaenol ar hyn o bryd yn werth eu hadennill eto, eu bod yn debygol o fod yn sylweddol uwch yn y dyfodol, ac felly, bod angen rhywbeth pendant ar wyneb y Bil i sicrhau bod hynny yn gallu digwydd.

Mae gwelliant 5 yn cyflwyno isadran i’r Bil, a fyddai, o gael ei dwyn i rym, yn dileu gofal sylfaenol o’r rhestr o wasanaethau a eithrir. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu wedyn pryd y dylid dwyn yr isadran i rym. Fodd bynnag, mae gwelliant 6 yn clymu’r ymrwymiad hwn at y dyfodol, gan ei atal rhag cael ei ddirwyn i ben yn y dyfodol.

Gan symud ymlaen at welliant 10, yn syml, nid wyf am roi rhwydd hynt i Weiniogion gychwyn neu beidio â chychwyn yr isadran ynglŷn â gofal sylfaenol. Felly, mae’r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weiniogion Cymru gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i’r Cynulliad ynghylch a ddylai’r isadran newydd sy’n ymwneud â gofal sylfaenol gael ei chyflwyno er mwyn i’r Cynulliad allu craffu ar farn y Gweinidog o ran adennill costau gofal sylfaenol. Bydd hyn yn sicrhau, os bydd patrymau gofal yn parhau i ddatblygu mewn ffordd sy’n symud costau’r GIG o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, fel y rhagwelir, byddai’n gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gychwyn isadran neu roi rhesymau da iawn pam na fydd yn gwneud hynny.

Yr wyf am siarad o blaid o gwelliant. Yn ystod yr ymgynghori a'r gwaith o gymryd tystiolaeth ar y Bil, daeth hi'n gynyddol amlwg i fi fod y Bil yn un a fedrai fod llawer yn fwy cynhwysfawr na'r un a ddrafftwyd, ac y gallai'r Bil gynnwys y costau i gyd i'r NHS ac adennill y rhain i gyd—y costau o'r diagnosis i farwolaeth.

Dro ar ôl tro, wrth ymateb i hynny, gwnaeth Mick Antoniw y pwynt mai'r rheswm nad oedd hynny'n bosibl oedd i gadw at sylmwrwydd gweinyddu'r gyfundrefn sy'n deillio o'r Bil. Yn fy marn i, mae'r Bil hwn yn un y gellid bod wedi ei drosglwyddo i fod yn Fil Llywodraeth llawn, yn hytrach na'i gadw fel Bil gan Aelod unigol. Rwy'n credu ei fod yn Fil sydd â gwahanol gymhlethdodau'n gysylltiedig ag ef ac y byddai wedi elwa o fod yn Fil Llywodraeth yn y pen draw yn hytrach nag yn Fil gan Aelod unigol. Gallai fod wedi bod yn Fil mwy cynhwysfawr gydag arweiniad oddi wrth y Llywodraeth. Nid yw hynny'n feirniadaeth o gwbl o Mick Antoniw, achos mae'r Bil sydd o'n blaenau heddiw yn parhau i fod yn Fil gan Aelod unigol ac mae Mick Antoniw wedi llywio'r Bil hwn yn fedrus iawn drwy'r gwahanol gymalau yn y Cynulliad. Byddaf yn cefnogi'r ddeddfwriaeth fel ag y mae.

Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod y gwelliant hwn yn fodd o adennill mwy o gostau defnyddiau asbestos i'r pwrs cyhoeddus yn y dyfodol, a'r costau hynny o ofal sylfaenol. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y dylem edrych i'w gynnwys yn y Bil heddiw. Rydym yn gwybod bod polisi iechyd yn edrych i drosglwyddo mwy a mwy o ofal allan i'r gymuned o'r ysbty, a hynny dan arweiniad meddygon teulu. Dylai'r ddarpariaeth fod o fewn y ddeddfwriaeth hon i ganiatáu i'r costau hynny—a fydd yn cynyddu yn y sector hwn, siŵr o fod—gael eu hadennill yn y dyfodol. Felly, rwy'n gweld gwerth i'r gwelliant a byddaf yn ei gefnogi.

I will speak in favour of these amendments. During the consultation and evidence-taking on this Bill, it became increasingly apparent to me that this Bill is one that could be much more comprehensive than drafted, and that this Bill could include all of the costs to the NHS and recover all costs from the point of diagnosis to the point of death.

In responding to that, Mick Antoniw made the point many times that that was not possible because of the need to retain the simplicity of administering the regime that stems from the Bill. In my view, this Bill could have been transferred to the Government, to become a Government-proposed Bill rather than a Member-proposed Bill. I believe that the Bill has many complications linked to it and that it would ultimately have benefited from being a Government-proposed Bill rather than a Member-proposed Bill. With Government guidance, it could have been a more comprehensive Bill. That is not to criticise Mick Antoniw, because this is still a Member-proposed Bill and Mick Antoniw has steered it very ably through its various Assembly Stages. I will support the legislation as it stands.

However, I think that this amendment is a way of recovering more of the costs of asbestos-related diseases to the public purse in the future, from primary care. I think that that is something that we should look to include in the Bill today. We know that health policy looks to transfer more and more care from hospitals out to the community, led by GPs. There should be provision in this legislation to allow for those costs—which are sure to increase in this sector—to be recovered in the future. Therefore, I believe that there is value to this amendment and I will be supporting it.

In some ways, the principle of whether to include primary care costs is related to the debate that we have just had about palliative care. It is true to say that, unfortunately, at the current time, costs associated with this disease do not fall in the primary care sector. The Government is striving to provide care more and more often within the context of somebody's home, especially palliative care and especially if an individual expresses a desire to die at home. To allow that to happen, it is often primary care—GPs and those associated with the GP practice—that is best placed to help to support a family and an individual through that journey. Therefore, I would hope that, in years to come, primary care will bear more of the costs associated with treating people with these diseases. If it does, it means that we will have achieved our collective goal of providing care closer to people's homes—in people's homes, if at all possible—respecting the wishes of many people to die in their own homes with the support and care of primary care professionals around them to make that journey as peaceful and serene as it possibly can be in these most difficult of circumstances. I think that it is right that there should be provision in the Bill to allow Welsh Ministers to bring forward legislation at a later date, if they felt that it was appropriate, to remove primary care from the excluded list. Therefore, I support that principle.

Ar sawl cyfrif, mae'r egwyddor a ddylid cynnwys costau gofal sylfaenol yn ymwneud â'r ddaid yr ydym newydd ei chael am ofal lliniarol. Mae'n wir dweud, yn affodol, ar hyn o bryd, nad yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r defnydd hwn yn dod o dan y sector gofal sylfaenol. Mae'r Llywodraeth yn ymdrechu i ddarparu gofal fwyfwy o fewn cyd-destun cartref rhywun, yn enwedig gofal lliniarol ac yn enwedig os yw unigolyn yn mynegi awydd i farw gartref. Er mwyn i hynny ddigwydd, gofal sylfaenol—meddygon teulu a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r feddygfa—sydd, yn aml, yn y sefyllfa orau i helpu i gefnogi teulu ac unigolion drwy'r daith honno. Felly, gobeithio y bydd gofal sylfaenol yn y blynyddoedd i ddod yn dwyn mwy o'r costau sy'n gysylltiedig â thrin pobl sydd â'r defnydd hyn. Os gwna hynny, mae'n golygu y byddwn wedi cyflawni ein nod cyffredin o ddarparu gofal yn nes at gartrefi pobl—yng nghartrefi pobl, os oes modd—gan barchu dymuniadau llawer o bobl i farw yn eu cartrefi eu hunain gyda chefnogaeth a gofal gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol o'u hamgylch i wneud y daith mor heddychlon a thawel ag y bo modd o dan yr amgylchiadau hynod anodd hyn. Credaf ei bod yn briodol bod darpariaeth yn y Bil i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol, os teimlant ei bod yn briodol dileu gofal sylfaenol o'r rhestr o wasanaethau a eithrir. Felly, cefnogaf yr egwyddor honno.

However, I think that amendment 10 is more than we need. I do not see that it is necessary to have the Government reporting on an annual basis. Any Government that is worth its salt will review the effectiveness of this legislation. All of us as Assembly Members, or future Assembly Members, should be aware of changes in practice that would signal to all of us the need to bring forward amendments to the legislation to include primary care; if we were not, we or future Assembly Members would not be doing our jobs properly in holding the Government to account and campaigning for those changes to be brought forward. I think that the legislation should be amended to include this opportunity for the Minister but I think that it is excessive to require the Government to make a statement on an annual basis.

Fodd bynnag, credaf fod gwelliant 10 yn fwy nag sydd ei angen. Ni welaf fod angen i'r Llywodraeth gyflwyno adroddiad bob blwyddyn. Bydd unrhyw Lywodraeth sy'n werth ei halen yn adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth hon. Dylai pob un ohonom fel Aelodau Cynulliad, neu Aelodau Cynulliad yn y dyfodol, fod yn ymwybodol o newidiadau mewn ymarfer a fyddai'n arwydd i bob un ohonom fod angen diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn cynnwys gofal sylfaenol; pe na baem yn ymwybodol o hynny, ni fyddem ninnau nac Aelodau Cynulliad yn y dyfodol yn gwneud ein gwaith yn iawn o ran dwyn y Llywodraeth i gyfrif ac ymgyrchu dros gyflwyno'r newidiadau hynny. Credaf y dylai'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio i gynnwys y cyfle hwn i'r Gweinidog, ond credaf ei fod yn ormodol ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth wneud datganiad yn flynyddol.

17:19

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

There was nothing in what Darren Millar said about the need to futureproof the Bill that I disagreed with. It was because the Government has accepted the argument put forward by the Health and Social Care Committee in its second recommendation, which is that an affirmative resolution-making power should be included in the Bill to provide for the costs of community and primary services to be added in future to those services for which costs can be recovered, that exactly an amendment to give effect to that was moved by the Government at Stage 2. So, the Bill already includes at section 3(7) that there should be a regulation-making power to future proof the Bill, and that the regulation-making power should only be exercised via the affirmative resolution procedure so that the Assembly itself can scrutinise the extent to which the Government is doing what we would want to do, which is that, as treatments move into the primary care sector progressively, we will be able to capture those costs in future.

As Kirsty Williams has explained, the nature of mesothelioma and its aggressive and distressing course as a disease means that, today, almost all the costs are incurred in secondary care. However, that may not be the case in future, and the Bill, as amended, already does what the Health and Social Care Committee asked for in allowing the Government to come forward to extend the scope of the Bill to capture those costs at a point when that becomes sensible.

I do not myself see how the commencement power proposed in amendment 5, which would not be subject to an Assembly procedure at all, is an improvement on the amendment that met the Health and Social Care Committee's requirements. Amendments 5, 6 and 10, taken together, appear to seek to supersede the broad power now available through section 3(7), which must be exercised with the full scrutiny of the Assembly, with a narrower power to be exercised with no scrutiny at all.

Nid oedd dim yn yr hyn a ddywedodd Darren Millar ynglŷn â'r angen i ddiogelu'r Bil at y dyfodol yr anghytunaf ag ef. Yn union am fod y Llywodraeth wedi derbyn y ddaidl a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei ail argymhelliad, sef y dylai pŵer penderfyniad cadarnhaol gael ei gynnwys yn y Bil i ddarparu ar gyfer costau gwasanaethau cymunedol a sylfaenol gael ei ychwanegu yn y dyfodol at y gwasanaethau hynny y gellir adennill costau yn eu cylch, y derbyniwyd gwelliant i roi effaith i hynny gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 2. Felly, mae'r Bil eisoes yn cynnwys yn adran 3 (7) y dylai fod pŵer i wneud rheoliadau i ddiogelu'r Bil at y dyfodol, ac mai dim ond drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol y dylai'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau gael ei arfer fel y gall y Cynulliad ei hun graffu ar y graddau y mae'r Llywodraeth yn gwneud yr hyn y byddem am ei wneud, sef, wrth i driniaethau symud yn raddol i'r sector gofal sylfaenol, y byddwn yn gallu casglu'r costau hynny yn y dyfodol.

Fel yr esboniodd Kirsty Williams, mae natur mesothelioma a'i hynt ymosodol ac enbyd fel clefyd yn golygu, heddiw, bod bron yr holl gostau yn codi mewn gofal eilaidd. Fodd bynnag, efallai na fydd hynny'n wir yn y dyfodol, ac mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd, eisoes yn gwneud yr hyn a geisiwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sef caniatáu i'r Llywodraeth i ymestyn cwmplas y Bil i gasglu'r costau hynny ar adeg pan fo hynny'n synhwyrol.

Ni welaf fy hun sut y byddai'r pŵer i gychwyn a gynigir yng ngwelliant 5, na fyddai'n ddarostyngedig i weithdrefn Cynulliad o gwbl, yn welliant ar y gwelliant a fodlonodd ofynion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ymddengys bod gwelliannau 5, 6 a 10, gyda'i gilydd, yn ceisio disodli'r pŵer eang sydd ar gael ar hyn o bryd drwy adran 3 (7), y mae'n rhaid iddo gael ei arfer ar ôl craffu llawn gan y Cynulliad, â phŵer culach i'w arfer heb graffu o gwbl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I was not persuaded by what Darren Millar said about amendment 6, that it locks in primary care as an immovable part of the landscape once that move is made, because the argument here is about futureproofing, and services may move in more than one direction. Amendment 6 would create inflexibility and inconsistency. It would afford primary care a special status in the Bill as the only service that could not be further amended by section 3(7) were services to alter in the future. For an amendment that seeks to futureproof, it actually prevents futureproofing from happening.

I very much agree with what Kirsty Williams said about amendment 10. It proposes an additional reporting mechanism that is inflexible and potentially costly. Of course, Welsh Ministers should periodically review this scheme and consider whether its scope should be extended to include primary care; that is what the regular evaluation process, the timing for which is set out in the explanatory memorandum, already does. To do so on an annual basis really does not reflect the way in which care pathways are likely to change within such a time frame. The amendment would create an unnecessary administrative burden and the costs that go with it. I hope that the Assembly will reject these amendments.

Ni chefais fy narbwylllo gan yr hyn a ddywedodd Darren Millar ynglŷn â gwelliant 6, ei fod yn clymu gofal sylfaenol fel rhan na ellir ei symud o'r dirwedd unwaith bod hynny'n cael ei wneud, oherwydd mae'r ddatl yn hyn o beth yn ymwneud â diogelu at y dyfodol, ac efallai y bydd gwasanaethau yn symud i fwy nag un cyfeiriad. Byddai gwelliant 6 yn creu anhyblygrwydd ac anghysondeb. Byddai'n rhoi i ofal sylfaenol statws arbennig yn y Bil fel yr unig wasanaeth na allai gael ei ddiwygio ymhellach gan adran 3 (7) pe bai gwasanaethau yn newid yn y dyfodol. O ran gwelliant sy'n ceisio diogelu at y dyfodol, mae'n atal diogelu at y dyfodol rhag digwydd mewn gwirionedd.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams ynglŷn â gwelliant 10. Mae'n cynnig system adrodd ychwanegol sy'n anhyblyg ac o bosibl yn gostus. Wrth gwrs, dylai Gweinidogion Cymru adolygu'r cynllun hwn o bryd i'w gilydd ac ystyried a ddylid ymestyn ei gwmpas i gynnwys gofal sylfaenol; dyna'r hyn y mae'r broses werthuso reolaidd, y nodir ei hamseriad yn y memorandwm esboniadol, eisoes yn ei wneud. Nid yw gwneud hynny yn flynyddol yn adlewyrchu'r ffordd y mae llwybrau gofal yn debygol o newid o fewn terfyn amser o'r fath. Byddai'r gwelliant yn creu baich gweinyddol diangen ynghyd â chostau cysylltiedig. Gobeithio y bydd y Cynulliad yn gwrthod y gwelliannau hyn.

17:23

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also oppose the three amendments, and I do so, not surprisingly, on similar grounds to those of the Minister, who, during the Stage 2 debate, was very clear that if there were changes in medical circumstances that required primary care to be included, amendments would need to be brought to achieve that. An amendment was brought, and that was carried through. That is the section 3(7) that we have within the legislation now, which I think very sensibly gives that power should those circumstances change.

It is worth just considering what the explanatory memorandum said in respect of what the current position was with primary care, on the basis of all the research that was carried out. Paragraph 116 states:

'however primary care costs in the cases examined amounted on average to less than 3% of the total NHS cost incurred.'

If the situation changes, the power is there to make those changes. I accept very much the point that Kirsty has made as well. I would just add that we should bear in mind that there is provision for annual reporting in any event for the amount of money raised and how it is to be used. Were the situation to change, with costs decreasing and shifting towards the primary care sector, there would inevitably be contributions to that particular debate, whereby the Government would consider the invoking of powers under section 3(7).

Rwyf innau hefyd yn gwrthwynebu'r tri gwelliant, a gwnaf hynny, ac nid yw hynny'n syndod, ar sail debyg i sail y Gweinidog, a oedd, yn ystod dadl Cyfnod 2, yn glir iawn, pe bai newidiadau mewn amgylchiadau meddygol a oedd yn golygu bod angen cynnwys gofal sylfaenol, y byddai angen cyflwyno diwygiadau i wneud hynny. Cyflwynwyd gwelliant, a dderbyniwyd, sef adran 3(7) sydd yn y ddeddfwriaeth yn awr gennym, sydd, yn synhwyrol iawn yn fy marn i, yn rhoi'r pŵer hwnnw pe bai'r amgylchiadau hynny'n newid.

Mae'n werth ystyried yr hyn a ddywedodd y memorandwm esboniadol yng nghyswllt y sefyllfa bresennol, ar sail yr holl waith ymchwil a wnaethpwyd. Noda paragraff 116:

fodd bynnag, roedd costau gofal sylfaenol yn yr achosion a ystyriwyd yn gyfystyr â llai na 3% o gyfanswm y costau yr aethpwyd iddynt gan y GIG ar gyfartaledd.

Os bydd y sefyllfa yn newid, mae'r pŵer ar gael i wneud y newidiadau hynny. Derbyniaf yn llwyr y pwynt a wnaeth Kirsty hefyd. Hoffwn ychwanegu y dylem gofio bod darpariaeth ar gyfer adroddiadau blynyddol sut bynnag o ran y swm o arian a godwyd a sut y dylid ei ddefnyddio. Pe bai'r sefyllfa yn newid, gyda chostau yn lleihau ac yn symud tuag at y sector gofal sylfaenol, mae'n anochel y byddai cyfraniadau at y ddatl benodol honno, lle byddai'r Llywodraeth yn ystyried galw'r pwerau o dan adran 3 (7) i rym.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to reply.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:25

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have listened very carefully to what people have had to say in this debate, but I still feel very strongly that these amendments should be brought to Members for a vote. It is important to recognise this drift from different care settings. As Kirsty Williams and Elin Jones rightly said, an increasing proportion of care is going to be provided in the community or in non-hospital settings in the future. That is one thing that we can all very much agree on. However, if Kirsty Williams felt that this was an onerous amendment, she could have brought forward her own amendment to address the concerns herself. She has failed to do that.

Rwyf wedi gwranddo'n astud iawn ar yr hyn yr oedd gan bobl i'w ddweud yn y ddadl hon, ond rwy'n dal i deimlo'n gryf iawn y dylid cyflwyno'r gwelliannau hyn i'r Aelodau bleidleisio arnynt. Mae'n bwysig cydnabod y symud graddol hwn o leoliadau gofal gwahanol. Fel y dywedodd Kirsty Williams ac Elin Jones, a hynny'n gwbl briodol, bydd cyfran gynyddol o ofal yn cael ei ddarparu yn y gymuned neu mewn lleoliadau y tu allan i'r ysbyty yn y dyfodol. Dyna un peth y gall pob un ohonom gytno arno. Fodd bynnag, os teimlai Kirsty Williams fod hwn yn welliant beichus, gallai fod wedi cyflwyno ei gwelliant ei hun i fynd i'r afael â'r pryderon ei hun. Mae wedi methu â gwneud hynny.

On the issue of scrutiny, I appreciate what the Minister has said about using the affirmative procedure should he wish to expand the scope of the areas of cost that can be recovered in the future, and about the opportunity to scrutinise the decisions that the Minister might want to make in respect of that in the future, but, likewise, we need to be able to scrutinise it if the Minister is not bringing forward regulations and there is a significant rise in costs associated with primary care under the scheme. That is why I feel very strongly that we need to be able to support these amendments today, to get them onto the face of the Bill. There is going to be no additional reporting requirement, other than a section in the new annual report, which is a requirement under the scheme, as Mick Antoniw, the Member in charge, has rightly pointed out. So, I do not think that this is an onerous process. It is something that we ought to have on the face of the Bill. There ought to be this locking mechanism, given that I would not expect, once primary care costs had increased to such an extent that it was worthwhile bringing about a change, that there ought to be a switch back in the future.

O ran craffu, deallaf yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud am ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol pe bai am ehangu cwrpas y meysydd lle gellir adennill costau yn y dyfodol, ac am y cyfle i graffu ar y penderfyniadau y gallai'r Gweinidog fod am eu gwneud o ran hynny yn y dyfodol, ond, yn yr un modd, mae angen inni allu craffu ar y mater os nad yw'r Gweinidog yn cyflwyno rheoliadau a bod cynnydd sylweddol yn y costau sy'n gysylltiedig â gofal sylfaenol o dan y cynllun. Dyna pam y teimlaf yn gryf iawn bod angen inni gefnogi'r gwelliannau hyn heddiw, i'w cael ar wyneb y Bil. Ni fydd unrhyw ofyniad adrodd ychwanegol, ac eithrio adran yn yr adroddiad blynyddol newydd, sy'n ofyniad o dan y cynllun, fel y nododd Mick Antoniw, yr Aelod sy'n gyfrifol, a hynny'n hollol gywir. Felly, yn fy marn i, nid yw hon yn broses feichus. Mae'n rhywbeth y dylem ei gael ar wyneb y Bil. Dylai fod dull dlymu o'r fath, o gofio na fyddwn yn disgwyl, ar ôl i gostau gofal sylfaenol gynyddu i'r fath raddau fel ei bod yn werth gwneud newid, y dylai fod newid yn ôl yn y dyfodol.

17:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 5 is not agreed to, amendments 6 and 10 will fall. The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Os na dderbynnir gwelliant 5i, bydd gwelliannau 6 a 10 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes, felly cawn bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5.](#)

[Result of the vote on amendment 5.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 20, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment 5 not agreed: For 20, Against 26, Abstain 0.

Methodd gwelliant 6.

Amendment 6 fell.

Grŵp 4: Y Cyfnod Amser ar gyfer Adennill Costau (Gwelliant 7)

Group 4: Timescale for Recovering Costs (Amendment 7)

17:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The lead and only amendment in the group is amendment 7. I call on Darren Millar to move amendment 7 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 7. Galwaf ar Darren Millar i gynig gwelliant 7 a'i drafod.

17:28

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 7 in my name.

Cynigaf welliant 7 yn fy enw i.

Currently, the Bill encompasses a stop-the-clock approach to the recovery of costs associated with the care of people with asbestos-related disease, whereby only the costs incurred up until a compensation settlement has been received can be covered. Regrettably, as we have already discussed in the Chamber this afternoon, we know that, in the case of asbestos-related disease, treatment can unfortunately be prolonged, costs can add up, and many of these will be incurred towards the end of life, after a compensation settlement has been agreed. It is for these reasons that I have tabled amendment 7.

It seems to me to be inconsistent to only recover costs up until the date that compensation is agreed, when many of the costs could be incurred after that date. Surely, the point of this legislation is to recover the maximum costs—we have heard that phrase mentioned twice in the Chamber today, by the Minister and the Member in charge. If you are going to recover the maximum cost, that should enable the Government to be able to issue further certificates for payment, beyond the initial certificate that might be issued at the time of a compensation settlement. If my amendment were to be accepted, it would allow for full cost recovery right up until the death of an individual. This amendment was tabled at Stage 2, but in light of the arguments used at that stage and the significant reduction in the costs expected to be recovered from over £2 million to £900,000, as I said earlier on, as detailed in the explanatory memorandum, I think that there is very strong justification for revisiting this area.

The Minister said at Stage 2 that,

'It has never been the intention of the Bill that we would recover every single penny spent on asbestos-related diseases within the NHS.'

To be honest, I am a little confused by that statement because, as I understand it, the intention of the Bill is that the polluter-pays principle is extended into the Welsh NHS, which is what we have been told by the Minister and the Member in charge. It seems to me to be inconsistent to say that the polluter only ought to pay for part of the costs and not all of the costs associated with the disease that they may be responsible for. As I have said already in the Chamber this afternoon, the reduction in the amounts that are going to be recovered under this scheme makes it all the more important to recover a greater proportion of costs, so that the administrative costs associated with the scheme will be a much smaller percentage overall.

There is no reason, in my mind, not to extend the scheme to ensure that further certificates for payment can be issued right up until death, and therefore I urge Members to support the amendment.

Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn cynnwys dull atal y cloc o adennill costau sy'n gysylltiedig â gofalu am bobl sydd â chlefyd sy'n ymwneud ag asbestos, sy'n golygu mai dim ond y costau yr aethpwyd iddynt hyd nes bod setliad am iawndal wedi'i dderbyn y gellir eu hadennill. Yn anffodus, fel y trafodwyd eisoes gennym yn y Siambr y prynhawn yma, gwyddom, yn achos clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, y gall triniaeth fod yn hir yn anffodus, gall costau Gronni, a bydd llawer o'r rhain yn cronni tua diwedd bywyd, ar ôl cytuno ar setliad am iawndal. Am y rhesymau hyn y cyflwynais welliant 7.

Ymddengys i mi ei bod yn anghyson adennill y costau hyd at y dyddiad y cytunir ar iawndal yn unig, pan fydd llawer o'r costau yn croni ar ôl y dyddiad hwnnw o bosibl. Yn sicr, diben y ddeddfwriaeth hon yw adennill cymaint o gostau â phosibl—rydym wedi dlywed yr ymadrodd hwnnw yn cael ei grybwyll ddwywaith yn y Siambr heddiw, gan y Gweinidog a'r Aelod sy'n gyfrifol. Os ydych am adennill cymaint o gostau â phosibl, dylai hyn alluogi'r Llywodraeth i roi tystysgrifau pellach am dâl, y tu hwnt i'r dystysgrif gychwynnol a allai fod wedi cael ei rhoi ar adeg setliad iawndal. Pe bai fy ngwelliant yn cael ei dderbyn, byddai'n caniatáu ar gyfer adennill costau llawn hyd at farwolaeth unigolyn. Cyflwynwyd y gwelliant hwn yn ystod Cyfnod 2, ond yng ngoleuni'r dadleuon a ddefnyddiwyd yn y cyfnod hwnnw a'r lleihad sylweddol yn y costau y disgwyliu eu hadennill o dros £2 filiwn i £900,000, fel y dywedais yn gynharach, fel y nodir yn y memorandwm esboniadol, credaf fod cyfiawnhad cryf iawn dros ailedrych ar y maes hwn.

Dyweddodd y Gweinidog yng Nghyfnod 2,

Ni fu erioed yn fwiad gan y Bil y byddem yn adennill pob ceiniog sy'n cael ei gwario ar glefydau sy'n ymwneud ag asbestos yn y GIG.

A dweud y gwir, mae'r datganiad hwnnw yn fy nrysio ychydig oherwydd, yn ôl a ddeallaf, bwriad y Bil yw bod yr egwyddor y llygrwr sy'n talu yn cael ei hestyn i'r GIG yng Nghymru, sef yr hyn a ddywedwyd wrthym gan y Gweinidog a'r Aelod sy'n gyfrifol. Ymddengys imi ei bod yn anghyson dweud mai dim ond rhan o'r costau y dylai'r llygrwr ei thalu ac nid yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r clefyd y gallai fod yn gyfrifol amdanynt. Fel y dywedais eisoes yn y Siambr y prynhawn yma, mae'r gostyngiad yn y symiau a fydd yn cael eu hadennill o dan y cynllun hwn yn ei gwneud yn bwysicach fyth ein bod yn adennill cyfran fwy o'r costau, fel y bydd y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn ganran lawer llai yn gyffredinol.

Nid oes unrhyw reswm, yn fy marn i, dros beidio ag ymestyn y cynllun i sicrhau y gall tystysgrifau pellach ar gyfer taliad gael eu rhoi hyd at adeg marwolaeth, ac felly anogaf yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

For me, this is one of the great conundrums of this Bill. I would refer Members to the comments that I made in the Stage 1 debate about unintended consequences of the legislation. For me, my great fear is that this piece of legislation may incur greater liabilities for those who have exposed people to asbestos. We did hear evidence within the committee that one of the unintended consequences of the legislation would be that it would be harder for those individuals and their families who were taking forward a claim against someone to receive a settlement. I appreciate that it should not be the job of the NHS to pick up the costs of those who have been negligent, but for me the priority is the individual and the ability of the individual to settle their claim in a timely fashion. Therefore, the consequences for the state come after that.

I would feel very uncomfortable in voting for a piece of legislation today that would make it harder for those individuals to receive a settlement. Therefore, I have to judge the principle of which is more important: the recovery of all the costs to the last penny, or the principle of stopping the clock and therefore perhaps encouraging those who have a liability to settle, and to settle perhaps earlier in the process, and in a way that is of assistance to those individuals and families, rather than creating a system where there is no benefit for those who are liable to settle early and that could, in fact, actually draw out the process even longer, making it harder for those who have been affected to receive the compensation that they are due. So, that puts me in a conundrum as to what to do.

On balance, I think that the needs of the individual outweigh the principle of trying to recoup every penny and therefore I accept the principle of a stop-the-clock system that draws an end to the liability. It does mean that not all the costs incurred by the NHS will be recovered, but I hope that it will go some way towards preventing the unintended consequences that I think could arise out of this legislation, that individuals will find it more difficult to receive the compensation that they need and that the legislation will be turned into a lawyers' charter, so that the only people who will benefit from this will be the legal firms that represent people.

I mi, mae hyn yn un o'r pethau sy'n achosi penbleth ynglŷn â'r Bil hwn. Cyfeiriaf yr Aelodau at y sylwadau a wneuthum yn y ddadl yn ystod Cyfnod 1 am ganlyniadau anfwriadol y ddeddfwriaeth. I mi, fy ofn mawr yw y gall y darn hwn o ddeddfwriaeth arwain at fwy o atebolrwydd ar y rhai sydd wedi amlygu pobl i asbestos. Clywsom dystiolaeth yn y pwyllgor mai un o ganlyniadau anfwriadol y ddeddfwriaeth yw y byddai'n fwy anodd i'r unigolion hynny a'u teuluoedd a oedd yn hawlio yn erbyn rhywun gael setliad. Sylweddlaf nad lle'r GIG yw ysgwyddo costau y rhai sydd wedi bod yn esgeulus, ond i mi y flaenoriaeth yw'r unigolyn a gallu'r unigolyn i setlo eu cais mewn modd amserol. Felly, daw'r goblygiadau i'r wladwriaeth ar ôl hynny.

Byddwn yn teimlo'n anghyfforddus iawn yn pleidleisio dros ddarn o ddeddfwriaeth heddiw a fyddai'n ei gwneud yn anos i'r unigolion hynny gael setliad. Felly, rhaid imi farnu pa egwyddor sy'n bwysicaf: adennill yr holl gostau i'r geiniog olaf, neu egwyddor atal y cloc a thrwy hynny annog y rhai sydd ag atebolrwydd i setlo, ac i setlo'n gynt o bosibl yn y broses, ac mewn ffordd sydd o gymorth i'r unigolion hynny a'u teuluoedd, yn hytrach na chreu system lle nad oes unrhyw fudd i'r rhai sy'n agored i setlo'n gynnar ac y gallai hynny ymestyn y broses hyd yn oed yn fwy mewn gwirionedd, gan ei gwneud yn anos i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gael yr iawndal sy'n ddyledus iddynt. Felly, mae hynny'n achosi penbleth imi ynghylch beth i'w wneud.

At ei gilydd, credaf fod anghenion yr unigolyn yn drech na'r egwyddor o geisio adennill pob ceiniog, ac felly derbyniaf egwyddor system atal y cloc sy'n rhoi trefyn ar yr atebolrwydd. Mae'n golygu na fydd yr holl gostau y mae'r GIG yn mynd iddynt yn cael eu hadennill, ond gobeithio y bydd yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at atal y canlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o'r ddeddfwriaeth hon, yn fy marn i, sef y bydd unigolion yn ei chael hi'n fwy anodd i gael yr iawndal sydd ei angen arnynt ac y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei thro'i'n siarter i'r cyfreithwyr, ac mai'r unig bobl a fydd yn elwa fydd y cwmnïau cyfreithwyr sy'n cynrychioli pobl.

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is the third group of amendments that Darren Millar has moved and I know that, in the first two groups, I have argued that the amendments were unnecessary because the intention of those amendments was already adequately provided for in the Bill, but this group is different, because it offers a genuine difference of view. I have given a lot of thought to what Darren has said in previous parts of the scrutiny process. He makes some important points in the case that he has made. In the end, it comes down to a finely balanced judgment. While I am sympathetic to the intention of this amendment, I still believe that the Bill, as currently drafted, provides a more proportionate and, indeed, more pragmatic approach to cost recovery. If the amendment were accepted, I think that the danger is that it would impair, rather than improve, the overall effectiveness of the Bill and the wider system.

Dyma'r trydydd grŵp o welliannau a gyflwynwyd gan Darren Millar a gwn, yn y ddau grŵp cyntaf, fy mod wedi dadlau bod y gwelliannau yn ddiangen am fod y Bil eisoes yn darparu'n ddigonol ar gyfer yr hyn a fwriadwyd gan y gwelliannau hynny, ond mae'r grŵp hwn yn wahanol, oherwydd ei fod yn cynnig gwahaniaeth barn gwirioneddol. Rwyf wedi pendroni ar yr hyn y mae Darren wedi'i ddweud mewn rhannau blaenorol o'r broses graffu. Mae'n gwneud rhai pwyntiau pwysig yn yr achos a gyflwynir ganddo. Yn y pen draw, mater o farn ydyw. Er fy mod yn cydymdeimlo â bwriad y gwelliant hwn, rwy'n dal i gredu bod y Bil, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn darparu dull mwy cymesur ac, yn wir, ddull mwy pragmatig o adennill costau. Pe bai'r gwelliant yn cael ei dderbyn, credaf fod perygl y byddai'n amharu ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bil a'r system ehangach yn hytrach na'u gwella.

The stop-the-clock mechanism, whereby NHS costs are recovered to the point of settlement of a victim's claim, was identified from the very beginning by the Member in charge as the most cost-effective model of cost recovery. Cutting off the recovery of NHS costs at the point at which settlement is reached allows for greater certainty as to the amount to be recovered, and it also allows for greater simplicity in the administration of the scheme. The combined effect is greater clarity for all parties involved and a more proportionate approach.

As Kirsty Williams has said, the Health and Social Care Committee took some evidence that the Bill, as currently drafted, may incentivise compensators to settle claims earlier than they currently do to reduce their exposure to NHS costs. To the extent that this may take place, it would be a desirable outcome for sufferers and their families. The proposed amendment would remove any incentive, and could even cause the negotiation process to be prolonged.

Moreover, in the reality of mesothelioma, it is the case that a significant proportion of the costs is incurred in the first six to nine months of the disease. Those cases analysed in the explanatory memorandum demonstrate that, in three quarters of them, 90% of eligible costs were incurred in the first six months after diagnosis. It is for these reasons that the Government still believes that the stop-the-clock mechanism is the most effective mechanism of cost recovery.

I stand by exactly what I said at Stage 1: the principle has never been to recover every penny that has been spent on asbestos-related diseases by the NHS, regardless of the costs incurred by such a process. The focus is on improving the care and treatment of sufferers of asbestos-related diseases, and their families, with a simple, effective and fair administrative system; that is what the Bill currently proposes, and the amendment would put that at peril.

17:38

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

I agree with those comments made by the Minister. I also agree with the comments that were made by Kirsty Williams, in terms of the impact; we have to have consideration for the individuals in these particular cases. I believe that the legislation, as drafted, creates clarity, certainty and simplicity. I do not believe that it would be practical—it certainly would not be cost effective—not to have a stop-the-clock approach.

The stop-the-clock approach is a bit more complicated than the Member outlined, in the sense that what happens in these cases is you have a settlement, and that triggers the entitlement of the Welsh Government to recover the cost. However, because of the nature of the disease, in many of the cases, there is what is called a 'provisional damages settlement', which, basically, gives the individual a right to come back to the court again to have a further settlement, in the event of developing a more serious or terminal asbestos disease. When that happens, it actually triggers a further entitlement for the Welsh Government to recover those particular costs.

Cafodd system atal y cloc, lle bydd costau'r GIG yn cael eu hadennill hyd at adeg setlo hawliad dioddefwr, ei nodi o'r cychwyn cyntaf gan yr Aelod sy'n gyfrifol fel y model mwyaf costeffeithiol o adennill costau. Mae atal costau'r GIG sydd i'w hadennill o adeg setliad yn cynnig mwy o sicrwydd ynghylch y swm sydd i'w adennill, ac mae hefyd yn gwneud y broses o weinyddu'r cynllun yn symlach. Yr effaith at ei gilydd yw mwy o eglurder i bob parti dan sylw a dull gweithredu mwy cymesur.

Fel y dywedodd Kirsty Williams, cymerodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol rywfaint o dystiolaeth y gall y Bil, fel y'i drafftiiwyd ar hyn o bryd, gymell y sawl sy'n rhoi iawndal i setlo hawliadau yn gynharach nag y gwnânt ar hyn o bryd er mwyn eu gwneud yn llai agored i gostau'r GIG. I'r graddau y gall hyn ddigwydd, byddai'n ddymunol i ddiodeffwyr a'u teuluoedd. Byddai'r newid arfaethedig yn dileu unrhyw gymheliad, a gallai hyd yn oed ymestyn y broses cyd-drafod.

At hynny, yn achos mesothelioma, mae cyfran sylweddol o'r costau yn codi yn ystod y chwe mis i naw mis cyntaf o'r clefyd. Dengys yr achosion hynny a ddadansoddir yn y memorandwm esboniadol fod 90% o gostau cymwys wedi codi yn ystod y chwe mis cyntaf ar ôl diagnosis mewn tri chwarter ohonynt. Am y rhesymau hyn y cred y Llywodraeth o hyd mai system atal y cloc yw'r dull mwyaf effeithiol o adennill costau.

Cadwaf yn union at yr hyn a ddywedais yn ystod Cyfnod 1: nid adennill pob ceiniog sydd wedi cael ei gwario gan y GIG ar glefydau sy'n ymwneud ag asbestos fu'r egwyddor dan sylw, waeth beth fo'r costau sy'n codi o ganlyniad i broses o'r fath. Y ffocws yw gwella gofal a thriniaeth i'r rhai sy'n dioddef o glefydau sy'n ymwneud ag asbestos, a'u teuluoedd, drwy system weinyddol syml, effeithiol a theg; sef yr hyn y mae'r Bil yn ei gynnig ar hyn o bryd, ac y byddai'r gwelliant yn ei beryglu.

Cytunaf â'r sylwadau hynny a wnaed gan y Gweinidog. Cytunaf hefyd â sylwadau Kirsty Williams, o ran yr effaith; bu'n rhaid inni ystyried yr unigolion yn yr achosion penodol hyn. Credaf fod y ddeddfwriaeth, fel y'i drafftiiwyd, yn creu eglurder, sicrwydd a symlrwydd. Ni chredaf y byddai'n ymarferol—yn sicr ni fyddai'n gosteffeithiol—peidio â chael system atal y cloc.

Mae system atal y cloc ychydig yn fwy cymhleth na'r hyn a amlinellwyd gan yr Aelod, yn yr ystyr mai'r hyn sy'n digwydd yn yr achosion hyn yw bod gennych setliad, a bod hynny'n ysgogi hawl Llywodraeth Cymru i adennill y gost. Fodd bynnag, oherwydd natur y clefyd, mewn llawer o achosion, ceir yr hyn a elwir yn 'setliad iawndal dros dro', sydd, yn y bôn, yn rhoi hawl i'r unigolyn ddychwelyd i'r llys unwaith eto i gael setliad arall os bydd yn datblygu clefyd asbestos mwy difrifol neu derfynol. Pan fydd hynny'n digwydd, mae'n ysgogi hawl bellach i Lywodraeth Cymru adennill y costau penodol hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If you think about the actual complications of developing a system that will cover individuals who, say, may have asbestosis, and who may live 20, 30 or 40 years with that particular disease before they die, without the stop-the-clock system there is no mechanism for triggering a settlement that enables us to know whether that person has developed a further disease, or, in fact, has died. It would be necessary to keep a register of thousands of people over a very long period of time. The only way in which I could envisage how we could implement such a system would be, out of such a register, to periodically write to individuals, effectively to find out if they were still alive. That is clearly something that we could not actually do.

The Minister makes a valid point in terms of the certainty. It is totally proper for us to have regard to the interests of the insurance industry, in that it is a relevant part of business operations and it needs to have some clarity and certainty itself. Therefore, for all those reasons, although I understand the sentiment and those are matters that were given considerable consideration both before the legislation was drafted and during the legislative process itself, I oppose amendment 7.

17:41

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have listened carefully to what Members have said and I appreciate that there may be a perverse incentive, if you like, to settle a compensation claim early in order to avoid a further bill down the road in relation to NHS costs. Of course there are advantages to having incentives for people to be able to settle claims early, particularly if somebody has a terminal condition, as they ought to be able to experience the benefits that that compensation might be able to provide them. However, I just want to quote something that the chair of the Asbestos Victims Support Groups Forum UK said. He said,

‘we are just concerned about a good system and a just system.’

It is not ‘just’ if the NHS is not able to recover all of the costs associated with asbestos-related disease. I take on board what the Member in charge has said about needing to keep the system simple and not having to chase up the costs over a 20 or 30-year period, but my amendment would not put a compulsion on Welsh Ministers to continue to issue claims up until the point of death; it would simply enable Ministers, once the clock has stopped, to be able to issue a further certificate that is required to be settled at a point in the future, should they want to be able to do that. It is important that this principle of the polluter paying in full, not in part, is adhered to.

On the one hand, the Minister said earlier that he wanted to maximise the amount that could be recovered under this Bill and, on the other, he seems to not want to recover all of the costs associated with end-of-life care in particular, which I want to introduce via the opportunity for him to be able to recover further costs down the line, right up until the point of death.

Therefore, I want to continue to press this amendment to the vote and I encourage Members to support it.

Os meddylwch am gymhlethdodau gwirioneddol datblygu system a fydd yn cwmpasu unigolion a all, dyweder, fod ag asbestos, ac a all fyw 20, 30 neu 40 mlynedd gyda'r clefyd penodol hwnnw cyn iddynt farw, heb system atal y cloc nid oes modd ysgogi setliad sy'n ein hysbysu a yw'r person wedi datblygu clefyd pellach, neu, mewn gwirionedd, wedi marw. Byddai angen cadw cofrestr o filoedd o bobl dros gyfnod hir iawn. Yr unig ffordd y gallwn ragweld sut y gallem weithredu system o'r fath fyddai, ar wahân i gofrestr o'r fath, ysgrifennu at unigolion o bryd i'w glyd er mwyn cael gwybod i bob diben a ydynt yn dal yn fyw. Mae hynny'n amlwg yn rhywbeth nad oeddem yn gallu ei wneud mewn gwirionedd.

Mae'r Gweinidog yn gwneud pwynt dilyn o ran y sicrwydd. Mae'n gwbl briodol ein bod yn ystyried buddiannau'r diwydiant yswiriant, yn yr ystyr ei fod yn rhan berthnasol o'r gweithrediadau busnes a bod angen iddo gael rhywfaint o eglurder a sicrwydd ei hun. Felly, am yr holl resymau hynny, er fy mod yn deall y safbwynt a fynegwyd a bod y materion hyn yn rhai a gafodd gryn ystyriaeth cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei drafftio ac yn ystod y broses ddeddfwriaethol ei hun, gwrthwynebafe welliant 7.

Rwyf wedi gwrando'n astud ar yr hyn y mae Aelodau wedi'i ddweud a sylweddolaf y gall fod cymhelliant croes, os dymunwch, i setlo hawliad am iawndal yn gynnar er mwyn osgoi bil yn ddiweddarach mewn perthynas â chostau'r GIG. Wrth gwrs, mae manteision os bydd cymhellion i bob allu setlo hawliadau'n gynnar, yn enwedig os oes gan rywun gyflwr terfynol, oherwydd dylent fod yn gallu profi'r manteision y gallai iawndal eu rhoi iddynt. Fodd bynnag, hoffwn ddyfynnu rhywbeth a ddywedodd cadeirydd Fforwm Grwpiau Cymorth Dioddefwyr Asbestos y DU. Meddai,

yr hyn sy'n bwysig i ni yw system dda a system gyfiawn.

Nid yw'n 'gyfiawn' os na all y GIG adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chlefydau sy'n ymwneud ag asbestos. Derbyniaf yr hyn a ddywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am yr angen i gadw'r system yn syml ac osgoi mynd ar ôl costau dros gyfnod o 20 neu 30 mlynedd, ond ni fyddai fy ngwelliant yn rhoi gorfodaeth ar Weinidogion Cymru i barhau i gyhoeddi hawliadau hyd at adeg marwolaeth; yn syml, byddai ond yn galluogi Gweinidogion, unwaith bod y cloc wedi cael ei atal, i roi tystysgrif bellach y mae'n ofynnol ei setlo ar adeg yn y dyfodol, pe baent yn dymuno cael gwneud hynny. Mae'n bwysig cadw at yr egwyddor hon sef y llygrwr sy'n talu, yn llawn ac nid yn rhannol.

Ar y naill law, dywedodd y Gweinidog yn gynharach ei fod am sicrhau y byddai modd adennill cymaint o gostau â phosibl o dan y Bil hwn ac, ar y llaw arall, ymddengys nad yw am adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gofal diwedd oes yn arbennig, yr wyf am ei gyflwyno drwy'r cyfle iddo allu adennill costau bellach yn ddiweddarach hyd at adeg marwolaeth.

Felly, rwyf am barhau i bwyso am y gwelliant hwn a chael pleidlais a hoffwn annog yr Aelodau i'w gefnogi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:43	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? There are objections, therefore, we will have an electronic vote.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes, felly, cawn bleidlais electronig.
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 7.	Result of the vote on amendment 7.
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 7: O blaid 12, Yn erbyn 37, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 7 not agreed: For 12, Against 37, Abstain 0.</i>
	Grŵp 5: Apelau a Hawliadau (Gwelliannau 1, 2 a 3)	Group 5: Appeals and Waivers (Amendments 1, 2 and 3)
17:44	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The lead amendment in the group is amendment 1. I call on the Minister to move amendment 1 and to speak to it and the other amendments in the group.	Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 1. Galwaf ar y Gweinidog i gynig gwelliant 2 a'i drafod ynghyd â'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
17:44	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 1 in my name.	Cynigaf welliant 1 yn fy enw i.
	Amendments 1, 2 and 3 are all of a similar technical nature. They clarify that the regulations that can be made under section 10(7) will relate only to the process for making appeals to Welsh Ministers.	Mae gwelliannau 1, 2 a 3 i gyd o natur dechnegol debyg. Maent yn egluro y bydd y rheoliadau y gellir eu gwneud o dan adran 10 (7) yn ymwneud â'r broses ar gyfer cyflwyno apelau i Weinidogion Cymru yn unig.
	There has never been an intention that these powers could be used to make regulations relating to the processes for appeals after they have been referred to the first tier tribunal by Welsh Ministers under section 11. These amendments do not make any changes to the powers already available in the Bill. Representations have been received during the scrutiny period, but there is a potential that section 10(7) could be misread to suggest that Welsh Ministers would be able to make regulations modifying the processes of the first tier tribunal. I have considered these views and concluded that I should table these amendments to clarify the nature of the powers contained within section 10(7) to avoid any potential misapprehension of our policy intent, and I would ask Members to support these amendments.	Ni fu'n fwiad erioed y gallai'r pwerau hyn gael eu defnyddio i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r prosesau apelio ar ôl iddynt gael eu cyfeirio at y tribiwnlys haen gyntaf gan Weinidogion Cymru o dan adran 11. Nid yw'r newidiadau hyn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r pwerau sydd eisoes ar gael yn y Bil. Cafwyd sylwadau yn ystod y cyfnod craffu, ond mae posibilrwydd y gallai adran 10(7) gael ei chamddarllen i awgrymu y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau sy'n addasu prosesau'r tribiwnlys haen gyntaf. Rwyf wedi ystyried y sylwadau hyn ac wedi dod i'r casgliad y dylwn gyflwyno'r gwelliannau hyn er mwyn egluro natur y pwerau a geir yn adran 10 (7) er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd y gallai ein bwriad polisi gael ei gamddeall, a gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.
17:45	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on Mick Antoniw.	Galwaf ar Mick Antoniw.
17:45	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I have no objection. I support these amendments also.	Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad. Cefnogaf y gwelliannau hyn hefyd.
17:45	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I am sure that you do not want to speak in reply, Minister. Therefore, the question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 1 is, therefore, agreed in accordance with Standing Order 12.36.	Rwy'n siŵr nad ydych am ateb, Weinidog. Felly, y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, derbynnir gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to move amendment 2. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 2.

17:45 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 2 in my name. Cynigiau welliant 2 yn fy enw i.

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 2 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 2.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to move amendment 3. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 3.

17:45 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 3 in my name. Cynigiau welliant 3 yn fy enw i.

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 3 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 3.

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 6: Defnyddio Gwybodaeth (Gwelliant 12)

Group 6: Use of Information (Amendment 12)

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The lead and only amendment in the group is amendment 12. I call on the Minister to move amendment 12. Y prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 12. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 12.

17:46 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 12 in my name. Cynigiau welliant 12 yn fy enw i.

Although this is, again, a technical amendment, it is a more substantial one than the ones discussed and moved by the Government so far, and I thought that I ought to spend a moment explaining to Members that it is because of some detailed and prolonged discussions over this issue that the Bill has been delayed a little in returning to the floor of the Assembly.

Er bod hwn, unwaith eto, yn welliant technegol, mae'n fwy sylweddol na'r rhai a drafodwyd ac a gynnigwyd gan y Llywodraeth hyd yma, ac roeddwn yn meddwl y dylwn dreulio ychydig o amser i esbonio wrth yr Aelodau mai yn sgil rhai trafodaethau manwl a hir ynglŷn â'r mater hwn y bu ychydig o oedi cyn i'r Bil ddychwelyd gerbron y Cynulliad.

The amendment has been tabled following detailed discussions with the Department for Work and Pensions to agree how the cost-recovery scheme under the Bill could be administered by the compensation recovery unit. As Members know, the preferred option has always been for the scheme, introduced by the Bill, to be administered by the CRU, which already administers NHS cost and benefit recovery schemes in personal injury cases. I was grateful for a letter from Lord Freud at the Department for Work and Pensions allowing detailed discussions to go ahead, and those discussions centred on whether section 13 of the original Bill would enable the necessary information-sharing arrangements to take place between the Welsh Ministers and the CRU, so that the scheme under the Bill could be run in tandem with the existing cost and benefit recovery provisions. Due to technicalities in the way in which the CRU holds and processes information in administering the existing recovery schemes, it has been agreed that the best way for the information-sharing arrangements to be implemented is for section 13 to be removed from the Bill and for equivalent provision to be inserted into the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003. The 2003 Act can be amended by way of an Order under section 150 of the Government of Wales Act 2006, and I have already written to the Secretary of State for Wales to start this process. The Secretary of State has replied to that letter in very positive terms, confirming that he has already asked his officials to work with the Government here in order to take forward the necessary Order. I would ask Members to support this amendment on that basis.

Cyflwynwyd y gwelliant yn sgil trafodaethau manwl gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cytuno ar y ffordd y gallai'r cynllun adennill costau o dan y Bil gael ei weinyddu gan yr uned adfer iawndal. Fel y gwyr Aelodau, yr opsiwn a ffeirir o'r cychwyn oedd bod y cynllun, a gyflwynwyd gan y Bil, yn cael ei weinyddu gan yr Uned Adfer Iawndal, sydd eisoes yn gweinyddu cynlluniau adennill cost a budd y GIG mewn achosion o anaf personol. Roeddwn yn ddiolchgar am gael llythyr gan yr Arglwydd Freud yn yr Adran Gwaith a Phensiynau yn caniatáu i drafodaethau manwl fynd yn eu blaen, ac roedd y trafodaethau hynny'n canolbwyntio ar ba un a fyddai adran 13 o'r Bil gwreiddiol yn ei gwneud yn bosibl i'r trefniadau rhannu gwybodaeth sy'n angenrheidiol gael eu rhoi ar waith rhwng Gweinidogion Cymru a'r Uned Adfer Iawndal, fel y gallai'r cynllun o dan y Bil gael ei gynnal ar y cyd â'r darpariaethau adennill cost a budd presennol. Oherwydd materion technegol ynglŷn â'r ffordd y mae'r Uned Adfer Iawndal yn cadw ac yn prosesu gwybodaeth wrth weinyddu'r cynlluniau adennill costau presennol, cytunwyd mai'r ffordd orau o weithredu'r trefniadau rhannu gwybodaeth fyddai dileu adran 13 o'r Bil a mewnosod darpariaeth gyfatebol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Gellir diwygio Deddf 2003 drwy Orchymyn o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac rwyf eisoes wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddechrau'r broses hon. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymateb i'r llythyr hwnnw yn gadarnhaol iawn, gan gadarnhau ei fod eisoes wedi gofyn i'w swyddogion weithio gyda'r Llywodraeth yma er mwyn bwrw ymlaen â'r Gorchymyn angenrheidiol. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn ar y sail honno.

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Mick Antoniw.

Galwaf ar Mick Antoniw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:48 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I support this amendment and I think that it is also worth putting on record the very solid and important work that has been carried out by the lawyers from the Welsh Government side and also by the lawyers from both the DWP and the Wales Office, and, you will not hear me say this very often, but I suppose that I also have to express my thanks to the Secretary of State for Wales, David Jones, in respect of the co-operation that has been achieved in reaching what I think is a practical solution, and one that has enabled the Bill to come forward in a much more positive fashion. So, I put that on record and I support the amendment.

Cefnogaf y gwelliant hwn a chredaf ei bod hefyd yn werth nodi'r gwaith cadarn a phwysig iawn sydd wedi cael ei wneud gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru a hefyd gan gyfreithwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa Cymru. Ni fyddwch yn fy nghlywed yn dweud hyn yn aml iawn, ond mae'n debyg bod yn rhaid imi hefyd ddiolch i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Jones, am y cydweithrediad a gafwyd wrth ddod o hyd i ateb, sydd yn fy marn i, yn ymarferol, ac yn un sydd wedi ei gwneud yn bosibl i'r Bil gael ei gyflwyno mewn modd llawer mwy cadarnhaol. Felly, hoffwn ddweud hynny ar goedd a chefnogaf y gwelliant.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you wish to reply, Minister? I see that you do not. The question is that amendment 12 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 12 is agreed.

A ydych am ymateb, Weinidog? Gwelaf nad ydych. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 12. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 12.

Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 12 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to dispose of amendment 13, which was debated earlier. I call on the Minister to move amendment 13.

Symudwn yn awr i benderfynu ar welliant 13, a drafodwyd yn gynharach. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 13.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 17:49 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 13 in my name. Cynigiad welliant 13 yn fy enw i.
- 17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 13 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 13 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 13. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 13.
Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Amendment 13 agreed in accordance with Standing Order 12.36.
- Grŵp 7: Defnyddio Symiau a Ad-delir (Gwelliannau 14 a 15)** **Group 7: Use of Amounts Reimbursed (Amendments 14 and 15)**
- 17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The lead amendment in the group is amendment 14. I call on the Minister to move amendment 14 and to speak to it and the other amendment in the group. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 14. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 14 a'i drafod ynghyd â'r gwelliant arall yn y grŵp.
- 17:49 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 14 in my name. Cynigiad welliant 14 yn fy enw i.

Amendments 14 and 15 provide further clarification on the duty placed upon the Welsh Ministers to have regard to the expenditure of recovered costs for the purposes set out in the Bill. It has always been the intended purpose of this Bill to provide additional funds for the benefit of victims of asbestos-related diseases, and the Member in charge has explained during the scrutiny process that recovered funds could be better utilised for that purpose if they were pooled, allowing for both greater transparency and economies of scale. To achieve such economies of scale, funds recovered are therefore returned to the Welsh Ministers rather than distributed across LHBs. The use of the funds recovered by the Bill will be visible to anyone, as the Welsh Ministers will report to the Assembly on the allocation of these funds on an annual basis.

Mae gwelliannau 14 a 15 yn rhoi eglurhad pellach ynglŷn â'r ddyletswydd a roddir ar Weiniogion Cymru i roi sylw i'r ffordd y caiff y costau a adenillwyd eu gwario at y dibenion a nodir yn y Bil. Bwriad y Bil o'r cychwyn oedd darparu cyllid ychwanegol er budd dioddefwyr clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, ac mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi esbonio yn ystod y broses graffu y gellid defnyddio'r arian a adenillwyd yn well at y diben hwnnw pe câi ei gyfuno, gan gynnig gwell tryloywder ac arbedion maint. Er mwyn cyflawni arbedion maint o'r fath, bydd arian a adenillwyd yn cael ei ddychwelyd felly i Weiniogion Cymru yn hytrach na chael ei ddosbarthu i'r BILlau. Bydd y defnydd a wneir o'r arian a adenillwyd o dan y Bil yn weladwy i unrhyw un, gan y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ddyrannu'r arian hwn bob blwyddyn.

The Association of British Insurers has suggested—not that I agree with it—that the failure directly to hypothecate the funds back into the NHS in section 16 means that this provision essentially works as a general tax-raising power, which could be outside of competence. While I do not accept that this was the case, I consider that it would be beneficial to amend section 16 so as to clarify beyond any doubt that the duty regarding the application of funds recovered is to be exercised in relation to functions under the National Health Service (Wales) Act 2006. I ask Members to support the amendment.

Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi awgrymu—er nad wyf yn cytuno â hynny—bod y methiant i neilltuo'r arian yn uniongyrchol ar gyfer y GIG yn adran 16 yn golygu bod y ddarpariaeth hon yn ei hanfod yn gweithio fel pŵer cyffredinol i godi treth, a allai fod y tu hwnt i gymhwysedd. Er na dderbyniaf fod hynny'n wir, rwyf o'r farn y byddai'n fuddiol pe bai adran 16 yn cael ei diwygio er mwyn nodi y tu hwnt i bob amheuaeth y bydd y ddyletswydd ynglŷn â defnyddio arian a adenillwyd yn cael ei harfer mewn perthynas â swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant.
- 17:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Mick Antoniw. Galwaf ar Mick Antoniw.
- 17:51 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I support the amendments. Cefnogaf y gwelliannau.

17:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
If amendment 14 is not agreed to, amendment 15 falls. The question is that amendment 14 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 14 is agreed. Os na dderbynnir gwelliant 14, mae gwelliant 15 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 14. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, derbynnir gwelliant 14.

Derbyniwyd gwelliant 14 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 14 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to move amendment 15. Galwaf ar y Gweinidog i gynig gwelliant 15.

17:51 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 15 in my name. Cynigaf welliant 15 yn fy enw i.

17:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 15 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 15 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 15. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 15.

Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 15 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 8: Pŵer i Atal y Ddeddf Dros Dro (Gwelliannau 8 a 9)

Group 8: Power to Suspend the Act (Amendments 8 and 9)

17:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The lead amendment in the group is amendment 8. I call on Darren Millar to move amendment 8 and to speak to it and the other amendment in the group. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 8. Galwaf ar Darren Millar i gynig gwelliant 8 a'i drafod ynghyd â'r gwelliant arall yn y grŵp.

17:51 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 8 in my name. Cynigaf welliant 8 yn fy enw i.

Quite simply, a scheme should not continue if the administration costs become greater than the income that it receives. The amendments in this group give Welsh Ministers a discretionary power to suspend the operation of the Act by Order under the affirmative procedure. These amendments have been tabled because they could be used to suspend the operation of the Act in a situation where the costs of the scheme outweigh the benefits to the NHS.

Yn syml, ni ddylai cynllun barhau os bydd y costau gweinyddol yn dod yn fwy na'r incwm a gaiff. Mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn rhoi pŵer dewisol i Weinidogion Cymru atal gweithrediad y Ddeddf drwy Orchymyn o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu cyflwyno oherwydd gellid eu defnyddio i atal gweithrediad y Ddeddf mewn sefyllfa lle mae costau'r cynllun yn fwy na'r manteision i'r GIG.

The committee was advised that asbestos-related deaths should peak in or around 2016 as a result of improvements to health and safety regulations in the later decades of the twentieth century, including, of course, the complete ban on the use of asbestos products in 1999. So, it is highly likely that the numbers of people suffering from asbestos-related conditions will decrease after 2016, and, as a result, it may well be that the costs of recovery could exceed the amounts that can be recovered in the future, particularly in view of the fact—and I will point it out again—that the amount that is forecasted to be recovered under the Bill is only £900,000 now, compared to a previous amount of £2 million in the former explanatory memorandum. Bearing in mind that we have not addressed the issue of the stop-the-clock mechanism, that could further curtail the income receivable under this scheme in the future. Therefore, I would encourage Members to give Welsh Ministers this discretionary power to cease the operation of the scheme at such a time in the future that it is not worth while to operate it.

Dywedwyd wrth y pwyllgor y dylai marwolaethau sy'n gysylltiedig ag asbestos fod ar eu hanterth oddeutu 2016 o ganlyniad i welliannau i reoliadau iechyd a diogelwch yn negawdau olaf yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys, wrth gwrs, y gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio cynhyrchion asbestos yn 1999. Felly, mae'n debygol iawn y bydd nifer y bobl sydd â chyflyrau sy'n ymwneud ag asbestos yn lleihau ar ôl 2016, ac, o ganlyniad, mae'n ddigon posibl y bydd costau adennill yn mynd yn fwy na'r symiau y gellir eu hadennill yn y dyfodol, yn enwedig yn wyneb y ffaith—a nodaf hynny eto—mai dim ond swm o £900,000 y rhagwelir y bydd yn cael ei adennill o dan y Bil erbyn hyn, o gymharu â swm blaenorol o £2 filiwn yn yr hen femorandwm esboniadol. O gofio nad ydym wedi mynd i'r afael â system atal y cloc, a allai gwtogi ymhellach ar yr incwm sy'n dderbyniadwy o dan y cynllun hwn yn y dyfodol. Felly, byddwn yn annog yr Aelodau i roi'r pŵer dewisol i Weinidogion Cymru atal gweithrediad y cynllun ar adeg yn y dyfodol pan na fydd yn fuddiol i'w weithredu.

17:53

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to respond.

Galwaf yn awr ar y Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:53

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Dirprwy Lywydd. Of course, Darren Millar is right that no Government would wish to operate a cost recovery scheme that recovers a lot less than it costs to administer. I have stressed all the way through that, as a Minister, it is my intention to keep the financial position of the scheme under the Act under review. I do not share Darren's pessimism at the prospect that the amount of money to be recovered under the Bill is likely to fall away, because, sadly, I think that there is evidence emerging that mesothelioma will not peak in 2016, as was originally thought, but may well continue to rise throughout the rest of this decade. For those reasons, I intend to resist amendment 8. The Assembly already has the power to repeal any legislation of the Assembly by making an Assembly Act. This enables the operation of the Act to be terminated through a process that will provide for full Assembly scrutiny. This amendment suggests a process that would not require such a full scrutiny, as it is intended that the action would be taken under subordinate legislation.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wrth gwrs, mae Darren Millar yn iawn na fyddai unrhyw Lywodraeth am weithredu cynllun adennill costau sy'n adennill llawer llai nag y mae'n ei gostio i'w weinyddu. Rwyf wedi pwysleisio o'r cychwyn, fel Gweinidog, ei fod yn fwriad gennyf barhau i adolygu sefyllfa ariannol y cynllun o dan y Ddeddf. Ni rannaf besimistiaeth Darren ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd y swm o arian i'w adennill o dan y Bil yn debygol o leihau, oherwydd, yn anffodus, credaf fod tystiolaeth yn dod i'r amlwg na fydd mesothelioma yn cyrraedd ei anterth yn 2016, fel y tybiwyd yn wreiddiol, ond y gallai barhau i gynyddu drwy gydol gweddill y degawd hwn. Am y rhesymau hynny, bwriadaf wrthod gwelliant 8. Mae gan y Cynulliad y pŵer eisoes i ddiddymu unrhyw ddeddfwriaeth gan y Cynulliad drwy wneud Deddf Cynulliad. Mae hyn yn e gwneud yn bosibl i weithrediad y Ddeddf gael ei derfynu drwy broses a fydd yn rhoi cyfle ar gyfer craffu llawn gan y Cynulliad. Mae'r gwelliant hwn yn awgrymu proses lle na fyddai angen craffu mor llawn, gan y bwriedir y byddai'r camau yn cael eu cymryd o dan is-ddeddfwriaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There is also some lack of clarity in the amendment. It contains no indication as to the intended purpose of any suspension, the duration of a suspension, or how a suspension could be lifted. It is also inflexible and does not allow for any necessary transitional arrangements to be made upon suspension. Amendment 8 suggests that the entire Act would be suspended, which would undoubtedly have an adverse effect on outstanding reviews and appeals, leaving them stranded in some sort of legal no man's land. I believe that the proper level of scrutiny for such an action would be best provided through an Assembly Act. If this amendment were to be passed, however, it would be right for the affirmative procedure to be followed, and, therefore, were amendment 8 to be passed, amendment 9 ought to be supported. However, my advice to the Assembly is that amendment 8 should not be agreed today.

Ceir hefyd rywfaint o ddiffyg eglurder yn y gwelliant. Nid yw'n cynnwys unrhyw arwydd ynghylch diben arfaethedig unrhyw ataliad dros dro, am faint y byddai ataliad dros dro yn parhau, na sut y gellid codi ataliad. Mae hefyd yn anhyblyg ac nid yw'n caniatáu ar gyfer unrhyw drefniadau trosiannol y byddai angen eu gwneud o atal dros dro. Awgryma gwelliant 8 y byddai'r Ddeddf gyfan yn cael ei hatal dros dro, a fyddai'n sicr yn cael effaith andwyol ar adolygiadau ac apelau sydd eto i'w penderfynu, gan eu gadael mewn rhyw fath o wactod cyfreithiol. Credaf mai pasio Deddf gan y Cynulliad fyddai'r ffordd orau o gynnig craffu priodol ar gyfer gweithredu o'r fath. Os derbynnir y gwelliant hwn, fodd bynnag, byddai'n briodol dilyn y weithdrefn gadarnhaol, ac, felly, pe bai gwelliant 8 yn cael ei dderbyn, dylid cefnogi gwelliant 9. Fodd bynnag, fy nghyngor i'r Cynulliad yw na ddylid derbyn gwelliant 8 heddiw.

17:55

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I do not agree to amendment 8 for similar reasons. I would like to comment on the point about the £900,000 that is referred to. We have adopted, throughout the research that has been carried out in very difficult circumstances, the most cautious approach that we could so that we were not over egging the presentations to the Assembly when considering this Bill. It is certainly the case that there has been a blip that is responsible for the figures falling below the 1 million mark. I will comment on what you can do with £900,000 later on, perhaps. However, the reality is that mesothelioma and asbestos diseases are going to continue and all the evidence is that there will be an upward plane for at least another decade. The number of cases may then plateau; we do not exactly know. There is every likelihood that, in fact, the costs that might be recovered will increase. Where there has been some reduction in costs, it is because the treatment that individual mesothelioma sufferers, in particular, are getting from the NHS in Wales has been improving and the support that is being given to minimise the number of in-patient attendances has been very successful, which has been to the benefit of the people who suffer from this terrible disease.

Ni chytunaf ar welliant 8 am resymau tebyg. Hoffwn wneud sylw ar y pwynt ynglŷn â'r swm o £900,000 y cyfeirir ato. Rydym wedi mabwysiadu, drwy gydol y gwaith ymchwil sydd wedi cael ei wneud o dan amgylchiadau anodd iawn, y dull mwyaf gofalus â phosibl fel nad oeddem yn gorlwio'r cyflwyniadau i'r Cynulliad wrth iddo ystyried y Bil hwn. Mae'n sicr yn wir y cafwyd newid annisgwyl sy'n gyfrifol am y ffigurau yn gostwng o dan 1 filiwn. Gwnaf sylwadau ynglŷn â'r hyn y gallwch ei wneud gyda £900,000 yn nes ymlaen, efallai. Fodd bynnag, y gwir amdani yw y bydd mesothelioma a chlefydau asbestos yn parhau a bod yr holl dystiolaeth yn awgrymu y bydd lefelau yn mynd tuag i fyfyr am o leiaf ddegawd arall. Yna bydd nifer yr achosion yn gwastatáu; ni wyddom pryd yn union. Mae'n debygol iawn y bydd y costau y gellid eu hadennill yn cynyddu mewn gwirionedd. Lle bu rhywfaint o ostyngiad yn y costau, y rheswm dros hynny yw bod y driniaeth a roddir i ddiodefwyr mesothelioma unigol, yn arbennig, gan y GIG yng Nghymru wedi bod yn gwella a bod y cymorth sy'n cael ei roi er mwyn lleihau nifer yr apwyniadau fel cleifion mewnol wedi bod yn llwyddiannus iawn, sydd wedi bod er budd y bobl sy'n dioddef o'r clefyd ofnadwy hwn.

17:57

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call Darren Millar to reply.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb.

17:57

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to hear the reassurance that the Minister would not want to operate a scheme that was costing taxpayers to recover. That is very reassuring indeed, and it is entirely appropriate that he should say that. However, as he has indicated himself, the only way for him to stop the scheme from operating in the future under the current terms of the Bill is via another piece of legislation. I think that that is a cumbersome way to address what is likely to be a problem at some point in the future. Even if the number of asbestos-related deaths does not peak in 2016, and if it goes on beyond another decade, there will still come a point at which the benefits to the NHS under the scheme are potentially going to be less than the costs of operating the scheme. I think, therefore, that there needs to be a straight-forward, simplistic mechanism to allow the Minister to use discretionary powers to bring the scheme to an end under those circumstances. So, I will be pushing these matters to a vote.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o glywed y sicrwydd na fyddai'r Gweinidog am weithredu cynllun a oedd yn costio arian trethdalwyr i adennill costau. Mae hynny'n galonogol iawn yn wir, ac mae'n gwbl briodol ei fod yn dweud hynny. Fodd bynnag, fel y nododd ei hun, yr unig ffordd y gall atal y cynllun rhag gweithredu yn y dyfodol o dan delerau presennol y Bil yw drwy ddarn arall o ddeddfwriaeth. Credaf fod hynny'n ffordd feichus o fynd i'r afael â'r hyn sy'n debygol o fod yn broblem rywbryd neu'i gilydd yn y dyfodol. Hyd yn oed os na fydd nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag asbestos yn cyrraedd ei hanterth yn 2016, a hyd yn oed os bydd yn parhau i gynyddu am ddegawd arall, daw adeg rywbryd pan fydd y manteision i'r GIG o dan y cynllun yn llai o bosibl na chostau gweithredu'r cynllun. Credaf, felly, fod angen dull gweithredu syml sy'n caniatáu i'r Gweinidog ddefnyddio pwerau dewisol i ddod â'r cynllun i ben o dan yr amgylchiadau hynny. Felly, byddaf yn gofyn am bleidlais ar y materion hyn.

17:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 8 is not agreed to, amendment 9 falls. The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Os na dderbynnir gwelliant 8, mae gwelliant 9 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes, felly cawn bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8.](#)

[Result of the vote on amendment 8.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 8: O blaid 10, Yn erbyn 37, Ymatal 1.

Amendment 8 not agreed: For 10, Against 37, Abstain 1.

Methodd gwelliannau 9 a 10.

Amendment 9 and 10 fell.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill. I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

I call on the Minister to make a statement regarding Her Majesty the Queen and the Duke of Cornwall's consent.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Chyfnod 3 o Fil Adennill Costau Meddygol Clefydau Asbestos (Cymru). Datganaf y bernir bod pob adran o'r Bil a phob Atodlen iddo wedi'u derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

Galwaf ar y Gweinidog i wneud datganiad ynghylch cysyniad Ei Mawrhydi y Frenhines a Dug Cernyw.

17:59

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Mae gennyf frawddegau fan hyn i'w ddefnyddio.

I have it in command from Her Majesty the Queen and the Duke of Cornwall to acquaint the Assembly that, having been informed of the purport of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill, both have given their consent to this Bill.

Thank you. I have sentences here to use.

Rwyf wedi derbyn gorchymyn gan Ei Mawrhydi y Frenhines a Dug Cernyw i roi gwybod i'r Cynulliad fod y ddau, ar ôl cael gwybod am gynnwys Bil Adennill Costau Meddygol Clefydau Asbestos (Cymru), wedi rhoi eu caniatâd i'r Bil hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Cynnig

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru).

Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

Motion

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill.

18:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Mick Antoniw, the Member in charge of the Bill, to move the motion.

Galwaf ar Mick Antoniw, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, i gynnal y cynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:00

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

I would first of all like to thank the Assembly for passing Stage 3 of the Bill. I believe that this reflects the empathy that we all have in the Chamber for those who have suffered from asbestos diseases and the families who have lost loved ones and whose own lives have consequently been blighted. I also welcome the detailed scrutiny that has been applied by all parties, doing your duty as part of our legislature to ensure that we only produce the best and most effective legislation—legislation where the real test is that it is of benefit to the people of Wales.

Cynigaf y cynnig.

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i'r Cynulliad am basio Cyfnod 3 o'r Bil. Credaf fod hyn yn adlewyrchu'r cydymdeimlad sydd gan bawb ohonom yn y Siambr â'r rhai sydd wedi dioddef o glefydau asbestos a'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid ac y mae eu bywydau eu hunain wedi cael eu difetha o ganlyniad. Croesawaf hefyd y gwaith craffu manwl sydd wedi cael ei wneud gan bob plaid, a chithau'n cyflawni eich dyletswydd fel rhan o'n deddfwrfa er mwyn sicrhau mai dim ond y ddeddfwriaeth orau a mwyaf effeithiol a wneir gennym—deddfwriaeth sy'n bodloni'r gwir brawf ei bod o fudd i bobl Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I would also particularly like to place on record recognition of the quality of the scrutiny work by the Health and Social Care Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee. There is always a temptation with this sort of legislation to think that it will just proceed, because who could possibly disagree? However, it is always absolutely vital and essential that the legislation is fit for purpose; otherwise, it benefits no-one. I also recognise the considerable work of the lawyers, in the Welsh Government and the Wales Office, and, as I said earlier, the work of the Secretary of State for Wales—I said that you would not hear me say it again; I have done it twice now, have I not?—in achieving a practical resolution to the technical legal issues that always arise in this legislative process. I also recognise the considerable expertise and support of the team allocated to me from the Table Office, the research department and the legal office.

I had always hoped that what we would have with this legislation was unanimity, because of the nature of the legislation and what it is aimed at and intended to achieve. The opposition has made its position clear, but at this stage, I would just implore you, individually—because I know that there are individuals who support this legislation—just to think about the purpose of it. I think that it is the right thing to do, and it would give credit to this legislation for it to go through its final stage with unanimity of support from all Members of the Assembly.

Hoffwn hefyd yn benodol gydnabod ar goedd safon y gwaith craffu gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Gyda'r math hwn o ddeddfwriaeth mae bob amser yn demtasiwn meddwl y bydd yn mynd rhagddi, oherwydd pwy ar y ddaear allai anghytuno? Fodd bynnag, mae bob amser yn hanfodol bwysig bod y ddeddfwriaeth yn addas at y diben; fel arall, ni fydd o fudd i neb. Rwyf hefyd yn cydnabod gwaith sylweddol y cyfreithwyr, yn Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru, ac, fel y dywedais yn gynharach, waith Ysgrifennydd Gwladol Cymru—dywedais na fydech yn fy nghlywed yn dweud hynny eto; rwyf wedi gwneud hynny ddwywaith yn awr onid ydwyf?—i ddod o hyd i ateb ymarferol i'r materion cyfreithiol technegol sydd bob amser yn codi yn y broses ddeddfwriaethol hon. Rwyf hefyd yn cydnabod arbenigedd a chymorth hynod y tîm a ddyrannwyd imi gan y Swyddfa Gyflwyno, yr adran ymchwil a'r swyddfa gyfreithiol.

Roeddwn bob amser wedi gobeithio y byddem yn pasio'r ddeddfwriaeth hon yn unfrydol, oherwydd natur y ddeddfwriaeth a'r hyn y mae'n anelu at ei gyflawni ac yn bwriadu ei gyflawni. Mae'r wrthblaid wedi gwneud ei safbwynt yn glir, ond yn awr, hoffwn erfyn arnoch, yn unigol—gan fy mod yn gwybod bod unigolion yn cefnogi'r ddeddfwriaeth hon—i feddwl am ei diben. Credaf mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ac y byddai'n glod i'r ddeddfwriaeth hon pe bai'n mynd drwy ei chyfnod olaf gyda chefnogaeth unfrydol holl Aelodau'r Cynulliad.

18:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister. Oh, I beg your pardon; Darren Millar.

Galwaf ar y Gweinidog. O, mae'n ddrwg gennyf, Darren Millar.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:02 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and a thank you to the Member in charge for the work that he has done on this Bill. I want to congratulate him on the way that he has conducted himself throughout the different legislative stages of the Bill. I am also very grateful for the way in which he has kept me informed during the course of the Bill's progress through the Assembly and for offering briefings to me as an individual Assembly Member and a member of the Health and Social Care Committee.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i'r Aelod sy'n gyfrifol am y gwaith y mae wedi'i wneud ar y Bil hwn. Hoffwn ei longyfarch ar y ffordd y mae wedi ymddwyn drwy gydol y gwahanol gyfnodau deddfwriaethol o'r Bil. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn am y ffordd y mae wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf imi yn ystod hynt y Bil drwy'r Cynulliad ac am gynnis sesiynau briffio imi fel Aelod Cynulliad unigol ac aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We accept fully as a party the principle behind this Bill, namely that the NHS ought to be able to recover the costs of industrial-related diseases where compensation payments have been triggered. I think that it is really important to stress that message that we are fully behind the principle of this Bill. The reason that we will be voting against this Bill today is that we believe that it is wrong simply to take out asbestos-related diseases and not to apply this Bill more widely to other industrial diseases. We would have liked to have seen the Welsh Government come forward with a more comprehensive piece of legislation that touches on other preventable industrial diseases, rather than just the asbestos-related diseases. We know that other industrial diseases, in common with asbestos-related diseases, can have a devastating impact on individuals and their families, and that is why, unfortunately and regrettably, we will have to vote against this Bill, because we do not feel that it is wide enough in its scope as it is currently drafted.

Rydym yn llwyr dderbyn fel plaid yr egwyddor sy'n sail i'r Bil hwn, sef y dylai'r GIG fod yn gallu adennill costau clefydau sy'n ymwneud â diwydiant lle mae taliadau iawndal wedi cael eu hysgogi. Credaf ei bod yn wirioneddol bwysig pwysleisio'r neges honno ein bod yn gwbl gefnogol i egwyddor y Bil hwn. Y rheswm y byddwn yn pleidleisio yn erbyn y Bil hwn heddiw yw ein bod yn credu ei bod yn amhriodol dewis clefydau sy'n ymwneud ag asbestos a pheidio â chymhwysio'r Bil hwn yn ehangach at glefydau diwydiannol eraill. Hoffem fod wedi gweld Llywodraeth Cymru yn cyflwyno darn mwy cynhwysfawr o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â chlefydau diwydiannol eraill y gellir eu hatal, yn hytrach na'r clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yn unig. Gwyddom y gall clefydau diwydiannol eraill, yn yr un modd â chlefydau sy'n ymwneud ag asbestos, gael effaith enbyd ar unigolion a'u teuluoedd, a dyna pam, yn anffodus, y bydd yn rhaid inni bleidleisio yn erbyn y Bil hwn, oherwydd nid ydym yn teimlo ei bod yn ddigon eang ei gwmpas fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd.

We urge the Minister to explore bringing forward further legislation in this area, should this Bill proceed today and be successful at Stage 4, so that the principle can be applied more widely in the future.

Rydym yn annog y Gweinidog i ystyried cyflwyno deddfwriaeth bellach yn y maes hwn, pe bai'r Bil hwn yn mynd rhagddo heddiw ac yn cael ei dderbyn yng Nghyfnod 4, fel y gellir cymhwyso'r egwyddor yn ehangach yn y dyfodol.

18:04

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I would like to thank the Member in charge for bringing forward this Bill to help asbestos victims and their families in Wales. Mick Antoniw's history of campaigning and working on the issues of asbestos-related diseases is well recognised, and this Bill is but a part of those efforts. He himself has been strongly supported in developing and bringing forward the Bill, by Members here and by individuals and organisations beyond the Assembly as well.

I would like to associate myself with what the Member in charge said in thanking members of the Health and Social Care Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their careful consideration and scrutiny of the Bill, drawing on the evidence of those who provided material to them during the Stage 1 committee sessions. I particularly extend my thanks once again to those representatives of asbestos-related disease and cancer support groups who gave such powerful and personal evidence to the committee on the harsh realities of these terrible diseases for the sufferers of them and their families. The work that has gone in means, I believe, that we can all be confident that this is now a Bill that will achieve positive financial benefits to asbestos-related disease victims and their families. The intention of the Bill has always been to recover the cost of NHS treatment in a cost-effective manner for patients who have sustained asbestos-related disease, so that the costs recovered can be made available to support victims and their families.

A number of times during the debate reference was made to the fact that the Bill now expects to recover some £900,000 a year, and that that is less than was originally anticipated, but to put that in perspective, it is important to remind Members that mesothelioma is the seventeenth biggest cancer killer in the United Kingdom, and in 2011, the last year for which figures are available, only £400,000 was spent on mesothelioma research by the National Cancer Research Institute's members. Compare that to the £5.6 million—a sum 14 times more—on the eighteenth biggest killer, malignant melanoma. So, with the £900,000 that this Bill will realise, we could double the amount of research carried out in every single year into this terrible disease, and we would still have money left over to do more than provide a specialist asbestos nurse in every single local health board in Wales. Even at £900,000, this Bill will make a real difference to the lives of people who are suffering from this disease today and, through the research effort, it could make a profound difference to those 56,000 people who will otherwise die from mesothelioma over the next 30 years.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Bil hwn i helpu dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae hanes Mick Antoniw o ymgrychu a gweithio dros faterion sy'n gysylltiedig â chlefydau sy'n ymwneud ag asbestos yn hysbys iawn, ac nid yw'r Bil hwn ond yn rhan o'r ymdrechion hynny. Mae yntau wedi cael cefnogaeth gref i ddatblygu a chyflwyno'r Bil, gan Aelodau yma a chan unigolion a sefydliadau y tu hwnt i'r Cynulliad hefyd.

Hoffwn ategu'r hyn a ddywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrth ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried a chraffu ar y Bil yn ofalus, gan ddefnyddio tystiolaeth y rhai a roddodd ddeunydd iddynt yn ystod sesiynau pwyllgor Cyfnod 1. Yn arbennig, hoffwn ddiolch unwaith eto i'r cynrychiolwyr hynny o grwpiau cymorth clefydau sy'n ymwneud ag asbestos a grwpiau cymorth canser a roddodd dystiolaeth mor rymus a phersonol i'r pwyllgor ar realiti anodd y clefydau ofnadwy hyn i'r rhai sy'n dioddef ohonynt a'u teuluoedd. Mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn golygu, fe gredaf, y gallwn i gyd fod yn hyderus bod hwn bellach yn Fil a fydd yn sicrhau manteision ariannol cadarnhaol i ddiodeffwyr clefydau sy'n ymwneud ag asbestos a'u teuluoedd. Bwriad y Bil o'r cychwyn oedd adennill costau triniaeth y GIG mewn modd costeffeithiol ar gyfer cleifion sydd wedi dioddef clefyd sy'n ymwneud ag asbestos, fel y gall y costau a adenillwyd fod ar gael i gefnogi dioddefwyr a'u teuluoedd.

Sawl gwaith yn ystod y ddadl y cyfeiriwyd at y ffaith bod y Bil bellach yn disgwyl adennill tua £900,000 y flwyddyn, a bod hynny'n llai na'r swm a ragwelwyd yn wreiddiol, ond er mwyn rhoi hynny yn ei gyd-destun, mae'n bwysig atgoffa Aelodau mai mesothelioma yw'r ail achos mwyaf ar bymtheg o farwolaethau yn y Deyrnas Unedig, ac yn 2011, y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer, dim ond £400,000 a gafodd ei wario ar ymchwil i fesothelioma gan aelodau'r Sefydliad Ymchwil Canser Cenedlaethol. Cymharwch hynny â'r £5.6 miliwn—swm sy'n 14 gwaith yn fwy—ar y deunawfed achos mwyaf o farwolaethau, sef melanoma malaen. Felly, gyda'r swm o £900,000 y bydd y Bil hwn yn ei wireddu, gallem ddyblu faint o ymchwil a wneir bob blwyddyn i'r clefyd dychrynlyd hwn, a bydd arian dros ben o hyd i wneud mwy na darparu nyrs asbestos arbenigol ym mhob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Hyd yn oed o gynhyrchu £900,000, bydd y Bil hwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl sy'n dioddef o'r clefyd hwn heddiw a, thrwy waith ymchwil, gallai wneud gwahaniaeth mawr i'r 56,000 o'r bobl hynny a fydd fel arall yn marw oherwydd mesothelioma dros y 30 mlynedd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Like Mick Antoniw, I would like to appeal to Members right across the Chamber to support the Bill at Stage 4. I am puzzled by what the Conservative party has said this afternoon. They strike me as the person who has no home who is offered the chance to build a modest bungalow in which they could live very comfortably, but who say, 'While we'd like to live in that bungalow, unless it has the gym and the jacuzzi, we won't have the bungalow at all.' Here is a Bill that offers something that they say they would like to achieve, and they could vote for it this afternoon.

Fel Mick Antoniw, hoffwn innau erfyn ar Aelodau o bob rhan o'r Siambr i gefnogi'r Bil yng Nghyfnod 4. Rwyf wedi fy nrysu gan yr hyn a ddywedodd y blaid Geidwadol y prynhawn yma. Mae'n ymddangos imi fel y person sydd heb gartref sy'n cael cyfle i adeiladu byngalo bach lle y gallai fyw'n gyfforddus iawn, ond sy'n dweud, 'Er yr hoffem fyw yn y byngalo hwnnw, oni bai bod campfa a phwll, byddwn yn gwrthod y byngalo yn gyfan gwbl.' Dyma Fil sy'n cynnig rhywbeth y maent yn dweud yr hoffent ei gyflawni, ac y gallent bleidleisio drosto y prynhawn yma.

18:08 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that is a very unfair analogy, Minister. If I can, I will use another analogy: it is like setting up an NHS, but only doing certain operations. We simply want to widen this principle, and I believe that you do, too. I would ask you to answer the direct question: will you bring forward legislation so that other industrial diseases can have similar treatment in the future?

Credaf fod hynny'n gyfatebiaeth annheg iawn, Weinidog. Os caf, byddaf yn defnyddio cyfatebiaeth arall: mae'n ymdebygu i sefydlu GIG, ond dim ond cynnal rhai mathau o lawdriniaeth. Y cyfan yr ydym am ei wneud yw ehangu'r egwyddor hon, a chredaf eich bod chithau hefyd am wneud hynny. Hoffwn ofyn ichi ateb y cwestiwn uniongyrchol: a wnewch gyflwyno deddfwriaeth fel y gall clefydau diwydiannol eraill gael triniaeth debyg yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:09 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The idea of extending the principle of this Bill to other industrial diseases is one that has been extensively rehearsed during the passage of the Bill, and it has a great deal of merit in that debate. However, we have always said—and the Member in charge has always said—that by bringing forward a focused Bill on a particular industrial disease where the arguments are clear-cut, we will all be able to learn a great deal and we will apply that learning to any future legislation that might be brought forward. It is absolutely not—how could it possibly be?—an argument for voting against this Bill. It would be to be Assembly's credit if we were able to be unanimous in passing it today.

Mae'r syniad o ymestyn egwyddor y Bil hwn i glefydau diwydiannol eraill yn un sydd wedi cael ei drafod yn helaeth yn ystod hynt y Bil, ac mae iddo gryn werth o ran y ddadl honno. Fodd bynnag, rydym bob amser wedi dweud—ac mae'r Aelod sy'n gyfrifol bob amser wedi dweud—mai drwy gyflwyno Bil sy'n canolbwyntio ar glefyd diwydiannol penodol lle mae'r dadleuon yn glir y byddwn i gyd yn gallu dysgu llawer iawn ac y byddwn yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd at unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol a allai gael ei chyflwyno. Nid yw hynny'n ddadl o gwbl—sut ar y ddaear y gallai fod?—dros bleidleisio yn erbyn y Bil hwn. Byddai'n glod i'r Cynulliad pe gallem fod yn unfrydol wrth ei dderbyn heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let me end by saying that it has been rewarding for me as a Minister to work alongside the Member in charge. I look forward to the opportunity to implement the Bill's intentions and to bring forward the relevant commencement Orders, regulations and statutory guidance, which will follow from it if it is endorsed today. I thank everyone who has contributed to the debate. I add my support to the Bill and ask Members here to do likewise.

Gadewch imi orffen drwy ddweud ei bod wedi bod yn brofiad buddiol imi fel Gweinidog i weithio ochr yn ochr â'r Aelod sy'n gyfrifol. Edrychaf ymlaen at y cyfle i weithredu bwriadau'r Bil ac i gyflwyno'r Gorchmynion cychwyn, y rheoliadau a'r canllawiau statudol perthnasol, a fydd yn deillio ohono os bydd yn cael ei gymeradwyo heddiw. Hoffwn ddiolch i baw sydd wedi cyfrannu i'r ddadl. Hoffwn ychwanegu fy nghefnogaeth i'r Bil a gofyn i'r Aelodau yma wneud yr un fath.

18:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Mick Antoniw to reply to the debate.

Galwaf ar Mick Antoniw i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To be completely clear, there has only ever been one reason to bring forward this Bill: to provide additional support to the hundreds and, over the years, thousands of Welsh men and women who suffer from or will suffer from asbestos disease, and whose lives have been so particularly blighted.

A bod yn gwbl glir, dim ond un rheswm fu erioed dros gyflwyno'r Bil hwn: rhoi cymorth ychwanegol i'r cannoedd a, thros y blynyddoedd, y miloedd o ddynion a merched yng Nghymru sy'n dioddef o glefyd asbestos neu a fydd yn dioddef ohono, y mae'r clefyd wedi cael effaith mor andwylol ar eu bywydau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It also establishes an important principle that already exists in law, to some extent, which is that those who are liable for causing this disease should also accept the consequences for the public medical costs incurred. As I said, that already happens with road traffic accidents and workplace accidents.

Mae hefyd yn sefydlu egwyddor bwysig sydd eisoes yn bodoli o dan y gyfraith, i ryw raddau, sef y dylai'r rhai sy'n atebol am achosi'r clefyd hwn hefyd dderbyn y goblygiadau o ran y costau meddygol cyhoeddus sy'n codi o ganlyniad. Fel y dywedais, mae hynny eisoes yn digwydd gyda damweiniau traffig ar y ffyrdd a damweiniau yn y gweithle.

Throughout the scrutiny of this Bill, I am grateful for the considerable support and advice from the Minister for Health and Social Services and your predecessor, and for the support from my own trade union, the GMB, and Unite the Union. The two unions have fought so many battles for their members who suffer from asbestos disease and from which so many have died. They have contributed their own members' funds in order to pay for legal opinions, advice and drafting in the very early stages of this Bill, which I am convinced has contributed to the efficacy and, I think, the quality of this particular legislation.

I hope that the support for this Bill will be unanimous. I have to say that, in agreement with the Minister, I am equally puzzled that a private Member's Bill, which was always brought on the basis of helping the victims of asbestos, is now being opposed on the basis that it does not go beyond the terms of the remit that were given to me by the Assembly and voted for, I think, unanimously, in the Assembly.

If you choose to vote against this Bill, that will be a decision that members of the public, and in particular, sufferers of asbestos disease and their families will not understand or comprehend. What is it that you are opposing? Even if it is only £900,000 a year—and that is an ultra-cautious figure—that alone could provide 19 cancer nurses. It could provide a full-time cancer nurse and a full-time councillor for the families and victims in local health boards, and, importantly, it could contribute and leverage in further funds in terms of research. I can envisage a situation where a sum of money put forward could leverage in double or treble the amount in additional research funding. It could show that, within Wales, we are making a massive and significant contribution to tackling this particular disease.

I will leave that to your consciences; it is a matter that you will have to justify to your constituents and the public at large, if you choose to go down that particular road. To the rest of you, I say this: the Bill will not change the world for asbestos victims, it will not give them all the justice that they deserve, but I believe that it will show that we do care and that we can use the powers that we have been given to pass legislation that can make a difference and contribute to making the lives of sufferers and their families that little bit better. [Assembly Members: 'Hear, hear'.]

Drwy gydol y broses o graffu ar y Bil hwn, rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth a'r cyngor helaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'ch rhagflaenydd, ac am gefnogaeth fy undeb llafur fy hun, y GMB, ac Undeb Unite. Mae'r ddau undeb wedi ymladd cymaint o frwydrau dros eu haelodau sy'n dioddef o glefyd asbestos, y mae cymaint ohonynt wedi marw o'r herwydd. Maent wedi cyfrannu arian eu haelodau eu hunain er mwyn talu am farnau cyfreithiol, cyngor a drafftio yn ystod y camau cynnar iawn o'r Bil hwn, yr wyf yn argyhoeddedig eu bod wedi cyfrannu at effeithiolrwydd ac, fe gredaf, safon y ddeddfwriaeth benodol hon.

Gobeithio y bydd y gefnogaeth i'r Bil hwn yn unfrydol. Rhaid imi ddweud, fel y Gweinidog, fy mod innau hefyd wedi fy nrysu bod Bil Aelod preifat, a gyflwynwyd o'r cychwyn er mwyn helpu dioddefwyr asbestos, bellach yn cael ei wrthwynebu ar y sail nad yw'n mynd y tu hwnt i'r cylch gwaith a roddwyd imi gan y Cynulliad ac y pleidleiswyd drosto, fe gredaf, yn unfrydol, yn y Cynulliad.

Os byddwch yn dewis pleidleisio yn erbyn y Bil hwn, bydd yn benderfyniad na fydd aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig y rhai sy'n dioddef o glefyd asbestos a'u teuluoedd, yn ei ddeall. Beth rydych yn ei wrthwynebu? Hyd yn oed os mai dim ond £900,000 y flwyddyn—ac mae hynny'n ffigur hynod ofalus—a gynhyrchir, gallai'r swm hwnnw ar ei ben ei hun ddarparu 19 o nyrsys canser llawn amser a chynghorydd llawn amser ar gyfer y teuluoedd a'r dioddefwyr mewn byrddau iechyd lleol, ac, yn bwysig ddigon, gallai gyfrannu at waith ymchwil a denu mwy o arian ymchwil. Gallaf ragweld sefyllfa lle gallai swm o arian ac yn gynyddedig helpu i ddyblu neu dreblu'r arian sydd ar gael ar gyfer ymchwil ychwanegol. Gallai ddangos ein bod ni, yng Nghymru, yn gwneud cyfraniad enfawr a sylweddol i fynd i'r afael â'r clefyd penodol hwn.

Gadawaf hynny i'ch cydwybod; mater ydyw y bydd yn rhaid i chi ei gyfiawnhau i'ch etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol, os dewiswch wrthwynebu. I'r gweddill ohonoch, dywedaf hyn: ni fydd y Bil yn trawsnewid bywydau dioddefwyr asbestos, ni fydd yn rhoi pob cyfiawnder y maent yn ei haeddu, ond credaf y bydd yn dangos bod hyn yn bwysig inni ac y gallwn ddefnyddio'r pwerau a roddwyd inni er mwyn pasio deddfwriaeth a all wneud gwahaniaeth a chyfrannu at wneud bywydau dioddefwyr a'u teuluoedd ychydig yn well. [Aelodau Cynulliad: 'Clywch, clywch.']

18:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that that the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill be passed. Does any Member object? There are objections, therefore we will have an electronic vote.

[Canlyniad y bleidlais ar y cynnig.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 10, Ymatal 0.

Y cwestiwn yw a ddylid pasio'r Bil Adennill Costau Meddygol Clefydau Asbestos (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes, felly cawn bleidlais electronig.

[Result of the vote on the motion.](#)

Motion agreed: For 38, Against 10, Abstain 0.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:14

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I therefore declare that the Bill is agreed.

Felly, datganaf fod y Bil yn cael ei dderbyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Voting time now follows. Before I commence voting, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynneg NDM5363.](#)

Gwrthodwyd y cynneg: O blaid 10, Yn erbyn 38, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5363.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 4, Yn erbyn 44, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5363.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 33, Yn erbyn 15, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i NDM5363.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 4, Yn erbyn 34, Ymatal 10.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i NDM5363.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5363.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 34, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i NDM5363.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 10, Ymatal 0.

Cynnig NDM5363 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi nad yw polisi'r Ceidwadwyr Cymreig 'Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru' yn cydnabod mai'r broblem tai mwyaf brys yw'r effaith enbyd y mae'r Dreth Ystafell Wely yn ei chael ar nifer o denantiaid tai cymdeithasol, gan effeithio ar allu landlordiaid cymdeithasol i gynyddu'r cyflenwad tai, ac felly'n annog Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Dreth Ystafell Wely;

2. Yn nodi mai dim ond un ar ddeg o gynghorau lleol yng Nghymru sy'n dal i fod â stoc tai cyngor yn eu meddiant ac mae hynny'n llesteirio gweledigaeth Ceidwadwyr Cymreig i adfer cynllun 'Hawl i Brynu' yng Nghymru, a bod y pŵer i atal yr Hawl i Brynu tai cyngor mewn ardaloedd lle mae llawer o alw yn arf pwysig i helpu i leihau lefelau digartrefedd a phrinder tai cymdeithasol;

Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi ddechrau pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5363.](#)

Motion not agreed: For 10, Against 38, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 1 to NDM5363.](#)

Amendment not agreed: For 4, Against 44, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 2 to NDM5363.](#)

Amendment agreed: For 33, Against 15, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 3 to NDM5363.](#)

Amendment not agreed: For 4, Against 34, Abstain 10.

[Result of the vote on amendment 4 to NDM5363.](#)

Amendment not agreed: For 22, Against 26, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 5 to NDM5363.](#)

Amendment not agreed: For 14, Against 34, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 6 to NDM5363.](#)

Amendment agreed: For 38, Against 10, Abstain 0.

Motion NDM5363 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the Welsh Conservative policy 'A Vision for Welsh Housing' fails to recognise that the most urgent housing issue is the devastating impact of the Bedroom Tax on many social housing tenants thereby affecting social landlords' ability to increase housing supply, and therefore urges the UK Government to repeal the Bedroom Tax;

2. Notes that only eleven local councils in Wales still hold council housing stock which restricts the Welsh Conservative vision to rejuvenate a 'Right to Buy' scheme in Wales and that the power to suspend the Right to Buy for council houses in areas of high demand is a vital tool to help reduce homelessness and a lack of social housing;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r farchnad gyfan i sicrhau y ceir ateb i'r argyfwng cyflenwad tai.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5363 fel y'i diwygiwyd.](#)

Gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 12, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5362.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 10, Ymatal 0.

3. Calls on the Welsh Government to work with the whole market to ensure that a solution to the housing supply crisis is found.

[Result of the vote on motion NDM5363 as amended.](#)

Motion as amended not agreed: For 12, Against 36, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5362.](#)

Motion agreed: For 38, Against 10, Abstain 0.

18:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Would those Members who are going to leave the Chamber please do so quickly and quietly? A fyddai'r Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr yn gwneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:19 **Dadl Fer: Rheoleiddio Gorfodol gan y Wladwriaeth ar gyfer y Diwydiant Trin Gwallt yng Nghymru: Pryder Iechyd Cyhoeddus Ehangach**

Short Debate: Mandatory State Regulation of the Hairdressing Industry in Wales: A Wider Public Health Concern.

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am very pleased this afternoon to be able to bring forward a short debate on a matter that is perhaps quite different to the usual topics discussed here in the Chamber. It is not an issue that you might think that I was a likely candidate to raise, either, and you might wonder why it is that I am bringing it to you. Let me tell you why: it is because there are serious issues at the heart of this campaign. I believe that because I am not a likely candidate, it further demonstrates the substance and importance of what I am about to outline. Therefore, all jokes aside, I will do my best to put forward those issues in a constructive fashion.

Mae'n bleser gennyf allu cyflwyno'r ddadl fer hon y prynhawn yma ar fater sydd efallai braidd yn wahanol i'r pynciau arferol a drafodir yma yn y Siambr. Nid yw efallai yn fater y byddech yn disgwyl imi fel ymgeisydd ei godi, ychwaith, ac efallai eich bod yn meddwl tybed pam fy mod yn ei gyflwyno. Gadewch imi ddweud wrthy ch pam: oherwydd bod materion difrifol wrth wraidd yr ymgyrch hon. Mae'r ffaith nad yw'n bwnc y byddai disgwyl imi ei godi, yn fy marn i, yn ategu ymhellach sylwedd a phwysigrwydd yr hyn rwyf ar fin ei amlinellu. Felly, gan roi'r gorau i'r digrifwch, gwnaf fy ngorau i gyflwyno'r materion hynny mewn modd adeiladol.

Let me say clearly from the outset that the vast majority of hairdressers in Wales and the UK are very respected, highly competent and have worked long and hard to train. However, as always, there are some that do not fall into this category and therefore damage this good reputation. The short debate today draws on a wider campaign by the Hairdressing Council for proper regulation of this industry. Some Members will be aware of this campaign, and I am aware that there is cross-party support for it. On Monday, ahead of this debate, I visited the Andrew Price salon in Llanelli. Members of staff there were keen to emphasise that employers support the campaign. As well as being beneficial for business in Wales, it brings credibility to the craft. They were keen to bring Wales in line with other international markets, and for Wales to lead the way within the UK.

Gadewch imi ddweud yn glir o'r cychwyn cyntaf bod parch mawr tuag at y mwyafrif helaeth o drinwyr gwallt yng Nghymru ac yn y DU, eu bod yn gymwysedig iawn a'u bod wedi gweithio'n galed am gyfnod hir i hyfforddi. Fodd bynnag, fel bob amser, mae rhai nad ydynt yn perthyn i'r categori hwn ac sydd, o ganlyniad, yn dwyn anfri ar yr enw da hwn. Mae'r ddadl fer heddiw yn seiliedig ar ymgyrch ehangach gan y Cyngor Trin Gwallt am i'r diwydiant hwn gael ei reoleiddio'n briodol. Bydd rhai Aelodau yn ymwybodol o'r ymgyrch hon, ac rwy'n ymwybodol bod cefnogaeth drawsbleidiol iddi. Ddydd Llun, cyn y ddadl hon, ymwelais â salon Andrew Price yn Llanelli. Roedd aelodau o staff yno yn awyddus i bwysleisio bod cyflogwyr yn cefnogi'r ymgyrch. Yn ogystal â'r ffaith ei bod o fudd i fusnes yng Nghymru, daw â hygredded i'r grefft. Roeddent yn awyddus i sicrhau bod Cymru yn gweithredu'n unol â marchnadoedd rhyngwladol eraill, ac i Gymru ddangos esiampl yn y DU.

The Hairdressing (Registration) Act 1964 created the Hairdressing Council and provides its current constitution—to set up and maintain a register of hairdressers. Under that Act, a person can register when they meet certain stipulations provided for by the council, such as having attended a course or training, or served a period of apprenticeship. In a nutshell you have to show evidence, but that evidence is that you are suitably qualified, therefore further regulation is needed. However, this system is voluntary. The problem is therefore the lack of teeth given in these powers. The campaign now run by the Hairdressing Council is to require the compulsory regulation of all hairdressers and barbers. Previous attempts at self-regulation have not been fruitful, largely because voluntary codes mean only the best commit themselves to better practice, while the unsafe carry on with business as usual.

However, when I met with Shirley Davies Fox, the Welsh representative on the Hairdressing Council, and when I started to research this issue, what I found was surprising to say the least. Everyone uses a hairdresser or a barber—that much is true. Whatever your standards, let us be honest, expecting them to be qualified is a minimum expectation. Would it shock you to learn that, in the UK, hairdressers do not actually need to be qualified to set up a salon, to administer treatments or to teach others? According to ISA Training, an organisation specialising in workplace training within the hair sector, most consumers are shocked to find this out.

Considering the potentially dangerous chemicals and dyes used, I am not surprised at this shock. I have been made aware of several bad stories that have resulted in hair and skin damage, however I am also aware that this campaign is a positive one, so I will refrain from sharing those stories and images.

The campaign seeks mandatory state regulation to raise the collective bar across the industry, as well as to ensure that the unqualified are not eligible to practice. We ought to have a duty of care to members of the public, who are not always aware of the risks. In any accidents resulting from the misuse of chemicals or dyes, people often turn to the NHS for treatment, which generates a cost. We saw this in the wake of the Poly Implant Prothèse implants incident.

Another concern that came up during discussions is that the usual method or practice is a trade test. I am told in some cases that this test is considered more highly by employers than any qualifications. When taken together, they form an appropriate assessment, but a trade test should always be sought alongside qualifications.

Creodd Deddf Trin Gwallt (Cofrestru) 1964 y Cyngor Trin Gwallt a nodir ei gyfansoddiad presennol yn y ddeddf honno—sef sefydlu a chynnal cofrestr o drinwyr gwallt. O dan y Ddeddf honno, gall person gofrestru pan fydd yn bodloni amodau penodol a bennir gan y cyngor, megis mynychu cwrs neu hyfforddiant, neu gwblhau cyfnod prentisiaeth. Yn gryno, rhaid ichi ddangos tystiolaeth, ond nod y dystiolaeth yw dangos bod gennych gymwysterau addas, felly mae angen trefniadau rheoleiddio pellach. Fodd bynnag, system wirfoddol yw'r system hon. Felly yn anffodus, nid yw'r pwerau hyn yn ddigon grymus. Nod yr ymgyrch sydd ar waith yn awr gan y Cyngor Trin Gwallt yw ei gwneud yn ofynnol i bob siop trin gwallt a barbwr fod yn destun rheoleiddio gorfodol. Ni fu ymdrechion blaenorol i hunanreoleiddio yn llwyddiannus, i raddau helaeth am fod codau gwirfoddol yn golygu mai dim ond y goreuon sy'n ymrwymo i arfer gwell, tra bod y gweithwyr ag arferion anniogel yn parhau i weithredu fel arfer.

Fodd bynnag, pan gyfarfûm â Shirley Davies Fox, cynrychiolydd Cymru ar y Cyngor Trin Gwallt, a phan ddechreuais ymchwilio i'r mater hwn, roedd yr hyn a ganfûm yn peri syndod a dweud y lleiaf. Mae pawb yn defnyddio triniwr gwallt neu farbwr—mae hynny'n wir. Ni waeth beth fo'ch safonau, gadewch inni fod yn onest, mae pawb yn disgwyl iddynt fod yn gymwys o leiaf. A fyddai'n peri syndod ichi wybod, yn y DU, nad oes yn rhaid i drinwyr gwallt fod yn gymwys i agor salon, i ddarparu triniaethau nac i addysgu eraill? Yn ôl ISA Training, sef sefydliad sy'n arbenigo mewn hyfforddiant yn y gweithle i'r sector gwallt, mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn synnu o ddarganfod hyn.

O ystyried y cemegau a'r lliwrau a all fod yn beryglus a ddefnyddir, nid yw'n syndod gennyf eu bod yn cael eu synnu. Cefais wybod am sawl stori wael sydd wedi arwain at niwed i'r gwallt a'r croen, ond rwyf hefyd yn ymwybodol bod hon yn ymgyrch gadarnhaol, felly ymatalaf rhag rhannu'r straeon a'r delweddau hynny.

Mae'r ymgyrch yn gofyn am drefniadau rheoleiddio gorfodol gan y wladwriaeth er mwyn codi safonau cyffredinol drwy'r diwydiant cyfan, yn ogystal â sicrhau na fydd unigolion heb gymwysterau yn gymwys i ymarfer. Dylai fod gennym ddyletswydd gofal i aelodau'r cyhoedd, nad ydynt bob amser yn ymwybodol o'r risgiau. O ganlyniad i unrhyw ddamweiniau sy'n deillio o gamddefnyddio cemegau neu liwrau, mae pobl yn aml yn troi at y GIG am driniaeth, sy'n esgor ar gost. Gwelsom hyn yn sgil digwyddiad mewnbliadau Prothèse Poly Implant.

Pryder arall a gododd yn ystod y trafodaethau yw mai prawf masnach yw'r dull neu'r arfer a ddefnyddir yn gyffredinol. Dywedir wrthyf mewn rhai achosion bod y cyflogwyr yn rhoi mwy o werth ar y prawf hwn nac unrhyw gymwysterau. Gyda'i gilydd, maent yn asesiad priodol, ond dylid bob amser sicrhau prawf masnach ochr yn ochr â chymwysterau.

What are the facts? To set up a salon in the UK, you do not need to be qualified, while, in other countries, such as Australia, America, France and Germany, you have to be. The Wales and UK industry showcases some of the world's greatest talent and is home to some of the greatest salons. It is a very well-respected industry. Let us take that respect and bring hairdressers in Wales in line with other countries worldwide that have these regulations. The campaign recognises that mandatory regulation is a crucial step on the road to gaining universal recognition and respect for the profession.

Let us also bring them in line with other industries. The regulation of taxi drivers, food hygiene for eating places and other industries are commonplace—you would not now get into an unlicensed taxi or eat at a restaurant without a hygiene certificate. Hairdressers are one of only a few groups who administer treatments to the person that is not subject to compulsory regulation arrangements.

In England, the NHS medical director, Professor Bruce Keogh, published a report on the regulation of cosmetic surgery. Our Minister for health in the Welsh Government has set up an advisory group on the actions needed to ensure that the highest possible cosmetic surgery standards are in place in Wales. Chaired by the chief medical officer for Wales, the expert group has accepted all the recommendations in principle. It supports that all non-surgical procedures must be performed under the responsibility of a clinical professional who has gained accredited qualifications. Most notably, the group says that all practitioners should be registered with Healthcare Inspectorate Wales, and that entry to the register will be subject to achievement of accredited qualifications.

Due to similar problems, namely that anyone can set up as a practitioner or hairdresser without stipulated mandatory knowledge or training, the call is to consider whether the hairdressing industry can be considered alongside this cosmetic surgery report. I would be grateful for an update on this group in Wales and any discussions you have had with the Minister for health.

There was a private Member's Bill in Westminster on mandatory state regulation. It failed by three votes. Let us demonstrate again, as we heard earlier this afternoon, that we in Wales can lead the way. I appreciate that if this is an issue of employment law, then it is non-devolved. If that is the case then, at the very least, I ask the Deputy Minister for skills to press the UK Government for these changes. I am aware that Westminster is not minded at the moment to introduce these changes, but I would urge to you make representations and relay these concerns in all relevant discussions.

Beth yw'r ffeithiau? Er mwyn agor salon yn y DU, nid oes angen ichi fod yn gymwys, yn wahanol i wledydd eraill, megis Awstralia, America, Ffrainc a'r Almaen. Mae rhai o dalentau gorau'r byd i'w gweld yn y diwydiant yng Nghymru a'r DU ac mae rhai o'r salonau gorau wedi'u lleoli yma. Mae'n ddiwydiant hynod uchel ei barch. Gadewch inni ystyried y parch hwnnw a sicrhau bod siopau trin gwallt yng Nghymru yn gweithredu'n unol â gwledydd eraill ledled y byd lle mae'r rheoliadau hyn ar waith. Mae'r ymgyrch yn cydnabod bod trefniadau rheoleiddio gorfodol yn gam hanfodol ar y llwybr tuag at sicrhau cydnabyddiaeth a pharch cyffredinol i'r proffesiwn.

Gadewch inni hefyd sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â diwydiannau eraill. Mae rheoleiddio gyrwyr tacsï, hylendid bwyd ar gyfer lleoedd bwyta a diwydiannau eraill yn arfer cyffredin—ni fydddech bellach yn teithio mewn tacsï didrwydded nac yn bwyta mewn bwyty heb dystysgrif hylendid. Mae siopau trin gwallt ymhlith nifer fach iawn o grwpiau sy'n gweinyddu triniaethau i'r unigolyn nad ydynt yn destun trefniadau rheoleiddio gorfodol.

Yn Lloegr, cyhoeddodd cyfarwyddwr meddygol y GIG, yr Athro Bruce Keogh, adroddiad ar reoleiddio llawdriniaeth gosmetig. Mae ein Gweinidog Iechyd yn Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp cynghori ar y camau sydd eu hangen i sicrhau bod y safonau llawdriniaeth gosmetig uchaf posibl ar waith yng Nghymru. O dan gadeiryddiaeth prif swyddog meddygol Cymru, mae'r grŵp arbenigol wedi derbyn pob un o'r argymhellion mewn egwyddor. Mae'n cytuno y dylai pob triniaeth nad yw'n driniaeth lawfeddygol gael ei chyflawni o dan gyfrifoldeb gweithiwr clinigol proffesiynol â chymwysterau achrededig. Yn fwyaf nodedig, mae'r grŵp o'r farn y dylai pob ymarferydd fod wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac y bydd cofnod ar y gofrestr honno yn amodol ar gyflawni cymwysterau achrededig.

Oherwydd problemau tebyg, sef y gall unrhyw un ddechrau gweithio fel ymarferydd neu driniwr gwallt heb unrhyw wybodaeth na hyfforddiant gorfodol penodedig, gofynnir tybed a ellid ystyried y diwydiant trin gwallt ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar lawdriniaeth gosmetig. Byddwn yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am y grŵp hwn yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd.

Cafwyd Bil gan Aelod preifat yn San Steffan ar reoleiddio gorfodol gan y wladwriaeth. Methodd o dair pleidlais. Gadewch inni ddangos eto, fel y clywsom yn gynharach y prynhawn yma, y gallwn ni yng Nghymru arwain y ffordd. Os yw'n ymwneud â chyfraith cyflogaeth, yna rwy'n gwerthfawrogi nad yw'n fater datganoledig. Os felly, gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog sgiliau o leiaf i bwysu ar Lywodraeth y DU am y newidiadau hyn. Rwy'n ymwybodol nad yw San Steffan yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau hyn ar hyn o bryd, ond byddwn yn eich annog i wneud sylwadau a chyfleu'r pryderon hyn ymhob trafodaeth berthnasol.

Before that, let me highlight the potential situation we face. With the education Bill going through the Assembly now, the education workforce will require mandatory registration, leading to a situation where the course providers will be registered within the education workforce, but not necessarily registered as a qualified hairdressing practitioner, and with no requirement for the qualified students they produce to be registered either.

The hairdressing industry is worth £5 billion a year to the UK economy and employs 245,000 people. This includes 34,000 salons and 38.8 million customers. Its contribution to the Welsh economy is obvious to all. Even in the tough economic climate we find ourselves in currently, you can walk down any high street or through any town centre and find several hairdressing salons or barber shops. I know this is certainly the case in Llanelli. As I have said, this Monday I was pleased to be able to visit the Andrew Price salon in Llanelli, Wales's biggest chain, with 145 staff in nine salons and one academy. All qualified hairdressers there are state registered. I met with trainee hairdressers and Andrew Price, and they were keen to emphasise that employers want mandatory state regulation. It brings credibility to the craft and to the business across Wales and the UK. The policy at Andrew Price is that training to level 2 in the college does not adequately prepare students to practise without supervision. They must reach level 3 before working independently.

As the local Member for Llanelli, I also know that many attend Coleg Sir Gâr for their training opportunities. So, I am approaching this issue mindful of its local significance. Research has indicated that the turnover and employment of the combined hairdressing industry is equivalent in size to many multinational companies listed on the UK stock exchange. Habia, the Government-approved standards-setting body, estimates that it accounts for nearly 1% of the entire UK economy. In fact, hairdressing salons have to be one of the biggest small and microbusiness categories, and they contribute significantly to the number of new start-ups. Habia's estimates say that 41% of hairdressers are self-employed, and 93.5% work in a workplace employing between one and 10 employees.

My final angle from an economy point is the tough economic times we currently find ourselves in. According to 'The Guardian', mobile hairdressers are increasingly popular in Wales. More are turning to mobile hairdressers and online discount vouchers, either because of tough budgets or for convenience, no doubt assuming that all hairdressers are trained to the same standard. Again, let me be clear on this: most are, but mandatory regulation would ensure that we raised the bar across the industry and consumers could be assured of adequate training.

Cyn hynny, gadewch imi dynnu sylw at y sefyllfa y gallem fod yn ei hwynebu. Gyda'r Bil addysg ar ei hynt drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd, bydd trefniadau cofrestru gorfodol yn ofynnol i'r gweithlu addysg, gan arwain at sefyllfa lle y bydd darparwyr cyrsiau wedi'u cofrestru o fewn y gweithlu addysg, ond nid o reidwydd wedi'u cofrestru fel ymarferydd trin gwallt cymwys, ac ni fydd unrhyw ofyniad i'r myfyrwyr cymwys a fydd yn cwblhau'r cyrsiau hynny gael eu cofrestru ychwaith.

Mae'r diwydiant trin gwallt yn werth £5 biliwn y flwyddyn i economi'r DU ac yn cyflogi 245,000 o bobl. Mae hyn yn cynnwys 34,000 o salonau a 38.8 miliwn o gwsmeriaid. Mae ei gyfraniad i economi Cymru yn amlwg i bawb. Hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni, gallwch gerdded ar hyd unrhyw stryd fawr neu drwy ganol unrhyw dref a dod o hyd i nifer o salonau trin gwallt neu siopau barbwyr. Yn sicr, mae hyn yn wir yn Llanelli. Fel y dywedais, ddydd Llun roedd yn bleser gennyf ymweld â salon Andrew Price yn Llanelli, cadwyn fwyaf Cymru, gyda 145 o staff mewn naw salon ac un academi. Mae pob triniwr gwallt cymwys yno wedi'u cofrestru. Cyfarfûm â thrinwyr gwallt dan hyfforddiant ac Andrew Price, ac roeddent yn awyddus i bwysleisio bod cyflogwyr am gael trefniadau rheoleiddio gorfodol gan y wladwriaeth. Daw â hygredded i'r grefft ac i'r busnes ledled Cymru a'r DU. Polisi Andrew Price yw nad yw hyfforddiant i lefel 2 yn y coleg yn paratoi myfyrwyr yn ddigonol i ymarfer heb oruchwyliaeth. Rhaid iddynt gyrraedd lefel 3 cyn gweithio'n annibynnol.

Fel yr Aelod lleol dros Lanelli, gwn hefyd fod llawer yn mynychu Coleg Sir Gâr ar gyfer eu cyfleoedd hyfforddi. Felly, rwy'n ymdrin â'r mater hwn gan ystyried ei bwysigrwydd lleol. Dangosodd gwaith ymchwil fod trosiant a chyflogaeth y diwydiant trin gwallt cyfunol gyfwerth o ran maint â llawer o gwmnïau rhyngwladol a restrir ar gyfnewidfa stoc y DU. Mae Habia, y corff pennu safonau a gymeradwywyd gan y Llywodraeth, yn amcangyfrif ei fod yn cyfrif am bron i 1% o economi gyfan y DU. Yn wir, rhaid mai salonau trin gwallt yw un o'r categorïau busnesau bach a microfusnesau mwyaf, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at nifer y busnesau newydd. Noda amcangyfrifon Habia fod 41% o drinwyr gwallt yn hunangyflogedig, a bod 93.5% ohonynt yn gweithio mewn gweithle sy'n cyflogi rhwng un a 10 o gyflogeion.

Mae a wnelo fy sylw terfynol o safbwynt yr economi â'r cyfnod economaidd anodd sydd ohoni. Yn ôl 'The Guardian', mae trinwyr gwallt symudol yn gynyddol boblogaidd yng Nghymru. Mae mwy yn troi at drinwyr gwallt symudol a thalebau disgownt ar-lein, naill ai oherwydd cyllidebau caeth neu er hwylustod, gan dybio, yn ddiau, bod pob triniwr gwallt wedi'i hyfforddi i'r un safon. Unwaith eto, gadewch imi fod yn glir yn hyn o beth: mae'r rhan fwyaf wedi, ond byddai trefniadau rheoleiddio gorfodol yn sicrhau ein bod yn codi safonau ar draws y diwydiant a gallai defnyddwyr fod yn sicr bod unigolion wedi cael hyfforddiant digonol.

Finally, I must turn to how these new responsibilities could be addressed. I have been in discussions with representatives of from the Hairdressing Council, who have given assurances that this is not to create additional regulations for regulation's sake. It currently charges a small annual fee to all registered hairdressers and receives no state funding. Although it would remain to be seen how many extra staff it would require, databases and facilities are already established. The council is for the industry and would seek to work with it, with training providers and with qualification-awarding bodies on the level of training, expertise and experience required to become state registered.

An awareness-raising tour from the campaign has resulted in an increased amount of state-registered hairdressers, and the current target for Wales is to have 75% of level 3 apprentices state registered by the end of this year. However, making state regulation compulsory is the better option. It ensures that we raise the bar across the entire industry and provide a fair deal to customers. I think that having a system where anyone can set up shop and start using chemicals and dyes on members of the public is neither safe nor sustainable. I urge you, therefore, as the Deputy Minister, to take on board the points raised today and consider all avenues expressed to take them forward to achieve this aim. Diolch.

I gloi, rhaid imi droi at sut y gellid ymddrin â'r cyfrifoldebau newydd hyn. Cynhaliais drafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Trin Gwallt, sydd wedi fy sicrhau nad mater o greu rheoliadau ychwanegol er mwyn rheoleiddio mohono. Ar hyn o bryd, mae'n codi ffi flynyddol fach ar bob triniwr gwallt cofrestredig ac nid yw'n derbyn unrhyw arian gan y wladwriaeth. Er y byddai'n rhaid aros i weld faint o staff ychwanegol y byddai eu hangen arno, mae'r cronfeydd data a'r cyfleusterau eisoes wedi'u sefydlu. Mae'r cyngor yn gweithredu ar ran y diwydiant a byddai'n anelu at weithio gyda'r diwydiant hwnnw, gyda darparwyr hyfforddiant a chyda chyrff dyfarnu cymwysterau i bennu lefel yr hyfforddiant, yr arbenigedd a'r profiad y byddai ei hangen i unigolyn gael ei gofrestru gan y wladwriaeth.

Mae taith codi ymwybyddiaeth gan yr ymgyrch wedi arwain at gynnydd yn nifer y trinwyr gwallt sydd wedi'u cofrestru gan y wladwriaeth, a'r targed presennol i Gymru yw sicrhau bod 75% o brentisiaid lefel 3 wedi'u cofrestru gan y wladwriaeth erbyn diwedd y flwyddyn hon. Fodd bynnag, mae cyflwyno trefniadau rheoleiddio gorfodol gan y wladwriaeth yn well opsiwn. Mae'n sicrhau ein bod yn codi'r safonau drwy'r diwydiant cyfan ac yn sicrhau bargaen deg i gwsmeriaid. Nid yw system lle y gall unrhyw un agor siop a dechrau defnyddio cemegau a lliwrau ar aelodau o'r cyhoedd yn ddiogel nac yn gynaliadwy, yn fy marn i. Felly, erfyniaf arnoch, fel y Dirprwy Weinidog, i ystyried y pwyntiau a godwyd heddiw ac i ystyried yr holl lwybrau a gynigiwyd i'w rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r nod hwn. Diolch.

- 18:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Do you wish for any other backbench Members to speak? A ydych yn awyddus i unrhyw Aelodau eraill o'r meinciau cefn siarad?
- 18:30 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Anyone who wishes to is welcome to do so. Mae croeso i unrhyw un sy'n awyddus i siarad wneud hynny.
- 18:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Eluned Parrott has indicated the desire to contribute. Mae Eluned Parrott wedi nodi ei bod yn awyddus i gyfrannu.
- 18:30 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First, I thank you, Dirprwy Lywydd, and I would also like to thank the Member for bringing this important topic to the Chamber today. I thank the training and the hairdressing industries for taking a lead on this subject, for being proactive and for demonstrating how seriously they take the professionalism of their industry. In case you cannot tell, I did have an experience with a bad hairdresser fairly recently, when I was woken up by the noise 'snip' to find my five-year-old daughter standing over me with a pair of scissors in one hand and a clump of my hair in the other. Apparently, there is no shelf high enough for a five-year-old. However, if you go to an unqualified and unlicensed hairdresser, you have no guarantee that the service that you will receive will be any better than the service provided by my daughter that morning. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch ichi, Ddirprwy Lywydd, a hoffwn ddiolch hefyd i'r Aelod am gyflwyno'r pwnc pwysig hwn gerbron y Siambr heddiw. Diolch i'r diwydiant hyfforddi a'r diwydiant trin gwallt am gymryd yr awenau mewn perthynas â'r pwnc hwn, am fod yn rhagweithiol ac am ddangos eu bod yn cymryd proffesiynoldeb eu diwydiant cymaint o ddifrif. Rhag ofn nad yw'n amlwg, cefais innau brofiad gyda thriniwr gwallt gwael yn gymharol ddiweddar, gan ddefro i glywed sŵn 'snip' a chanfod fy merch bump oed yn sefyll uwch fy mhen â siswrn yn un llaw a llond dyrnaid o'm gwallt yn y llall. Ymddengys nad oes unrhyw sillf sy'n ddigon uchel i blentyn pump oed. Fodd bynnag, os ewch i siop trin gwallt anghymwys a didrwydded, nid oes unrhyw warant y bydd y gwasanaeth a gewch ddim gwell na'r gwasanaeth a ddarparodd fy merch y bore hwnnw.

There can be truly serious consequences. There are potentially dangerous chemicals being used routinely by hairdressers and, without the proper training and qualifications, there is no guarantee for customers that they might not be burned, injured or physically permanently disfigured by the inappropriate use of these chemicals.

The Deputy Minister will know that I have written to him on this subject and I accept his response that the Welsh Government's powers in this area are limited. Therefore, I would like to assure the Member and the Deputy Minister that I have written to Vince Cable to ask him to press the case and to look again at this very important issue, because we do not want people to lose their confidence in an industry that is incredibly important to us.

Gall fod canlyniadau gwirioneddol ddifrifol. Mae cemegau a all fod yn beryglus yn cael eu defnyddio fel mater o drefn gan drinwyr gwallt ac, heb yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol, nid oes unrhyw warant i gwsmeriaid na chânt eu llosgi, eu hanafu neu eu hanffurfio'n gorfforol yn barhaol gan ddefnydd amhriodol o'r cemegau hyn.

Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod fy mod wedi ysgrifennu ato mewn perthynas â'r pwnc hwn a derbynias ei ymateb bod pwerau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn gyfyngedig. Felly, hoffwn sicrhau'r Aelod a'r Dirprwy Weinidog fy mod wedi ysgrifennu at Vince Cable i ofyn iddo ddwyn pwysau ar yr achos ac i ystyried y mater pwysig iawn hwn unwaith eto, oherwydd nid ydym am i bobl golli eu hyder mewn diwydiant sy'n bwysig iawn inni.

18:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology to reply to the debate.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i ymateb i'r ddatl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:32 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

This is a short-back-and-sides debate, but, jokes aside, I would like to start by saying that I believe that we all recognise that the expertise in hairdressing in the UK and Wales is world-famous—of that, there is no doubt. It is an industry that we are very proud of. It is also a sector that is of key importance to the economy, as Keith Davies has mentioned. It contributes £6.2 billion to the UK and employs just under 0.25 million people across 55,000 businesses. I am sure that we agree that the industry is rightly recognised as being a world leader for its training and creativity.

I thank Keith Davies for bringing this issue to the Chamber today. I have received several letters on this matter, including correspondence from other Assembly Members, drawing my attention to the issue of registration, which aims to regulate businesses and so safeguard members of the public when they visit salons.

The primary issue centres on the need to ensure quality and safety standards within the hairdressing industry and I fully understand the concern that voices in the industry have been expressing regarding the simple fact that anyone can open a salon and claim to be a hairdresser. While I am sure that there are many non-state-registered hairdressers who practise great hairdressing and run successful salons, I also acknowledge the argument that registration is about making it more difficult for low-quality, sometimes dangerous, salons to practice. If mandatory registration is implemented, it will directly result in regulation of the industry.

I agree that these are important matters. As you will be aware, they relate to the regulation of the industry and health and safety law, which are non-devolved matters. I have replied to all correspondence on the subject, confirming the Welsh Government's position and advising those concerned to contact the UK Government to relay their concerns. The issue is non-devolved and it is therefore a matter for the UK Government.

Datl 'short-back-and-sides' yw hon, ond, gan roi'r gorau i'r digrifwch, hoffwn ddechrau drwy ddatgan bod pob un ohonom, fe gredaf, yn cydnabod bod gan y DU a Chymru enw da ledled y byd am arbenigedd ym maes trin gwallt—mae hynny'n sicr. Mae hefyd yn sector sy'n allweddol bwysig i'r economi, fel y soniodd Keith Davies. Mae'n cyfrannu £6.2 miliwn i'r DU ac yn cyflogi bron i 0.25 miliwn o bobl o fewn 55,000 o fusnesau. Rwy'n siŵr ein bod yn cytuno bod y diwydiant yn cael ei gydnabod yn briodol fel arweinydd byd-eang am ei hyfforddiant a'i greadigrwydd.

Diolch i Keith Davies am gyflwyno'r mater hwn i'r Siambr heddiw. Rwyf wedi cael sawl llythyr am y mater hwn, gan gynnwys gohebiaeth gan Aelodau eraill o'r Cynulliad, yn tynnu fy sylw at y materion sy'n gysylltiedig â chofrestru, sy'n anelu at reoleiddio busnesau ac felly ddiogelu aelodau'r cyhoedd pan fyddant yn ymweld â salonau.

Y brif broblem yw'r angen i sicrhau ansawdd a safonau diogelwch o fewn y diwydiant trin gwallt ac rwy'n llawn ddeall y pryder a fynegwyd gan leisiau yn y diwydiant o ran y ffaith syml y gall unrhyw un agor salon a honni ei fod yn gallu trin gwallt. Er fy mod yn siŵr bod llawer o drinwyr gwallt nad ydynt wedi'u cofrestru gan y wladwriaeth yn gallu trin gwallt yn ardderchog ac yn rhedeg salonau llwyddiannus, rwy'n cydnabod hefyd y ddatl mai nod cofrestru yw ei gwneud hi'n anos i salonau o safon isel, sydd weithiau'n beryglus, weithredu. Os caiff trefniadau cofrestru gorfodol eu rhoi ar waith, caiff y diwydiant ei reoleiddio'n uniongyrchol o ganlyniad i hynny.

Cytunaf fod y materion hyn yn bwysig. Fel y byddwch yn ymwybodol, maent yn ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant a chyfraith iechyd a diogelwch, sy'n faterion nas datganolwyd. Rwyf wedi ymateb i bob gohebiaeth ar y pwnc, gan gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru a chynghori'r rheini dan sylw y dylent gysylltu â Llywodraeth y DU i gyfleu eu pryderon. Nid yw'n fater datganoledig ac felly mater i Lywodraeth y DU ydyw.

I am aware of the strong campaign being led by the Hairdressing Council, and here in Wales by its Welsh representative, to make the state registration of hairdressers mandatory. Indeed, representatives from the council met with one of the Prime Minister's senior personal advisers to discuss the issue over the summer. Just yesterday, I received an invitation from the Hairdressing Council to an evening reception in early February, to be hosted here in the Senedd, to raise awareness of its campaign for the state registration of hairdressers.

The Hairdressing Council was set up in 1964 by an Act of Parliament and means that hairdressers can apply to become state registered in the same way as doctors, nurses and dentists. The only difference is that it is completely voluntary to belong to the UK register of qualified hairdressers. Ideally, every hairdresser should be state registered, which would eliminate those who practice hairdressing with no qualifications or experience whatsoever.

The council is campaigning to get the Act changed to make registration mandatory, and I am very pleased indeed that discussions have commenced with the UK Government. Furthermore, it goes without saying that I will work with the sector skills council for the hair and beauty industry, the Hair and Beauty Industry Authority, proactively on this matter. Of course, HABIA is part of the SkillsActive group, and sector skills councils work closely in partnership with the UK Commission for Employment and Skills. The Welsh Government is a co-sponsor of UKCES, which ensures that sector skills councils are appropriately licensed by the UK Government.

In Wales, we will continue to work with HABIA to understand the needs of the hair and beauty sector. The sector skills council has an important role to represent industry sectors, in this case hairdressing and beauty, on matters such as training, skills, business development, addressing recruitment and retention issues, delivering training and qualifications, and highlighting technical skills gaps. HABIA is also responsible for developing the sector qualifications strategy for its sector. I am pleased that the Welsh Government is funding HABIA to develop national occupational standards and apprenticeship frameworks for the industry as part of the Lantra-led consortium under the universal services process organised by UKCES.

These standards, which are directly informed by employers, form the basis of all vocational qualifications in hair and beauty, including NVQs, apprenticeships and foundation degrees. I look forward to receiving updates from my officials on the progress of the campaign to make the registration of hairdressers mandatory as discussions with the UK Government continue, and I thank those Members who have contacted the UK Government directly in relation to this matter.

Rwy'n ymwybodol o'r ymgyrch gref o dan arweiniad y Cyngor Trin Gwallt, ac yma yng Nghymru, gynrychiolydd Cymru ar y cyngor, i sicrhau bod trefniadau cofrestru gorfodol ar waith gan y wladwriaeth i drinwyr gwallt. Yn wir, cyfarfu cynrychiolwyr o'r cyngor ag un o uwch gynghorwyr personol y Prif Weinidog i drafod y mater dros yr haf. Dim ond ddoe, cefais wahoddiad gan y Cyngor Trin Gwallt i dderbyniad min nos ddechrau mis Chwefror, i'w gynnal yma yn y Senedd, i godi ymwybyddiaeth o'i ymgyrch ar gyfer trefniadau cofrestru gan y wladwriaeth ar gyfer trinwyr gwallt.

Sefydlwyd y Cyngor Trin Gwallt yn 1964 gan Ddeddf Seneddol ac mae'n golygu y gall trinwyr gwallt wneud cais i gael eu cofrestru gan y wladwriaeth yn yr un ffordd â meddygon, nyrsys a deintyddion. Yr unig wahaniaeth yw ei bod yn gwbl wirfoddol cael eich cynnwys ar gofrestr y DU o drinwyr gwallt cymwys. Yn ddefnyddol, dylai pob triniwr gwallt fod wedi'i gofrestru gan y wladwriaeth, a fyddai'n cael gwared ar y rheini sy'n trin gwallt heb unrhyw fath o gymwysterau na phrofiad.

Mae'r cyngor yn ymgyrchu dros newid y Ddeddf i'w gwneud yn orfodol i drinwyr gwallt gofrestru ac rwy'n falch iawn fod trafodaethau wedi dechrau gyda Llywodraeth y DU. At hynny, byddaf, yn amlwg, yn gweithio gyda'r cyngor sector sgiliau ar gyfer y diwydiant gwallt a harddwch, Awdurdod y Diwydiant Gwallt a Harddwch, mewn perthynas â'r mater hwn. Wrth gwrs, mae HABIA yn rhan o'r grŵp SkillsActive, ac mae cynghorau sgiliau sector yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â Chomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau. Mae Llywodraeth Cymru yn un o gyd-noddwyr UKCES, sy'n sicrhau bod cynghorau sgiliau sector yn cael eu trwyddedu'n briodol gan Lywodraeth y DU.

Yng Nghymru, byddwn yn parhau i weithio gyda HABIA i ddeall anghenion y sector gwallt a harddwch. Mae gan y cyngor sgiliau sector ran bwysig i'w chwarae i gynrychioli sectorau diwydiant, sef trin gwallt a harddwch yn yr achos hwn, ar faterion megis hyfforddiant, sgiliau, datblygu busnes, ymdrin â materion recriwtio a chadw staff, darparu hyfforddiant a chymwysterau, ac amlygu bylchau o ran sgiliau technegol. Mae HABIA hefyd yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth cymwysterau'r sector ar gyfer ei sector. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn ariannu HABIA i ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol a fframweithiau prentisiaeth ar gyfer y diwydiant fel rhan o'r consortiwm a arweinir gan Lantra dan y broses gwasanaethau cyffredinol a drefnwyd gan UKCES.

Mae'r safonau hyn, a gaiff eu llywio'n uniongyrchol gan gyflogwyr, yn sail i'r holl gymwysterau galwedigaethol ym maes gwallt a harddwch, gan gynnwys cymwysterau NVQ, prentisiaethau a graddau sylfaen. Edrychaf ymlaen at dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan fy swyddogion am hyn ymgyrch i sicrhau bod trefniadau cofrestru gorfodol ar waith ar gyfer trinwyr gwallt wrth i drafodaethau gyda Llywodraeth y DU fynd rhagddynt, a diolch i'r Aelodau hynny sydd wedi cysylltu â Llywodraeth y DU yn uniongyrchol mewn perthynas â'r mater hwn.

18:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister. That brings today's proceedings to a close.

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 18:37.

The meeting ended at 18:37.